S4C

**Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**
ar gyfer y cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021

---

**Annual Report and Statement of Accounts**
for the 12 month period to 31 March 2021



**Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer y cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021**

Cyflwynir i'r Senedd yn sgîl paragraffau 13(1) a 13(2) i atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

Gosodir gebron Senedd Cymru yn unol â phenderfyniad gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 15.1(v).

HC 580

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2021.

**S4C Annual Report and Statement of Accounts for the 12 month period to 31 March 2021**

Presented to Parliament pursuant to paragraphs 13(1) and 13(2) of schedule 6 to the Broadcasting Act 1990.

Laid before the Welsh Parliament in accordance with a resolution of the Parliament under Standing Order 15.1(v).

HC 580

Ordered by the House of Commons to be printed on Tuesday 20 July 2021.

**Mae S4C yn darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngol yn yr iaith Gymraeg sydd o safon uchel, sy'n cynnig adloniant, gwybodaeth ac sy'n ysbrydoli, ac sy'n anelu i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl ar y llwyfannau cyfoes mwyaf priodol.**

**S4C provides high quality content and media services in the Welsh language, offering entertainment, information and inspiration, and which aim to reach the widest audience possible across a range of contemporary platforms.**

## Cynnwys
## Contents


| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | S4C a'r iaith Gymraeg | 6 | S4C and the Welsh language |
| 8 | Y prif ffeithiau | 8 | Key facts |
| 10 | Cyflwyniad y Cadeirydd | 10 | Chair's introduction |
| 14 | Cyflwyniad y Prif Weithredwr | 14 | Chief Executive's introduction |
| 18 | Sut berfformiodd S4C yn 2020/21 | 18 | How S4C performed in 2020/21 |
| 22 | Ymateb S4C yn ystod Covid-19 | 22 | S4C's response during Covid-19 |
| 22 | Cynnwys genres unigol | 22 | Individual content genres |
| 42 | **Mesur Perfformiad S4C:** | 42 | **Measuring S4C's Performance:** |
| 44 | Defnydd a Chyrhaeddiad | 44 | Usage and Reach |
| 54 | Gwerthfawrogiad | 54 | Appreciation |
| 62 | Effaith | 62 | Impact |
| 72 | Gwerth am Arian | 72 | Value for Money |
| 92 | Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru | 92 | S4C's investment in content from companies across Wales |
| 100 | Gwasanaethau cymorth i'n cynulleidfa | 100 | Support Services for our Audience |
| 101 | S4C yn gwrando ar ein gwylwyr | 101 | S4C listening to our viewers |
| 103 | Partneriaeth S4C gyda'r BBC | 103 | S4C's partnership with the BBC |
| 104 | Ystâd S4C | 104 | The S4C Estate |
| 105 | Gweithgareddau masnachol S4C | 105 | S4C's commercial activities |
| 106 | Adolygiad Annibynnol o S4C | 106 | Independent review of S4C |
| 109 | Addroddiad llywodraethiant | 109 | Governance report |
| 110 | Aelodau Bwrdd S4C | 110 | S4C Board members |
| 115 | Tîm Rheoli S4C | 115 | S4C management team |
| 130 | Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol | 130 | Report of the Chairman of the Audit, Risk Management and Gerneral Purpose Committee |
| 134 | Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C | 134 | S4C's Employment Policy Report |
| | **Datganiad Ariannol** | | **Statement of Accounts** |
| 138 | Adroddiad y Bwrdd | 138 | Report of the Board |
| 142 | Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr | 142 | Hours transmitted and average cost per hour |
| 144 | Datganiad o gyfrifoldebau | 144 | Statement of responsibilities |
| 148 | Tystysgrif ac adroddiad y rheolwr ac archwilydd cyffredinol i fwrdd Sianel Pedwar Cymru S4C sy'n cydnabod bod dau dŷ'r senedd hwythau'n dibynnu ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol S4C | 148 | The certificate and report of the comptroller and auditor general to the board of Sianel Pedwar Cymru (S4C) acknowledging that the Houses of Parliament also places reliance on the S4C Annual Report and Accounts |
| 152 | Datganiad cyfun o incwm cynhwysfawr | 152 | Consolidated statement of comprehensive income |
| 154 | Mantolen gyfun | 154 | Consolidated balance sheet |
| 156 | Mantolen S4C | 156 | S4C balance sheet |
| 158 | Datganiad cyfun o newidiadau mewn ecwiti | 158 | Consolidated statement of changes in equity |
| 160 | Datganiad llif arian cyfun | 160 | Consolidated cash flow statement |
| 162 | Nodiadau i'r cyfrifon | 162 | Notes to the accounts |
| 198 | Sut i wylio a chysylltu gydag S4C | 198 | How to watch and contact S4C |



**ⓗ S4C 2021**

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o **s4c.cymru**

**© S4C 2021**

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is done so accurately and not in a misleading context.

The material must be acknowledged as S4C copyright and the document title specified.

This document is available for download from **s4c.cymru**

## S4C a'r iaith Gymraeg
## S4C and the Welsh language

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol y DU. Mae'n iaith fyw sy'n cael ei dewis a'i siarad gan gannoedd o filoedd o bobl – yng Nghymru a thu hwnt.

Wrth galon diben cyhoeddus unigryw S4C mae'r rôl hollbwysig y mae'n ei chwarae o ran cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg – yn adlewyrchu'r diwylliannau amrywiol sy'n defnyddio'r Gymraeg drwy ddarparu cynnwys hygyrch o ansawdd uchel.

Gan amrywio o Cyw, ein ffrwd cyn-ysgol, i Stwnsh, Hansh, ein brand ieuenctid ar-lein, a gyda chynnwys sy'n cwmpasu drama, chwaraeon, newyddion, adloniant, rhaglenni ffeithiol, ffydd a mwy, mae S4C yn cynnig y cyfle i glywed a mwynhau'r Gymraeg ar draws pob genre. Nid oes darlledwr arall yn comisiynu ac yn creu cynnwys fel S4C ac mae ein bodolaeth yn sicrhau nad yw cynnwys Cymraeg yn cael ei alltudio i gorneli tywyll yr amserlen ddarlledu.

Drwy gydol y flwyddyn, mae S4C wedi parhau i ddatblygu'r partneriaethau iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill gan ddilyn argymhellion yr adolygiad annibynnol o'r sianel a gynhaliwyd yn 2018. Yn benodol, nodwyd y gallai cynnwys S4C gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cefnogi dysgwyr, plant ac addysg yn themâu allweddol yn y partneriaethau hyn.

Yn ystod cyfnodau clo Covid-19, roedd rôl S4C fel un o gonglfeini'r iaith yn bwysicach nag erioed. Gyda'r ysgolion ar gau, lansiodd S4C Ysgol Cyw i gefnogi'r broses dysgu gartref. Yn ogystal â chynnwys cyn-ysgol, roedd cynnwys ar gyfer cynulleidfa Stwnsh (7-11 oed) ar Ysgol Cyw hefyd, gydag adnoddau ar-lein i gefnogi rhieni a gofalwyr, ochr yn ochr â chynnwys Cyw ar y brif sgrin. Fe wnaeth S4C hefyd ddarlledu cynnwys addysgol yn ystod cyfyngiadau symud y gaeaf yn 2021. Mae'r ymyriadau hyn wedi bod yn adnodd amhrisiadwy i blant a rhieni – llawer ohonynt nad ydynt yn siarad Cymraeg. Ym mis Ionawr 2021, rhyddhaodd S4C 80 awr o raglenni ar Hwb, llwyfan addysg Llywodraeth Cymru. Mae ffilmiau a chynnwys ar gyfer y cwricwlwm Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a TGAU wrthi'n cael eu hychwanegu, a bydd S4C yn parhau i ehangu'r ddarpariaeth. Hefyd ar Hwb mae pecyn addysg a lansiwyd yn ystod haf 2020 i gyd-fynd â chyfres hanes S4C i blant, Amser Maith Maith yn Ôl.

Fe wnaeth ein partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Y Ganolfan) sicrhau bod cynnwys S4C yn cefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod clo a thu hwnt. Ystyrir S4C yn adnodd hanfodol i ddysgwyr wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Roedd ein cyfres Iaith ar Daith yn 2020 – lle bu sêr fel Carol Vorderman, Ruth Jones ac Adrian Chiles yn dysgu Cymraeg – yn cyd-daro â'r cyfnod clo cyntaf, a welodd dwf yn y niferoedd a oedd yn dymuno dysgu Cymraeg. Cafodd y gyfres dderbyniad da ac fe gafodd ei hadnewyddu ar gyfer 2021. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Ganolfan ar ein rhaglenni i ddysgwyr, gan gynnwys darpariaeth newyddion newydd S4C. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cefnogi'r prosiect Cymraeg yn y Cartref mewn partneriaeth â'r Ganolfan, Mudiad Meithrin (darparwr gofal plant ac addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg) ac eraill. Gyda'n cynnwys, rydym wedi dathlu pen-blwydd Mudiad Meithrin yn 50 oed a chefnogi Clwb Cwtsh, rhaglen flasu wyth wythnos llawn hwyl sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc. Rydym wedi parhau i weithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Ym mis Mai 2020, darlledwyd Eisteddfod T gan S4C mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru. Hwn oedd y darllediad byw mwyaf ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae cynnwys S4C yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ar ymwybyddiaeth pobl o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae S4C yn adlewyrchu ac yn dathlu'r amrywiaeth eang o ddiwylliant sydd gennym yng Nghymru. Mae ein rhaglenni cerddoriaeth yn dangos yr amrywiaeth eang o artistiaid yma yng Nghymru – o fandiau roc i gerddorion traddodiadol, ac o gantorion clasurol i sêr y sîn bop ffyniannus. Ac wrth gwrs, ni yw'r unig ddarlledwr sy'n arddangos yr ystod lawn o gystadlaethau a digwyddiadau cenedlaethol. Fel comisiynydd cynnwys, mae S4C hefyd yn gyfrwng cyfoethog i bobl greadigol a thalentog fynegi eu hunain a dangos eu sgiliau a'u doniau i gynulleidfaoedd lleol a thu hwnt.

Ond, yn ogystal â chreu cynnwys Cymraeg, mae S4C a'n partneriaid cynhyrchu hefyd yn cynnig cyfleoedd i weithio yn Gymraeg. Un o'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn oedd dod â thalent newydd i weithio yn y sector ac adlewyrchu Cymru heddiw ar y sgrin a'r tu ôl i'r camera. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Screen Alliance Wales a Gyrfa Cymru ar amrywiaeth o ddosbarthiadau meistr, gweminarau ac adnoddau i gyrraedd cynulleidfa o bobl ifanc ledled Cymru ac i rannu'r amrywiaeth o swyddi sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg yn y sector sgrin.

The Welsh language is part of the cultural heritage of the UK. It is a living language chosen and spoken by hundreds of thousands of people – in and beyond Wales.

At the heart of S4C's unique public purpose is the vital role it plays in sustaining and promoting the Welsh language – reflecting the diverse cultures that use Welsh through the provision of high quality accessible content.

From our pre-school strand Cyw, to Stwnsh, our online youth brand Hansh, and with content encompassing drama, sport, news, entertainment, factual, faith, and more, S4C offers the opportunity to hear and enjoy the Welsh language across all genres. No other broadcaster commissions and creates content like S4C and our existence ensures that Welsh language content is not relegated to the dark corners of the broadcasting schedule.

Throughout the year, S4C has continued to develop the language partnerships with the Welsh Government and others following the recommendations of the 2018 independent review of the channel. In particular, it was identified that S4C's content could contribute towards the aim of a million Welsh speakers by 2050. Supporting learners, children and education are key themes of these partnerships.

During the Covid-19 lockdowns, S4C's role as a cornerstone of the language arguably became more important than ever. With schools closed, S4C launched Ysgol Cyw (Cyw's School) to support home learning. As well as pre-school content, Ysgol Cyw included content for the Stwnsh audience (7-11-year-olds), with online resources to support parents and carers, sitting alongside the main screen Cyw content. S4C also broadcast educational content during the winter lockdown of 2021. These interventions have been an invaluable tool for both children and parents – many of whom do not themselves speak Welsh. In January 2021, S4C released 80 hours of programmes on Hwb, the Welsh Government's education platform. Films and content on the A, AS and GCSE curriculum are being added, and S4C will continue to expand provision. Also on Hwb is an education pack launched in summer 2020 to accompany S4C's children's history series Amser Maith Maith yn Ôl.

Our partnership with the National Centre for Learning Welsh (The Centre), ensured S4C's content supported learners during lockdown and beyond. S4C is seen as a vital resource for learners as they develop their linguistic skills. Our 2020 series Iaith ar Daith with celebrities including Carol Vorderman, Ruth Jones and Adrian Chiles learning Welsh, coincided with the first lockdown, which saw a growth in the numbers wishing to learn Welsh. The well-received series was renewed for 2021. We continue to work with the Centre on our programmes for learners, including on S4C's new news provision.

During the year, we have supported in partnership the Cymraeg yn y Cartref (Welsh in the Home) project with the Centre, the Welsh medium childcare and preschool education provider Mudiad Meithrin, and others. With our content, we have marked Mudiad Meithrin's 50th anniversary, and supported Clwb Cwtsh, a fun-filled eight-week taster programme focusing on speaking Welsh with young children. We have continued to work with the Books Council of Wales. In May 2020, S4C broadcast Eisteddfod T in partnership with Urdd Gobaith Cymru. It was the largest live broadcast for children and young people during lockdown.

S4C's content not only has a positive impact on the development of the Welsh language but also on people's awareness of the heritage and culture of Wales. Year after year, S4C reflects and celebrates the wide range of culture we have in Wales. Our music programmes display the variety of artists we have - from rock bands to traditional musicians, from classical singers to the stars of the thriving pop scene. And of course, we are the only broadcaster to showcase the full range of national events and competitions in Wales. As a commissioner of content S4C also provides a rich conduit for creative, talented people to express themselves and demonstrate their skills and talents to both local audiences and those further afield.

But as well as creating Welsh content, S4C and our production partners also offer opportunities to work in Welsh. A priority for the year has been to bring new talent to work in the sector and to reflect today's Wales on screen and behind the camera. We have partnered with Screen Alliance Wales and Careers Wales on a range of masterclasses, webinars and resources to reach an audience of young people across Wales and to share the range of jobs and opportunities there are in the screen sector for Welsh speakers.



Mae cysylltiad cynhenid rhwng y Gymraeg ac S4C.
The Welsh language and S4C are intrinsically linked.



## 6.7m

Nifer y sesiynau gwylio ar gyfrifon Hansh (ar draws Facebook, Twitter a YouTube)
Number of viewing sessions on Hansh accounts (across Facebook, Twitter and YouTube) (2019/20: 8.9m)

## 823,000

o bobl wedi gwylio S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU
people watched S4C on TV every week throughout the UK (2019/20: 702,000)

## 20,200

oedd cynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig
was the average audience in the peak hours (2019/20: 18,600)



## 321,000

o bobl yng Nghymru wedi gwylio S4C ar deledu bob wythnos
people in Wales watched S4C on TV each week (2019/20: 306,000)



## 29.0m

Nifer y sesiynau gwylio ar draws holl gyfrifon Facebook S4C
Number of viewing sessions across all S4C Facebook accounts (2019/20: 28.3m)



## 10.0m

Nifer y sesiynau gwylio ar draws holl sianeli YouTube S4C
Number of viewing sessions across all S4C YouTube channels (2019/20: 7.4m)





## 209,407

o gofrestrwyr Clic erbyn diwedd 2020/21
Clic registrations by the end of 2020/21 (2019/20: 106,985)

## 2.70m

o oriau gwylio ar S4C Clic a BBC iPlayer
of hours viewed on S4C Clic and the BBC iPlayer (2019/20: 2.14m)

## 11.0m

o sesiynau gwylio ar S4C Clic a BBC iPlayer
viewing sessions on S4C Clic and BBC iPlayer (2019/20: 8.2m)



## 5.4m

Nifer y sesiynau gwylio ar gyfrifon Heno a Prynhawn Da (ar draws Facebook, Twitter a YouTube)
Number of viewing sessions on Heno and Prynhawn Da accounts (across Facebook, Twitter and YouTube) (2019/20: 5.8m)



## 13.5m

o bobl wyliodd S4C drwy'r DU ar ryw adeg yn 2020/21
individuals watched S4C throughout the UK at some time during 2020/21 (2019/20: 11.5m)



## 458,000

Nifer cyfartalog o weithiau bob dydd y gwelwyd cynnwys S4C (Facebook, Twitter ac Instagram)
Average number of times S4C's content viewed each day (Facebook, Twitter and Instagram) (2019/20: 477,000)

# Rhodri Williams

Cyflwyniad y Cadeirydd

Chair's Introduction

**Mae amgylchiadau annisgwyl ac anodd yn aml yn dod â'r gorau allan o unigolion a sefydliadau. Dyna'n sicr sy' wedi digwydd yn hanes S4C a'r holl bartneriaid sy'n cyflenwi cynnwys i'n gwasanaethau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Roedd ymateb y sector gynhyrchu i'r amgylchiadau eithriadol yn hyblyg ac yn chwim. Gwnaed cynlluniau cyflym i sicrhau y gallai gwasanaethau a chynnwys S4C barhau i addysgu a diddanu'r gynulleidfa, ond hefyd ei chefnogi.**

**Unexpected and difficult circumstances often bring the best out of individuals and organisations. That is certainly what has happened at S4C and throughout all the partners who deliver content to our services over the past year. The production sector's response to the exceptional circumstances was flexible and agile. Rapid plans were put in place to ensure that S4C's content and services could not only continue to educate and entertain the audience, but also support it.**

Er i'r amserlen llinol golli llawer o gynnwys pwysig a phoblogaidd gan gynnwys chwaraeon byw, digwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Amaethyddol Frenhinol, yr Eisteddfod Genedlaethol, a Phobol y Cwm, llwyddwyd i addasu a chynnal gwasanaethau deniadol. Dangosodd rhaglenni fel Eisteddfod T, Sgwrs Dan y Lloer a Cyswllt (Mewn Covid) y sector greadigol ar ei orau. Mae ein dyled yn fawr i bawb o weithwyr y diwydiannau creadigol a gadwodd i weithio dan amgylchiadau anodd i gynnal gwasanaethau S4C.

Gan gydnabod y bygythiad i sector cynhyrchu annibynnol Cymru a cholli cynnwys amlwg gan gynnwys ein dramâu sebon, chwaraeon a digwyddiadau mawr, aethom ati i lansio nifer o rowndiau comisiynu sylweddol yn ystod 2020/21. Gwnaethom gomisiynu £8.7m o raglenni newydd yn ystod y pandemig gan bwmpio cyllid yr oedd gwir angen amdano i economi Cymru, cyllid a wasgarwyd ledled y genedl.

Although the linear schedule lost much important and popular content including live sports, national events such as the Urdd Eisteddfod, the Royal Welsh Show, the National Eisteddfod, and Pobol y Cwm, we managed to adapt and to maintain services that attracted audiences. Programmes such as Eisteddfod T, Sgwrs Dan y Lloer and Cyswllt (Mewn Covid) showed the creative sector at its best. We owe a great debt of gratitude to all the workers of the creative industries who kept working in difficult circumstances to maintain S4C's services.

Recognising the threat to Wales' independent production sector and the loss of prominent content including our soap operas, sports and major events, we launched a number of significant commissioning rounds during 2020/21. We commissioned £8.7m of new programmes during the pandemic, pumping much needed funding into the Welsh economy, which was spent and distributed across the nation.



> "
>
> **Rwy'n arbennig o ddiolchgar i staff S4C yn enwedig ymdrechion i sicrhau bod S4C yn gallu darlledu yn ystod y cyfnod anodd hwn a gwasanaethu'r gynulleidfa.**
>
> **I am very grateful to S4C staff particularly efforts to ensure that S4C could broadcast during these difficult times and serve the audience.**

Rwy'n arbennig o ddiolchgar hefyd i staff S4C am yr holl waith yn ystod y flwyddyn, yn enwedig ymdrechion i sicrhau bod S4C yn gallu darlledu yn ystod y cyfnod anodd hwn a gwasanaethu'r gynulleidfa. Roedd sicrhau y gallai darlledu barhau yn flaenoriaeth allweddol, ac roeddem ni'n ffodus fod staff eisoes yn gyfarwydd â gweithio ar-lein a gweithio hyblyg ar draws pob un o'n tri lleoliad.

Buom yn cydweithio'n agos â llywodraethau y DU a Chymru ar ystod o faterion yn enwedig yr ymateb i Covid-19. Trwy gyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r sector gynhyrchu yn rheolaidd a gwrando ar eu pryderon a'u heriau, aethom ati i gyflwyno achosion ger bron y ddwy llywodraeth ar faterion amrywiol gan gynnwys statws gweithiwr allweddol, cefnogaeth i weithwyr llawrydd, a'r angen am gynllun yswiriant i'r sector.

Roedd 2021 hefyd yn ddiwedd cyfnod i S4C wrth i ni ddarlledu am y tro olaf o Barc Tŷ Glas yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Bu'n gartref o ran darlledu S4C ac i'r mwyafrif o'r staff am gyfnod hir ond daeth yr amser i symud i drefniant mwy cynaliadwy. Mae cydleoli gwasanaethau darlledu technegol S4C gyda rhai BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog yn cynnig manteision i S4C ac edrychwn ymlaen at y cyfleodd newydd a ddaw yn sgil y symud.

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni barhau i symud ein strategaeth fasnachol a fabwysiadwyd yn 2018, yn ei blaen er gwaethaf effaith Covid-19 ar yr economi. Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu tua £1m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Mae hwn yn gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai fel arall yn bosibl. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o gynyddu ein refeniw masnachol heb gynyddu'r risg i'n buddsoddiadau.

Ochr yn ochr ag argraff ddiwylliannol S4C, rydym yn gwybod bod S4C yn creu effaith economaidd sylweddol ar economi Cymru. Cadarnhawyd hwn unwaith eto trwy ganlyniadau ymchwil Arad ym mis Mawrth 2021. Datgelodd yr ymchwil fod S4C wedi cynhyrchu effaith economaidd o £197.4m yn economi'r DU yn 2019/20. Am bob £1 o incwm a dderbyniodd S4C yn 2019/20, cynhyrchwyd effaith economaidd o £2.03 gyda'r mwyafswm ohono yng Nghymru. Yn ogystal, cynhyrchodd ein gwariant alw a chyflogaeth bellach sy'n cefnogi tua 2,334 o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn y Deyrnas Unedig, ac amcangyfrifwyd bod 2,229 ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru a 245 yn Sir Gaerfyrddin.

O Ebrill 2022 ymlaen bydd holl arian cyhoeddus S4C yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng ffi'r drwydded. Yn ystod y flwyddyn aethpwyd ati i baratoi ein hachos yn drylwyr gan gyflwyno'r cais am setliad ffi'r drwydded S4C i DCMS ym mis Mawrth 2021. Fel rhan o baratoi'r cais buom yn ystyried ein pwrpas fel sefydliad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ac edrych o'r newydd ar natur a ffurf y gwasanaethau y dylem fod yn eu darparu yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at gael clywed canlyniad y cais hwnnw yn ystod y misoedd nesaf.

Buom yn cyfrannu fel arfer at amryw ymgynghoriad, fel yr un gan Bwyllgor Dethol Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda darlledwyr eraill, Ofcom a DCMS yn ystod y flwyddyn nesaf gan obeithio y gwelwn newidiadau a fydd yn diogelu amlygrwydd sefydliadau Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ar lwyfannau digidol. Ein nod yw sicrhau bod cynnwys yn yr iaith Gymraeg i'w gael yn rhwydd ar amrywiaeth o ddyfeisiadau a llwyfannau. Byddwn yn parhau i weithio'n agos hefyd gyda Llywodraeth Cymru trwy Cymru Greadigol ac Adran Addysg a'r Iaith Gymraeg o ran Cymraeg 2050.

Tua diwedd y flwyddyn, braf oedd croesawu pedwar aelod anweithredol newydd i'r Bwrdd Unedol yn sgil y penodiadau gan DCMS. Mae'r pedwar yn dod ag ystod eang o brofiad a sgiliau i'r Bwrdd gan ychwanegu at ein gallu i weithredu'n effeithiol ar gyfnod hynod bwysig yn hanes S4C.

I am also extremely grateful to S4C staff for all their work during the year, particularly their efforts to ensure that S4C could broadcast and serve the audience during these difficult times. Ensuring broadcasting could continue was a key priority, and we were fortunate that staff were already familiar with online working and flexible working across all three of our locations.

We worked closely with the UK and Welsh governments on a range of issues particularly the response to Covid-19. By meeting with representatives from the production sector on a regular basis and listening to their concerns and challenges, we put forward cases to both governments on issues including key worker status, support for freelancers, and the need for an insurance scheme for the sector.

2021 was also the end of an era for S4C as we broadcast for the final time from Parc Tŷ Glas in Cardiff in January. It was the long-term home of broadcasting for S4C and for the majority of staff, for a long time but the time came to move to a more sustainable arrangement. The co-location of S4C's technical broadcasting services with those of BBC Cymru Wales in Central Square offers benefits to S4C and we look forward to the new opportunities that the move will bring.

During the year, we continued to move ahead with the commercial strategy adopted in 2018, despite the impact of Covid-19 on the economy. S4C's commercial activities contribute an average of £1m per annum to S4C's public service fund. This is an important financial contribution that enables S4C to invest in content and services that would not otherwise be possible. We will continue to look for ways to increase our commercial revenues without increasing the risk to our investments.

Alongside S4C's cultural impact, we know that S4C has a significant impact on the Welsh economy. This was again confirmed through the findings of research by Arad in March 2021. The research showed that S4C generated an economic impact of £197.4m in the UK economy in 2019/20. For every £1 of income received by S4C in 2019/20, an economic impact of £2.03 was generated, the majority of that in Wales. In addition, our expenditure generated further demand and employment that supports around 2,334 employees and freelancers in the UK, of which 2,229 were estimated to be based in Wales and 245 in Carmarthenshire.

From April 2022 all S4C's public funding will be provided through the licence fee. During the year we prepared our case thoroughly and submitted the application for S4C's licence fee settlement to DCMS in March 2021. As part of preparing the application we considered our purpose as a Public Service Media organisation and looked again at the nature and form of the services we should be providing in the future. We look forward to hearing the outcome of that application in the coming months.

We contributed as usual to a number of consultations, such as the Digital, Culture, Media and Sport Select Committee's consultation on the future of public service broadcasting. We look forward to working closely with other broadcasters, Ofcom and DCMS over the coming year and hope to see changes that will safeguard the prominence of Public Service Media organisations on digital platforms. Our aim is to ensure that Welsh language content is readily available on a range of devices and platforms. We will also continue to work closely with the Welsh Government through Creative Wales and the Department for Education and the Welsh Language in respect of Cymraeg 2050.

Towards the end of the year, it was a pleasure to welcome four new non-executive members to the Unitary Board following appointments by DCMS. The four bring a wide range of experience and skills to the Board, adding to our ability to operate effectively at an extremely important time in the history of S4C.

**"**

**Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i Euryn Ogwen Williams fu farw ym mis Mawrth 2021. Euryn Ogwen oedd pensaer S4C. Fe oedd un o hoelion wyth y diwydiant teledu yng Nghymru a bu'n allweddol wrth osod y sylfeini ar gyfer llwyddiant S4C ym mlynyddoedd cynnar y sianel. Yn ogystal, ei egni a'i ddyfeisgarwch oedd wrth wraidd creu sector gynhyrchu annibynnol Cymru. Hebddo, fyddai'r llu o gwmnïoedd sy' wedi cyfrannu shwd gymaint at lwyddiant a thwf y diwydiannau creadigol yng Nghymru ddim yn bod.**

**Doedd Euryn byth yn un i orffwys ar ei rwyfau a phan gychwynnodd y we fyd-eang drawsnewid ein bywydau i gyd, roedd e' ymhlith y cyntaf i weld y cyfleoedd ac i ddychmygu sut y byddai hyn yn ail-ddiffinio byd y cyfryngau yng Nghymru. Bydd byd y cyfryngau yng Nghymru yn dlotach o lawer heb ei athrylith unigryw.**

**Finally, I would like to pay tribute to Euryn Ogwen Williams who died in March 2021. Euryn Ogwen was the architect of S4C. One of the founding fathers of the television industry in Wales, he was instrumental in laying the foundations for S4C's success in the early years of the channel. His energy and innovation were fundamental to creating Wales' independent production sector. Without him, the many companies that have contributed so much to the success and growth of the creative industries in Wales would not exist.**

**Euryn was never one to rest on his laurels and when the world wide web began to transform all our lives, he was among the first to see the opportunities and imagine how this would redefine the media landscape in Wales. The media world in Wales will be far poorer without his unique genius.**

# Owen Evans

Cyflwyniad y Prif Weithredwr
Chief Executive's Introduction

**Fe wnaeth Covid-19 gyffwrdd pawb dros y flwyddyn ddiwethaf - trwy golled, trwy heriau personol, trwy ddiffyg rhyddid i neud y pethau bychain, cwrdd â theulu neu ffrindiau a llu o resymau eraill. Serch hynny, fe lwyddodd S4C i afael yn ei phwrpas a sicrhau gwasanaeth mwy personol nag erioed i'n cynulleidfa. Trwy dynhau'r berthynas â'n cynulleidfa, ein cyflenwyr a'n partneriaid, fe wnaeth S4C ail-ddiffinio'r gwasanaeth efo anghenion y wlad wrth ei galon.**

**Covid-19 has touched everyone over the past year – through loss, through personal challenges, lack of freedom to do the little things, meeting family or friends and for many other reasons. However, S4C succeeded in keeping hold of its purpose and in securing a more personalised service than ever before for our audience. By tightening the relationship with our audience, suppliers and partners, S4C redefined the service with the needs of the country at its heart.**

Er i ni golli'n cyflenwad rhaglenni - gan gynnwys ein sebonau, dramâu, chwaraeon, gwyliau cenedlaethol ac amryw o gyfresi mawr - bron dros nos, fe wnaeth S4C barhau i ddarlledu. Bu'n gyfnod heriol iawn i ddarlledwr gymharol fach. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'm cydweithwyr a'n partneriaid ar draws y sector creadigol yng Nghymru am eu hagwedd ddiffuant a'u hymroddiad i sicrhau parhad gwasanaeth S4C.

Efo amgylchiadau pawb wedi newid gymaint, fe ail-luniodd S4C ei holl arlwy, o dan y faner 'Yma i Chi'. Parhaodd ein cyfresi craidd fel Prynhawn Da a Heno i ddarlledu ar draws Cymru. Cryfhawyd ein gwasanaeth newyddion i sicrhau cyflenwad o newyddion credadwy am ddatblygiad Covid-19 a'r canllawiau - yn llinol ac yn ddigidol. Wrth geisio deall heriau personol a theuluol y gynulleidfa ac o ystyried fod pawb yn trio ymdopi â byw gartre, comisiynwyd mwy o gynnwys digidol i gefnogi ein gwylwyr - i gadw'n heini adre, i ddelio efo llesiant ac iechyd meddwl, a chrëwyd hafanau arbennig yn addysgu a diddanu plant (Ysgol Cyw). Ond daeth hi hefyd i go amlwg fod ein cynulleidfa eisiau dihangfa rhag sefyllfa'r cloi, felly fe aethom ati i ryddhau cymaint o'n harchif ag oedd yn bosib drwy roi cyfresi arbennig ar ein chwaraewr S4C Clic. Ar gyfer ein dilynwyr chwaraeon, ail-ddarlledwyd amryw o gemau gorau'r timau pêl-droed a rygbi cenedlaethol. Yn wir, chollodd y crys coch yr un gêm am ryw chwe mis!

Although we lost our programme supply – including our soaps, dramas, sports, national festivals and a range of major series – almost overnight, S4C continued broadcasting. It has been a very challenging period for a relatively small broadcaster. I would like to take this opportunity to thank my colleagues and partners across the creative sector in Wales for their genuine approach and dedication to ensure the continuation of S4C's service.

With everyone's circumstances having changed so much, S4C redesigned all of its offer, under the banner 'Yma i Chi' ('Here for You'). Our core series such as Prynhawn Da and Heno continued to broadcast across Wales. Our news service was strengthened to ensure a supply of credible news about the development of Covid-19 and the guidance - both on linear and digitally. In trying to understand the personal and family challenges faced by the audience and given that everyone was trying to cope with living at home, more digital content was commissioned to support our viewers – to keep fit at home, to deal with wellbeing and mental health, and special portals were created to educate and entertain children (Ysgol Cyw). But it also became clear that our audience, wanted an escape from lockdown, so we released as much of our archive material as possible on our S4C Clic player. For our sports fans, several of the best matches of the national football and rugby teams were re-broadcast. In fact, the red shirts didn't lose a single game for about six months!



> "
> **Mae S4C yn wasanaeth modern gydag uchelgais. Mae sicrhau fod ein gwasanaethau yn dal eu tir gyda datblygiadau ehangach mewn teledu yn hanfodol. Rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn ymateb i ofynion holl gymunedau Cymru.**
>
> **S4C is a modern service with ambition. Ensuring that our services hold their ground with wider developments in television is essential. We must also ensure that we respond to the demands of all communities in Wales.**

Roedd hi'n bwysig i mi a'r holl dîm yn S4C ein bod yn ymateb yn gyflym i anghenion ein gwylwyr. Er bod cwrdd â'r gynulleidfa wyneb yn wyneb yn amhosib, dechreuais i a'n Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol, Amanda Rees, gynnal sesiynau Facebook Live - efo dros 10k o sesiynau gwylio i'r un gyntaf. O'r sesiynau, daeth amryw o syniadau o'r hyn roedd pobl eisiau ei weld yn yr ystod y cyfnod clo gan gynnwys nifer o gyfresi o'r archif fu'n hynod lwyddiannus (efo Tipyn o Stad yn enwedig yn llwyddo ar S4C Clic) a darllediad Oedfa Dydd Sul o fewn pythefnos i'r gofyn wedi i gapeli ar draws y wlad orfod cau.

Oherwydd Covid-19, collwyd gwerth dros £8miliwn o raglenni o'r amserlen dros nos wrth i gynnwys fethu cyfleu. Roedd angen dybryd i gomisiynu cynnwys newydd. Bu'n her ond hefyd yn gyfle i ni arbrofi. Er na lwyddodd popeth, fe welwyd arloesedd a chreadigrwydd newydd gan y sector. Darlledodd S4C Cyswllt (Mewn Covid), y ddrama gyntaf i'w chomisiynu a'i chynhyrchu yn ystod y cyfnod clo yn y DU, a chyfres newydd lwyddiannus Sgwrs dan y Lloer ymhlith nifer o fformatau llwyddiannus newydd eraill.

Wrth i'r gwasanaeth newyddion fynd yn bwysicach byth, fe lwyddodd y BBC i gyfleu gwasanaeth di-dor i S4C. Ac i gynyddu'r ddarpariaeth i'r gynulleidfa ar gyfnod allweddol, cyflogodd S4C ei newyddiadurwyr ein hun am y tro cyntaf erioed i sicrhau gwasanaeth newyddion digidol. Tyfodd y gwasanaeth 600% yn ystod y flwyddyn - yn arwydd clir bod galw am newyddion digidol safonol ac annibynnol yn y Gymraeg. Lansiwyd dros 80 awr o raglenni addysgiadol i blant ar Hwb Llywodraeth Cymru a chefnogwyd rhaglen Bitesize y BBC ar y sgrin hefyd.

Roedd y penderfyniadau anorfod i ddileu conglfeini'r calendr fel yr Eisteddfodau a'r Sioe Frenhinol yn ergyd fawr i ni fel i weddill Cymru. Serch hynny, gweithiodd S4C yn agos efo'n partneriaid a llwyddwyd i greu Eisteddfod T wnaeth ddal dychymyg plant a phobl ifanc ar draws y wlad a thu hwnt. Adeiladwyd ar lwyddiant hynny yn 2021 gydag ail Eisteddfod T yn gwthio ffiniau ymhellach.

Yn ystod y pandemig, daeth pwysigrwydd S4C i'r economi greadigol yng Nghymru yn fwy amlwg fyth wrth i ni geisio cefnogi bywoliaeth cannoedd os nad miloedd o weithwyr yn y sector ar draws y wlad. Mae ymchwil economaidd annibynnol gan gwmni Arad a gyhoeddwyd fis Mawrth eleni yn tanlinellu hyn a'r effaith sylweddol y mae S4C wedi ei chael ar ardal Caerfyrddin o symud i Ganolfan S4C yr Egin. Gyda'r cyfrifoldeb yma dros barhad y sector yn amlwg iawn yn ein meddyliau, o fewn mis i'r cloi, roeddem wedi buddsoddi dros £7m mewn cynnwys i alluogi'r cwmnïau cynhyrchu i barhau i weithio. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) a'r sector ehangach wrth i ni geisio sicrhau dyfodol y diwydiant. Fe wnaethom hefyd barhau i gefnogi rhaglen hyfforddiant llwyddiannus mewn partneriaeth efo TAC drwy'r cloi, gan gynnig cyrsiau am ddim i weithwyr llawrydd wrth i ni ddadlau eu hachos efo llywodraethau ar ddwy ochr y ffin. A chrëwyd fforwm ddrama dan gadeiryddiaeth Gethin Scourfield i roi arweiniad wrth inni geisio sicrhau ail-ddechrau ffilmio dramâu yn ddiogel.

Beth oedd ymateb y gynulleidfa? Er yr anawsterau, gwelwyd ein cynulleidfa a'n mesuryddion ar draws y llwyfannau yn cynyddu. Tyfodd cyfartaledd gwylio oriau brig y nos yng Nghymru o 17,500 i 18,500 (6%). Cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol S4C yng Nghymru o 306k i 321k (5%) a'r cyrhaeddiad wythnosol y tu draw i Gymru o 396k i 502k (27%.) Cododd oriau gwylio S4C ledled y DU i'w lefel uchaf ers saith mlynedd. Yn ddigidol, gwelwyd cynnydd calonogol iawn efo oriau gwylio S4C Clic i fyny 45% ac 20% ar iPlayer. A chyrhaeddwyd targed o 200,000 o danysgrifwyr i S4C Clic. Ar y cyfryngau cymdeithasol, maes yr ydym wedi buddsoddi ynddo dros y blynyddoedd diwethaf, tyfodd oriau gwylio ar brif dudalen Facebook S4C 72% flwyddyn ar flwyddyn, gydag oriau gwylio ar brif gyfrif Twitter S4C yn tyfu 87%. Bu 28.5 miliwn o sesiynau gwylio ar draws tudalennau Facebook S4C yn ystod y flwyddyn. Gwelwyd cynnwys S4C 458,000 o weithiau'r dydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn ar draws Facebook, Twitter ac Instagram. Mae ein gwasanaeth ar-lein Hansh yn hanfodol bwysig i ddyfodol y sianel ac i ddenu gwylwyr newydd. Cafodd Hansh dros 1.4 miliwn o sesiynau gwylio ym mis Mawrth 2020 (record) a chynyddwyd yr oriau gwylio ar draws sianeli YouTube S4C 48% yn ystod y flwyddyn.

It was important to me and the entire team at S4C that we responded quickly to the needs of our viewers. Although meeting the audience face to face was impossible, our Creative Content Director, Amanda Rees, and myself began holding Facebook Live sessions - with over 10k viewing sessions for the first one. From the sessions, a range of ideas of what people wanted to see during lockdown emerged - including a number of archive series which were extremely successful (with Tipyn o Stad in particular proving popular on S4C Clic) and Oedfa Dydd Sul (Sunday Service) which was broadcast within two weeks of the requirement for chapels across the country to close.

Due to Covid-19, over £8 million pounds' worth of programmes was lost from the schedule overnight as content failed to be delivered. There was a desperate need to commission new content. It was a challenge but also an opportunity for us to experiment. Though some of this content was very much of its time, there was also definite innovation and new creativity from the sector. S4C broadcast Cyswllt (Mewn Covid), the first drama to be commissioned and produced during lockdown in the UK, a successful new series Sgwrs dan y Lloer, and a number of other successful new formats.

As the news service became even more important, the BBC succeeded in delivering a seamless service for S4C. And to increase provision for the audience, for the first time ever, S4C employed its own journalists to secure a digital news service. The service grew by 600% during the year – a clear indication of the demand for high quality and independent digital news in Welsh. More than 80 hours of educational programmes for children were launched on the Welsh Government's Hwb and the BBC's Bitesize programme was also supported on screen.

The inevitable decisions to cancel cornerstones of the calendar such as the Eisteddfodau and the Royal Welsh Show were as big a blow to us as to the rest of Wales. However, S4C worked closely with our partners and created Eisteddfod T which captured the imagination of children and young people across the country and beyond. That success was built upon in 2021 with the second Eisteddfod T pushing even more boundaries.

During the pandemic, the importance of S4C to the creative economy in Wales became even more apparent as we tried to support the livelihoods of hundreds if not thousands of sector workers across the country. Independent economic research by Arad published in March this year underlines this and the significant impact S4C has had on the Carmarthen area by moving to Canolfan S4C yr Egin. With this responsibility for the continuation of the sector very prominent in our minds, within a month of lockdown, we had invested over £7m in content to enable the production companies to continue working. Regular meetings were held with industry body TAC and the wider sector as we sought to secure the future of the industry. We also continued to support a successful training programme in partnership with TAC through the lockdown, offering free courses to freelancers as we argued their case with governments on both sides of the border. And a drama forum was created under the chairmanship of Gethin Scourfield to provide guidance as we tried to ensure a safe re-start to filming dramas.

What was the audience's reaction? Despite the difficulties, our audience and measurements across the platforms have been increasing. The average peak-time evening viewing in Wales grew from 17,500 to 18,500 (6%). S4C's weekly reach in Wales increased from 306k to 321k (5%) and the weekly reach beyond Wales from 396k to 502k (27%). S4C's viewing hours across the UK rose to their highest level for seven years. Digitally, there has been a very encouraging increase in S4C Clic's viewing hours, up by 45% and 20% on iPlayer. And a target of 200,000 subscribers to S4C Clic was achieved. On social media, an area we have invested in over recent years, viewing hours on S4C's main Facebook page grew by 72% year on year, with viewing hours on S4C's main Twitter account growing by 87%. There were 28.5 million viewing sessions across the S4C Facebook pages during the year. S4C's content was seen on average 458,000 times a day during the year across Facebook, Twitter and Instagram. Our Hansh online service is vitally important to the future of the channel and to attracting new viewers. Hansh had over 1.4 million viewing sessions in March 2020 (a record) and viewing across the S4C YouTube channels increased by 48% during the year.



A gwelwyd cynnydd yn ein buddsoddiadau masnachol o 13% dros y flwyddyn. Felly er iddi fod yn flwyddyn heriol, rydym wedi gweld llwyddiannau ar draws ein cynnwys a'n gweithgaredd.

Mi wnaeth y llwyddiannau hyn ddeillio yn bendant o'r buddsoddiadau wnaeth S4C fel corff dros y blynyddoedd diweddar. Roeddem yn ffodus bod y gwaith caib a rhaw a wnaethpwyd wrth i ni symud i'n pencadlys newydd yng Nghanolfan S4C yr Egin yn 2018, a'r gwaith o osod y sylfaeni technegol a gweithredol newydd hefyd yn galluogi'r gweithlu i weithio'n hyblyg. O ganlyniad i hyn, roedd symud i weithio o adref yn weddol ddiffwdan ac fe lwyddwyd i sicrhau fod cyfathrebu ar draws y sefydliad yn glir ac yn rheolaidd i gefnogi staff. Ar yr ochr weithredol, rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau y gallai cydweithwyr darlledu weithio'n ddiogel o ganolfan darlledu Parc Tŷ Glas S4C.

Roedd hefyd yn fanteisiol iawn ein bod eisoes wedi cychwyn buddsoddi mewn llwyfannau digidol ar ôl i Euryn Ogwen Williams dangos y ffordd gyda'i adolygiad o S4C yn 2018. Hoffwn dalu teyrnged i Euryn, a gynigiodd gyngor doeth ac a fu'n gefn i'n huchelgais dros y blynyddoedd diwethaf. A hoffwn ddiolch am ei flynyddoedd o wasanaeth i'r sector a thros yr iaith. Fe fyddaf yn colli ein cacs a'n paneidiau yn y Barri.

Wrth i bopeth arall droi o'n cwmpas, daeth cyfnod pwysig yn hanes S4C i ben. Roeddwn yn falch i symud o'r diwedd i Sgwâr Canolog, Caerdydd ym mis Ionawr 2021, gan gydleoli gwasanaethau darlledu technegol S4C gyda rhai BBC Cymru Wales. Edrychwn ymlaen at y cyfleodd newydd y bydd hyn ei gynnig unwaith y bydd y cyfyngiadau yn llacio.

Wynebwyd nifer o heriau ariannol eleni, ond gyda chefnogaeth ein partneriaid a DCMS yn arbennig sicrhawyd datrysiad i bob un. Gyda thanwariant sylweddol oherwydd effaith y pandemig ar ein gallu i gomisiynu cynnwys megis chwaraeon a drama, rydym wedi gallu symud bron £7m draw i gyllideb 2021/22 er mwyn ein galluogi i gyflawni cynnwys. Yn ogystal, sicrhawyd datrysiad o'r diwedd i'r mater TAW gyda'r Mesur Cyllid yn dod i rym. Mae Ddeddf Cyllid 2021 yn cynnwys S4C fel corff Adran 33 ar gyfer dibenion TAW gan alluogi S4C i adennill TAW ar wariant anfusnes. Mae'r mater TAW wedi golygu cynnydd dros dro yng nghyllideb S4C er mwyn rheoleiddio'r sefyllfa, ond rydym yn ddiolchgar i gefnogwyr yn DCMS a'r Trysorlys am ei ddatrys.

Er i gryn dipyn o'n hegni fynd i gynnal y gwasanaeth craidd, llwyddwyd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu syniadau newydd a chynnal swmp o ymchwil pwysig efo'r gynulleidfa i ddeall patrymau gwylio a phatrymau ieithyddol yn well. Lansiwyd treial teledu lleol mewn partneriaeth efo Teli Môn ac ap newyddion newydd S4C mewn partneriaeth gyda Golwg, ITV Cymru Wales a'r BBC.

Cafodd y syniadau hyn eu cynnwys yn ein cais i'r DCMS ar gyfer ein cyllid o 2022 i 2027 pan fydd holl arian cyhoeddus S4C yn dod o ffi'r drwydded. Dyma'r tro cyntaf i S4C orfod rhoi cais am ariannu tymor hir o un ffynhonnell fel hyn. Rydym yn obeithiol y caiff S4C gefnogaeth gan weinidogion DCMS wrth i ni drafod dyfodol cyffrous i'r gwasanaeth. Er i ni fuddsoddi'n barod yn ein harlwy digidol, mae yna siawns i S4C wir ehangu ei chynnig a'i darpariaeth mewn ffordd fydd yn sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg dros lwyfannau byd-eang. Mae'r gwasanaeth yn awyddus i dyfu'r arbenigedd yma er lles ein cynulleidfa.

Mae S4C yn wasanaeth modern efo uchelgais. Mae sicrhau fod ein gwasanaethau yn dal eu tir efo datblygiadau ehangach mewn teledu yn hanfodol. Rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn ymateb i ofynion holl gymunedau Cymru. Roeddwn yn falch iawn i gyflogi ein Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant cyntaf yn ystod y flwyddyn i sicrhau fod y sianel a'r sector yn adlewyrchu'r Gymru fodern.

Ar ôl diolch i fy nghyd-weithwyr, y sector a'n ffrindiau yn y ddwy lywodraeth, hoffwn ddod i derfyn fy rhagair drwy ddiolch i'r gynulleidfa a'n holl gefnogwyr. Diolch ichi am gadw'r ffydd ynom mewn blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen. Diolch am wylio ac am barhau i drafod gydag S4C fel ein bod yn esblygu a darparu gwasanaeth Cymraeg ichi am y degawdau nesaf.

Over the year, there was an increase of 13% in our commercial investments. So, although the year has been a challenge, we have seen successes - across our content and wider activity.

These certainly derived from the investments S4C made as an organisation over recent years. We were fortunate that the work carried out as we moved to our new headquarters at Canolfan S4C yr Egin in 2018, which included the establishment of new technical and operational foundations, also enabled the workforce to work flexibly. As a result, moving to work from home was fairly straightforward and we ensured that communication across the organisation was clear and regular to support staff. On the operational side, measures were put in place to ensure that operational colleagues could work safely from the S4C Parc Tŷ Glas broadcast centre.

It was also very beneficial that we had already started investing in digital platforms after Euryn Ogwen Williams blazed the trail with his review of S4C in 2018. I would like to pay tribute to Euryn, who offered wise advice and who supported our ambition over the past few years. And I would like to thank him for his years of service to the sector and the language. I will miss our cups of tea and cakes in Barry.

As everything else turned around us, an important period in S4C's history came to an end. I was pleased to finally move to Central Square, Cardiff in January 2021, co-locating S4C's technical broadcast services with those of BBC Cymru Wales. We look forward to the new opportunities this will offer once restrictions are eased.

A number of financial challenges were faced this year, but these were all resolved with the support of our partners and DCMS. With significant underspend due to the pandemic's effect on our ability to commission content such as sport and drama, we have been able to carry over almost £7m into the 2021/22 budget to allow us to complete content. In addition, a longer standing issue relating to our VAT status was finally resolved with the passing of the Finance Bill. The Finance Act 2021 includes S4C as a Section 33 body for VAT purposes with the ability to reclaim VAT on its non-business expenditure. This issue has meant a temporary increase in S4C's budget to regularise the position, but it's with thanks to supporters in both DCMS and HM Treasury that this has been resolved.

Although a great deal of our energy went into maintaining the core service, we succeeded during the year to develop new ideas and carry out a considerable amount of important research with the audience to gain a better understanding of both viewing and language patterns. A local television trial was launched in partnership with Teli Môn and S4C's new news app in partnership with Golwg, ITV Cymru Wales and the BBC.

These ideas were included in our application to DCMS for our funding from 2022 to 2027 when all S4C's public funding will come from the licence fee. This is the first time S4C has had to bid for long-term funding from one source in this way. We are hopeful that S4C will receive support from DCMS ministers as we discuss an exciting future for the service. Although we have already invested in our digital output, there is an opportunity for S4C to truly expand its offer and provision in a way that will secure the future of the Welsh language across global platforms. The service is keen to grow this expertise for the benefit of our audience.

S4C is a modern service with ambition. Ensuring that our services hold their ground with wider developments in television is essential. We must also ensure that we respond to the demands of all communities in Wales. I was delighted to employ our first Diversity and Inclusion Officer during the year to ensure the channel and the sector reflect modern Wales.

After thanking my colleagues, the sector and our friends in both governments, I would like to conclude my foreword by thanking the audience and all our supporters. Thank you for keeping faith with us in an unprecedented year. Thank you for watching and continuing to engage with S4C so that we evolve and provide you with a Welsh language service for the coming decades.

# Sut berfformiodd S4C yn 2020/2021

# How S4C performed in 2020/2021

**Mae sicrhau fod gwasanaethau iaith Gymraeg S4C yn ymateb i ddisgwyliadau'r gynulleidfa, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n rheolaidd gan yr ystod ehangaf o bobl yn greiddiol i waith S4C.**

**Ensuring that S4C's Welsh language services respond to the audience's expectations, and are valued and regularly used by the widest audience is key to S4C's mission.**

## Sut mae S4C yn asesu perfformiad y gwasanaeth?

## How does S4C assess the performance of the service?

Mae gan Fwrdd S4C ddyletswydd i sicrhau fod gwasanaethau S4C yn ymateb i anghenion ein cynulleidfa. Mae'r Bwrdd yn asesu perfformiad gwasanaethau S4C yn gyson, a chyflwynir isod asesiad perfformiad S4C yn erbyn fframwaith mesuryddion perfformiad a Blaenoriaethau Strategol S4C ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 i Fis Mawrth 2021.

**Rhoddir arweiniad i weithgareddau S4C gan bedair blaenoriaeth strategol sydd wedi eu datblygu er mwyn rhoi cyfeiriad i waith S4C a sicrhau fod holl wasanaethau S4C yn ymateb i anghenion y gynulleidfa:**

The S4C Board has a duty to ensure that S4C's services respond to the needs of our audience. The Board regularly assesses the performance of S4C's services. The performance assessment presented below is based on the performance measurement framework and S4C's Strategic Priorities for the period April 2020 to March 2021.

**S4C's activities are guided by four strategic priorities that have been developed to provide direction to S4C's work and to ensure that S4C's services respond to the needs of the audience:**

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| **Darparu gwasanaeth poblogaidd o safon uchel, ar amrywiaeth o lwyfannau cyfoes, gan sicrhau fod y cynnwys ar gael i'w dderbyn a'i ddefnyddio unrhyw amser, unrhyw le.** | **Dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa, ei gofynion a'i barn am y gwasanaeth, a sicrhau bod hyn yn greiddiol i waith S4C.** | **Sicrhau perthynas effeithiol a chreadigol gyda chyflenwyr a phartneriaid eraill.** | **Parhau i sicrhau gwerth am arian a manteisio ar gyfleoedd masnachol.** |
| **Provide a high quality and popular service across a range of contemporary platforms, ensuring that the content can be accessed and viewed at anytime and anywhere.** | **Strengthen our understanding of the audience, its requirements and its response to the S4C service and ensure that this is central to S4C's operation.** | **Ensure an effective and creative relationship with suppliers and other partners.** | **Continue to deliver value for money and make the most of commercial opportunities.** |

Wrth asesu perfformiad gwasanaeth S4C, mae'n angenrheidiol i ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys ffigyrau gwylio ar deledu ac ar-lein, gwerthfawrogiad ac ymateb y gynulleidfa i'r cynnwys a rhaglenni, yr effaith ehangach y mae S4C a'r gwasanaeth yn llwyddo i'w gael, a'r gwerth a chefnogaeth y mae S4C yn gallu ei ddarparu i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru.

Mae Pwyllgor Cynnwys y Bwrdd yn ystyried adroddiadau ar gynnwys a pherfformiad y gwasanaeth yn rheolaidd, ac yn ystod 2020/21 rhoddwyd sylw arbennig i feysydd megis Plant a Chwaraeon, yn ogystal ag adolygiadau o berfformiad yr amserlen. Trafododd y Pwyllgor gynlluniau'r dyfodol ar gyfer y gwasanaeth Newyddion Digidol ac S4C Lleol yn ogystal ag ystyried rhaglenni a chyfresi unigol sy'n ymddangos yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor, sy'n cyfarfod o leiaf bob chwarter, yn ffocysu'n gynyddol ar newidiadau mewn patrymau gwylio a phatrymau ieithyddol y gynulleidfa a derbyniodd nifer o adroddiadau yn ystod 2020/21 ar y gwaith mewnwelediad sydd ar y gweill. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Cynnwys yn cael eu hystyried ymhellach yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd.

Mae'r trosolwg canlynol yn seiliedig ar y trafodaethau hyn.

In assessing the performance of the S4C service, it is necessary to consider a range of factors, including television and online viewing figures, appreciation and audience response to content and programmes, the wider impact created by S4C and its service, and the value and support that S4C can provide to partners and other stakeholders in Wales.

The Board's Content Committee regularly considers reports on the content and performance of the service, and during 2020/21 special attention was given to genres including Children and Sports as well as reviews of the schedule's performance. The Committee discussed future plans for its Digital News Service and S4C Local and also considered individual programmes and series that are broadcast during the year.

The Committee, which meets at least every quarter, is increasingly focussing on the changing viewing and linguistic patterns of the audience and received a number of reports during 2020/21 on the audience insight work which is ongoing. The Committee's reports are considered further in the Board's monthly meetings.

The following overview is based on these discussions.




**Ers i S4C ddarlledu gyntaf ym mis Tachwedd 1982, mae wedi tyfu o un sianel deledu linol ran-amser i wasanaeth llawn, aml-lwyfan, sy'n rhoi llais a llwyfan i'r iaith Gymraeg yn ei holl ogoniant.**

**Since S4C first broadcast in November 1982, it has grown from a single, part-time linear television channel to a full, multi-platform service, giving the Welsh language in all its shapes and forms a voice and a stage.**

Iaith ar Daith 2021

Mae S4C yn wasanaeth cyhoeddus unigryw sy'n darparu cynnwys clyweledol yn y Gymraeg ar deledu a thrwy'r gwasanaethau digidol mwyaf poblogaidd. Fel yr unig wasanaeth cyhoeddus Cymraeg o'i fath, rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn cynnig cynnwys sy'n cwrdd â gofynion ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd - o ran oedran, chwaeth a genre.

Mae patrymau defnydd S4C, fel pob darlledwr arall yn esblygu, gyda gwylwyr yn mudo o'r amserlen linol i wylio cynnwys ar lwyfannau ac ar adegau sydd yn fwy cyfleus iddyn nhw. Fodd bynnag, rydym yn parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg â gwasanaeth darlledu cyhoeddus gwerthfawr.

Er bod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar gynnwys yn enwedig chwaraeon byw, digwyddiadau cenedlaethol, drama ac operâu sebon, gwelodd S4C ei ffigurau'n cynyddu ar draws y llwyfannau yn ystod 2020/21.

Yn ogystal â ffigyrau gwylio, mae sicrhau fod yr arlwy'n taro deuddeg gyda'r gynulleidfa, ac yn cael ei werthfawrogi, yn allweddol bwysig. Braf yw nodi fod y gynulleidfa'n parhau i werthfawrogi safon ac amrywiaeth y cynnwys a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

S4C is a unique public service providing Welsh-language audio-visual content on television and via the most popular digital services. As the only Welsh-language public service of its kind, we aim to ensure that we offer content that meets the demands of a wide range of different audiences – in terms of age, taste, and genre.

S4C's usage patterns, like those of all other broadcasters, are evolving, with viewers migrating from the linear timetable to watch content on platforms and at times that are more convenient. However, we continue to serve Welsh speaking audiences with a valuable PSB service.

While Covid-19 has had a significant impact on content especially live sport, national events, drama and soap operas, S4C saw its figures increase across all its platforms during 2020/21.

As well as viewing figures, ensuring that output resonates with, and is valued by, the audience is of key importance. It is pleasing to note that the audience continues to appreciate the standard and variety of content provided during the year.

# Ymateb S4C yn ystod Covid-19
# S4C's response during Covid-19

Atgyfnerthwyd gwerth darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r rôl hanfodol y mae'n ei chwarae mewn cymdeithas yn ystod pandemig Covid-19. Credwn fod yr argyfwng wedi tanlinellu pwysigrwydd darlledwr sector cyhoeddus cenedlaethol ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith.

Mae gan S4C fel darlledwr cyhoeddus gyfrifoldeb i wasanaethu ei chynulleidfaoedd gyda gwybodaeth ac adloniant ar draws ystod o lwyfannau. At ei gilydd, bu ffocws S4C ar adlewyrchu realiti bywydau pobl yn ystod y cyfnod heriol hwn a darparu gwybodaeth, cysur a chwmni i bobl yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig.

Arweiniodd hyn at gynnydd yn ffigurau gwylio llinol S4C yn ystod yr argyfwng, gyda chynulleidfaoedd 40% yn uwch nag yn 2019/20 ar gyfer ein prif raglen newyddion a gyda chynulleidfaoedd ar gyfer ein rhaglenni plant yn ystod y dydd wedi mwy na dyblu. Gwelwyd hefyd y nifer uchaf erioed trwy ein llwyfannau digidol.

Fel yn achos darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, bu i Covid-19 darfu'n sylweddol ar gomisiynau S4C, gyda gwerth £8.1m o gynyrchiadau wedi'u canslo oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. At hyn, bu'n rhaid aildrefnu £8.1m o raglenni ar gyfer 2021/22 a 2022/23. Ar ôl lansio rhaglen o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa 'Yma i Chi' buom ni a'n partneriaid yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod rhaglenni hanfodol fel newyddion a materion cyfoes yn parhau, gyda mwy o gynnwys Covid-benodol, a hynny mor amrywiol â chefnogi iechyd a lles, a Dim Sbin sef ein llinyn newyddiaduraeth gwirio ffeithiau ar gyfer yr ifanc. Er mwyn gwella ein rhaglenni newyddion, aethom ati hefyd am y tro cyntaf i gyflogi newyddiadurwyr mewnol er mwyn darparu diweddariadau dyddiol ar draws ein llwyfannau digidol, datblygiad a groesawyd gan ein cynulleidfa, ac a arweiniodd at gynydd o 600%+ mewn gwylio newyddion digidol.

The value of public service broadcasting and the vital role it plays in society has been reinforced during the Covid-19 pandemic. We believe that the crisis emphasised the importance of a national public sector broadcaster for Welsh speaking audiences.

S4C as a PSB has a responsibility to serve its audiences with information and entertainment across a variety of platforms. Overall, S4C's focus has been on reflecting the reality of people's lives during this challenging period and providing information, comfort and company to people in Wales and across the United Kingdom.

This resulted in S4C's linear viewing figures increasing during the crisis, with audiences 40% higher than in 2019/20 for our main news programme and with audiences for our daytime children's programmes having more than doubled. We also saw record numbers through our digital platforms.

Like other PSBs, Covid-19 had a significant disruption on S4C's commissions, with £8.1m worth of productions cancelled due to lockdown restrictions. In addition, £8.1m of content had to be rescheduled into 2021/22 and 2022/23. Having launched a programme of audience-focused activities 'Yma i Chi' we and our partners worked quickly to ensure that critical programming like news and current affairs continued, augmented by Covid-specific content as diverse as supporting health and well-being, and our fact-checking, young journalism strand Dim Sbin. To improve our news provision we also, for the first time, employed in-house journalists to provide daily updates across our digital platforms, a development welcomed by our audience, which led to a 600%+ rise in digital news views.

Er i gynifer o ddigwyddiadau diwylliannol gael eu canslo yn ystod 2020, bu S4C yn gweithio gyda'r sector i gyflwyno rhaglenni ieuenctid o Eisteddfod yr Urdd, a hynny mewn ffyrdd arloesol nas gwelwyd o'r blaen. Bu'r Eisteddfod T yn llwyddiant ysgubol a chafwyd cyrhaeddiad o 130,000 a Mynegai Gwerthfawrogiad o 88. Yn sgil y llwyddiant hwn, mae S4C unwaith eto wedi partneru gyda'r Urdd er mwyn cynnal digwyddiad fydd hyd yn oed yn fwy deniadol yn 2021.

Gwnaethom gomisiynu a darlledu drama gyntaf y cyfnod clo yn y DU, sef Cyswllt (Mewn Covid) a sicrhau parhad llawer o raglenni craidd ein hamserlen megis rhaglenni cylchgrawn dyddiol Heno a Prynhawn Da. Gan gydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu cynhyrchu drama, aethom ati hefyd i sefydlu Fforwm Drama gyda chynrychiolwyr sector yn rhannu arferion gorau a chasglu adborth y bu modd i ni wedyn ei drosglwyddo i Lywodraethau Cymru a'r DU.

Fel y nodwyd mewn man arall yn yr adroddiad, lansiwyd Ysgol Cyw gennym hefyd er mwyn cefnogi dysgu gartref, ac ym mis Ionawr 2021 rhyddhawyd 80 awr o raglenni ar Hwb, llwyfan addysg Llywodraeth Cymru.

Although so many cultural events were cancelled during 2020, S4C worked with the sector to deliver youth content from the Urdd Eisteddfod in innovative ways which had not previously been seen. Eisteddfod T (or House Eisteddfod) was a huge success with a reach of 130,000 and an Appreciation Index of 88. On the back of this success, S4C has again partnered with the Urdd to hold an even more engaging event in 2021.

We commissioned and broadcast the UK's first lockdown drama Cyswllt (Mewn Covid) and ensured the continuation of many bedrocks of our schedule such as daily magazine programmes Heno and Prynhawn Da. Recognising the specific challenges facing drama production we also established a Drama Forum with sector representatives to share best practice and gather feedback which we were then able to pass on to the Welsh and UK Governments.

As noted elsewhere in this report, we also launched Ysgol Cyw (Cyw's School) to support home learning, and in January 2021 we released 80 hours of programmes on the Welsh Government's education platform Hwb.

### Beth oedd ymateb y gynulleidfa i wasanaethau S4C yn ystod Covid-19?
### What was the audience response to S4C's Services during Covid-19?

Mae asesu maint cynulleidfa S4C bellach yn golygu ystyried gwylwyr ar deledu traddodiadol, yng Nghymru a ledled y DU, cyfrif defnyddwyr ar y prif lwyfannau ar-lein sef S4C Clic a'r BBC iPlayer ac, yn ogystal, y rheini sy'n gwylio cynnwys S4C ar ystod o lwyfannau ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Er yr heriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe welwyd ein ffigurau gwylio ar draws ein holl lwyfanau yn cynyddu.

Fe dyfodd cynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig o 18,600 i 20,200, a chyrhaeddiad wythnosol yng Nghymru o 306,000 i 321,000. Cynyddodd y nifer o bobl oedd wedi gwylio S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU o 702,000 i 823,000.

Yn ddigidol, gwelwyd cynnydd calonogol iawn gydag oriau gwylio i fyny 45% ar S4C Clic a 20% ar iPlayer. Erbyn diwedd 2020/21 roedd 209,407 o gofrestrwyr S4C Clic.

Ar y cyfryngau cymdeithasol, fe dyfodd oriau gwylio ar brif dudalen Facebook S4C o 72% blwyddyn ar flwyddyn ac thyfodd oriau gwylio ar brif gyfrif Twitter S4C o 87%. Bu 29miliwn o sesiynau gwylio ar draws holl gyfrifon Facebook S4C a 10miliwn o sesiynau gwylio ar draws holl sianeli YouTube S4C. Gwelwyd cynnwys S4C 458,000 o weithiau'r dydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn ar draws Facebook, Twitter ac Instagram.

Assessing the size of S4C's audience now means considering viewers of traditional television, in Wales and across the UK, counting users on the main online platforms of S4C Clic and the BBC iPlayer and, in addition, those watching S4C content on a range of online platforms, including social media.

Despite the challenges during the last year, we saw our viewing figures accross all platforms increase.

Our average audience in the peak hours increased from 18,600 to 20,200, and our weekly reach in Wales was up from 306,000 to 321,000. The number of people who watched S4C on TV every week throughout the UK increased from 702,000 to 823,000.

Digitally, we saw very encouraging increases with the viewing hours up 45% for S4C Clic and 20% for the iPlayer. By the end of 2021/21 S4C Clic registrations had reached 209,407.

On social media, the viewing hours for the main S4C Facebook page grew 72% year on year and viewing hours of the S4C main Twitter account grew by 87%. There were 29million viewing sessions across all S4C Facebook accounts and 10million viewing sessions across all S4C YouTube channels. The average number of times S4C's content was viewed each day across Facebook, Twitter ac Instagram was 458,000.




## Genres cynnwys unigol
## Individual content genres

Wrth i'r pandemig effeithio ar ein bywydau ni i gyd, profwyd gwytnwch ein gwasanaeth ar draws ein holl lwyfannau eleni. Gydag egni ac arloesedd llwyddodd y sector greadigol barhau i gynhyrchu cynnwys amrywiol o'r safon uchaf a chreu gwasanaeth oedd yn cynnig cysur, cwmni a gwybodaeth i'n gwylwyr. Trwy fynd ati yn bwrpasol i greu cofnod o'r cyfnod a bod yn ddrych i brofiadau pobl gyffredin llwyddodd S4C ennill ei lle ym mywydau a chalonnau'r genedl mewn blwyddyn ddigynsail yn ein hanes.

With the pandemic affecting all our lives, the resilience of our service has been tested across all our platforms this year. With energy and innovation the creative sector managed to continue producing diverse top-quality content and create a service which offered our viewers comfort, company and information. By focussing on creating a record of the time and providing a mirror for ordinary people's experiences S4C succeeded in establishing itself in the lives and hearts of the nation in an unprecedented year in our history.




Hansh

## Cynnwys ar-lein
## On-line Content

Roedd ein ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant yn enfawr a phwysig i'n cenhadaeth yn y flwyddyn hon, gyda phwyslais pendant yn Hansh ar gael gwell cynrychiolaeth, trafodaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl o liw, pobl anabl a'r gymuned LHDTC+.

Digwyddodd hynny mewn ffyrdd concrit drwy gynlluniau cynhyrchu fel Her Ffilm Fer LHDTC+, Prosiect Medru Hansh sy'n cynnig cyfleoedd datblygu i bobl anabl a b/Byddar, a nifer o fideos cyfryngau cymdeithasol, ffilmiau dogfen a rhaglenni cerddoriaeth yn edrych ar brofiadau pobl o liw Cymraeg eu hiaith. Roedd cael newyddiadurwyr dan hyfforddiant Hansh Dim Sbin yn allweddol i Hansh wrth allu ymateb ac adrodd ar brotestiadau Black Lives Matter a nifer o bynciau llosg eraill.

Roedd yn flwyddyn o shifft ymysg arferion cyfryngol defnyddwyr ifanc gyda lleihad yn nefnydd Facebook a thwf aruthrol mewn defnydd TikTok. Symudodd Hansh yn gyflym gyda'r patrwm yma gan weld twf mawr yn ein dilyniant a gwylio ar TikTok yn ogystal ag ar Instagram, a dod o hyd i don newydd o dalent gyffrous sy'n creu enw i'w hunain a datblygu comedi gwreiddiol ar y llwyfannau hynny. Mae'n edrych fel bod y patrwm hwn yn un sydd am sefydlogi ac rydym wedi bod yn cynllunio i addasu ein strategaeth cynnwys i fod yn addas i bob llwyfan gan ganolbwyntio ar lwyfannau newydd.

Ar ochr arall y geiniog roedd hefyd galw am gynnwys hirach ar Hansh yn sgil cynhyrchu sawl dogfen yn 2019. Comisiynwyd cyfres ddogfen a materion cyfoes GRID ac fe gysylltodd yn syth gyda chynulleidfa Hansh gan roi cynnwys hirach yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Roedd penodau Dwi'n Berson ac yn Dominatrix a Ges i'n Achub gan Grime yn arbennig o boblogaidd. Cynhyrchwyd sawl ffilm ddogfen unigol hefyd gydag Ein Ail Lais yn arbennig yn ysgogi trafodaeth gyhoeddus bwysig am deimladau siaradwyr Cymraeg newydd neu ail iaith, am sut roedden nhw'n ffitio mewn yn y Gymru gyfoes.

Parhaodd comedi i fod yn ganolog i Hansh dros y flwyddyn er bod y pandemig wedi'n gorfodi i symud at gynnwys wedi'i sgriptio a'i saethu adref yn bennaf yn hytrach na chomedi ymatebol mewn digwyddiadau ac allan ar y stryd fel sydd yn arferol i Hansh erbyn hyn. Cafodd dwy fideo gomedi Hansh dros 500,000 o views Facebook rhyngddynt a pheilot llwyddiannus Cymry Feiral yn esgor ar raglen deledu arbennig Nadolig.

Yn Ionawr 2021 dechreuwyd peilot cyfryngau lleol S4C Lleol gyda Teli Môn. Hon oedd y gyntaf o dri pheilot fydd yn digwydd yn 2021 er mwyn ceisio mesur y galw am gyfryngau fideo lleol a'r potensial am bartneriaethau cymunedol allai gyfoethogi arlwy S4C.

Our focus on diversity and inclusion was enormous and important to our mission in this year, with a definite emphasis in Hansh on ensuring improved representation, discussion and training for people of colour, disabled people and the LGBTQ+ community.

This was achieved in concrete ways through production schemes like the Hansh LGBTQ+ Short Film Challenge, Project Medru Hansh which offered development opportunities for disabled and d/Deaf people, and a number of social media videos, documentaries and music programmes looking at the experiences of Welsh-speaking people of colour. The presence of Hansh Dim Sbin trainee journalists was crucial in enabling the response to and reporting of Black Lives Matter protests and various other hot topics.

It was a year of shift in young users' media practices with a drop in Facebook use and a massive increase in the use of TikTok. Hansh moved swiftly with this pattern, experiencing a substantial growth in our following and views on TikTok as well as on Instagram, and discovering a new wave of exciting talent who are making a name for themselves and developing original comedy on those platforms. This pattern appears to be settling down and we have been planning to adapt our content strategy to fit all platforms, with an emphasis on new platforms.

On the other side of the coin there was also demand for longer content on Hansh following the production of a number of documentaries in 2019. The GRID documentary and current affairs series was commissioned and it immediately clicked with the Hansh audience, providing regular lengthier content throughout the year. The episodes Dwi'n Berson ac yn Dominatrix and Ges i'n Achub gan Grime were especially popular. Various individual documentaries were produced too, with Ein Ail Lais in particular inspiring an important public discussion about the feelings of new or second-language Welsh speakers regarding their place in the modern Wales.

Comedy remained central to Hansh throughout the year although the pandemic forced us to move to mainly scripted, home-shot material rather than responsive comedy at events and out on the streets as is customary now for Hansh. Two Hansh comedy videos achieved over 500,000 Facebook views between them and the successful Cymry Feiral pilot delivered a TV Christmas special.

In January 2021, an S4C Lleol local media pilot was started with Teli Môn. This was the first of three pilots that will happen in 2021 in order to try and gauge the demand for local video media and the potential for community partnerships which could enrich S4C's output.

# Newyddion a Materion Cyfoes
# News and Current Affairs

Gwelwyd diddordeb aruthrol yn ein cynnwys newyddion a materion cyfoes wrth i nifer cynyddol o wylwyr droi at y sianel am y diweddaraf am Covid-19.

Dechreuwyd ar bennod newydd yn hanes S4C wrth i ni gyflogi newyddiadurwyr i gynhyrchu cynnwys newyddion digidol yn enw Newyddion S4C. Wrth ymateb i'r galw am y data diweddaraf am achosion Covid-19 ac wrth ffrydio cynadleddau i'r wasg Llywodraeth Cymru ar Facebook Newyddion S4C, gwelwyd cynnydd rhyfeddol yn y gwylio. Roedd 3.7 miliwn o sesiynau gwylio ar gyfrifon Twitter a Facebook Newyddion S4C yn 2020/21, cynnydd o 388% ar y flwyddyn flaenorol a chynnydd o 735% yn yr oriau a wyliwyd. Bu'r tîm hefyd yn cynhyrchu straeon newyddion gwreiddiol ac yn ail-becynnu cynnwys o raglen Newyddion S4C.

Ynghanol ansicrwydd Covid-19 symudodd rhaglen Newyddion S4C i gartref newydd BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog Caerdydd gyda set a theitlau ffres. Ddaeth y gwasanaeth tywydd yn rhan o'r rhaglen hefyd er mwyn medru dod ag arbenigedd i'r arlwy. Gwnaeth y rhaglen sefydlu ei hun mewn cartref newydd yn yr amserlen am 19.30 a gwelwyd twf yn y ffigurau gwylio.

Eleni, am y tro cyntaf erioed fe drodd Y Byd ar Bedwar ac Y Byd yn ei Le gyda Guto Harri yn gyfresi stiwdio gan ITV Cymru Wales, i ymateb yn gyflym i argyfwng Covid-19 ac i ddal gwleidyddion i gyfri. Bu'r Byd yn ei Le hefyd yn fforwm pwysig wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Lansiwyd Pawb a'i Farn ar ei newydd wedd, gyda'r fenyw gyntaf wrth y llyw, sef Betsan Powys. Drwy gyfuniad o dechnoleg Zoom a phanelwyr yn y stiwdio llwyddwyd i gael sawl trafodaeth fywiog, o Covid-19 i effaith tai haf ar gymunedau yng ngorllewin Cymru. Buan hefyd daeth cyfle pwysig i gynnal trafodaeth am effaith marwolaeth George Floyd yn yr UDA gyda phanel o ddwsin oedd i gyd o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.

Gydag etholiad arlywyddol yn yr UDA, cafwyd rhaglen ddogfen arbennig, Trump, America a Ni i gofnodi'r rhwygiadau dwfn yn y wlad a chawsom hefyd gyfres bodlediad i gyd-fynd â'r rhaglen, Hollt: Ein America ni.

Eleni hefyd comisiynwyd dogfennau trosedd a materion cyfoes gyda'r nod o fod yn uchafbwyntiau yn amserlen y flwyddyn ac yn gynnwys fyddai'n destun trafod ac yn cyrraedd cynulleidfa newydd.

Roedd gan Llofruddiaeth Mike O'Leary, fynediad arbennig i ymchwiliad yr heddlu a chyfweliadau egsgliwsif gyda meibion y dyn o Sir Gâr. Yn Prif Weinidog mewn Pandemig, cawsom fynediad digynsail i fywyd a gwaith Mark Drakeford wrth i'r camera ei ddilyn tu ôl i ddrysau caeedig Parc Cathays, i gyfarfodydd cabinet a COBRA wrth i'r gweinidogion wneud y penderfyniadau mawr oedd yn effeithio ar ein bywydau bob dydd.

We saw tremendous interest in our news and current affairs as an increasing number of viewers turned to the channel for the latest on Covid-19.

A new chapter in S4C's history was embarked upon as we employed journalists to produce digital news in the name of Newyddion S4C. Our response to the demand for the latest data on Covid-19 cases and streaming of Welsh Government press conferences on Newyddion S4C on Facebook saw an amazing upturn in viewing. There were 3.7 million viewing sessions on the Newyddion S4C Twitter and Facebook accounts in 2020/21, an increase of 388% over the previous year and an increase of 735% in hours viewed. The team also produced original news stories and repackaged content from the Newyddion S4C TV programme.

Amidst the uncertainty of Covid-19 the Newyddion S4C programme moved to BBC Cymru Wales' new premises in Cardiff Central Square with a new set and titles. The weather service was incorporated into the programme too in order to bring expertise to the content. The programme settled into a new 19.30 slot in the schedules and viewing figures went up.

This year, for the first time ever, Y Byd ar Bedwar and Y Byd yn ei Le with Guto Harri were converted into studio series by ITV Cymru Wales, to respond rapidly to the Covid-19 crisis and to hold politicians to account. Y Byd yn ei Le was also an important forum as the UK left the European Union.

Pawb a'i Farn was launched in a new format, with the first woman presenter, Betsan Powys. A combination of Zoom technology and studio panellists enabled a number of lively discussions, on topics ranging from Covid-19 to the effect of second homes on communities in west Wales. An important opportunity soon arose too to discuss the effect of George Floyd's death in the USA with a twelve-strong panel comprised entirely of people from Black, Asian and minority ethnic backgrounds.

With the USA presidential election, a special documentary, Trump, America a Ni was aired to record the deep rifts in the country and we also had a podcast series to run alongside the programme, Hollt: Ein America Ni.

Also this year, crime and current affairs documentaries were commissioned with the aim of being highlights in the year's schedules and providing material that would spark discussion and reach a new audience.

Llofruddiaeth Mike O'Leary had special access to a police inquiry and exclusive interviews with the Carmarthenshire man's sons. Prif Weinidog Mewn Pandemig offered unprecedented access to the life and work of Mark Drakeford as the camera followed him behind the closed doors of Cathays Park, to cabinet and COBRA meetings as ministers made the big decisions that affected our everyday lives.

Prif Weinidog mewn Pandemig





Y Llinell Las

## Ffeithiol
## Factual

Er gwaethaf heriau'r pandemig a'r rheidrwydd i ohirio sawl cynhyrchiad, fe lwyddodd y sector i greu cynnwys ffeithiol newydd, arloesol a chyffrous.

Daeth hi'n amlwg yn gynnar iawn fod Heno a Prynhawn Da yn wasanaeth hynod o werthfawr i'n gwylwyr dan glo a llwyddodd y ddwy raglen i ddarlledu'n fyw a chynnig cymorth, cyngor ac adloniant drwy gydol y cyfnod. Wrth i bobl orfod aros adre a darganfod diddordebau newydd, manteisiwyd ar y cyfle i adlewyrchu hyn yn ein rhaglenni. Comisiynwyd dwy gyfres o Natur a Ni oedd yn canolbwyntio ar y byd o'n cwmpas ac fe addaswyd fformat Garddio a Mwy, gan ganiatáu iddi ddarlledu yn ddi-dor am bedwar mis a thyfu yn ei phoblogrwydd. Denodd y ddwy gyfres ymateb brwd ar y cyfryngau cymdeithasol wrth i wylwyr rannu eu profiadau o fywyd gwyllt a garddio dros y cyfnod.

Gan nad oedd modd i bobl deithio fe ddaethon ni â Chymru i gartrefi'r gwylwyr. Roedd Cymru o'r Awyr yn gyfle i ryfeddu at harddwch ein gwlad, cafwyd taith bysgota ar hyd rhai o ddyfroedd Cymru yn Pysgod i Bawb a rhoddodd Trysorau Cymru gip olwg tu ôl i'r llenni ar rai o dai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Cynhyrchwyd sawl dogfen newydd oedd yn adlewyrchu'r cyfnod - Galar yn y Cwm fu'n dilyn teulu o ymgymerwyr yn y gorllewin, Babis Covid Babis Gobaith oedd yn dathlu genedigaeth mewn pandemig ac a ffilmiwyd bron yn llwyr ar ffonau symudol, a Pandemig 1918/2020 oedd yn ddogfen hanesyddol yn cymharu effaith dau feirws ar ddau gyfnod go wahanol. Cafwyd hefyd ffilm ddogfen 90 munud Blwyddyn Covid: Lleisiau Cymru yn dilyn 50 o bobl yn cofnodi bywyd dan glo. Roedd gwaddol hanesyddol pwysig i'r dogfennau yma i gyd ac roeddent yn gofnod o gyfnod na welwyd ei debyg yn hanes darlledu.

Erbyn ail hanner y flwyddyn dychwelodd peth sefydlogrwydd a gyda pheth addasu i'r fformatau, gwelwyd rhai o'r hen ffefrynnau yn ôl ar y sgrin fel Cefn Gwlad, Nyrsys, Y Fets ac Am Dro. Parhaodd strand ddogfennol Drych i adrodd straeon amserol a phwerus. Roedd Bois y Rhondda yn ffilm gynnes am griw o hogiau ysgol oedd ar fin camu i'r byd mawr tra roedd Aled Haydn Jones: Ti, Fi a'r Fam Fenthyg yn dilyn taith cwpwl hoyw i esgor ar blentyn. Roedd Chwaer Fach, Chwaer Fawr yn adrodd stori dwy chwaer oedd yn ceisio adfer perthynas wedi'i thorri a chafwyd portread o gymuned pysgota fregus ym Mhen Llŷn yn Y Pysgotwyr.

Gyda mynediad arbennig i fyd gwaith Heddlu Traffig Gogledd Cymru darlledwyd y gyfres arsylwadol newydd Y Llinell Las. Profodd i fod yn un o gyfresi mwyaf llwyddiannus y flwyddyn ac eisoes mae'r tîm yn ffilmio ail gyfres.

Yng nghanol y cyfnod clo rhoddwyd cryn sylw i ymgyrch BLM wnaeth esgor ar drafodaeth ehangach ar y diffyg amrywiaeth ym mhob elfen o gymdeithas. Arweiniodd hyn ar gomisiynu cyfres adloniant ffeithiol newydd, Cymru, Dad a Fi yn dilyn taith o ddarganfod Cymru gan y tad a'r mab du o Gaerdydd, Connagh a Wayne Howard.

Despite the challenges of the pandemic and having to postpone numerous productions, the sector managed to create new, innovative and exciting factual content.

It became evident very early on that Heno and Prynhawn Da were a really valuable service for our viewers in lockdown and both programmes managed to broadcast live and offer support, advice and entertainment throughout the period. As people were forced to stay at home and find new interests, the opportunity was grasped to reflect this in our programmes. Two series of Natur a Ni were commissioned, looking at the world around us, and the format of Garddio a Mwy was tweaked, allowing it to broadcast continuously for four months and grow in popularity. Both series attracted an enthusiastic response on social media as viewers shared their experiences of wildlife and gardening over the period.

As people were unable to travel we brought Wales into the viewers' homes. Cymru o'r Awyr was an opportunity to marvel at our country's beauty, Pysgod i Bawb showed a fishing trip along Welsh waters and Trysorau Cymru gave us a glimpse behind the curtains of some of the National Trust's properties.

A number of documentaries reflecting the period were produced – Galar yn y Cwm followed a family of undertakers in the west, Babis Covid Babis Gobaith celebrated birth in a pandemic and was filmed almost entirely on mobile phones, and Pandemig 1918/2020 was a historical documentary comparing the effect of two viruses on two very different ages. We also had a 90-minute documentary film, Blwyddyn Covid: Lleisiau Cymru, following 50 people in lockdown. These documentaries all had an important historic legacy and were a record of a time without precedent in the history of broadcasting.

By the second half of the year some stability returned and, with certain format adaptations, old favourites like Cefn Gwlad, Nyrsys, Y Fets and Am Dro returned to the screen. The Drych documentary strand continued to recount timely and powerful stories. Bois y Rhondda was a warm film about a group of schoolboys about to step out into the world while Aled Haydn Jones: Ti, Fi a'r Fam Fenthyg followed a gay couple's journey to parenthood. Chwaer Fach, Chwaer Fawr told the tale of two sisters trying to mend a broken relationship and Y Pysgotwyr provided a portrait of a fragile fishing community in Pen Llŷn.

With special access to North Wales Traffic Police's operations, the new observational series Y Llinell Las was broadcast. It proved to be one of the year's biggest success stories and the team is already filming a second series.

In the middle of lockdown the BLM campaign received substantial attention which led to a broader discussion of the lack of diversity in all elements of society. This led to the commissioning of a new factual entertainment series, Cymru, Dad a Fi, following a journey of discovery of Wales with the black Cardiff father and son, Connagh and Wayne Howard.

Sgwrs Dan y Lloer



## Adloniant a Chomedi
## Entertainment and Comedy

Er gwaethaf heriau Covid-19, llwyddwyd i greu arlwy llawn creadigrwydd, diddanwch a hwyl ym maes adloniant a chomedi. Oherwydd ein mynediad arbennig i'r ysgol, achubwyd ar y cyfle i gomisiynu Dim Ysgol: Maesincla gan ddilyn straeon y gymuned unigryw hon yng Nghaernarfon tra bo'r ysgol ar gau. Er mawr glod i'r cynhyrchwyr ac i S4C, enillodd wobr Broadcast am y 'rhaglen ffeithiol a materion cyfoes orau yn ystod y cyfnod clo'. Un o lwyddiannau mawr arall y cyfnod oedd y gyfres Sgwrs Dan y Lloer. Yn sgil ymateb y cyhoedd, rydym wedi comisiynu dwy gyfres arall a phodlediadau ehangach o'r sgyrsiau i gyd-fynd gyda'r cynnwys llinol. Yn yr un modd, mae llwyddiant Lle Bach Mawr wedi esgor ar fformat trawslwyfanol newydd ar gyfer 2021. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, rhaid oedd addasu fformat nifer o'r brandiau cyfarwydd, ond daeth llwyddiant yn sgil y newidiadau gyda chyfres Jonathan er enghraifft yn denu'r gynulleidfa uchaf iddi ers 2012.

Ym maes comedi, crëwyd 'bybl' arbennig dros yr haf i ffilmio cyfres sit-com newydd Rybish.  Derbyniwyd ymateb positif i gymeriadau lliwgar Canolfan Ailgylchu Cefn Elidir ac mae cyfres arall wedi ei chomisiynu ar gyfer 2022.

Despite the challenges of Covid-19, a feast of creativity, entertainment and fun was provided in the field of entertainment and comedy. Thanks to our special access to the school, the opportunity was grasped to commission Dim Ysgol: Maesincla to follow the stories of this unique community in Caernarfon while the school was closed. To the producers' and S4C's great credit, it won the Broadcast award for 'best lockdown programme news, documentary and factual'. Another huge success of this period was the Sgwrs Dan y Lloer series. By public demand, two more series have been commissioned as well as more extensive podcasts of the chats to run alongside the linear content. Similarly, the success of Lle Bach Mawr has led to a new cross-platform format for 2021. Covid-19 restrictions necessitated adaptation of many of the familiar brands, but the changes brought success, with the Jonathan series, for example, attracting its biggest audience since 2012.

In comedy, a special summer 'bubble' was created to film a new sitcom series, Rybish. The colourful characters of Cefn Elidir Recycling Centre elicited a positive response and another series has been commissioned for 2022.

## Cerddoriaeth a Digwyddiadau
## Music and Events

Cafodd nifer fawr o'r digwyddiadau sy'n gonglfeini ein darpariaeth eu heffeithio oherwydd Covid-19. Serch hyn, addaswyd yn greadigol i'r sefyllfa gan gyd-weithio'n agos gyda'n partneriaid i adlewyrchu ysbryd gwyliau fel y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol gydag amrywiaeth o raglenni arbennig ac archif a oedd yn gyfle i edrych yn ôl gyda nostalgia ar ddigwyddiadau'r blynyddoedd cynt.

Darlledwyd cystadleuaeth Cân i Gymru yn fyw o Ganolfan y Mileniwm Cymru gyda chynulleidfa rithiol ar draws y wlad yn ymuno yn y dathlu. Cafwyd cynnwys atodol ar draws bob llwyfan i gyd-fynd â'r digwyddiad poblogaidd a llwyddodd i ddenu'r gynulleidfa fwyaf iddi ers pymtheg mlynedd. Ffilmiwyd Noson Lawen mewn un lleoliad gyda nifer cyfyngedig o gynulleidfa ar ffurf newydd a oedd mor llwyddiannus, byddwn yn parhau â hi i'r dyfodol. Comisiynwyd cyfres Canu Gyda Fy Arwr i gymryd lle Corau Rhys Meirion, a oedd yn methu cyfleu oherwydd y gwaharddiad ar ganu torfol yn ystod Covid-19. Hon fu un o lwyddiannau mawr y flwyddyn, gan ddenu un o gynulleidfaoedd uchaf y cyfnod clo. Yn ei sgil rydym wedi comisiynu ail gyfres.

Cafodd y sin cerddoriaeth gyfoes sylw blaenllaw mewn cyfnod anodd i'r diwydiant a gwnaed arbrawf arbennig i ffrydio bandiau byw yn ddigidol dan frand Stafell Fyw. Adlewyrchwyd amrywiaeth o gerddoriaeth gyfoes ar Curadur a Lŵp ac mi fydd y brandiau yma'n parhau yn flaenoriaeth i ni, yn ddigidol yn bennaf.

Many events that are the cornerstone of our provision were affected by Covid-19. Nevertheless, we adapted creatively to the situation, working closely with our partners to reflect the spirit of festivals such as the Royal Welsh and National Eisteddfod, with a variety of specials and archive programmes which were a chance to look back nostalgically at previous years' events.

The Cân i Gymru competition was broadcast live from the Wales Millennium Centre with a virtual audience across the nation joining in the celebrations. Added content was provided across all platforms to correspond with this popular event and it attracted its biggest audience in fifteen years. Noson Lawen was filmed in one location with a limited number audience and a new format that was so successful we will be sticking to it in future. A new series Canu Gyda Fy Arwr was commissioned to replace Corau Rhys Meirion, which couldn't convey due to the ban on mass singing during Covid-19. This was another of the year's major hits, attracting one of lockdown's highest audiences. As a result we have commissioned a second series.

The contemporary music scene was given prominence in a difficult time for the industry, and a special experiment in digitally streaming live bands took place under the Stafell Fyw brand. A variety of contemporary music was aired on Curadur and Lŵp and these brands will continue to be a priority for us, mainly on digital.



Cân i Gymru




## Plant, Pobl Ifanc a Dysgwyr
## Children, Young People and Learners

Mewn blwyddyn heriol i bawb, ymatebodd cynnwys plant a phobol ifanc S4C yn chwim er mwyn adlonni ac addysgu ieuenctid Cymru.

Yn ystod y clo mawr, roedd rhaid adlewyrchu bywydau plant a phobol ifanc a hefyd gomisiynu cynnwys newydd ac addas i'r cyfnod ar fyrder wrth i rai cyfresi fethu cyfleu oherwydd y cyfyngiadau. Roedd Ynys Adra i blant oed Cyw a Fideo Fi yn y Tŷ i Stwnsh yn gynnwys roedd plant yn eu saethu eu hunain am eu bywydau adre, a chomisiynwyd ffilm fer Hyn, cerdd gan Fardd Plant Cymru am brofiad Covid-19. Torrodd Eisteddfod T dir newydd ym myd darlledu fel yr Eisteddfod ddigidol gyntaf erioed gyda dros 4,000 o ffilmiau "adre" wedi eu hanfon i'r beirniaid eu hystyried.

Mewn blwyddyn o gyfyngder mawr i ysgolion, roedd hi'n hynod o bwysig bod S4C yn cyfrannu at ddarpariaeth addysg plant. Cyhoeddwyd Ysgol Cyw, detholiad o gynnwys 'dysgu wrth chwarae' ac adnoddau ar wefan Cyw, darlledwyd pecynnau fideo Bitesize bob bydd am fis a sefydlwyd sianel S4C ar Hwb, platfform addysg Llywodraeth Cymru sydd ar gael i bob disgybl yng Nghymru. Bu creu sianel S4C ar Hwb yn gam hynod o bwysig ac yn gychwyn partneriaeth hirdymor. Lansiwyd gyda 80 awr o gynnwys yn Ionawr 2021 a bydd rhagor o gyfresi yn cael eu trosglwyddo yn rheolaidd o hyn allan. Mae'r cynnwys yn amrywio o Shwshaswyn, meddylgarwch i blant meithrin, i Martha, Jac a Sianco - ffilm sydd ar fanyleb CBAC.

Yn 2020/21, darlledwyd y ddau broject cyntaf a ariannwyd yn rhannol gan YACF (Young Audience Content Fund) ar S4C: Sol, ffilm animeiddiedig a chyd-gynhyrchiad Celtaidd sy'n delio gyda galar plentyn, a chyfres newydd o Sali Mali i gefnogi addysg meithrin. Mae Y Gyfrinach, PersonA, Hei Hanes! a Byd Tad-cu hefyd wedi derbyn cyllid gan YACF ac mewn cynhyrchiad ar hyn o bryd. Mae'r gronfa yma o fudd mawr i ni ac mae eisoes wedi ein galluogi i gomisiynu cynnwys trawslwyfannol beiddgar i bobol ifanc 13+ am y tro cyntaf ers blynyddoedd.

Ar draws y llwyfannau digidol hefyd mae twf aruthrol wedi bod eleni mewn gwylio cynnwys S4C. Ar YouTube mae Caru Canu, cyfres animeiddiedig o rigymau doniol wedi denu a diddanu'r plant iau. Lansiwyd hefyd tair sianel YouTube newydd - Label Deg, Gemau Gamma a Popt i bobol ifanc 10-13 sef oed hynaf Stwnsh, gyda naw o flogwyr ifanc yn creu cynnwys atyniadol i feithrin cynulleidfa newydd. O ran dysgwyr, roedd cynnwys Saesneg Iaith ar Daith ar YouTube wedi denu gwylwyr newydd i'r sianel; dysgwyr a di-gymraeg yn ogystal â chreu sŵn ar y cyfryngau cymdeithasol.

In a challenging year for everyone, S4C's content for children and young people responded quickly to entertain and educate the young people of Wales.

During lockdown, there was a need to reflect children and young people's lives and also to urgently commission new appropriate material as some series failed to convey due to the restrictions. Ynys Adra, for the Cyw age group, and Fideo Fi yn y Tŷ for Stwnsh were content shot by children themselves about their home lives, and a short film Hyn, of a poem by the Welsh-language Children's Laureate about Covid-19 experiences, was commissioned. Eisteddfod T broke new ground in broadcasting as the first-ever digital Eisteddfod with over 4,000 home videos sent to the adjudicators for consideration.

In a year of great constriction for schools, it was vitally important that S4C contribute to children's educational provision. Ysgol Cyw, a selection of 'learning through play' content and resources, was published on the Cyw website, Bitesize video packages were broadcast every day for a month and an S4C channel was set up on Hwb, the Welsh Government's education platform which is available to all pupils in Wales. Creating the S4C channel on Hwb was an extremely important step and the start of a long-term partnership. It was launched with 80 hours' content in January 2021 and more series will be added regularly from now on. The content varies from Shwshaswyn, mindfulness for nursery children, to Martha, Jac a Sianco, a film on the WJEC's syllabus.

In 2020/21, the first two projects partly funded by YACF (Young Audience Content Fund) were broadcast on S4C: Sol, an animated film and Celtic co-production dealing with a child's grief, and a new series of Sali Mali to support nursery education. Y Gyfrinach, PersonA, Hei Hanes! and Byd Tad-cu have also received funding from YACF and are currently in production. This fund is of great benefit to us and has already enabled us to commission bold cross-platform content for 13+ young people for the first time in years.

There has also been enormous growth in S4C content viewing across the digital platforms. On YouTube, Caru Canu, an animated series of funny rhymes, has attracted and entertained the younger children. Three new YouTube channels were launched too - Label Deg, Gemau Gamma a Popt for 10-13 year-olds - the upper age for Stwnsh - with nine young vloggers creating attractive content for a new audience. With regard to Welsh learners, the English Iaith ar Daith content on YouTube attracted new viewers to the channel – learners and non-Welsh speakers – as well as creating a buzz on social media.

Iaith ar Daith 2021





Rygbi Rhyngwladol

Sgorio Rhyngwladol

## Chwaraeon
## Sports

Bu eleni yn stori o ddwy hanner yn nhermau ein darpariaeth chwaraeon. Dechreuodd yn ystod wythnos gyntaf y pandemig pan ddiflannodd 170 awr o raglenni, sef pob un digwyddiad chwaraeon a oedd wedi eu cynllunio, o'r amserlen rhwng Mawrth a Gorffennaf 2020.

Ymateb S4C oedd mynd ati i lenwi'r angen gyda chynnwys amgen ac archif. Gan guradu rhaglenni llawn atgofion o ddigwyddiadau, gemau a llwyddiannau cynt, llwyddwyd rhoi gwên ar wynebau pobl oedd yn teimlo'n ynysig heb chwaraeon byw i'w ddiddanu. Hefyd crëwyd cyfleoedd pwysig i'r cynhyrchwyr a'r cwmnïau oedd wedi colli gwaith yn ystod y pandemig i greu cynnwys o'r newydd. Comisiynwyd rhaglenni "edrych yn ôl" fel Clasuron y Clybiau, Rygbi Dyddiau Da a Hanes yr Her a darganfuwyd ambell glasur yn yr archifau hefyd fel Yr Urdd 50 - Gêm Carwyn James v Barry John o 1972.

Arbrofwyd gyda rhaglen seiclo rithiol yn E-seiclo Ras Zwift a Golff: Celtic Classic yn ogystal â fformatau newydd, addas ar gyfer eu ffilmio yn y cyfnod clo fel Y Tŷ Rygbi a'r cwis Gêm Gartre.

Erbyn diwedd yr haf, dechreuodd digwyddiadau chwaraeon ddychwelyd a'r flaenoriaeth oedd gorffen cystadlaethau a ohiriwyd oherwydd Covid-19. Heb y stadia ar agor i'r ffans y nod pennaf oedd ennill hawliau i ddangos chwaraeon byw a llwyddwyd felly gyda gemau rygbi Cymru yng Nghwpan Cenhedloedd yr Hydref a gemau rhagbrofol Cwpan y Byd tîm pêl droed Cymru. Denodd gemau rygbi rhyngwladol yr hydref gynulleidfa uchaf y sianel, ar deledu ac ar blatfformau ar-lein S4C (Clic/iPlayer) ers dechrau'r pandemig gyda gêm Cymru yn erbyn Lloegr yn denu'r cyrhaeddiad uchaf o holl ddarllediadau S4C dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn ogystal â'r gwylwyr arferol, apeliodd y gemau rhyngwladol yma at gynulleidfa eang ac amrywiol ar draws Cymru a gweddill y DU gan dyfu ymwybyddiaeth am frand S4C ac S4C Clic yn syfrdanol.

Yn ogystal â'r llinol mae'r arlwy ar-lein yn parhau i esblygu. Rydyn ni wedi ffrydio mwy o gemau Sgorio yn fyw eleni ac wedi symud Ralio 2021 i wasanaeth ar-lein yn unig gyda chyfuniad o vodcasts ac adroddiadau ffurf fer. Mae chwaraeon ar gyfryngau cymdeithasol S4C yn parhau i berfformio'n gryf ar draws ystod yr arlwy. Dros y cyfnod clo, gwnaethpwyd defnydd helaeth o'r archif gan ddangos hen gemau a rhaglenni chwaraeon ar dudalen Facebook S4C Chwaraeon a Sgorio ar ffurf 'Facebook Live' a 'Facebook Premieres'. Perfformiodd clipiau yn dda hefyd. Cafodd cyfweliad George North yn dilyn ei ganfed cap dros Gymru 74,591 o views ar Facebook a 41,100 ar Trydar.

This year was a story of two halves in terms of our sports output. It started in the first week of the pandemic with the disappearance of 170 hours of programming, namely every single planned sporting event, from the schedule between March and July 2020.

S4C's response was to proceed to fill the gap with alternative and archive content. The curation of programmes full of memories of past events, matches and victories succeeded in putting a smile on the faces of people who felt isolated without live sports to cheer them up. Furthermore, important opportunities were created for those producers and companies who had lost work during the pandemic to create new content. 'Retrospective' programmes were commissioned such as Clasuron y Clybiau, Rygbi Dyddiau Da and Hanes yr Her and one or two classics were found in the archives, like Yr Urdd 50 - Gêm Carwyn James v Barry John from 1972.

A virtual cycling programme was trialled in E-seiclo Ras Zwift and Golf: Celtic Classic as well as new, suitable-for-lockdown-filming formats like Y Tŷ Rygbi and the quiz Gêm Gartre.

By the summer's end, sporting events started to return with priority given to finishing competitions postponed due to Covid-19. With stadia closed to fans, the main aim was to win rights to show live sports and we succeeded in this with the Wales rugby matches in the Autumn Nations Cup and the Welsh football team's World Cup qualifiers. The autumn rugby internationals attracted the channel's highest audience, on TV and on S4C's on-line platforms (Clic/iPlayer) since the start of the pandemic with Wales v England attracting the highest reach of all S4C broadcasts over the past 10 years. As well as the usual viewers, these internationals appealed to a large and diverse audience across Wales and the rest of the UK, which grew awareness of the S4C brand and S4C Clic to an astonishing degree.

In addition to the linear, the on-line provision continues to evolve. We have streamed more Sgorio matches live this year and have moved Ralio 2021 to on-line only with a combination of vodcasts and short-form reports. Sports on S4C social media continue to perform strongly across the range of provision. During lockdown, extensive use was made of the archive, with old games and sports programmes shown on S4C Chwaraeon's and Sgorio's Facebook pages in the form of 'Facebook Live' and 'Facebook Premieres'. The clips performed well too. George North's interview following his 100th cap for Wales received 74,591 views on Facebook and 41,100 on Twitter.

## Drama ac Operâu Sebon
## Drama and Soap Operas

Drama yw un o'r genres gafodd ei effeithio fwyaf gan gyfyngiadau Covid-19 a hynny oherwydd maint a chymhlethdodau'r broses gynhyrchu. Serch hynny, roedd 2020/21 yn flwyddyn o arbrofi ac o lwyddiant aml-lwyfan.

Ar gychwyn y cyfnod clo, tra darlledwyd 35 Diwrnod: Parti Plu ar y teledu, roedd cyfresi blaenorol y fformat (1-4) yn cydio ac yn denu'r gwylwyr ar Britbox. Roedd hi'n braf hefyd gallu defnyddio S4C Clic fel llwyfan i ddiwallu chwant y gynulleidfa am fwy o ddramâu tra dan glo gyda sawl cyfres newydd o Walter Presents yn ogystal â chyfresi bocs sets eithriadol o boblogaidd o'r archif fel Tipyn o Stad yn ymddangos ar lein.

Er mwyn helpu'r diwydiant i oroesi ac arloesi drwy'r cyfnod, ffurfiodd S4C Fforwm Drama arbennig gan wahodd cynhyrchwyr i fynychu a rhannu eu profiadau o gwmpas Covid-19. Bu'r Fforwm yn bwysig i helpu'r cwmnïau ddatblygu canllawiau a phrosesau ffilmio diogel alluogodd iddynt adfer y broses gynhyrchu yn ystod y pandemig. O ganlyniad yn rhannol i'r gwaith ymgysylltu yma, S4C oedd y darlledwr cyhoeddus cyntaf yn y DU i gomisiynu, cynhyrchu a darlledu drama o dan gyfyngiadau Covid-19 gyda'r gyfres arloesol Cyswllt (Mewn Covid). Aeth y ddrama ati i adlewyrchu realiti bywyd y cyfnod ar ffurf cynnwys a ffilmiwyd gan yr actorion eu hunain gan ddefnyddio technoleg rithiol.

Wedi misoedd o beidio gallu ffilmio oherwydd y cyfyngiadau, croesawyd ein hoperâu a sebon Pobol y Cwm yn ôl i'r amserlen ym mis Medi a dychwelodd Rownd a Rownd hefyd. . Erbyn mis Tachwedd roedd ffans Faith Howells wrth eu bodd o weld y cymeriad a'i hanes hi'n dychwelyd i'r sgrin yn y drydedd (a'r olaf) o'r gyfres Un Bore Mercher.

Roedd yna gyffro yn ogystal ym maes ffilmiau i S4C wrth i'r ffilm arswyd Gwledd fwynhau premier fyd eang yng ngŵyl SXSW cyn cael ei dangos mewn sinemâu yn yr UDA ac yng Nghanada ac yna yn y DU.

Bu hefyd yn flwyddyn o arbrofi a gwthio'r ffiniau dan frand Hansh gyda chystadleuaethau Her Ffilm Fer yn gosod tasg i bobl ifanc o greu ffilm fer wreiddiol mewn 48 awr. Crëwyd dros 50 ffilm dros y ddwy gystadleuaeth gyda rhai o arbenigwyr mwyaf blaenllaw Cymru yn cynnal dosbarthiadau meistr ac yn beirniadu gwaith y crëwyr ifanc. Darlledwyd y ffilmiau ar YouTube Hansh ac mewn rhaglen arbennig ar S4C ar ddiwedd mis Chwefror.

Nôl ar y brif sgrin ym mis Ionawr 2021, darlledwyd drama ddwyieithog Cymraeg a Thwrceg gyntaf S4C sef Fflam. Ffilmiwyd hon hefyd dan gyfyngiadau Covid-19 a thanysgrifiodd dros 1700 o bobl o Dwrci er mwyn ei gwylio hi ar S4C Clic. Drama arall i gael cryn sylw a chlod yn y wasg Brydeinig - gan gynnwys Critic's Choice yn y Sunday Times - oedd Bregus, drama ias a chyffro seicolegol a ddarlledwyd ym mis Mawrth gan ddod â'r flwyddyn heriol ond arloesol hon ym myd drama i ben.

Drama is one of the genres most impacted by Covid-19 restrictions, due to the size and complexities of the production process. Nevertheless, 2020/21 was a year of experimentation and of multi-platform success.

At the beginning of lockdown, while 35 Diwrnod: Parti Plu was broadcast on TV, previous seasons of the format (1-4), were popular and attracting viewers on Britbox. It was pleasing also to be able to use S4C Clic as a platform to satisfy the audience's desire for more drama in lockdown with numerous new series of Walter Presents as well as highly popular boxset series from the archive, like Tipyn o Stad, appearing on-line.

In order to help the industry survive and innovate throughout the period, S4C formed a special Drama Forum, inviting producers to attend and share their experiences around Covid-19. The Forum was important in helping companies develop safe filming guidelines and processes which enabled them to resume production during the pandemic. Partly as a result of this engagement work, S4C was the first public broadcaster in the UK to commission, produce and broadcast drama under Covid-19 restrictions with the groundbreaking series Cyswllt (Mewn Covid). The drama set about reflecting the reality of current life in the form of content filmed by the actors themselves using virtual technology.

After months of being unable to film due to the restrictions, our soap opera Pobol y Cwm was welcomed back to the schedules in September and Rownd a Rownd also returned. By November, fans of Faith Howells were thrilled to see the character and her story return to the screen for the third (and final) series of Un Bore Mercher (Keeping Faith.).

There was excitement in the film world too for S4C as the horror film Gwledd enjoyed its world premiere at the SXSW festival before being shown in cinemas in the USA and Canada and subsequently in the UK.

It was also a year of experimentation and pushing boundaries under the Hansh brand with the Her Ffilm Fer competitions setting a task for young people to create an original short film in 48 hours. Over 50 films were created over the two competitions and some of Wales' most prominent specialists held master classes and judged the young creators' works. The films were broadcast on YouTube Hansh and in a special programme on S4C at the end of February.

Back on the main screen in January 2021 Fflam, S4C's first bilingual Welsh and Turkish drama was broadcast. This too was filmed under Covid-19 restrictions and over 1700 people from Turkey subscribed to view it on S4C Clic. Another drama that received considerable plaudits in the UK press - including Critic's Choice in the Sunday Times - was Bregus, a psychological thriller broadcast in March, bringing this challenging but groundbreaking year in the world of drama to a close.





## Crefydd
## Religion

Wrth i gapeli ac eglwysi ledled Cymru gau oherwydd Covid-19 comisiynwyd Oedfa, rhaglen wythnosol a oedd yn cynnig cyfle i bobl addoli adre. Er bod effaith Covid-19 wedi dileu Cymanfa'r Eisteddfod Genedlaethol llwyddodd Dechrau Canu Dechrau Canmol i addasu a chadw yn ei iawn le yn yr amserlen gan dderbyn gwerthfawrogiad cynnes gan y gynulleidfa

With chapels and churches throughout Wales closed due to Covid-19, a weekly programme, Oedfa, was commissioned to offer people an opportunity to worship at home. Although the National Eisteddfod 's Cymanfa Ganu was cancelled due to Covid-19, Dechrau Canu Dechrau Canmol adapted itself and maintained its rightful place in the schedule, which was warmly appreciated by the audience.



▲ Bregus

▶ Dechrau Canu Dechrau Canmol

# Mesur Perfformiad S4C
# Measuring S4C's Performance

**Defnyddir ystod o fesuryddion er mwyn mesur ac asesu perfformiad gwasanaethau S4C.**
Mae'r rhain yn cynnwys ffigyrau gwylio ar gyfer teledu a gwasanaethau ar-lein, mesuryddion ansoddol sy'n cyflwyno darlun ehangach o ddefnydd, gwerthfawrogiad, effaith a gwerth gwasanaethau S4C.

**S4C's services are evaluated using a range of performance measures.**
These include viewing figures for television and online services, qualitative indicators that present a wider picture of usage, appreciation and the impact and value of S4C's services.

## Defnydd a Chyrhaeddiad
## Usage & Reach

1
Dylai gwasanaethau S4C geisio cyrraedd y nifer fwyaf posibl o ddefnyddwyr o fewn eu cynulleidfaoedd targed, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg yng Nghymru, ac yn ogystal pobl â diddordeb yng Nghymru ar draws gweddill y DU.
S4C's services should seek to maximise their reach among their target audiences including Welsh speakers and non-Welsh speakers in Wales, and also those in the rest of the UK with an interest in Wales.

2
Cynnydd pellach o o leiaf 10% i wylio ar-lein i gynnwys S4C ar lwyfannau digidol gan gynnwys a S4C Clic a BBC iPlayer.
Further increase of at least 10% to online viewing for S4C content on digital platforms including S4C Clic and BBC iPlayer.

## Gwerthfawrogiad
## Appreciation

3
Gwerthfawrogiad o raglenni S4C ymysg siaradwyr Cymraeg i fod cystal â rhaglenni'r prif ddarlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.
Appreciation of S4C's programmes amongst Welsh speakers to be as good as that of programmes by the other main public service broadcasters in Wales.

4
S4C i gael ei hystyried â chryfderau uwchlaw sianeli eraill wrth adlewyrchu Cymru a'r Cymry.
S4C to be considered as having strengths above other channels when reflecting Wales and the Welsh people.

## Effaith
## Impact

5
Cynnwys S4C i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru.
S4C's content to have a positive impact on the development of the Welsh language and people's awareness of the culture of Wales.

6
Gwerthfawrogiad a defnydd da o'r gwasanaethau ar gyfer plant.
Appreciation and good use of the services for children.

7
Sicrhau fod S4C yn darparu ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn llwyddiannus gyda rhaglenni a gwasanaethau addas.
Ensure that S4C successfully provides appropriate programmes and services for Welsh learners

## Gwerth am Arian
## Value for Money

8
Sicrhau bod gwasanaethau S4C yn darparu gwerth am arian i'r gynulleidfa.
Ensure that S4C's services provide value for money to the audience.

9
Sicrhau fod buddsoddiad S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl.
Ensure that S4C's investment in the creative industries in Wales has the greatest economic impact possible.

10
Gweithio gyda'r sector i hybu swyddi, twf a sgiliau
Working with the sector to promote jobs, growth and skills

11
S4C a'r sector i arddangos creadigrwydd a thalent Cymru i'r byd, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n diwylliant
S4C and the sector to showcase Wales' creativity and talent to the world, promoting the Welsh language and culture

# 1

**Dylai gwasanaethau S4C geisio cyrraedd y nifer fwyaf posibl o ddefnyddwyr o fewn eu cynulleidfaoedd targed, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg yng Nghymru, ac yn ogystal pobl â diddordeb yng Nghymru ar draws gweddill y DU.**
**S4C's services should seek to maximise their reach among their target audiences including Welsh speakers and non-Welsh speakers in Wales, and also those in the rest of the UK with an interest in Wales.**

## Mesur ffigyrau gwylio S4C
## Measuring S4C's viewing figures

Mae mesur cynulleidfa S4C bellach yn cynnwys cyfri gwylwyr ar lwyfannau teledu traddodiadol, yng Nghymru ac ar draws y DU, gwylwyr ar y prif lwyfannau ar-lein, S4C Clic a BBC iPlayer, ac yn ogystal rheini sy'n dewis gwylio cynnwys S4C ar ystod eang o lwyfannau ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Mae asesu'r gwylio ar draws yr ystod eang o lwyfannau, ac ar ddyfeisiau yn hytrach na theledu yn unig, yn cynnig darlun mwy cynhwysfawr o ddefnydd o'n holl wasanaeth.

Er mwyn sicrhau darlun cynhwysfawr am holl wylio S4C, mae'n bwysig ystyried data ar gyfer gwylio teledu a gesglir gan BARB ynghyd ag ystadegau gwylio S4C Clic a BBC iPlayer ac ar ein holl lwyfannau cymdeithasol.

Defnyddir 'cyrhaeddiad' gwasanaeth teledu fel y dull o fesur y gynulleidfa. Cyrhaeddiad yw'r term a ddefnyddir ar gyfer nodi faint o bobl unigol sy'n gwylio gwasanaethau S4C ar deledu (a lle nodir hynny ar lwyfannau eraill) dros gyfnod penodol. Mae'r mesur cyrhaeddiad safonol yn gyfyngedig i fesur gwylio ar deledu ac felly nid yw'r data cyrhaeddiad ar gyfer gwylio teledu a nodir isod yn cynnwys defnydd ar-lein o gynnwys S4C ar lechen, gliniadur na ffôn.

Mae'r asesiad o wylio ar deledu yn seiliedig ar fesur cyrhaeddiad wythnosol 3 munud safonol BARB, sef y mesur mwyaf addas ar gyfer gwasanaeth teledu S4C, fel sianel gydag amserlen amrywiol yn ystod y flwyddyn, a sianel sy'n darlledu hysbysebion. Rydym yn cyhoeddi ac yn cadw llygad ar feini prawf cyrhaeddiad eraill, gan gynnwys y mesur 15 munud misol a chyrhaeddiad blynyddol y sianel fel dangosyddion o effaith y sianel dros gyfnodau hwy. Rydym hefyd yn adrodd ar gyfartaledd oriau gwylio S4C ar deledu ac ar S4C Clic a BBC iPlayer.

Mae'r defnydd a wneir o gynnwys S4C ar lwyfannau digidol yn ystyriaeth bwysig, ac felly adroddir ar y defnydd hwn hefyd gan ddefnyddio mesuryddion safonol.

Measuring the size of S4C's audience now includes viewers on traditional television platforms, in Wales and across the UK, viewers on the main online platforms, S4C Clic and BBC iPlayer, and in addition those who watch S4C's content on a range of online platforms, including social media. Assessing viewing across all platforms, and on devices other than just television, provides a more comprehensive and accurate picture of the use of all our services.

In order to gain a comprehensive picture of all S4C's viewing, it is important to take into account television data collected by BARB, and also viewing statistics for S4C Clic and BBC iPlayer and on a range of social media platforms.

Viewing on television is measured by the 'reach' of a service. Reach is the term used to identify how many individual people watch S4C's services on television (and where indicated on other platforms) over a given period. The standard measure of reach is limited to measuring television viewing and therefore the television reach data set out below does not include online use of S4C content on tablet, laptop or mobile phone.

The assessment of television viewing is based on the BARB standard 3 minute weekly reach measure, which is the most suitable measure for a service such as S4C's, as a channel with a varied schedule during the year, and a channel that broadcasts advertisements. We publish and monitor other reach criteria, including the 15 minute monthly measure and the channel's annual reach as indicators of the channel's impact over longer periods. We also report average hours of viewing to S4C on television and on S4C Clic and BBC iPlayer.

The use made of S4C's content on digital platforms is an important consideration, hence this is also reported on using industry standard metrics.

## Ar deledu
## On TV

# 823,000

**823,000 o bobl wedi gwylio S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU (2019/20: 702,000)**
**823,000 people watched S4C on TV every week throughout the UK (2019/20: 702,000)**

# 321,000

**321,000 o bobl yng Nghymru wedi gwylio S4C ar deledu bob wythnos (2019/20: 306,000)**
**321,000 people in Wales watched S4C on TV each week (2019/20: 306,000)**

# 20,200

**20,200 oedd cynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig (2019/20: 18,600)**
**20,200 was the average audience in the peak hours (2019/20: 18,600)**

# 13.5m

**13.5 miliwn o bobl wyliodd S4C drwy'r DU ar ryw adeg yn 2020/21 (2019/20: 11.5 miliwn)**
**13.5 million individuals watched S4C throughout the UK at some time during 2020/21 (2019/20: 11.5 million)**

## Ar-lein
## Online

# 209,407

**209,407 o gofrestrwyr S4C Clic erbyn diwedd 2020/21 (o gymharu â 106,985 erbyn diwedd 2019/20)**
**209,407 S4C Clic registrations by the end of 2020/21 (compared with 106,985 at the end of 2019/20)**

# 70%

**70% o sesiynau S4C Clic wedi dod o Gymru, 28% o weddill y DU a 2% o dramor**
**70% of S4C Clic sessions from Wales, 28% from the rest of the UK and 2% from abroad**

# 2.70m

**2.70 miliwn o oriau gwylio ar S4C Clic a BBC iPlayer (2019/20: 2.14 miliwn)**
**2.70 million hours viewed on S4C Clic and the BBC iPlayer (2019/20: 2.14 million)**

# 11.0m

**11.0 miliwn o sesiynau gwylio ar S4C Clic a BBC iPlayer (2019/20: 8.2 miliwn)**
**11.0 million viewing sessions on S4C Clic and BBC iPlayer (2019/20: 8.2 million)**

# Ffigyrau gwylio S4C ar deledu
## S4C television viewing figures

Mae'r graffiau isod yn nodi cyrhaeddiad (ar deledu) gwasanaeth S4C ar sail wythnosol a blynyddol, yn ogystal â chynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig

The graphs below sets out the reach (on television) of the S4C service on a weekly and annual basis, plus S4C's average audience in the peak hours.

DU / UK — Cymru / Wales — Tu Allan i Gymru / Outside Wales — Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru / Welsh Speakers in Wales

Cyrhaeddiad wythnosol
(o leiaf 3 munud olynol)
Weekly reach
(at least 3 consecutive minutes)




Cyrhaeddiad blynyddol S4C
(3 munud olynol)
Annual reach
(at least 3 consecutive minutes)




Cynulleidfa S4C ar gyfartaledd
yn yr oriau brig (7pm – 10pm)
S4C's average audience in
the peak hours (7pm-10pm)








# Gwylio S4C ar-lein
## S4C online viewing

2

**Cynnydd pellach o 10% i wylio ar-lein i gynnwys S4C ar lwyfannau digidol gan gynnwys S4C Clic a BBC iPlayer.**
**Further increase of 10% to online viewing for S4C content on digital platforms including S4C Clic and BBC iPlayer**

Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran defnydd gwasanaethau ar-lein S4C ar draws y DU yn ystod 2020/21, ond gyda phatrymau newydd yn datblygu wrth i S4C barhau i gynnig rhaglenni a chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook - a dulliau newydd o gyflwyno'n cynnwys - megis dramâu fel bocs sets.

Mae'r defnydd o gynnwys ar S4C Clic a'r BBC iPlayer yn parhau i fod yn sylweddol, gyda oriau S4C Clic i fyny +45% a S4C ar BBC iPlayer i fyny +20%.

A significant increase in the use of S4C's on-line services was seen across the UK during 2020/21, with new patterns developing as S4C continues to offer programmes and content on social media - such as Facebook - and via new delivery methods including box set dramas.

Usage on S4C Clic and BBC iPlayer continues to be significant, with an increase of +45% for S4C Clic hours and +20% for BBC iPlayer.

Oriau gwylio ar S4C Clic a BBC iPlayer
Hours viewed on S4C Clic and the BBC iPlayer




Yn cyfateb i'r hyn a wneir ar draws y diwydiant, mae oriau gwylio S4C Clic a BBC iPlayer yn tybied fod 1.5 person yn gwylio pob ffrwd ar deledu ac 1.0 person yn gwylio pob ffrwd ar ddyfais arall (gliniadur, llechen a ffôn clyfar).
In line with industry standards, viewing hours for S4C Clic and BBC iPlayer presume that 1.5 persons watch each stream of content on television, with 1.0 person watching each stream on other devices (laptop, tablet and smartphone).

Oriau gwylio pob tudalen Facebook S4C
Hours viewed of every S4C Facebook page




Oriau gwylio pob sianel YouTube S4C
Hours viewed of every S4C YouTube channel








# Ugain clip uchaf ar Facebook
## Top twenty clips viewed via Facebook

Mae'r ugain uchaf isod yn nodi'r math o gynnwys sy'n boblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol.

The top twenty below indicate the type of content that is popular on social media.

| | Clip | Cyfrif<br>Account | Sesiynau gwylio<br>Viewing sessions |
|---|---|---|---|
| 1 | POST! | Hansh | 301,000 |
| 2 | Tywydd Hansh - Glaw | Hansh | 265,000 |
| 3 | Côr Digidol Rhys Meirion – Calon Lân | S4C | 227,000 |
| 4 | Jonathan – Stori Shane Williams a Warren Gatland | S4C | 221,000 |
| 5 | Adrian Chiles – Caru Cymru \| Iaith ar Daith | S4C | 200,000 |
| 6 | Iaith ar Daith – Gwyliwch Eto | S4C | 135,000 |
| 7 | Uchafbwyntiau Cymru v Lloegr 1999 | S4C Chwaraeon | 115,000 |
| 8 | Doctor Dre - Covid-Dre | S4C Comedi | 115,000 |
| 9 | Dwylo Dros y Môr 2020 | S4C | 110,000 |
| 10 | Doctor Dre – Ymbellhau Cymdeithasol | S4C Comedi | 84,000 |
| 11 | Cefn Gwlad: Dathlu Dai | S4C | 81,000 |
| 12 | Hen Wlad Fy Nhadau – Ffrainc v Cymru | S4C Chwaraeon | 80,000 |
| 13 | James Hook – Iaith ar Daith | S4C | 76,000 |
| 14 | Uchafbwyntiau Llanelli v Pontypridd 2002 | S4C Chwaraeon | 73,000 |
| 15 | Cyfweliad George North ar ôl ei ganfed cap | S4C Chwaraeon | 73,000 |
| 16 | Leigh Halfpenny yn cicio – Scarlets v Munster | S4C Chwaraeon | 73,000 |
| 17 | Clip Hyrwyddo Bocs Set “Mawr” | S4C | 72,000 |
| 18 | Llandudno – Ffilmiau Ddoe | S4C | 66,000 |
| 19 | Clip Hyrwyddo Doniol – Y Fets | S4C | 65,000 |
| 20 | Cais Ieuan Evans – Llanelli v Awstralia 1992 | S4C Chwaraeon | 62,000 |

## 40 Rhaglen uchaf S4C yn 2020/21
## S4C Top 40 programmes in 2020/21

Sgorio Rhyngwladol

Mae S4C yn awyddus i sicrhau fod nifer teilwng o raglenni yn rhoi cyfleoedd ar gyfer gwylio torfol yn ystod y flwyddyn, ond gan sicrhau nad yw hyn yn digwydd ar draul pwrpas darlledu gwasanaeth cyhoeddus y sianel. O fewn un sianel deledu a gwasanaeth ar-lein, mae gwrthdaro cynhenid yn bodoli rhwng ceisio gwasanaethu cynulleidfa eang a cheisio sicrhau fod pob rhaglen yn denu ffigyrau gwylio uchel.

Mae'r 40 rhaglen fwyaf poblogaidd ar deledu yn ystod 2020/21 yma. Y bennod uchaf yn unig o fewn pob cyfres a ddangosir yma.

S4C is eager to ensure that a sizeable number of programmes provide opportunities to attract substantial audiences during the year, whilst ensuring that this is not achieved to the detriment of S4C's public service purposes. Within one television channel and online service, there exists an inherent tension between the aim of serving a diverse audience and that of ensuring each programme achieves high viewing figures.

The top 40 most popular programmes on television during 2020/21 are set out here. Only the highest single occurrence in each series is shown here.




| | Rhaglen<br>Programme | Genre<br>Genre | Dyddiad<br>Date | Cyrhaeddiad<br>Reach |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: Cwpan yr Hydref (Cymru v Lloegr) | Chwaraeon | 28/11/2020 | 690,000 |
| 2 | Sgorio Rhyngwladol: Cwpan y Byd (Gwlad Belg v Cymru) | Chwaraeon | 24/03/2021 | 285,000 |
| 3 | Sgorio Rhyngwladol (Cymru v Mecsico) | Chwaraeon | 27/03/2021 | 267,000 |
| 4 | Patrôl Pawennau | Plant | 09/03/2021 | 266,000 |
| 5 | Sgorio Rhyngwladol: Cynghrair y Cenhedloedd (Cymru v Y Ffindir) | Chwaraeon | 18/11/2020 | 237,000 |
| 6 | Clwb Rygbi: Pro 14 (Scarlets v Dreigiau) | Chwaraeon | 01/01/2021 | 195,000 |
| 7 | Clwb Rygbi Rhyngwladol (Ffrainc v Cymru) | Chwaraeon | 24/10/2020 | 175,000 |
| 8 | Clwb Rygbi: Cwpan Her (Gweilch v Castres) | Chwaraeon | 12/12/2020 | 162,000 |
| 9 | Cefn Gwlad | Ffeithiol | 01/01/2021 | 108,000 |
| 10 | Glanaethwy yn 30 | Ffeithiol | 31/12/2020 | 103,000 |
| 11 | Jonathan | Adloniant | 11/03/2021 | 102,000 |
| 12 | Blero yn Mynd i Ocido | Plant | 30/03/2021 | 102,000 |
| 13 | Iaith Ar Daith | Adloniant | 03/05/2020 | 93,000 |
| 14 | Heno | Materion Cyfoes | 03/02/2021 | 85,000 |
| 15 | Miwsig Fy Mywyd | Cerddoriaeth | 25/07/2020 | 83,000 |
| 16 | Pobol Y Cwm: y Cymeriadau | Ffeithiol | 27/08/2020 | 81,000 |
| 17 | Llofruddiaeth Mike O'Leary | Materion Cyfoes | 04/11/2020 | 79,000 |
| 18 | Ffermio | Materion Cyfoes | 18/01/2021 | 78,000 |
| 19 | Guto Gwningen | Plant | 27/07/2020 | 76,000 |
| 20 | Noson Lawen | Adloniant | 26/12/2020 | 75,000 |

| | Rhaglen<br>Programme | Genre<br>Genre | Dyddiad<br>Date | Cyrhaeddiad<br>Reach |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 35 Diwrnod | Drama | 24/05/2020 | 74,000 |
| 22 | Newyddion | Newyddion | 25/03/2021 | 73,000 |
| 23 | Priodasau Cwmderi | Ffeithiol | 28/07/2020 | 72,000 |
| 24 | Only Men Aloud: y Sioe | Cerddoriaeth | 15/01/2021 | 72,000 |
| 25 | Eisteddfod T | Digwyddiadau | 30/05/2020 | 71,000 |
| 26 | Drych: Bois y Rhondda | Ffeithiol | 21/06/2020 | 71,000 |
| 27 | Dechrau Canu Dechrau Canmol | Crefydd | 20/12/2020 | 71,000 |
| 28 | Welsh Whisperer: Ni'n Teithio Nawr! | Adloniant | 26/03/2021 | 69,000 |
| 29 | Rhyfeddodau Chwilengoch a Cath Ddu | Plant | 17/02/2021 | 69,000 |
| 30 | Am Dro! | Adloniant | 28/12/2020 | 69,000 |
| 31 | Pobol y Cwm | Drama | 07/05/2020 | 68,000 |
| 32 | Y Gymanfa Ganu | Crefydd | 09/08/2020 | 67,000 |
| 33 | Clwb Rygbi: Super Rugby Aotearoa | Chwaraeon | 05/07/2020 | 67,000 |
| 34 | Urdd 50: Barry John v Carwyn James | Chwaraeon | 26/05/2020 | 66,000 |
| 35 | Ken Hughes yn Cadw Dolig i Fynd | Adloniant | 25/12/2020 | 66,000 |
| 36 | Un Bore Mercher | Drama | 01/11/2020 | 65,000 |
| 37 | Canu Gyda Fy Arwr | Cerddoriaeth | 10/01/2021 | 65,000 |
| 38 | Y Llinell Las | Ffeithiol | 16/02/2021 | 63,000 |
| 39 | Guinness World Records Cymru | Adloniant | 31/03/2021 | 63,000 |
| 40 | Cân i Gymru | Cerddoriaeth | 05/03/2021 | 63,000 |







Ken Hughes yn Cadw Dolig i Fynd

# 3

**Gwerthfawrogiad o raglenni S4C ymysg siaradwyr Cymraeg i fod cystal â rhaglenni'r prif ddarlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru**
**Appreciation of S4C's programmes amongst Welsh speakers to be as good as that of programmes by the other main public service broadcasters in Wales.**

Defnyddir mesur gwerthfawrogiad o raglenni S4C fel sail i fesur a gwerthuso ansawdd gwasanaeth S4C yn ei gyfanrwydd a genres penodol. Cyfeirir at y mesur hwn fel mesur "AI" (Appreciation Index) – sgôr allan o 100.

Mae trafodaethau am gynnwys S4C ar lwyfannau digidol hefyd yn fesur o werthfawrogiad y gynulleidfa. Mae'r mesur AI yn rhoi asesiad ansoddol o berfformiad rhaglenni ar y gwasanaeth teledu, ac yn cynorthwyo'r Bwrdd i asesu perfformiad gwasanaeth S4C yn ei gyfanrwydd ac o ran genres penodol.

An appreciation measure of S4C's programmes is used as the basis for measuring and evaluating the quality of the S4C service as a whole and its specific genres. This measure is referred to as an "AI" measure (Appreciation Index) - a score out of 100.

Discussions about S4C's content on social media are also a measure of audience appreciation. The AI measure provides a qualitative assessment of programme performance on the television service, and assists the Board in assessing the performance of the S4C service as a whole and in terms of specific genres.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod:
S4C's Image Tracking Survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that:



**2020/21** **74%**

Ansawdd rhaglenni Cymraeg yn gwella ar S4C
The quality of Welsh language programming on S4C is improving



**2020/21** **51%**

S4C yn sianel sy'n rhoi profiad unigryw i mi na allaf ei gael yn unrhyw le arall
S4C is a channel that gives me a unique experience that I can't get anywhere else

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2021. Gyda newidiadau sylweddol i'r dull casglu data yn sgil Covid-19 (o holi wyneb-yn-wyneb gan gyfwelydd i arolwg ar-lein i'w gwblhau eich hunan), ac hefyd i'r holiadur ei hun, nid oes modd cymharu'n ystyrlon gyda blynyddoedd cynt.)

(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2021. With significant changes to the data collection method due to Covid-19 (from face-to-face interviewer - administered survey to an online self-completion approach), as well as to questionnaire content and coverage, reliable comparisons with previous survey years are not possible.)







# 82

**Mae gwerthfawrogiad gwasanaeth S4C yn parhau i fod yn uchel iawn ymysg y gynulleidfa, ac yn enwedig ymysg gwylwyr sy'n siarad Cymraeg.**
**Appreciation of S4C's service remains very high amongst the audience, and amongst Welsh speaking viewers in particular**

Gwerthfawrogiad gwasanaeth S4C ymysg gwylwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru (sy'n cymharu gyda 78 ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru) (Ffynhonnell: TRP)
Appreciation of S4C's service among Welsh speaking viewers in Wales (compared with 78 for other public service broadcasters in Wales) (Source: TRP)

## Mae rhaglenni S4C yn parhau i ennill sgoriau gwerthfawrogiad uchel tu hwnt.
## S4C's programmes continue to gain very high appreciation scores.

## Sgoriau gwerthfawrogiad uchaf ar gyfer rhaglenni 2020/21
## Highest appreciation scores for programmes in 2020/21

Mae'r rhestr isod yn nodi'r sgoriau gwerthfawrogiad gan siaradwyr Cymraeg i'r 25 cyfres neu rhaglen unigol uchaf yn ystod 2020/21 a hefyd cyfartaledd y genre perthnasol. Mae'r rhestr yn cynnwys ystod eang o genres a rhaglenni sy'n dangos amrywiaeth y gwasanaeth a'r gwerthfawrogiad am y gwasanaeth a ddarperir.

The list below sets out the appreciation scores from Welsh speakers for the top 25 series or individual programmes during 2020/21 and also a comparison with the relevant genre average. The list includes a wide range of genres and programmes that demonstrate the variety within the service and the appreciation of the service provided.

| Rhaglen<br>Programme | AI | (+/-) Gwahaniaeth ar y Genre<br>(+/-) Compared to Genre |
|---|---|---|
| 47 Copa: Huw Jack Brassington | 93 | +7 |
| Awr Fawr | 93 | +9 |
| Gerallt | 91 | +5 |
| Y Wal | 91 | +5 |
| Wil ac Aeron: Taith yr Alban | 91 | +7 |
| T Llew Jones | 91 | +5 |
| Bywyd y Fet | 91 | +7 |
| Delme Thomas: Brenin Y Strade | 91 | +5 |
| Drych: Dau Ffrind, Un Aren | 90 | +4 |
| Dic Jones | 90 | +4 |
| Fo a Fe | 90 | +7 |
| Pandemig: 1918/2020 | 90 | +4 |
| 'Dolig Ysgol Ni: Maesincla | 90 | +4 |
| Ffermwyr Ifanc yn Cicio'r Corona | 90 | +3 |
| Dim Ysgol: Maesincla | 89 | +3 |
| Llofruddiaeth Mike O'Leary | 89 | 0 |
| Dylan ar Daith | 89 | +3 |
| Ysgol Ni: Maesincla | 89 | +3 |
| Mae gan Mererid Hopwood | 89 | +2 |
| Nadolig y Paith | 89 | +6 |
| Drych: Babis Covid, Babis Gobaith | 89 | +3 |
| Mamwlad | 89 | +5 |
| Gerddi Cymru | 89 | +5 |
| 40 Uchaf C'mon Midffild | 89 | +6 |
| Trysorau'r Teulu | 89 | +5 |

(Ffynhonnell / Source: TRP)
(Yn seiliedig ar siaradwyr Cymraeg 16+, a gyda sampl o 25 neu'n fwy)
(Based on Welsh speakers 16+, and programmes with a sample of 25 or more)







Drych: Dau Ffrind, Un Aren

# Mae rhaglenni S4C yn ennill gwobrau ac enwebiadau cenedlaethol a rhyngwladol
# S4C's programmes win national and international awards and nominations

Mae ennill, neu dderbyn enwebiad ar gyfer gwobr mewn gŵyl ffilm neu deledu yn arwydd o werthfawrogiad o ansawdd y rhaglenni a gynhyrchir gan y cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar gyfer S4C.

Winning an award or nomination in a film or television festival is a recognition of the quality of programmes produced by the independent production companies for S4C.

## BAFTA Cymru 2020
BAFTA Cymru 2020

### Gwobrau
**Cyflwynydd Gorau**
Emma Walford & Trystan Ellis
Morris - Priodas Pum Mil
(Boom Cymu)
**Cyfarwyddwr Ffeithiol Gorau**
Siôn Aaron a Tim Lyn – Eirlys, Dementia a Tim
(Cwmni Da)
**Rhaglen Blant Orau**
Deian a Loli (Cwmni Da)
**Rhaglen Adloniant Orau**
Cyrn ar y Mississippi
(Dearheart Productions)
**Cyfres Ffeithiol Orau**
Ysgol Ni: Maesincla
(Darlun)

### Awards
**Best Presenter**
Emma Walford & Trystan Ellis
Morris - Priodas Pum Mil
(Boom Cymu)
**Best Factual Director**
Siôn Aaron a Tim Lyn – Eirlys, Dementia a Tim
(Cwmni Da)
**Best Children's Programme**
Deian a Loli
(Cwmni Da)
**Best Entertainment Programme**
Cyrn ar y Mississippi
(Dearheart Productions)
**Best Factual Series**
Ysgol Ni: Maesincla
(Darlun)

### Enwebiadau
**Gwobr Torri Drwodd**
Hanna Jarman & Mari Beard – Merched Parchus
(Iele Productions)
**Rhaglen Blant Orau**
Prosiect Z
(Boom Cymru)
Cic
(Boom Cymru)
**Cyfarwyddwr Ffeithiol Gorau**
Mei Williams – Tudur Owen o Fôn i'r Lleuad
(Kailash Films Limited)
**Rhaglen Adloniant Orau**
Priodas Pum Mil
(Boom Cymru)
Heno
(Tinopolis)
**Newyddion a Materion Cyfoes**
Y Byd ar Bedwar
(ITV Cymru Wales)
**Cerddoriaeth Wreiddiol Orau**
Karl Jenkins & Jody Jenkins – Cymru Wyllt / Wales Land of the Wild
(S4C/BBC Cymru Wales)
**Ffotograffiaeth a Goleuo**
Bjorn Bratberg – Bang
(Joio)
**Cyflwynydd Gorau**
Carys Eleri – Carys Eleri'n Caru
(Captain Jac)
**Drama Orau**
Un Bore Mercher/Keeping Faith
(Vox Pictures)
**Awdur Gorau**
Hanna Jarman & Mari Beard – Merched Parchus
(Iele Productions)

### Nominations
**Breakthrough Award**
Hanna Jarman & Mari Beard – Merched Parchus
(Iele Productions)
**Best Children's Programme**
Prosiect Z
(Boom Cymru)
Cic
(Boom Cymru)
**Best Factual Director**
Mei Williams – Tudur Owen o Fôn i'r Lleuad
(Kailash Films Limited)
**Best Entertainment Programme**
Priodas Pum Mil
(Boom Cymru)
Heno
(Tinopolis)
**News and Current Affairs**
Y Byd ar Bedwar
(ITV Cymru Wales)
**Best Original Music**
Karl Jenkins & Jody Jenkins – Cymru Wyllt / Wales Land of the Wild
(S4C/BBC Cymru Wales)
**Photography and Lighting**
Bjorn Bratberg
(Joio)
**Best Presenter**
Carys Eleri – Carys Eleri'n Caru
(Captain Jac)
**Best Drama**
Un Bore Mercher/Keeping Faith
(Vox Pictures)
**Best Writer**
Hanna Jarman & Mari Beard – Merched Parchus
(Iele Productions)





## Gwobrau Broadcast Digital 2020
Broadcast Digital Awards 2020

### Enwebiadau
**Drama Orau**
Merched Parchus
(Iele Productions)

### Nominations
**Best Drama**
Merched Parchus
(Iele Productions)

## Gwobrau Teledu Caeredin 2020
Edinburgh TV Awards 2020

### Gwobrau
**Y Wobr Werdd**
Bang (Joio)

### Awards
**The Green Award**
Bang (Joio)

## BAFTA DU 2021
BAFTA UK 2021

### Gwobrau
**Rhaglen Ddyddiol Orau**
Tŷ am Ddim / The Great House Giveaway (Chwarel)

### Awards
**Best Daytime Programme**
Tŷ am Ddim / The Great House Giveaway (Chwarel)

## Gwobrau Broadcast 2021
Broadcast Awards 2021

### Gwobrau
**Rhaglen Orau'r Cyfnod Clo**
Dim Ysgol: Maesincla
(Darlun)

### Awards
**Best Lockdown Programme**
Dim Ysgol: Maesincla
(Darlun)

## Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2020
Celtic Media Festival 2020

### Gwobrau
**Dogfen Adloniannol Orau:**
Cân i Gymru: Dathlu'r 50
(Avanti)
**Rhaglen Adloniant Orau:**
Prosiect Pum Mil
(Boom Cymru)

### Awards
**Best Factual Entertainment Programme:**
Cân i Gymru: Dathlu'r 50
(Avanti)
**Best Entertainment Programme:**
Prosiect Pum Mil
(Boom Cymru)

### Enwebiadau
**Drama Orau:**
Pili Pala
(Triongl)
Enid a Lucy
(Boom Cymru)
**Rhaglen Blant Orau:**
Shwshaswyn
(Cwmni Da)
Prosiect Z
(Boom Cymru)
**Drama Fer Orau:**
Merched Parchus
(Iele Productions)
**Rhaglen Ffurf Fer Orau:**
Blwyddyn Bry
(Boom Cymru)
**Rhaglen Gelfyddydol Orau:**
Meic Stephens: Dim Ond Cysgodion
(Cwmni Da)
**Rhaglen Adloniant Orau**
Bwyd Epic Chris
(Cwmni Da)

### Nominations
**Best Drama:**
Pili Pala
(Triongl)
Enid a Lucy
(Boom Cymru)
**Best Children's Programme:**
Shwshaswyn
(Cwmni Da)
Prosiect Z
(Boom Cymru)
**Best Drama Mini Series:**
Merched Parchus
(Iele Productions)
**Best Short Form Programme:**
Blwyddyn Bry
(Boom Cymru)
**Best Arts Programme:**
Meic Stephens: Dim Ond Cysgodion
(Cwmni Da)
**Best Entertainment Programme**
Bwyd Epic Chris
(Cwmni Da)

# S4C – Sianel Cymru
## S4C – the Channel for Wales



4

**S4C i gael ei hystyried â chryfderau uwchlaw sianeli eraill wrth adlewyrchu Cymru a'r Cymry.**
**S4C to be considered as having strengths above other channels when reflecting Wales and the people of Wales.**

Mae'r gynulleidfa'n parhau o'r farn mai S4C yw'r sianel sy'n adlewyrchu Cymru'n llwyddiannus.
The audience continues to believe that S4C is the channel that reflects Wales successfully.



Cymru, Dad a Fi

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C:
S4C's Image Tracking Survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that S4C is:



**2020/21** **79%**

Yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl
Relevant to the identity of Wales and its people



**2020/21** **75%**

Yn sianel sy'n adlewyrchu bywyd modern yng Nghymru
A channel that reflects modern Welsh life



**2020/21** **74%**

Yn sianel sydd wedi fy addysgu mewn rhyw ffordd ynghylch Cymru a'i phobl
A channel that has educated me in some way about Wales and its people



**2020/21** **79%**

Yn sianel sy'n dangos sut beth yw hi i fyw yng Nghymru
A channel that shows what it's like to live in Wales

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2021. Gyda newidiadau sylweddol i'r dull casglu data yn sgil Covid-19 (o holi wyneb-yn-wyneb gan gyfwelydd i arolwg ar-lein i'w gwblhau eich hunan), ac hefyd i'r holiadur ei hun, nid oes modd cymharu'n ystyrlon gyda blynyddoedd cynt.)
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2021. With significant changes to the data collection method due to Covid-19 (from face-to-face interviewer - administered survey to an online self-completion approach), as well as to questionnaire content and coverage, reliable comparisons with previous survey years are not possible.)

# 5

**Gweithgarwch darlledu S4C i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru.**
**S4C's broadcast activity to have a positive impact on the development of the Welsh language and people's awareness of the culture of Wales.**

## Mae S4C yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.
## S4C plays an important role in supporting and promoting the Welsh language and culture.

**Mae gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn datgan fod S4C yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru ac ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.**
**Welsh-speaking S4C viewers state that S4C has a positive impact on their awareness of Welsh culture and the development of the Welsh language.**

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n:
S4C's Image Tracking Survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that S4C is a channel that:



| 2020/21 | 81% |
|---|---|

Bwysig ar gyfer yr iaith Gymraeg
Is important for the Welsh language

| 2020/21 | 78% |
|---|---|

Gwneud i'r Gymraeg ymddangos yn fwy modern a pherthnasol
Makes the Welsh language seem more modern and relevant

| 2020/21 | 83% |
|---|---|

Cefnogi'r Gymraeg trwy'i rhaglenni a'i chynnwys
Supports the Welsh language through its programming and content

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2021)
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2021)







## Amrywiaeth - S4C yn portreadu'r gynulleidfa
## Diversity - S4C portraying the audience

Mae adlewyrchu a phortreadu Cymru gyfoes yn flaenoriaeth i S4C ac mae'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi portread S4C o amrywiaeth cymdeithas Cymru o fewn y gwasanaeth.

Reflecting and portraying contemporary Wales is a priority for S4C, and the audience values S4C's portrayal of the diversity of Welsh society within the service.



Iaith ar Daith

**68%**

**Mae 68% o wylwyr sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n llwyddo i adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu ethnigrwydd ar draws ei raglenni yn ystod 2020/21.**

**Mae S4C yn parhau i ennill sgor llawer uwch na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru.**

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2021)

**68% of Welsh speaking viewers feel that S4C reflected the diversity of people living in Wales in terms of age, gender, disability, sexual orientation, religion or ethnicity across its programmes in 2020/21.**

**S4C continues to receive significantly higher scores than the other public service broadcasters in Wales.**

(Source: S4C Image Tracking Survey – Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2021)





### Ymrwymiad S4C i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Os yw S4C i lwyddo yna mae'n rhaid iddi ddangos drych i'w grwpiau cynulleidfa darged, gan adlewyrchu'r Gymru fodern rydyn ni'n byw ynddi. Mae S4C, felly, wedi ymrwymo i gynrychioli ac adlewyrchu Cymru fel y mae heddiw ar y sgrin a thu ôl i'r camera ac i weithredu ei Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws ei gwasanaethau ac o fewn y sector. Y nod yw trawsnewid y ffordd y mae cynhwysiant yn cael ei weld ar y sgrin, gan ddod â straeon am bobl Cymru i'n sgriniau a chefnogi gweithlu sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes yn well.

**Yn ystod y flwyddyn:**

- Penodwyd Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant cyntaf S4C er mwyn adeiladu ar y cynlluniau hyn o ran cynnwys, ac i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn teimlo bod croeso iddynt yn y sector teledu - sector all gynnig cyfleoedd gwaith cyffrous a pherthnasol iddyn nhw, a'r cyfle i weithio yn y Gymraeg. Mae'r Swyddog mewn lle ers mis Rhagfyr 2020 ac eisoes yn cael ardrawiad ar draws S4C a'r sector gan adeiladu partneriaethau a chysylltiadau a chynghori'r tîm Comisiynu a swyddogion S4C. Mae'r Swyddog yn gweithio i greu diwylliant gwaith yn S4C lle mae pawb yn perchnogi ar waith amrywiaeth a chynhwysiant.
- Fe wnaethom barhau i gydweithio gyda TAC i gynnig ystod o gyrsiau hyfforddi er mwyn gwella ymwybyddiaeth y sector o gynrychiolaeth a chynhwysiant gan gynnwys gyda Stonewall Cymru a Chelfyddydau Anabledd Cymru. Cynhaliwyd hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod i staff S4C a'r sector hefyd.
- Fel rhan o'n cyfres newydd i blant, Hei Hanes (prosiect YACF) sydd ar ddod, roedd yn amod bod rhywun o gefndir Du, Asiaidd neu o leiafrif ethnig oedd yn newydd i'r sector yn cael eu cyflogi ar y gyfres.
- Daeth Anabledd Cymru yn bartner newydd ar y bedwaredd gyfres o raglen newid ffordd o fyw S4C sef FFIT Cymru, gyda'r nod o wella cynrychiolaeth ymhellach o ystyried bod gan dros chwarter y bobl sy'n byw yng Nghymru anabledd neu salwch cronig.
- Cyhoeddwyd bod S4C yn bartner cyllido yn y prosiect Cyswllt Diwylliant Cymru (Culture Connect Wales) newydd sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned, gan ganolbwyntio ar ddod â phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol i weithio yn y sector sgrin yng Nghymru.
- Mae Hansh, brand ar-lein S4C ar gyfer cynulleidfaoedd iau yn cael ei ganmol am ei gynnwys cynhwysol a'i gynrychiolaeth. Ers dechrau 2021, mae Medru, cynllun Hansh i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i dalent newydd anabl a b/Byddar i greu cynnwys a rhaglenni yn weithredol mewn partneriaeth gyda Boom ac Anabledd Cymru. Ac i nodi mis hanes LHDTC+ ym mis Chwefror 2021, cynhaliodd Hansh her ffilm fuff fer mewn partneriaeth ag Iris. Cofrestrodd dros hanner cant o dimau gydag 16 ffilm o bob rhan o'r byd yn cael eu cyflwyno i'r gystadleuaeth. Dangosir y ffilm fuddugol yng Ngŵyl Ffilm LHDTC+ Gwobr Iris ym mis Hydref 2021, gyda'r enillydd hefyd yn cael eu mentora a'u cefnogi i ddatblygu gwaith newydd.

Mae S4C hefyd wedi ymrwymo i symudedd cymdeithasol. Mae S4C yn parhau i weithio gyda Chynghrair Sgrin Cymru i gyrraedd plant a phobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gyda'r nod o ysgogi diddordeb mewn dod i weithio i'r sector sgrin. Pan nad oedd hi'n bosibl i ymweld wyneb yn wyneb ag ysgolion, sefydlodd S4C bartneriaeth gyda Gyrfa Cymru i gynnal cyfres o weithdai a webinarau i gyrraedd cynulleidfa newydd mewn ysgolion ledled Cymru gyda'r nod yma. Mae cynllun rhannu prentisiaid ar gyfer y sector yn cael ei ddatblygu ond gydag amseru'r peilot yn cael ei effeithio gan Covid-19.

Mae S4C wedi gweld cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ond dal i gydnabod bod angen gwneud mwy. Mae S4C yn parhau i weithredu i sicrhau bod ei chynnwys a'r sector mor amrywiol ac mor gynrychioliadol â phosibl.

### S4C's Commitment to Equality, Diversity, and Inclusion

If S4C is to succeed then it must mirror its target audience groups, reflecting the modern Wales in which we live. S4C is therefore committed to representing and reflecting Wales today on screen and behind the camera and to implementing its Commitment to Equality, Diversity and Inclusion across its services and within the sector. The aim is to transform the way inclusion is seen on screen, bringing stories about the people of Wales to our screens and supporting a workforce that better reflects contemporary Wales.

**During the year:**

- S4C's first Diversity and Inclusion Officer was appointed to build on these content plans, and to ensure that people from all backgrounds feel welcome in the television sector – a sector that can offer them exciting and relevant work opportunities and the opportunity to work in Welsh. The Officer has been in post since December 2020 and is already having an impact across S4C and the sector, building partnerships and relationships and advising the Commissioning team and S4C officers. The Officer works to create a working culture within S4C where everyone takes ownership of diversity and inclusion work.
- We continued to work with TAC to offer a range of training courses to improve the sector's awareness of representation and inclusion including with Stonewall Cymru and Disability Arts Cymru. Unconscious bias training was also held for S4C staff and the sector.
- As part of our new children's series, Hei Hanes (a YACF project), one of the conditions was that someone from a Black, Asian or minority ethnic background who was new to the sector would be employed on the series.
- Disability Wales became the new partner for the fourth series of S4C's lifestyle change programme, FFIT Cymru, with the aim of further improving representation given that over a quarter of people living in Wales have a disability or chronic illness.
- S4C was announced as a funding partner in the new community-run Culture Connect Wales (Cyswllt Diwylliant Cymru) project, focusing on bringing people from diverse ethnic backgrounds to work in the screen sector in Wales.
- Hansh, S4C's on-line brand for younger audiences is praised for its inclusive content and representation. Since early 2021, Medru, Hansh's scheme to offer training and support to new disabled and d/Deaf talent to create content and programmes has been implemented in partnership with Boom and Disability Wales. And to mark LGBTQ+ history month in February 2021, Hansh ran a short film challenge in partnership with Iris. Over fifty teams registered and 16 films worldwide were entered into the competition. The winning film will be screened at the Iris Prize LGBTQ+ Film Festival in October 2021, with the winner also being mentored and supported to develop new work.

S4C is also committed to social mobility. S4C continues to work with Screen Alliance Wales to reach children and young people from under-represented groups with the aim of sparking an interest in working in the screen sector. Where it was not possible to visit schools in person, S4C established a partnership with Careers Wales to run a series of workshops and webinars to reach a new audience in schools across Wales with this aim in mind. An apprentice sharing scheme for the sector is being developed but Covid-19 has affected the timing of the pilot.

S4C has seen significant progress over the past year but still recognises that more needs to be done. S4C continues to take action to ensure its content and the sector are as diverse and representative as possible.

# 6

**Gwerthfawrogiad a defnydd da o'r gwasanaethau ar gyfer plant.**
**Appreciation and good use of the services for children.**

Mae ymrwymiad cadarn S4C i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc – ar deledu, ar-lein ac mewn sioeau byw ledled Cymru yn parhau i gael ei werthfawrogi gan ein gwylwyr.
S4C's strong commitment to providing Welsh language services for children and young people - on television, online and in live shows across Wales continues to be appreciated by our viewers.

Eisteddfod T



Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn:
The S4C Tracking Image Survey found that S4C's Welsh-speaking viewers believe that:



| | |
|---|---|
| 2020/21 | 80% |

Ei bod yn bwysig iawn fod gwasanaeth teledu Cymraeg ar gyfer plant ar S4C
It's very important that there is a Welsh language television service for children on S4C

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2021)
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2021)



**Bu cynnwys plant S4C yn parhau i gyfrif am 35% o ddarlledu llinol y gwasanaeth yn 2020, ac rydym wedi ail-flaenoriaethu cyllid i gomisiynu cyfresi byw gwreiddiol. Fel canran o'n gyllideb, mae buddsoddiad S4C mewn y cynnwys gwreiddiol byw i plant yn ail yn unig i'r BBC. Mae S4C yn cynnig ystod o gynnwys Cyw, Stwnsh, YouTube a Hansh i blant a phobl ifanc.**

**Yn ystod yr wythnos y cyhoeddwyd cyfnod clo cyntaf Covid-19 ym mis Mawrth 2020, lansiodd S4C Ysgol Cyw i gefnogi dysgu gartref. Mae Ysgol Cyw yn cynnig cynnwys o'n brand cyn-ysgol Cyw a Stwnsh (wedi'i anelu at blant 7-11 oed), adnoddau ar-lein ac apiau i helpu rhieni a gofalwyr sydd gartref gyda phlant ifanc ac sy'n chwilio am gynnwys o ansawdd uchel i addysgu a diddanu eu plant. Lansiwyd ap Antur Cyw S4C yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Datblygwyd yr ap gan TinInt a Chanolfan Peniarth, ac mae'n cyflwyno sgiliau gan gynnwys rhifedd a llythrennedd i blant cyn-ysgol. Fel yr amlygwyd gan erthygl gan y BBC yn ystod cyfnod clo cyntaf Covid-19, mae Cyw wedi bod yn offeryn amhrisiadwy i blant a rhieni yn ystod y cyfnod hwn.**

**Yn ogystal â chynnwys addysgol, mae Ysgol Cyw yn cynnwys rhaglenni sy'n canolbwyntio ar faterion iechyd a lles fel cadw'n heini (Heini), ymwybyddiaeth ofalgar (Shwshaswyn), a choginio a bwyta'n iach (Sion y Chef.) Mae taflenni gwaith a phecynnau arweiniad ar gael i fynd gyda'r rhaglenni.**

**Yn y cyfnod yn ystod y clo cyntaf yn 2020, dyblodd y nifer oedd yn gwylio teledu plant S4C (o 45k i 90k), gyda'r gwasanaeth yn chwarae rhan hanfodol - yn enwedig i blant o gartrefi di-Gymraeg a welodd gynnydd o 30k i 70k. Mae'r lefelau gwylio cyfredol yn parhau i fod 50% yn uwch na chyn y cyfnod clo cyntaf yn 2020.**

**Mae Stwnsh, gwasanaeth S4C i blant hŷn, hefyd yn cynnig cymysgedd o adloniant gyda dysgu anffurfiol a'r cyfle i glywed a mwynhau'r Gymraeg ar draws gwahanol lwyfannau. Mae Stwnsh wedi bod yn bartner yn rhaglen Cyfnewid Drama Plant EBU, ac mae wedi datblygu adnoddau er mwyn i'w gynnwys gael ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae cynnwys hefyd yn cael ei lanlwytho i blatfform Hwb Llywodraeth Cymru.**

**Er bod llinol a darpariaeth dal-i-fyny yn parhau i fod yn bwysig, rydym yn cydnabod yr angen i'n cynnwys esblygu a chyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd fel y tair Sianel YouTube sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn eu harddegau a lansiwyd gennym ym mis Hydref 2020. Wedi'u hanelu at blant 11-13 oed, y tair sianel yw POPT (yn trafod cerddoriaeth, y tueddiadau diweddaraf a diwylliant poblogaidd) Gemau Gamma (sianel gemau), a Label Deg (yn canolbwyntio ar steil, harddwch, lles, ac ymwybyddiaeth ofalgar.) Mae naw o bobl ifanc wedi cael eu dewis fel Crëwyr Cynnwys ac yn cynhyrchu a ffilmio fideos YouTube, gyda chefnogaeth cynhyrchu gan Boom Cymru. Y sianeli hyn yw'r cyntaf o'u bath yn Gymraeg ac nid oes unrhyw ddarparwr arall yn cynnig unrhyw beth tebyg yn yr iaith.**

**S4C children's content continued to account for 35% of the service's linear broadcasting in 2020, and we've reprioritised funding to commission original live-action series. As a percentage of our budget, S4C's original live-action children's content is second only to that of the BBC. S4C offers a range of Cyw, Stwnsh, YouTube and Hansh content for children and young people.**

**In the week the first Covid-19 lockdown was announced in March 2020, S4C launched Ysgol Cyw to support home learning. Ysgol Cyw includes content from our preschool brand Cyw and Stwnsh (aimed at 7-11-year-olds), online resources and apps to help parents and carers who are at home with young children and looking for high quality content to educate and entertain their children. S4C's app Antur Cyw launched during the first lockdown. Developed by TinInt and Canolfan Peniarth, the app introduces skills including numeracy and literacy to pre-school children. As highlighted by a BBC article during the first Covid-19 lockdown, Cyw has been an invaluable tool for both children and parents during this period.**

**As well as educational content, Ysgol Cyw includes programmes which concentrate on health and wellbeing matters such as keeping fit (Heini), mindfulness (Shwshaswyn), and cookery and eating healthily (Sion y Chef.) Worksheets and guidance packs are available to accompany the programmes.**

**In the period during the first lockdown in 2020, viewing to S4C's children's TV doubled (from 45k to 90k), with the service playing a vital role – particularly for children from non-Welsh speaking homes which saw an increase from 30k to 70k. Current viewing levels continue to be 50% higher than before the first lockdown in 2020.**

**Stwnsh, S4C's service for older children, also offers a mix of entertainment with informal learning and the opportunity to hear and enjoy the Welsh language across different platforms. Stwnsh has been a partner in the EBU's Children's Drama Exchange programme, and has developed resources for its content to be used in the classroom. Content is also uploaded to the Welsh Government's Hwb platform.**

**Whilst linear and catch-up remain important, we recognise the need for our content to evolve and reach different audiences such as the three teen-focused YouTube channels we launched in October 2020. Aimed at 11-13-year-olds, the three channels are POPT (discussing music, the latest trends and popular culture) Gemau Gamma (a gaming channel), and Label Deg (focusing on style, beauty, wellbeing, and mindfulness.) Nine young people have been chosen as Content Creators and are producing and filming YouTube videos, with production support from Boom Cymru. These channels are a first in Welsh and no other provider is offering anything similar in the language.**

# Ffigyrau gwylio Cyw a Stwnsh ar deledu ac ar-lein
## Cyw and Stwnsh viewing figures on TV and online

Cyrhaeddiad Cyw ar deledu
(Mewn miloedd, ar sail fisol)
Cyw reach on television
(In thousands, on a monthly basis)




Tu allan i Gymru / Outside Wales
Cymru / Wales

Cyrhaeddiad Stwnsh ar deledu
(Mewn miloedd, ar sail fisol)
Stwnsh reach on television
(In thousands, on a monthly basis)




Tu allan i Gymru / Outside Wales
Cymru / Wales

Oriau gwylio Cyw a Stwnsh ar-lein
(S4C Clic a BBC iPlayer)
Cyw and Stwnsh hours viewed online
(S4C Clic a BBC iPlayer)




BBC iPlayer
S4C Clic



Deian a Loli

# 7

**Sicrhau fod S4C yn darparu ar gyfer Dysgwyr Cymraeg yn llwyddiannus gyda rhaglenni a gwasanaethau addas.**
**Ensure that S4C successfully provides appropriate programmes and services for Welsh Learners.**

## Mae pobl sy'n dysgu Cymraeg, neu sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg yn rhan bwysig o gynulleidfa S4C.
## Welsh learners, or those who are interested in learning Welsh, are an important part of S4C's audience.

Mae S4C yn chwarae rhan hanfodol yn nhaith y rhai sy'n dysgu Cymraeg, gan gynnig cyfleoedd i glywed a mwynhau'r iaith yn ei chyd-destun ogystal â dysgu a chael eu trochi mewn sawl agwedd ar y diwylliant sy'n amgylchynu'r Gymraeg.

Mae ei phartneriaeth strategol â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan), wedi bod yn werthfawr wrth i S4C barhau i ddatblygu ei gwasanaeth i ddysgwyr Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn, mae'r ddarpariaeth i'r rhai sydd yn dysgu sydd ar gael drwy'r tab dysgwyr ar S4C Clic wedi tyfu yn llyfrgell o adnoddau i gefnogi dysgu'r iaith mewn ffordd anffurfiol a hwyliog. Mae cynnwys ffurf fer i ddysgwyr o ddechreuwyr i fyny hefyd wedi parhau. Darparwyd podlediad i gydfynd gyda chyfres llesiant S4C, FFIT Cymru unwaith eto yn 2021. Ac mae'r Ganolfan hefyd wedi cefngoi lansiad gwasanaeth ac app newyddion newydd S4C gyda darpriaeth ar gyfer y rhai sy'n dysgu.

Darlledwyd cyfres gyntaf Iaith ar Daith fis Ebrill 2020 gyda wynebau cyfarwydd fel Carol Vorderman, Adrian Chiles a Ruth Jones yn dysgu Cymraeg. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y rhai oedd am ddysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod cloi cyntaf. Iaith ar Daith oedd y gyfres a berfformiodd orau yn 2020 ar ôl chwaraeon byw, gyda chyfartaledd o 40,000 o wylwyr drwy'r DG ar gyfer pob pennod. Bu'r gyfres hefyd yn hynod o lwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddenu dros 1 miliwn o sesiynau gwylio, 650,000 ohonynt ar Facebook. Cafodd y gyfres, sydd yn gweld y dysgwyr yn gweithio gyda Say Something in Welsh, ei hailgomisiynu a dychwelodd i'r sgrin yn 2021. Mae'r clipiau o ddechrau'r ail gyfres fis Mawrth 2021 yn cynnwys James Hook, Chris Coleman, Rakie Ayola, Kiri Pritchard-McLean a Steve Backshall wedi denu dros 400,000 o sesiynau gwylio ar draws platfformau. Eleni eto rhoddwyd fersiynau arbennig a byrrach o'r raglenni Iaith ar Daith efo troslais Saesneg ar YouTube a dennodd y rhain gefnogaeth hefyd.

Mae cyfresi eraill poblogaidd fel Dan Do, Codi Pac, Y Sioe Fwyd, ac Adre hefyd ymhlith y rhaglenni sy'n cefnogi dysgwyr ond hefyd yn cael gwerthfawrogiad uchel o fewn y brif amserlen. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gyda Mudiad Meithrin i gefnogi Clwb Cwtsh ac wedi cefnogi cynllun newydd Cymraeg yn y Cartref sy'n cael ei gydlynu gan Y Ganolfan.

S4C plays a vital role in the journey of those learning Welsh, offering opportunities to hear and enjoy the language in context as well as to learn and be immersed in many aspects of the culture that surrounds the Welsh language.

Its strategic partnership with the National Centre for Learning Welsh (the Centre) has been invaluable as S4C continues to develop its service for Welsh learners. During the year, the provision available to learners through the learners tab on S4C Clic has grown into a library of resources to support informal and fun ways of learning the language. Short-form content for learners from beginners upwards has also continued. A podcast was provided to coincide with S4C's well-being series, FFIT Cymru yet again in 2021. And the Centre has also backed the launch of S4C's new news app and service with provision for those learning the language.

The first Iaith ar Daith series was broadcast in April 2020 with familiar faces such as Carol Vorderman, Adrian Chiles and Ruth Jones learning Welsh. There was a significant increase in the number of people who wanted to learn Welsh during the first lockdown period. Iaith ar Daith was the best performing series in 2020 after live sport, with an average of 40,000 viewers across the UK for each episode. The series was also very successful on social media attracting over 1 million viewing sessions; 650,000 of which were on Facebook. The series, which sees learners working with Say Something in Welsh, was recommissioned and returned to our screen in 2021. The clips from the beginning of the second series in March 2021 including James Hook, Chris Coleman, Rakie Ayola, Kiri Pritchard-McLean and Steve Backshall have attracted over 400,000 viewing sessions across platforms. Again this year, special and shorter versions of the Iaith ar Daith programmes were provided with an English voiceover on YouTube and these also proved popular.

Other popular series such as Dan Do, Codi Pac, Y Sioe Fwyd and Adre are also among the programmes that support learners but are also greatly appreciated within the main schedule. During the year, we have continued to work with Mudiad Meithrin to support Clwb Cwtsh and have supported a new Welsh at Home (Cymraeg yn y Cartref) initiative co-ordinated by the Centre.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n:
S4C's Image Tracking Survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that S4C is a channel that:



**2020/21** **71%**

Yn fy ngwneud yn fwy hyderus yn fy nefnydd o'r Gymraeg
Makes me more confident in my use of the Welsh language



**2020/21** **76%**

Mae rhai rhaglenni Cymraeg ar S4C yn berthnasol i fi
Some Welsh language programmes on S4C are relevant to me

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2021)
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2021)

Iaith ar Daith 2021



# 8

**Sicrhau bod gwasanaethau S4C yn darparu gwerth am arian i'r gynulleidfa.**
**Ensure that S4C's services provide value for money to the audience.**

Mae S4C yn anelu i sicrhau fod y canran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar gynnwys sy'n gymharus o ran ansawdd gyda chynnwys rhaglenni rhwydwaith eraill y DU, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod rhaglenni yn cael eu cynhyrchu yn y modd fwyaf effeithlon a bod cost gorbenion S4C yn parhau yn isel.

Gwerth am arian yw'r berthynas rhwng cost a pherfformiad S4C fel gwasanaeth ac fel sefydliad. Ar gyfer darlledwr cyhoeddus, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth cynhwysfawr o safon uchel ar deledu a chyfryngau digidol sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa, gan wneud hynny mewn modd effeithlon o ran y defnydd o adnoddau ariannol. Blaenoriaeth gyntaf S4C yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ar deledu ac ar lwyfannau digidol perthnasol, sy'n cwrdd ag anghenion ei chynulleidfa. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau fod y buddsoddiad yng ngwasanaethau S4C yn rhoi gwerth priodol am arian. Mae'n amcan strategol i sicrhau bod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar raglenni a chynnwys.

Elfen arall o hyn yw sicrhau fod costau rhedeg sefydliad S4C yn parhau i fod yn ganran fechan o wariant S4C. Mae S4C wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac ariannol dros y blynyddoedd diweddar gyda rhesymoli staffio, ystadau a thechnolegol. Mae S4C wedi gweithio'n galed yn sgil gostyngiadau cyllidol dros y degawd diwethaf i leddfu'r effaith ar ei gwasanaethau. O ganlyniad, dim ond 4% o gyfanswm gwariant S4C yw gweinyddiaeth a gorbenion, gyda'r gweddill yn cefnogi creu a dosbarthu cynnwys

Yn ogystal â gosod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer buddsoddiad S4C mewn rhaglenni a chynnwys, ac felly sicrhau perfformiad ariannol S4C, mae'r Bwrdd hefyd am sicrhau fod y buddsoddiad hwn yn dwyn ffrwyth, ac yn apelio at gynulleidfa eang yng Nghymru, trwy'r DU a thu hwnt i hynny.

S4C aims to ensure that the highest possible percentage of S4C's public income is spent on content and services that are comparable in terms of quality with that of other UK networks, whilst ensuring programmes are produced in the most efficient way and ensuring S4C's overheads remain low.

Value for money is the relationship between S4C's cost and performance as a service and as an organisation. For a public service broadcaster, this means providing a high quality, comprehensive service on television and online platforms that is used and valued by the audience, and doing so efficiently in terms of the financial resources available. S4C's first priority is to provide high quality services, on television and on relevant online platforms, which meet the needs of the audience. It is also important to ensure that the investment in S4C's services ensures appropriate value for money. It is a strategic objective to ensure that the highest possible percentage of S4C's public income is spent on programmes and content.

Ensuring that S4C's running costs as an organisation continue to be a small percentage of S4C's spending is another aspect of this objective. S4C has delivered significant efficiencies and cost savings over recent years with staffing, estate and technological rationalisation. S4C has worked hard in the face of budget reductions over the last decade to minimise the impact on its services. As a result, administration and overheads are now just 4% of S4C's total spend, with the remainder supporting content creation and distribution.

In addition to setting priorities and targets for S4C's investment in programmes and content, and thus securing S4C's financial performance, the Board also wishes to ensure that this investment bears fruit, and appeals to a wide audience in Wales, throughout the UK and further afield.





## Mae sicrhau Gwerth am Arian yn flaenoriaeth bwysig iawn i S4C.
## Ensuring Value for Money is a very important priority for S4C.

### Sut i fesur Gwerth am Arian

Mae S4C yn defnyddio nifer o ddulliau o asesu'r gwerth am arian y mae S4C yn ei gyflawni, gan gynnwys:

- Perfformiad ariannol a ffigyrau gwylio;
- Dosraniad gwariant S4C, gan gynnwys gorbenion;
- Asesiad o gost cynnwys S4C fesul awr;
- Effaith economaidd S4C; a
- Buddsoddiad S4C ar draws Cymru.

### How to measure Value for Money

S4C uses a number of methods of assessing the value for money that S4C achieves, including:

- Financial performance and viewing figures;
- Distribution of S4C's spending, including overheads;
- Assessment of S4C's content cost per hour;
- S4C's economic impact; and
- S4C's investment across Wales.

## Blaenoriaethu gwariant ar raglenni a chynnwys - dosraniad gwariant S4C
## Prioritising spending on programmes and content - allocation of S4C's expenditure

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys. Mae dyraniad gwariant Cronfa Gyhoeddus S4C yn ystod 2020/21 yn dangos fod mwyafrif gwariant S4C yn parhau i gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn ei raglenni a'i chynnwys, sef buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

Most of S4C's public finance is invested in programmes and content. The allocation of the S4C Public Service Fund during 2020/21 shows that the majority of S4C's expenditure continues to be directly invested in its programmes and content, which represents both investment in the services provided for the audience and investment in the production sector in Wales.

| | |
|---|---|
| Costau'r gwasanaeth rhaglenni<br>Cost of programme service | 76.7% |
| Costau'n ymwneud â darlledu a dosbarthiant<br>Costs associated with transmission and distribution | 19.6% |
| Costau gweithredu a gweinyddu<br>Operating and administration costs | 3.7% |




Ceir rhagor o wybodaeth am wariant S4C yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y Datganiad Ariannol.
More information on S4C's expenditure can be found in the Consolidated Statement of Comprehensive Income in the Statement of Accounts.



## S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU

## S4C is one of the most cost-efficient PSBs in the UK

Cost yr awr – rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C
Cost per hour – programmes commissioned by S4C




Gwerth
Value

Trwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr i leihau cost cynhyrchu pob awr o gynnwys, mae gan S4C record falch o gomisiynu rhaglenni cost-effeithiol ac mae S4C wedi llwyddo i warchod nifer yr oriau a ddarlledwyd, yn ogystal ag ystod, amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaeth. S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU gyda chost yr awr yn sylweddol is na darlledwyr eraill, gan gomisiynu ar ffracsiwn (25-33% yn nodweddiadol) o'r cyfraddau genre tebyg a ddefnyddir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Cadarnheir hyn gan astudiaeth 2021 Arad lle tynnodd cwmnïau cynhyrchu sylw at y gwerth da am arian a ddarperir gan gynyrchiadau S4C ac adrodd bod cyllidebau ar gyfer cynhyrchu allbynnau S4C yn sylweddol is nag ar gyfer darlledwyr eraill.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod cost gwneud rhaglenni yn cynyddu, gyda gwariant byd-eang ar rai genres, yn enwedig drama wedi'i sgriptio, yn codi i lefelau digynsail. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r dyfodol wrth i ni gystadlu am dalent ar a thu ôl i'r sgrin. Mae tueddiadau diweddar yn y diwydiannau creadigol hefyd wedi cael effeithiau chwyddiant ar gostau cynhyrchu. Amcangyfrifodd y cwmnïau cynhyrchu a gafodd eu cyfweld fel rhan o astudiaeth Arad fod eu costau cynhyrchu wedi cynyddu rhwng 5% a 30% o ganlyniad i Covid-19.

Yn ystod 2020/21, roedd angen gohirio neu ddiddymu darlledu rhai rhaglenni oherwydd Covid-19. Felly, mae'r cymysgedd o raglenni a ddarlledwyd yn ystod 2020/21 yn wahanol iawn i 2019/20. Mae hyn yn ogystal â'r newid i statws TAW S4C wedi arwain at ostyngiad neu gynnydd sylweddol mewn cost yr awr rhai genres, yn enwedig drama, celfyddydau, a chrefydd.

By working closely with producers to lower the cost of producing each hour of content, S4C has a proud record of commissioning cost-effective programmes and has managed to protect the number of hours that are broadcast, as well as the range, variety and quality of of the service. S4C is one of the most cost-efficient PSBs in the UK with a cost per hour significantly lower than other broadcasters, commissioning at a fraction (typically 25-33%) of similar genre rates applied by other PSBs. This is confirmed by the 2021 Arad study where production companies highlighted the good value for money provided by S4C productions and reporting that budgets for producing S4C outputs are significantly lower than for other broadcasters

However, we know that the cost of making programmes is increasing, with global spending on some genres, particularly scripted drama, rising to unprecedented levels. This places greater pressure on future budgets as we compete for on and behind screen talent. Recent trends in the creative industries have also had inflationary effects on production costs. Production companies interviewed as part of the Arad study estimated that their production costs have increased by between 5% and 30% as a result of Covid-19.

During 2020/21, some planned programme transmission had to be either delayed or canceled due to Covid-19. Therefore, the mix of programmes transmitted during 2020/21 was quite different to 2019/20. This alongside the change in S4C's VAT status has resulted in substantial increases or decreases in the cost per hour of some genres, in particular drama, arts and culture, and religion.

## Cefnogi'r Economy
## Supporting the Economy

9

**Mae darparu gwerth am arian hefyd yn golygu sicrhau fod buddsoddiad S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl.**
**Providing value for money also means ensuring that S4C's investment in the creative industries in Wales has the greatest economic impact.**

Ochr yn ochr â'n heffaith ddiwylliannol, mae S4C yn cael effaith economaidd sylweddol ar economi Cymru. Buddsoddir bron i 80% o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys, sy'n cynrychioli buddsoddiad yn y gwasanaethau a ddarperir i'r gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector cynhyrchu yng Nghymru. Rydym yn buddsoddi ac yn comisiynu ein cynnwys traws-lwyfan gan gwmnïau cynhyrchu ledled Cymru ac mae ein cwmnïau cadwyn gyflenwi yn eu tro yn chwarae rhan bwysig yn eu heconomïau lleol. Yn gryno mae, pob £1 a fuddsoddir drwy S4C yn debygol o sicrhau buddsoddiad cyfatebol uchel yn sector creadigol Cymru.

Alongside our cultural impact, S4C has a significant economic impact on the Welsh economy. Nearly 80% of S4C's public finance is invested in programmes and content, which represents both investment in the services provided for the audience and investment in the production sector in Wales. We invest and commission our cross-platform content from production companies across Wales and our supply chain companies in turn play a major role in their local economies. In a nutshell, every £1 invested through S4C is likely to deliver a high corresponding investment in the Welsh creative sector.

Am Dro





## Cefnogi'r economi
## Supporting the economy

**Yn dilyn tendr agored, comisiynwyd cwmni ymchwil Arad yn Rhagfyr 2020 i wneud arolwg o effaith ac ardrawiad economaidd S4C. Nod yr asesiad oedd ymchwilio i werth economaidd S4C i economi'r DU a Chymru, yn ogystal ag effaith adleoli pencadlys S4C i Canolfan S4C yr Egin yn Sir Gaerfyrddin. Nodir canfyddiadau'r asesiad o effaith economaidd isod yn seiliedig ar wariant S4C yn 2019-20.**

Cynhyrchodd S4C effaith economaidd o **£197.4m yn economi'r DU** yn 2019-20. Roedd hyn yn cynnwys:

- Effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol o £97.5m drwy wariant S4C ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn y DU; ac
- Effeithiau ysgogedig o £99.9m drwy wariant gan fusnesau'r DU, a sbardunwyd gan yr uchod.

Am bob **£1 o incwm** a dderbyniodd S4C yn 2019/20, cynhyrchodd y darlledwr effaith economaidd o **£2.03** yn economi'r DU.

Yn ogystal ag effaith economaidd sylweddol yng Nghymru a'r DU, mae gwaith S4C hefyd yn gyfrifol am greu refeniw treth a delir i Drysorlys EM gan gwmnïau ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau i S4C a'r cwmnïau cynhyrchu. Mae adroddiad 2021 Arad yn amcangyfrif mai cyfanswm y cyfraniad treth busnes a wneir o ganlyniad i'r effeithiau economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol yw £80.6m. Amcangyfrifir mai cyfanswm y cyfraniad treth a wneir gan y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan S4C yw £2.7m gan gynnwys trethi cyflogeion a chyfraniadau TAW sy'n deillio o'u gwariant ar nwyddau a gwasanaethau.

Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y cyfraniad treth uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir gan weithgareddau S4C yw £83.3m. Mae hyn yn cyfateb i £0.86 o dreth yn cael ei dychwelyd i'r Trysorlys ar ffurf trethiant uniongyrchol neu anuniongyrchol am bob £1 o incwm a dderbyniwyd gan S4C yn 2019/20.

Mae S4C yn hanfodol bwysig i sector cynhyrchu Cymru. Gyda chyfanswm gwariant o £102.7m yn 2019/20, rydym yn cefnogi 101 o swyddi (FTE) o fewn S4C, a 2,334 pellach o gyflogeion a gweithwyr llawrydd drwy ein cadwyn gyflenwi. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain o fewn y sector cynhyrchu annibynnol ac yn isgontractwyr i'r sector annibynnol. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd cyflogaeth pwysig â chyflog uchel a sgiliau uchel yng Nghymru, gan wella'r economi wybodaeth, gyda sgiliau uwch, mwy o arloesi a gwell swyddi yn y diwydiannau creadigol. Mae'r swyddi hyn wedi'u lleoli ledled Cymru ac yn galluogi siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yn eu cymunedau lleol.

**Following an open tender, S4C commissioned Arad Research in December 2020 to undertake an economic impact assessment. The aim of the assessment was to examine the economic value of S4C to the economy of the UK and Wales, as well as the impact of the relocation of S4C's headquarters to Canolfan S4C yr Egin in Carmarthenshire. The economic impact assessment's findings are set out below based on S4C's expenditure in 2019-20.**

S4C generated an economic impact of **£197.4m in the UK economy** in 2019-20. This included:

- A direct and indirect impact of £97.5m through S4C's spending on goods, services and wages (including freelancers) in the UK; and
- Induced impacts of £99.9m through expenditure by UK businesses, stimulated by the above.

For every **£1 of income** received by S4C in 2019/20, the broadcaster generated an economic impact of **£2.03** in the UK economy.

As well as a significant economic impact in Wales and the UK, S4C's work is also responsible for creating tax revenues paid to HM Treasury by companies and individuals providing services to S4C and the production companies. Arad's 2021 report estimates that the total business tax contribution made as a result of the direct and indirect economic effects is estimated to be £80.6m. The total tax contribution made by those employed directly and indirectly by S4C is estimated to be £2.7m including employee taxes and VAT contributions resulting from their expenditure on goods and services.

Therefore, the total direct and indirect tax contribution generated by S4C's activities is £83.3m. This equates to £0.86 of tax being returned to the Treasury in the form of direct or indirect taxation for every £1 of income received by S4C in 2019/20.

S4C is pivotally important to the Welsh production sector. With a total expenditure of £102.7m in 2019/20, we directly support an average of 101 jobs (FTE) within S4C, and a further 2,334 UK employees and freelancers throughout our supply chain. The vast majority of these are within the independent production sector and sub-contractors to the independent sector. These provide important high paid and high skilled employment opportunities in Wales, enhancing the knowledge economy, with higher skills, more innovation and better jobs within the creative industries. These jobs are located across Wales and enable Welsh speakers to stay and work in their local communities.

**Am bob £1 o incwm a dderbyniodd S4C yn 2019-20, cynhyrchodd y darlledwr effaith economaidd o £2.03 yn economi'r DU.**

**For every £1 of income received by S4C in 2019-20, the broadcaster generated an economic impact of £2.03 in the UK economy.**

## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru
## S4C's investment in content from companies across Wales

Mae S4C yn buddsoddi ac yn comisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu ar draws Cymru, gan gynnwys yng Nghaernarfon, Llanelli, Abertawe a Chaerdydd.

O ganlyniad, mae effaith economaidd S4C yn cael ei weld mewn cymunedau yng ngogledd, gorllewin a de ddwyrain Cymru. Mae cwmnïau cynhyrchu yn cael effaith sylweddol ar eu heconomïau lleol a thu hwnt i'w dalgylch wrth i gynyrchiadau deithio'r wlad i ffilmio cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru. Mae'r cwmnïau cynhyrchu hefyd yn cyfrannu at weithlu medrus iawn sy'n sail i sector gynhyrchu o'r radd flaenaf yng Nghymru ac sy'n denu cynhyrchiadau teledu, ffilm a chynnwys digidol o wledydd ledled y byd.

Fel y soniodd Yr Athro Ian Hargreaves unwaith wrth adolygu'r sector yng Nghymru:

S4C invests and commissions content from production companies across Wales, including Caernarfon, Llanelli, Swansea and Cardiff.

As a result, S4C's economic impact is spread in communities in north, west and south east Wales. Production companies have a significant impact on their local economies and beyond their catchment area as productions travel the country to film content that reflects Wales. The production companies also contribute to a highly skilled workforce that underpins a world class production sector in Wales which attracts television, film and digital content from countries around the world.

As Professor Ian Hargreaves' once commented in reviewing the sector in Wales:

> ***"Without S4C, Wales may well not have any independent television production companies at all. Almost all the Welsh indies have their roots in making programmes for S4C and they are spread across Wales in a way that has helped to broaden the geographic base of the Welsh creative industries sector".***

Ochr yn ochr ag effaith economaidd buddsoddiad S4C ledled Cymru, mae hefyd yn hollbwysig bod siaradwyr Cymraeg yn gallu aros a gweithio yn eu cymunedau lleol. Mae hyn yn helpu i leihau allfudo, ac yn galluogi siaradwyr Cymraeg o oedran gweithio i gyfrannu at weithgareddau Cymraeg a chynnal gwead cymdeithasol a diwylliannol eu hardaloedd. Mae comisiynau S4C yn chwarae rhan bwysig o ran galluogi cwmnïau i gyflogi staff sy'n cyfrannu'n economaidd i'w hardaloedd lleol, a hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal bywiogrwydd cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Cymraeg eu hiaith.

(Mae'r data isod yn berthnasol i leoliad swyddfeydd y cwmnïau cynyrchu, ac nid yw'n adlewyrchu gweithgaredd cynhyrchu neu wariant mewn lleoliadau ar draws Cymru)

Alongside the economic impact of S4C's investment across Wales, it is also critically important that Welsh speakers are able to stay and work in their local communities. This helps reduce out-migration and enables working-age Welsh speakers to contribute to Welsh-language activities and maintain the social and cultural fabric of their areas. S4C commissions play an important role in enabling companies to employ staff who contribute economically to their local areas, and also play a significant role in maintaining the social and cultural vitality of Welsh-speaking communities.

(The data below relates to the location of production company offices, and does not reflect production activity or expenditure in locations across Wales)

| **Gwariant Rhanbarthol**<br>**Regional Spending** | **2020/21** |
|---|---|
| Gogledd Cymru<br>North Wales<br>(2019/20: 28%) | 28% |
| De Cymru<br>South Wales<br>(2019/20: 50%) | 49% |
| Gorllewin Cymru<br>West Wales<br>(2019/20: 19%) | 22% |
| Tu allan i Gymru<br>Outside Wales<br>(2018/19: 3t%) | 1% |
| Cyfanswm<br>Total | 100% |








## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru
## S4C's investment in content from companies across Wales

**Mae S4C yn falch iawn o'r bartneriaeth greadigol sy'n bodoli gyda'r sector gynhyrchu annibynnol.**

Mae ystod eang o gwmnïau, partneriaid creadigol a sefydliadau yn cydweithio gydag S4C er mwyn darparu amrywiaeth helaeth o gynnwys safonol a phoblogaidd ar draws ein platfformau. Mae'r rhestr isod yn nodi'r cwmnïau cynhyrchu, partneriaid creadigol, sefydliadau cenedlaethol a mudiadau a gydweithiodd gydag S4C yn ystod y flwyddyn i ddarparu cynnwys a ddarlledwyd ar ei gwasanaethau.

**S4C is very proud of the creative partnership that exists with the independent production sector.**

A wide range of companies, creative partners and organisations work with S4C to provide an extensive range of high quality and popular content across our platforms. The list below sets out the production companies, creative partners and organisations that collaborated with S4C during the year to provide content for its services.

### Partneriaid yn y sector gynhyrchu annibynnol
### Independent production sector partners

- 73 Degree Films Limited
- Ab Droits Audiovisuels
- Aden Productions
- Al Touring Ltd t/a Targed
- Amcan
- Antena
- Atebol
- Avanti Media
- Awen Media
- Awesome Media & Entertainment
- BBC Studios Productions Ltd
- Beastly Media Ltd
- Blacklight Television Limited
- Boom Pictures Productions Ltd
- British Broadcasting Corporation
- Captain Jac Ltd
- Cardiff Productions Ltd
- Carlam Ltd
- Ceidiog Cyf
- Chwarel Cyf
- Cloud Break Pictures
- Craith 3 Ltd
- Cwmni Ceiro Cyfyngiedig
- Cwmni Da
- Cynyrchiadau Twt Productions Ltd
- Darlun Cyf
- DocShed Ltd
- Dogma Cyf
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- European Broadcasting Union
- Eurosport SAS
- Fiction Factory
- Gorilla TV Ltd t/a Bait Studio
- Grandpa Productions Ltd
- Greg Caine Media
- Griffilms Animation Studio Ltd
- GSN International Ltd.
- Gullane (Thomas) Ltd
- Hall of Mirrors Ltd
- HiT (MTK) Ltd
- IMG Media Ltd
- ITV Broadcasting Ltd
- ITV Rights Ltd
- Jetpack Distribution Ltd
- Joio
- Kailash Films
- Keeping Faith Productions (Series 3) Limited
- Kindle Entertainment Ltd
- Koala Brothers Ltd
- Kreu Media Ltd
- Lefel Dau Cyf
- Lens 360 Ltd
- Limegreentangerine Ltd
- Media Atom Ltd
- Mobilise Cloud Services Limited
- Moilin Cyf
- Mr Tonken
- Nimble Dragon Ltd
- Octagon Content Ltd
- Orchard Media & Events Group
- Pitch International Llp
- Plimsoll Productions
- Premier Media Broadcasting
- PRO Rugby Championship DAC
- Red Seam
- Rondo Media Cyf
- Sain Cyf
- Sali Mali 2 Limited
- Severn Screen Ltd
- Sgrech Cyf
- Silin Cyfyngedig
- Silvergate PPL Ltd
- Six Nations Rugby Ltd
- Sky UK Ltd
- Slam Media
- Slaycorp Ltd
- Sol Films Limited
- South Wind Blows Ltd
- Sports Media Services Ltd
- Studiocanal Ltd
- Sunset & Vine Productions Ltd
- Telesgop
- Telimôn Cyf
- Thud Media Ltd
- Tinopolis
- Tinopolis Interactive Ltd
- Triongl Cyf
- Unigryw
- Urdd Gobaith Cymru
- Viacom International Inc
- Vox Pictures
- Vox Tan Limited
- Wes Glei Cyf
- Western Front Films Ltd
- Whisper Films Ltd
- Wildflame Productions Ltd
- WRC Promoter GmbH
- Zwwm Films

## Rôl S4C fel hwylusydd a galluogwr
## S4C's role as a facilitator and enabler

# 10

### Gweithio gyda'r sector i hybu swyddi, twf a sgiliau
### Working with the sector to promote jobs, growth and skills

Mae S4C yn fuddsoddwr ac yn gomisiynydd allweddol yn sector cynhyrchu annibynnol Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn chwarae rôl gynyddol fel hwylusydd a galluogwr. Yn gyntaf, yn ogystal â chefnogi busnesau bach a chanolig sefydledig sy'n gweithio gyda darlledwyr a dosbarthwyr ledled y DU ac yn fyd-eang, mae llawer o gyflenwyr S4C yn gwmnïau bach sydd wedi eu sefydlu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae S4C yn rhoi pwys mawr ar weithio gyda chwmnïau newydd a'u cefnogi yn greadigol ac yn fasnachol. Atgyfnerthwyd hwn gan ymateb cwmnïau newydd i arolwg cyflenwyr Arad oedd yn cadarnhau ac yn tanlinellu ymhellach pa mor bwysig fu S4C o ran galluogi busnesau i ennill eu plwyf yn y diwydiannau creadigol.

Yn ail, mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth ysgogi sector creadigol llwyddiannus yng Nghymru, gan ddarparu llwyfan hanfodol ar gyfer twf a chydnabyddiaeth bellach. Er enghraifft, mae cwmnïau fel Tinopolis a Rondo wedi tyfu o fod yn gyflenwyr S4C i fusnesau rhyngwladol llawer mwy sydd wedi cael eu galluogi drwy S4C i ddatblygu busnes y tu allan i Gymru a'r DU.

S4C is a key investor and commissioner in the Welsh independent production sector. However, it also plays an ever-increasing role as a facilitator and enabler. Firstly, as well as supporting well-established SMEs who work with broadcasters and distributors across the UK and globally, many of S4C's suppliers are small companies who have been established in recent years. S4C places great importance on working with and supporting new companies both creatively and commercially. This was reinforced by the response of start-up companies to the Arad supplier survey which further confirmed and underlined how important S4C has been in enabling businesses to gain a foothold in the creative industries.

Secondly, S4C plays a key role in pump priming a successful creative sector in Wales, providing an essential platform for further growth and recognition. For example, companies such as Tinopolis and Rondo have grown from being suppliers of S4C to much larger, international businesses who've been enabled, through S4C, to develop business outside of Wales and the UK.

***Arad – Ymatebwyr arolwg cyflenwyr S4C***
***Arad – S4C supplier survey respondents***

"Mae S4C yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y busnes. Maent yn gwmni dibynadwy i ddelio â nhw ac yn rhoi sylfaen dda i gwmnïau bach allu tyfu, sydd wedyn yn galluogi'r cwmnïau yma yng Nghymru i gystadlu a dod â mwy o waith i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'r byd. Mae gwariant S4C yn ein galluogi i hyfforddi a datblygu sgiliau ein gweithwyr yng Nghymru. Er bod y cwmni wedi'i leoli yng Nghaerdydd mae ein gwariant yn cyrraedd nifer fawr iawn o wahanol ardaloedd yng Nghymru."
"S4C has a very positive impact on the business. They are a dependable company to deal with and give small companies a good foundation to be able to grow, which then enables the companies here in Wales to compete and bring more work to Wales from other parts of the United Kingdom and the rest of the world. S4C's expenditure enables us to train and develop the skills of our employees in Wales. Although the company is based in Cardiff our expenditure reaches a very large number of different areas of Wales."

***Arad – Ymatebwyr arolwg cyflenwyr S4C***
***Arad – S4C supplier survey respondents***

"Fel cwmni ifanc newydd sbon, mae comisiynau S4C wedi bod yn hanfodol i roi'r busnes ar waith. Mae trosiant wedi cynyddu yn yr ail flwyddyn ariannol, a dim ond oherwydd y gefnogaeth a'r comisiynau a ddarparwyd gan S4C yn ystod blwyddyn gyntaf masnachu y bu hyn yn bosibl."
"As a very new young company, S4C commissions have been essential in getting the business off the ground. Turnover has increased in the second financial year, and this has only been possible because of the support and commissions provided by S4C during the first year of trading."



Yn drydydd, mae parodrwydd S4C i fynd ar drywydd partneriaethau gyda darlledwyr eraill ar gyfer comisiynu cyd-gynyrchiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi bod o fudd wrth godi proffil a statws y Gymraeg yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae S4C yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hyrwyddo cynyrchiadau Cymraeg o ansawdd uchel a gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Drwy annog cyd-gynyrchiadau, mae S4C hefyd yn galluogi cwmnïau cynhyrchu i ennill comisiynau gyda rhwydweithiau eraill, gan gynnwys darlledwyr rhyngwladol a chwmnïau cynhyrchu.

Yn bedwerydd, mae cwmnïau wedi adrodd bod eu record o weithio ar gomisiynau S4C wedi rhoi sylfaen dda iddynt ar gyfer ennill rhagor o waith yn rhyngwladol. Mae adborth gan y sector yn aml yn amlygu bod S4C wedi helpu i feithrin sector cynhyrchu annibynnol cystadleuol yng Nghymru a'i bod yn bartner effeithiol wrth frocera cyfleoedd i ddosbarthu cynyrchiadau'n rhyngwladol.

Yn olaf, mae rhanddeiliaid yn cyfeirio at rôl S4C fel partner strategol wrth gefnogi sefydliadau Addysg Uwch i ddatblygu ceisiadau ar gyfer cyllid Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Mewn ymateb i Arad, canmolodd cynrychiolwyr AU natur unigryw S4C yn y DU, yn enwedig mewn perthynas â chyd-gynyrchiadau dwyieithog gefn-wrth-gefn, a thynnwyd sylw at y ffaith bod hyn yn rhoi pwynt gwerthu unigryw i gonsortia bidio o Gymru wrth ddatblygu ceisiadau am gyllid.

Thirdly, S4C's willingness to pursue partnerships with other broadcasters for commissioning co-productions in Welsh and English has been beneficial in raising the profile and status of the Welsh language in the UK and internationally. S4C plays a critical role in promoting the high quality of Welsh language productions and the creative industries workforce in Wales. Through its encouragement of co-productions,S4C also enables production companies to gain commissions with other networks, including international broadcasters and production companies.

Fourthly, companies have reported that their track record working on S4C commissions had provided them with a good foundation for winning further work internationally. Feedback from the sector often highlights that S4C has helped foster a competitive independent production sector in Wales and is an effective partner in brokering opportunities to distribute productions internationally.

Finally, stakeholders point to the role of S4C as a strategic partner in supporting Higher Education institutions to develop bids for UK Research and Innovation funding. In response to Arad, HE representatives praised S4C's uniqueness within the UK, particularly in relation to back-to-back bilingual co-productions, and highlighted that this gave bidding consortia from Wales a unique selling point in developing funding bids

***Rondo Media***

"Mae effaith economaidd S4C ar ein busnes yn sylweddol iawn. Mae'r effaith hon yn cynnwys ennill gwaith newydd gyda darlledwyr eraill fel y BBC a Channel 4. Yn 2020, gwnaethom lwyddo i sicrhau buddsoddiad gan Gronfa Dwf Channel 4 ar gyfer un o'n his-gwmnïau, Yeti."
"S4C's economic impact on our business is very significant. This effect includes winning new work with other broadcasters such as the BBC and Channel 4. In 2020, we successfully secured investment from Channel 4's Growth Fund for one of our sub-companies, Yeti."

***Telesgop***

"Mae gennym gronfa o wybodaeth a phrofiad yn y tîm sydd wedi ein galluogi i ennill gwaith gyda'r BBC. Fydden ni ddim wedi cael y fantais gystadleuol honno heb ein gwaith gydag S4C. Mewn rhai achosion, dydw i ddim yn siŵr y bydden nhw wedi ein hystyried heb yr hanes hwnnw."
"We've got a bank of knowledge and experience in the team which has enabled us to win work with the BBC. We wouldn't have had that competitive advantage without our work with S4C. In some cases, I'm not sure they would have considered us without that track record."

## Cefnogi datblygu sgiliau a thalent
## Supporting skills and talent development

Datblygodd y sector teledu annibynnol yng Nghymru o amgylch S4C. Mae sgiliau a hyfforddiant i ddatblygu'r dalent orau i wneud cynnwys o ansawdd uchel wedi bod yn flaenoriaeth i S4C ers 1982.

Mae gan ein strategaeth sgiliau bresennol gysylltiad cynhenid â'n hymrwymiad amrywiaeth. Mae S4C yn cymryd camau gweithredol i ddod â thalent newydd i'r sector, gan greu llwybr clir i bobl sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ddod i weithio o fewn S4C ac yn y sector ehangach. Mae'r llwybr yn ein gweld ni'n gweithio gydag ysgolion, gyda ffocws penodol ar y rhai mewn ardaloedd sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector, yn cwmpasu datblygu cynllun prentisiaeth a rennir a chymalau cymdeithasol ar gyfer ein cwmnïau cynhyrchu, partneriaethau â cholegau a phrifysgolion a hyfforddiant parhaus i'r rhai sydd eisoes yn y sector.

Mae S4C yn gweithio mewn partneriaeth â TAC ac yn darparu cyllid i ddarparu hyfforddiant i'r sector annibynnol yng Nghymru. Goruchwylir yr hyfforddiant gan gydbwyllgor o gynrychiolwyr S4C a TAC ac fe'i datblygir yn ôl blaenoriaethau a bylchau anghenion a sgiliau a nodwyd yn y diwydiant yng Nghymru yn seiliedig ar arolwg blynyddol a gynhelir gan TAC. Mae'r hyfforddiant yn amrywio o gydymffurfio a chyrsiau rheoli cynyrchiadau yn ddiogel, i sesiynau uwchsgilio, a dosbarthiadau meistr i wella'r cynnwys a gynhyrchir ar gyfer S4C. Ers cyfnod clo cyntaf Covid-19, mae'r rhaglen hyfforddi wedi bod yn cynnig lleoedd am ddim ar bob cwrs i weithwyr llawrydd. Mae TAC hefyd wedi darparu cyrsiau pwrpasol i sicrhau bod cynyrchiadau'n gweithredu'n ddiogel o fewn canllawiau presennol Covid-19.

The independent television sector in Wales developed around S4C. Skills and training to develop the best talent to make quality content has been a priority for S4C since 1982.

Our current skills strategy is intrinsically linked to our diversity commitment. S4C is taking active steps to bring new talent to the sector, creating a clear pathway for under-represented people to come to work both for S4C and in the wider sector. The pathway sees us working with schools – with a particular focus on those in areas of under-representation in the sector, encompasses the development of a shared-apprenticeship scheme and social clauses for our production companies, partnerships with colleges and universities and continued training for those already in the sector.

S4C works in partnership with TAC to deliver training for the independent sector in Wales. The training is overseen by a joint committee of S4C and TAC representatives and is developed according to the industry in Wales' identified needs, and skills priorities and gaps based on annual survey held by TAC. Training ranges from compliance and safe management of production courses, to upskilling sessions, and masterclasses to improve the content produced for S4C. Since the first Covid-19 lockdown, the training programme has been offering free places on all courses for freelancers. TAC has also delivered bespoke courses to ensure productions operate safely within the current Covid-19 guidelines.

"Mae partneriaeth hyfforddi TAC/S4C wedi parhau'n gyflym ar ôl symud i Zoom ym mis Ebrill. Eleni, bu bron i nifer y cynrychiolwyr ddyblu o 2019, gyda thua 500 yn cofrestru ar gyfer 33 o sesiynau hyfforddi yn cwmpasu 16 pwnc. Er mwyn cefnogi'r gymuned llawrydd y mae'r sector cynhyrchu cyfan yn gweithio mor agos â hi, mae TAC wedi bod yn cynnig lleoedd am ddim i weithwyr llawrydd ar bob cwrs ers dechrau'r pandemig. Bydd y rhaglen ar gyfer 2021 yn cael ei theilwra i fodloni'r sgiliau sydd eu hangen wrth i ni symud i gam nesaf yr adferiad a'r datblygiad."
"The TAC/S4C training partnership has continued apace after moving to Zoom in April. This year, delegate numbers almost doubled from 2019, with around 500 registering for 33 training sessions covering 16 topics. In order to support the freelance community with whom the entire production sector works so closely, TAC has been offering free spaces to freelancers on all courses since the beginning of the pandemic. The programme for 2021 will be tailored to meet the skills needed as we move into the next phase of recovery and development."

*— Llythyr TAC at yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS, 14 Rhagfyr 2020*
*TAC letter to the Secretary of State for DCMS, 14 December 2020*

Yn ogystal, ac ar gais S4C, mae TAC yn cynnal cyfres o gyrsiau i wella ymwybyddiaeth y sector o gynrychiolaeth a chynhwysiant. Mae'r rhain wedi cynnwys: hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod, hyfforddiant iechyd meddwl a sesiynau gyda phartneriaid o bob rhan o'r nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau'r gynrychiolaeth orau bosibl ar y sgrin ac o fewn y sector ei hun. Mewn ymateb i Arad, mae rhanddeiliaid wedi nodi bod cyllid S4C ar gyfer hyfforddiant TAC ers 2017 wedi bod yn hanfodol yn ystod cyfnod o gyllid cyfyngedig ar gyfer hyfforddiant gweithlu.

Mae S4C hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector creadigol ehangach yng Nghymru i ddatblygu talent gyda sgiliau trosglwyddadwy. Er enghraifft, mae datblygu awduron yn nod allweddol i S4C, ac rydym yn gweithio gyda Theatr Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru a Llenyddiaeth Cymru i feithrin talent ysgrifennu newydd, gan gynnwys gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a Ffilm Cymru Wales, rydym hefyd wedi ariannu rhaglen hyfforddi lwyddiannus Labordy ac wedi cefnogi awduron a chynhyrchwyr.

In addition, and at S4C's behest, TAC runs a series of courses to improve the sector's awareness of representation and inclusion. These have included unconscious bias training, mental health training and sessions with partners from across the protected characteristics to ensure the best representation possible - both on-screen and within the sector itself. In response to Arad, stakeholders have noted that S4C's funding of TAC since 2017 had been crucial during a period of limited funding for workforce training.

S4C also works with partners in the wider creative sector in Wales to develop talent with transferable skills. For example, the development of writers is a key aim for S4C, and we work with Theatr Genedlaethol Cymru (the Welsh-language national theatre company of Wales), Urdd Gobaith Cymru and Llenyddiaeth Cymru (Literature Wales) to nurture new writing talent, including from under-represented groups. With Arts Council Wales and Ffilm Cymru Wales, we have also funded the successful Labordy (Laboratory) training programme and supported writers and producers.



## Cefnogi prentisiaethau
## Supporting apprenticeships



Mae S4C yn gyllidwr prentisiaethau pwysig, yn uniongyrchol fel cyflogwr ac yn anuniongyrchol drwy ei gwariant ar y sector cynhyrchu annibynnol. Yn 2019, lansiodd S4C brentisiaeth fewnol yn ei phencadlys yng ngorllewin Cymru. Mae'r cynllun yn ein galluogi i ddatblygu unigolion drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ehangu'r sector y tu hwnt i ardal y brifddinas. Mae ein prentisiaid wedi dod o hyd i waith, gan gynnwys gyda chwmnïau yn y sector, sydd o fudd i S4C a'r diwydiant ehangach.

Mewn ymateb i Arad, nododd darparwyr hyfforddiant fod 30-40% o brentisiaid y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn gweithio ar gynyrchiadau S4C yn ystod rhan o'u lleoliad gwaith. Mae S4C yn chwarae rhan bwysig wrth frocera partneriaethau strategol rhwng cyllidwyr, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr sy'n helpu i gefnogi rhaglenni prentisiaeth a rhwydweithiau rhaglenni hyfforddi eraill.

Yn 2021, byddwn hefyd yn lansio cynllun peilot sector ar gyfer prentisiaeth a rennir, a fydd yn gweld prentisiaid yn cael cyfle i weithio ar draws sawl cwmni i gael dealltwriaeth ehangach o gadwyn gyflenwi cynhyrchu S4C.

S4C is an important funder of apprenticeships, both directly as an employer and indirectly through its spending on the independent production sector. In 2019, S4C launched an in-house apprenticeship based at its west Wales headquarters. The scheme enables us to develop individuals through the medium of Welsh and to expand the sector outside the capital area. Our apprentices have gone on to find employment, including with companies in the sector, benefiting both S4C and the wider industry.

In response to Arad, training providers noted that 30-40% of creative industries apprentices in Wales work on S4C productions during part of their work placement. S4C plays an important role in brokering strategic partnerships between funders, training providers and employers which helps support apprenticeship and other workforce training programmes.

In 2021, we will also launch a sector pilot for a shared apprenticeship scheme, which will see apprentices being given the opportunity to work across several companies to gain a broader understanding of S4C's production supply chain.

Pysgod i Bawb

## Gwerthu Cymru i'r Byd
## Selling Wales to the World

# 11

**Mae S4C a'r sector yn arddangos creadigrwydd a thalent Cymru i'r byd, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n diwylliant**
**S4C and the sector showcase Wales' creativity and talent to the world, promoting the Welsh language and culture**

Mae S4C a'r sector creadigol yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig wrth godi proffil Cymru yn rhyngwladol, gan adeiladu ar enw da ein cenedl fel lle sy'n llawn creadigrwydd lle mae pobl yn rhydd i arloesi ac arbrofi.

Mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth bortreadu a dathlu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol y DU. Mae S4C yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod ein diwylliant a'n hiaith yn cael eu gweld, eu clywed a'u mwynhau nid yn unig ledled Cymru a'r DU, ond yn fyd-eang. Ers nifer o flynyddoedd, mae S4C wedi dod â'i phartneriaid i flaen y gad o ran arloesi o ran cynhyrchu cynnwys dwyieithog gydag apêl ryngwladol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ym maes drama, mae S4C wedi creu genre newydd (Cymru Noir) gyda chynnwys lleol sy'n cael ei fwynhau y tu hwnt i Gymru fel Hinterland (Y Gwyll) Keeping Faith (Un Bore Mercher) a Craith (Hidden) yn denu darlledwyr a dosbarthwyr rhyngwladol i gyd-gynhyrchu.

Ym mis Hydref 2019 lansiwyd cynllun S4C Originals yng nghynhadledd deledu MIPCOM, gyda'r nod o gyflwyno cynnwys gwreiddiol i gynulleidfaoedd rhyngwladol newydd ac ymestyn cyrhaeddiad byd-eang y Gymraeg. Mae rhai llwyddiannau mawr wedi deillio o S4C fel dramâu arobryn BAFTA Cymru Keeping Faith/Un Bore Mercher (Vox Pixtures) a Bang (Joio) sydd wedi eu dosbarthu'n rhyngwladol. Mae drama ar-lein, ffurf ganolig gyntaf S4C, Merched Parchus, yn gyfres arall sy'n cael ei dosbarthu'n rhyngwladol ac sydd, hyd yma, wedi'i darlledu yn yr Eidal a'r Almaen.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen gyda'n strategaeth rhaglenni dogfen nodwedd. Dewiswyd nifer o raglenni S4C Originals i gael eu dangos am y tro cyntaf yn ystod 2021 gan gynnwys Y Côr/Men Who Sing yng Ngŵyl Ddogfennol Ryngwladol Sheffield, Doc Lounge (Malmö, Sweden) a Gŵyl Ddogfennol Tempo (Sweden). Cafodd y ffilm arswyd Gymraeg Gwledd/The Feast, prosiect Sinematig Ffilm Cymru ac S4C, hefyd ei dangos yng Ngŵyl Ffilm SXSW (Austin Texas, UDA) yn gynharach eleni.
Datblygiad nodedig diweddar arall i S4C

S4C and the creative sector in Wales play an important part in raising Wales' profile internationally, building on our nation's reputation as a place buzzing with creativity where people are free to innovate and experiment.

S4C plays a key part in portraying and celebrating the linguistic and cultural identity of the UK. S4C works tirelessly to ensure that our culture and language is seen, heard and enjoyed not only across Wales and the UK, but globally. For a number of years, S4C has brought its partners to the vanguard of innovation when it comes to producing bilingual content with international appeal. In recent years. S4C has created a new drama genre (Welsh Noir) with local content that resonates beyond Wales travelling successfully as Hinterland (Y Gwyll) Keeping Faith (Un Bore Mercher) and Hidden (Craith), attracting international broadcasters and distributors to co-produce.

In October 2019 we launched the S4C Originals strand at the MIPCOM television conference, with the aim of introducing original content to new international audiences and extending the global reach of the Welsh language. Some major successes have originated at S4C such as BAFTA Cymru award-winning dramas Keeping Faith/Un Bore Mercher (Vox Pixtures) and Bang (Joio) which have been distributed internationally. S4C's first mid-form online drama Merched Parchus is another series which is being distributed internationally and has so far been broadcast in Italy and Germany.

We're also moving forward with our feature documentary strategy. A number of S4C Originals were chosen to premiere during 2021 including Y Côr/Men who Sing at the Sheffield International Documentary Festival, Doc Lounge (Malmö, Sweden) and Tempo Documentary Festival (Sweden). The Welsh horror Gwledd/The Feast, a Ffilm Cymru and S4C Cinematic project, also appeared at the SXSW Film Festival (Austin Texas, USA) earlier this year.



Originals yw ymddangosiad y brand a chynnwys Cymraeg ar Amazon Prime Video am y tro cyntaf. Eisoes ar gael ar y llwyfan mae dwy ffilm antur gan Cwmni Da (47 Copa/47 Peaks ac Ar Gefn y Ddraig/On the Dragon's Back). Rydym yn parhau i weithio gyda'n cwmnïau cynhyrchu i hwyluso rhyddhau cynnwys pellach ar gyfer Amazon Prime Video a SVODs eraill. Yn olaf, mae sawl fformat gwreiddiol S4C wedi'u gwerthu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill fel Bois y Pizza/Pizza Boys (Orchard) a 35 Diwrnod (Boom Cymru) a werthodd i Channel 5 ac a ddarlledwyd fel 15 Days.

Yn ogystal â drama wreiddiol Gymraeg newydd, gall gwylwyr hefyd fwynhau peth o gynnwys sgript mwyaf poblogaidd Ewrop yn yr iaith Gymraeg am y tro cyntaf. Mae S4C wedi ffurfio partneriaeth newydd gyda Walter Presents ar Channel 4, gan ddod â detholiad o ddramâu Ewropeaidd gwefreiddiol i gynulleidfa Gymraeg.

Another recent landmark development for S4C Originals is the appearance of the brand and Welsh language content for the first time on Amazon Prime Video. Already available on the platform are two adventure films from Cwmni Da (47 Copa/47 Peaks and Ar Gefn y Ddraig/On the Dragon's Back.) We continue to work with our production companies to facilitate releasing further content for Amazon Prime Video and other SVODs. Finally, several S4C original formats have been sold to other PSBs such as Bois y Pizza/Pizza Boys (Orchard) and 35 Diwrnod (Boom Cymru) which sold to Channel 5 and broadcast as 15 Days.

In addition to new Welsh original drama, viewers can also now enjoy some of Europe's most talked-about scripted content in the Welsh language for the first time. S4C has formed a new partnership with Channel 4's Walter Presents, bringing a selection of thrilling European dramas to a Welsh language audience.

Un Bore Mercher



# Gweithio mewn partneriaeth ag eraill
## Working in partnership with others

Fel yr amlygwyd gan Ofcom ym mis Rhagfyr 2020, mae partneriaethau'n helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gystadlu'n well yn ogystal â chysylltu â chynulleidfaoedd. Yn eu barn nhw, "gallai perthynas ddyfnach rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau eraill... eu helpu i gystadlu'n fwy effeithiol â chystadleuwyr byd-eang, a chyrraedd cynulleidfaoedd ehangach."

Mae S4C yn credu'n gryf ym mhwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Nid yn unig y mae'n dod â manteision o ran cydweithio, ond mae cyd-gynhyrchu hefyd yn denu buddsoddiad ychwanegol i Gymru. Fel yr adroddwyd gan Arad, mae cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru wedi tynnu sylw at rôl cyd-gynyrchiadau S4C o ran eu galluogi i ennill comisiynau gyda rhwydweithiau eraill gan gynnwys darlledwyr rhyngwladol a chwmnïau cynhyrchu. Mae hyn yn ei dro yn dod â mwy o arian i'r wlad.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae S4C wedi gweithio i sicrhau y gallwn wneud y gorau o'n buddsoddiad drwy weithio'n agos gyda chyd-ddarlledwyr ieithoedd Celtaidd. Cymerwyd camau i adnewyddu a chryfhau'r cysylltiadau hyn yn 2018, gan arwain at lansio'r Gronfa Ryngwladol Geltaidd. Y partneriaid oedd S4C, BBC Alba (gyda chyllid gan MG Alba), TG4 a Chronfa Darlledu Iaith Wyddeleg Sgrin Gogledd Iwerddon (ILBF.) Nod y Gronfa yw hybu cyd-ddatblygu a chydgynhyrchu drwy gyfrwng Gaeleg yr Alban, Cymraeg a Gwyddeleg, ac annog cynyrchiadau gwreiddiol yn yr ieithoedd Celtaidd ar lefel fwy rhyngwladol yn Ewrop a ledled y byd. Yn ystod 2020/21, roedd S4C yn rhan o gomisiwn Sol (Paper Owl Films), cyd-gynhyrchiad rhwng BBC Alba, S4C a TG4 gydag arian Cronfa Cynnwys Oedolion Ifanc a gynhyrchwyd a'i ddarlledu mewn tair iaith (Cymraeg, Gaeleg a Gaeleg yr Alban).

As highlighted by Ofcom in December 2020, partnerships help PSBs to better compete as well as connect with audiences. In their view "deeper relationships between PSBs and other companies... could help them compete more effectively with global players, and reach wider audiences."

S4C believes strongly in the importance of working in partnership with others. Not only does it bring benefits in terms of joint working, but co-production also attracts additional investment into Wales. As reported by Arad, production companies in Wales have highlighted the role of S4C co-productions in enabling them to gain commissions with other networks, including international broadcasters and production companies. This in turn brings more money into the country.

In recent years, S4C has worked to ensure that we can maximise our investment by working closely with fellow Celtic language broadcasters. We took steps to refresh and strengthen these relationships in 2018, leading to the launch of the Celtic International Fund. Partners were S4C, BBC Alba (with funding from MG Alba), TG4 and Northern Ireland Screen's Irish Language Broadcast Fund (ILBF.) The aim of the Fund is to promote co-development and then co-production through Scottish Gaelic, Welsh and Irish, and to encourage a broader European and worldwide internationalisation of productions which are originally conceived in those Celtic languages. During 2020/21, S4C was part of the Sol (Paper Owl Films) commission, a co-production between BBC Alba, S4C and TG4 with Young Adult Content Funding, which was broadcast in three languages (Welsh, Gaelic and Scottish Gaelic).



Mae S4C wedi bod yn ymwneud â llawer o gyd-gynyrchiadau llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig o fewn y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Nid yn unig yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r BBC (manylion pellach islaw) ond rydym hefyd yn gweithio gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, SVODs a dosbarthwyr. Er enghraifft, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn talent newydd, gan adnewyddu ac ariannu ein rhaglen hyfforddi Hansh Dim Sbin ar gyfer newyddiadurwyr digidol gydag ITV Cymru Wales, darlledwr yr ydym hefyd yn comisiynu cynnwys - fel y rhaglen newyddion a materion cyfoes arobryn Y Byd ar Bedwar - ganddo. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd, rydym wedi cyd-gynhyrchu rhaglen gyda Channel 4, gan arwain at Tŷ am Ddim/ The Great House Giveaway – cyfres gystadleuol sy'n helpu pobl ifanc i brynu ac adnewyddu eu cartrefi cyntaf. Hefyd, cychwynnodd S4C gynllun Carlam Ffeithiol Cymru i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o reolwyr rhaglenni ffeithiol mewn partneriaeth â Channel 4 a BBC Cymru Wales. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Cymru Greadigol, bellach yn bartner yn ail flwyddyn y cynllun llwyddiannus hwn.

Gyda chystadleuaeth am hawliau chwaraeon yn cynyddu, gweithiodd S4C mewn partneriaeth agos ag eraill fel Undeb Rygbi Cymru ac Amazon Prime Video yn ystod 2020 i sicrhau cytundeb i ddarlledu pob gêm rygbi Cymru yng Nghwpan Cenhedloedd yr Hydref 2020 yn fyw. Roedd hyn yn ailddatgan ymrwymiad S4C i ddarparu gwasanaeth rygbi am ddim o ansawdd uchel yn yr iaith Gymraeg i holl gefnogwyr rygbi Cymru, a dangosodd ein gallu i ddatblygu partneriaethau cynnwys newydd llwyddiannus - un o argymhellion allweddol yr Adolygiad Annibynnol o S4C 2018.

S4C has been involved in many successful co-productions in recent years especially within the PSB system. Not only do we work closely with the BBC (see below) but we also work with other PSBs, SVODs and distributors. For instance, we continue to invest in new talent, renewing and funding our Hansh Dim Sbin training programme for digital journalists with ITV Cymru Wales, from whom we also commission content such as the award-winning news and current affairs programme Y Byd ar Bedwar. For the first time in years, we have co-produced a programme with Channel 4, resulting in Tŷ am Ddim/The Great House Giveaway – a competitive series helping young people to buy and renovate their first homes. S4C also instigated the highly-praised Factual Fast-Track Wales programme to develop the next generation of factual show runners in partnership with Channel 4 and BBC Cymru Wales. The Welsh Government, through Creative Wales, has become a funding partner for the second year of this successful programme.

With competition for sports rights increasing, S4C worked in close partnership with others such as the Welsh Rugby Union and Amazon Prime Video during 2020 to secure a deal to screen live coverage of every Wales rugby match in the 2020 Autumn Nations Cup. This reaffirmed S4C's commitment to providing high-quality free-to-air rugby coverage in the Welsh language for all Welsh rugby fans, and demonstrated our ability to develop successful new content partnerships - a key recommendation of the 2018 Independent Review of S4C.

Sol



## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru
## S4C's investment in content from companies across Wales



47 Copa

Cwmni Da

# Cwmni Da

**Cefndir**
Mae Cwmni Da, sydd wedi'i leoli yng Nghaernarfon, yn un o gynhyrchwyr mwyaf S4C. Mae'r cwmni'n darparu gyrfaoedd proffesiynol a hyfforddiant mewn ardal o amddifadedd economaidd, lle mae'r cyflog wythnosol cyfartalog 15% yn is na chyfartaledd y DU. Mae Cwmni Da hefyd yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y farchnad ryngwladol, gyda chynyrchiadau'n cael eu darlledu yn Asia ac Ewrop. Mae ei gynyrchiadau wedi ennill gwobrau yn Tsieina, Canada, Efrog Newydd a llu o wobrau BAFTA Cymru, Cyfryngau Celtaidd a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

**Cyflogwr arwyddocaol a busnes y mae'r gweithwyr yn berchen arno**
Mae'r cwmni'n darparu swyddi o ansawdd uchel yng Ngwynedd, awdurdod lleol lle mae dim ond 1% o fusnesau yn cyflogi 50 neu fwy o bobl. Yn ddiweddar daeth y cwmni yn ymddiriedolaeth sy'n eiddo i'r gweithwyr - model perchnogaeth newydd ar gyfer y diwydiant cyfryngau - sy'n anelu at fod o fudd i'w weithwyr, yr economi leol a'r gymuned ehangach. Mae holl staff y cwmni yn byw yng Nghymru, ac mae 90% o wariant y cwmni ar nwyddau a gwasanaethau yn cael ei wario gyda chyflenwyr yng Nghymru.

**Cyd-gynyrchiadau a chynyrchiadau dwyieithog cefn-wrth-gefn**
Mae'r cwmni wedi creu cynnwys ar gyfer S4C a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn y DU. Mae enghreifftiau o gynyrchiadau a ddarlledwyd gefn-wrth-gefn yn Gymraeg ar S4C ac yn Saesneg ar BBC Four yn cynnwys: The Toilet: An Unspoken History / Tai Bach y Byd a Pagans & Pilgrims: Britain's Holiest Places. Ymysg y cyd-gynyrchiadau eraill sy'n gysylltiedig ag S4C mae Codi Wal (Sky), rhaglen ddogfen sy'n dramateiddio'r noson y cafodd Wal Berlin ei hadeiladu, a Rhyfel Mawr Trwy Lygaid Ifanc (gyda'r cynhyrchwyr blaenllaw o'r Almaen Looks Film a oedd yn bartneriaeth ar draws Ewrop).

**Dosbarthu'n rhyngwladol**
Mae Cwmni Da wedi gweithio mewn partneriaeth ag S4C i sicrhau bod ffilmiau Cymraeg ar gael ar Amazon Prime Video ledled y byd am y tro cyntaf. Yn ddiweddar, cafodd dwy ffilm a gynhyrchwyd o dan y faner S4C Originals, sef 47 Copa ac Ar Gefn y Ddraig, eu hychwanegu at y platfform byd-eang fel rhan o ymgyrch S4C i arddangos cynnwys gwreiddiol o Gymru yn rhyngwladol.

**Background**
Cwmni Da, based in Caernarfon, is one of S4C's largest producers. The company provides professional careers and training in an economically deprived area, where the average weekly pay is 15% lower than the UK average. Cwmni Da also produces for the international market, with productions broadcast in Asia and Europe. Their productions have won awards in China, Canada, New York and many BAFTA Cymru, Celtic Media and Royal Television Society awards.

**A significant employer and an employee-owned business**
The company provides high quality employment in Gwynedd, a local authority in which just 1% of businesses employ 50 or more people. The company recently became an employee-owned trust – a new ownership model for the media industry – which aims to benefit its employees, the local economy and wider community. All the company's staff live in Wales, and 90% of the company's expenditure on goods and services is on suppliers based in Wales.

**Co-productions and back-to-back bilingual productions**
They have created content for S4C and other UK public service broadcasters. Examples of productions aired back-to-back in Welsh on S4C and in English on BBC Four include: The Toilet: An Unspoken History / Tai Bach y Byd and Pagans & Pilgrims: Britain's Holiest Places. Other co-productions involving S4C include Codi Wal (Sky), a documentary that dramatises the night the Berlin Wall was built, and Rhyfel Mawr Trwy Lygaid Ifanc (with leading German producers Looks Film, which was an Europe-wide partnership).

**International distribution**
Cwmni Da has worked in partnership with S4C to make Welsh language films available worldwide on Amazon Prime Video for the first time. Two films produced under the S4C Originals banner, 47 Copa and Ar Gefn y Ddraig were recently added to the global platform as part of S4C's drive to showcase original content from Wales internationally.






Rondo Media

# Rondo Media

**Cefndir**
Rondo Media yw un o brif gyflenwyr S4C, gan ddarparu amrywiaeth o raglenni sy'n cynnwys rhaglenni drama, chwaraeon, ffeithiol ac adloniant. Mae dwy ran o dair o'r 73 aelod o staff wedi'u lleoli yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ardaloedd lle mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg a lle mae cyflogau cyfartalog yn sylweddol is na chyfartaledd y DU. Drwy ei weithrediadau mewn tri lleoliad ledled Cymru, mae 85% o wariant Rondo Media ar gyflenwyr a gweithwyr llawrydd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

**Buddsoddi yn nyfodol drama**
Yn 2020, buddsoddodd Rondo mewn datblygu stiwdio ddrama newydd yn Llangefni, Ynys Môn, gyda chymorth Cymru Greadigol, gyda'r bwriad o ddenu cymorth pellach yn seiliedig ar ddiogelu swyddi a gwariant mewn ardal sy'n economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig.

**Rhaglenni chwaraeon**
Mae Rondo yn cynhyrchu darllediadau pêl-droed rhyngwladol a domestig o dan y brand hir-sefydlog Sgorio. Yn ystod 2019/20, cyrhaeddodd Sgorio 366,000 o wylwyr (gêm ragbrofion Euro 2020 Cymru yn erbyn Hwngari). Mae'r gyfres hefyd yn denu nifer fawr o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda thros 11 miliwn o sesiynau gwylio ar draws ei chyfrifon (Facebook, Twitter a YouTube). Mae'r gyfres yn defnyddio cryn dipyn o gerddoriaeth gefndir Gymraeg, sydd wedi helpu'n arbennig i gefnogi artistiaid yn ystod y pandemig.

**Gweithio gyda rhwydweithiau eraill**
Mae comisiynau S4C wedi rhoi llwyfan i Rondo gystadlu ar lefel y DU a dod â gweithgaredd economaidd i ogledd-orllewin Cymru. Mae S4C hefyd wedi helpu Rondo i allforio ei gynyrchiadau yn fyd-eang, gan ddenu incwm o werthiannau rhyngwladol i rwydweithiau mewn 13 o wledydd ledled y byd, gan gynnwys Discovery (UDA), SBS (De Korea), Telefónica (Sbaen), NHK (Japan) a Histoire (Ffrainc). Mae'r cwmni hefyd yn gweithio gydag ystod o ddosbarthwyr.

Ymysg yr enghreifftiau o gyd-gynyrchiadau rhyngwladol llwyddiannus Rondo sy'n gysylltiedig ag S4C mae: Philip Jones Griffiths: Ffotograffydd Rhyfel Fietnam (The Man Who Shot Vietnam) enillydd Gwobr Ryngwladol Annibynnol Hollywood am y Rhaglen Nodwedd Dramor Orau; ac Y Wal (The Wall), cyd-gynhyrchiad rhwng Rondo S4C, JTV, TG4 a Cineflix gyda buddsoddiad hefyd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

**Background**
Rondo Media is one of S4C's main suppliers, providing a variety of content including drama, sport, factual and entertainment. Two thirds of its 73 staff are based in Gwynedd and Anglesey, areas where most of the population are Welsh speakers and where average wages are significantly below the UK average. Through its operations in three locations across Wales, 85% of Rondo Media's expenditure is on suppliers and freelancers based in Wales.

**Investing in the future of drama**
In 2020, Rondo invested in developing a new drama studio in Llangefni, Anglesey, assisted by Creative Wales, with a view to attracting further support based on jobs and expenditure being safeguarded in a socio-economically deprived area.

**Sports coverage**
Rondo produces international and domestic football coverage under the long-standing Sgorio brand. During 2019/20, Sgorio achieved a reach of 366,000 viewers (Wales v Hungary Euro 2020 qualifier). The series also attracts a large social media following, with over 11 million viewing sessions across its accounts (Facebook, Twitter and YouTube). The series uses significant amounts of Welsh language background music, which has particularly helped to support artists during the pandemic.

**Working with other networks**
S4C commissions have provided Rondo with a platform for competing at UK level and bringing economic activity to north-west Wales. S4C has also helped Rondo export their productions globally, attracting income from international sales to networks in 13 countries, including Discovery (USA), SBS (South Korea), Telefónica (Spain), NHK (Japan) and Histoire (France). The company also works with a range of distributors.

Examples of Rondo's successful international co-productions involving S4C include: Philip Jones Griffiths: Ffotograffydd Rhyfel Fietnam (The Man Who Shot Vietnam) winner of the Hollywood Independent International Award for Best Foreign Feature; and Y Wal (The Wall), a co-production between Rondo S4C, JTV, TG4 a Cineflix with investment also provided by Welsh Government.

◂ Sgorio



Chwarel

# Chwarel

**Cefndir**
Cwmni cynhyrchu annibynnol yw Chwarel sy'n arbenigo mewn rhaglenni dogfen. Sefydlwyd y cwmni yn 2001 ac mae'n cyflogi 10 o bobl yng Nghriccieth, tref lle mae 64% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Un o gomisiynau diweddaraf Chwarel ar gyfer S4C yw Tŷ Am Ddim, fersiwn Gymraeg o The Great House Giveaway, y mae'r cwmni'n ei gynhyrchu ar gyfer Channel 4. Mae'r gyfres hon yn dod â dau ddieithryn ynghyd i brynu tŷ mewn ocsiwn, ac yna'n rhoi cyllideb iddynt adnewyddu a gwerthu'r tŷ chwe mis yn ddiweddarach. Mae'r gyfres wedi ennill gwobr BAFTA.

**Llwyfan ar gyfer twf pellach**
Mae ennill gwaith gydag S4C wedi helpu Chwarel i greu enw da i'r cwmni, gan ddarparu llwyfan ar gyfer twf a chydnabyddiaeth bellach. Yn ddiweddar, arweiniodd hyn at Channel 4 yn dewis Chwarel fel un o un ar ddeg o gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y DU i elwa o'i chronfa newydd sbon i gwmnïau annibynnol sy'n dod i'r amlwg, sef yr Emerging Indie Fund. Nod y gronfa hon yw helpu cwmnïau annibynnol bach, newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg y tu allan i Lundain i symud drwy gamau twf allweddol. Disgrifiodd sylfaenydd a pherchennog y cwmni, Sioned Wyn, sut mae gweithio gydag S4C wedi cyfrannu at lwyddiant y cwmni:

***"Mae'n anodd cael troed yn y drws gyda darlledwr newydd - mae gan bawb y cwmnïau y maen nhw'n troi atynt gan eu bod yn ymddiried ynddyn nhw. Mae ein profiad o weithio gydag S4C wedi bod yn hanfodol i ni gyda darlledwyr eraill."***

**Sgiliau a recriwtio: heriau parhaus**
Mae cronfa gyfyngedig o weithwyr a phrinder sgiliau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn parhau i fod yn her i gwmnïau fel Chwarel wrth recriwtio. Un o'r heriau parhaus a nodwyd gan Chwarel yw'r angen am gyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol o safon sy'n briodol i'r diwydiant. Mae rôl S4C fel partner wrth weithio gyda'r sector i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth bwysig yn y dyfodol i gwmnïau fel Chwarel.

**Background**
Chwarel is an independent production company, specialising in documentaries. The company was founded in 2001 and employs 10 people in Criccieth, a town where 64% of the population can speak Welsh.

One of Chwarel's most recent commissions for S4C is Tŷ Am Ddim, a Welsh-language version of The Great House Giveaway, which the company produces for Channel 4. This series brings together two strangers to buy a house at auction, and then provides them with a budget to refurbish and sell the house six months later. The series has won a BAFTA.

**A platform for further growth**
Winning work with S4C has helped Chwarel build the company's track record, providing a platform for further growth and recognition. This has recently led to Channel 4 selecting Chwarel as one of eleven independent UK production companies to benefit from its brand-new Emerging Indie Fund. This fund is designed 'to help small, new or emerging indies outside of London break through key stages of growth.' The company's founder and owner, Sioned Wyn, describes how working with S4C has contributed to the company's success:

***"It's hard to 'break-in' with a new broadcaster – everyone has their 'go to' companies which they trust. Our track record with S4C has been essential to us with other broadcasters."***

**Skills and recruitment: ongoing challenges**
A limited pool of workers and skills shortages, particularly in rural areas, continue to be a challenge for companies like Chwarel when recruiting. One of the ongoing challenges identified by Chwarel is the need for industry-standard training and professional development opportunities. S4C's role as a partner in working with the sector to develop training and development opportunities is seen as an important future priority for companies like Chwarel.



Vox Pictures

# Vox Pictures

**Cefndir**
Cwmni cynhyrchu teledu a ffilm annibynnol yw Vox Pictures. Mae Vox Pictures wedi elwa o ymgyrch S4C i gomisiynu cyd-gynyrchiadau Cymraeg a Saesneg cefn-wrth-gefn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, cyfres ddrama Un Bore Mercher / Keeping Faith – cyd-gynhyrchiad rhwng S4C a BBC Cymru Wales a ffilmiwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd ac sydd wedi ennill BAFTA Cymru. Yn ddiweddar, cwblhaodd y cwmni gyfres ddrama chwe rhan (Fflam) a ddarlledwyd gyntaf ym mis Chwefror 2021. Mae S4C hefyd wedi cefnogi Vox Pictures i greu partneriaethau â chwmnïau dosbarthu, sydd wedi galluogi i'w raglenni gael eu darlledu ledled y byd.

**Ymatebolrwydd S4C yn ystod y pandemig**
Darparodd rowndiau comisiynu cyflym S4C yn ystod 2020 gyfleoedd i gwmnïau cynhyrchu annibynnol ymateb i anghenion newidiol cynulleidfaoedd yn ystod y pandemig. Drwy hyn enillodd Vox Pictures gomisiwn i gynhyrchu Cyswllt (Mewn Covid), cyfres tair rhan sy'n adlewyrchu bywyd yn ystod y cyfnod clo gyda phrif gymeriadau o wahanol oedrannau yn brwydro yn erbyn amrywiaeth o broblemau. Ffilmiwyd y gyfres – drama cyfnod cloi gyntaf y DU - gan ddefnyddio dim ond gliniaduron a ffonau, gan adlewyrchu'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn cyfathrebu yn ystod y cyfnod clo.

**Anghenion sgiliau a gweithio mewn partneriaeth**
Noda Vox Pictures fod S4C wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu llwybrau yn y sector ar gyfer gweithwyr proffesiynol a chwmnïau cynhyrchu, yn enwedig ar gyfer busnesau bach. Dywed y cynhyrchydd Llŷr Morus fod hyn wedi chwarae rhan yn llwyddiant Cymru o ran denu cynyrchiadau rhwydwaith a rhyngwladol mawr y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

***"Mae'r safonau proffesiynoldeb a osodir gan S4C yn uchel iawn, ac mae'r ffaith bod cymaint o bobl a ddechreuodd weithio ar S4C wedi mynd ymlaen i gynyrchiadau eraill yn brawf o hynny."***

**Background**
Vox Pictures is an independent television and film production company. Vox Pictures has benefited from S4C's drive to commission back-to-back Welsh and English-language co-productions in recent years. For example, the BAFTA Cymru award-winning drama series Un Bore Mercher / Keeping Faith – a co-production between S4C and BBC Cymru Wales which was filmed concurrently in Welsh and in English. The company recently completed a six-part drama series (Fflam) which first aired in February 2021. S4C has also supported Vox Pictures to broker partnerships with distribution companies, that have enabled their programmes to be aired around the world.

**S4C's responsiveness during the pandemic**
S4C's rapid commissioning rounds during 2020 provided opportunities for independent production companies to respond to changing audience needs during the pandemic. Through this, Vox Pictures won a commission to produce Cyswllt (Mewn Covid), a three-part series reflecting life during lockdown with central characters of different ages battling a range of issues. The series – the UK's first lockdown drama - was filmed using only laptops and phones, reflecting the way audiences communicate during lockdown.

**Skills needs and partnership working**
Vox Pictures note that S4C has played an important role in developing pathways in the sector for professionals and production companies, particularly smaller businesses. Producer Llŷr Morus states that this has played a role in Wales' success in attracting large UK network and international productions in recent years.

***"The standards of professionalism set by S4C are really high, and the fact that so many people who started on S4C have gone on to other productions shows this."***



Cyswllt (Mewn Covid)



## Croesawu pawb i wylio S4C - gwasanaethau cymorth i'n cynulleidfa

Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posib yn bwysig iawn i S4C.

**Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd bwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.**

**Mae isdeitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrin yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob lefel rhugldeb a'r di-Gymraeg.**

**Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:**

### Isdeitlau Cymraeg
Mae'r isdeitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer pobl b/Byddar a thrwm eu clyw sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Cymraeg. Darparwyd isdeitlau Cymraeg ar 25 awr o raglenni bob wythnos ar gyfartaledd. Mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Clic ac isdeitlau Saesneg ar gael ar y BBC iPlayer.

### Isdeitlau Saesneg
Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg, pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw. Trwy wasgu'r botwm "isdeitlau" ar y teclyn rheoli, gellir gweld isdeitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw. Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag isdeitlau agored. Fel arfer, ailddarllediadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain. Yn ystod y flwyddyn roedd isdeitlau Saesneg ar gael ar 77.29% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 53%).

### Sain Ddisgrifio
Mae'r gwasanaeth Sain Ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu rhannol ddall i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 13.65% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 10%).

### Arwyddo rhaglenni
Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos ac amser cinio yn ystod yr wythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr b/Byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 7.23% o raglenni (targed Ofcom yw 5%).

### Llinell gymorth Gwifren Gwylwyr
Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy ffonio, e-bostio, ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr ar gael yng nghefn yr adroddiad hwn. Mae'r gwasanaeth dwyieithog ar gael o 9.00 tan 22.00 saith diwrnod yr wythnos.

## Welcoming everyone to watch S4C - support services for our audience

Making S4C's content available to the widest possible audience is very important to S4C.

**Access services continue to provide an important means to enable S4C to expand its audience and its appeal.**

**Subtitling in Welsh and English, together with signing, Audio Description and descriptive second screen services provide a range of services that enhance S4C's offering and make content available to those with particular needs as well as to a wider community of Welsh speakers, non-Welsh speakers and learners of all levels of fluency.**

**The following services were provided during the year:**

### Welsh subtitles
These subtitles are provided primarily for d/Deaf and hard of hearing people who understand Welsh as well as for people learning to speak Welsh. Welsh language subtitles were provided on 25 hours of programmes a week on average. Welsh language and English language subtitles are also available on the S4C Clic service and English subtitles are available on the BBC iPlayer.

### English subtitles
The aim of this service is to enhance the appeal of programmes to non-Welsh speaking, and d/Deaf and hard of hearing viewers. By pressing the "subtitle" button on the remote control, subtitles can be accessed on all kinds of programmes, including live programmes. Some programmes were broadcast with automatic on-screen subtitles. These are usually repeats of popular programmes. During the year, subtitles were available on 77.29% of programmes (Ofcom's target is 53%).

### Audio Description
The Audio Description service on selected programmes provides a commentary in Welsh to fill the gaps during periods when there is no dialogue in programmes. It includes additional description that assists blind or partially sighted users. The service was provided on 13.65% of programmes (Ofcom's target is 10%).

### Signing
A number of programmes, usually at weekends and lunchtimes during the week, are broadcast with BSL (British Sign Language) for d/Deaf viewers and those who use BSL. The service was available on 7.23% of programmes (Ofcom's target is 5%).

### Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline)
Our viewers can contact S4C directly by either phoning, emailing, via social media or sending a letter to Gwifren Gwylwyr. Gwifren Gwylwyr's contact details are available at the back of this report. The bilingual service is available from 9:00 until 22:00 seven days a week.



## S4C yn gwrando ar ein gwylwyr

Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C.

**Ceir trafodaeth drwy gydol y flwyddyn gyda'r gynulleidfa am raglenni S4C ar gyfryngau cymdeithasol a gyda Gwifren Gwylwyr, llinell gymorth S4C.**

**Oherwydd y pandemig Covid-19, ni chynhaliwyd gweithgareddau ledled Cymru yn ystod 2020/21. Serch hynny, ac fel yr amlinellir isod, rhoddwyd cyfle i'r gynulleidfa fod yn rhan o arlwy S4C a mynegi barn am wasanaethau S4C trwy sesiynau Facebook Live.**

## S4C listening to our viewers

Ensuring a regular dialogue and relationship with the audience is very important to S4C.

**Throughout the year, the audience engages with S4C's programmes on social media and through Gwifren Gwylwyr, S4C's viewers' helpline**

**Due to the Covid-19 pandemic, no events were held across Wales during 2020/21. However and as outlined below, Facebook Live sessions gave the audience an opportunity to be involved in S4C's provision and a chance to voice their opinions about S4C's service.**




### 12,057

**Cafwyd 12,057 o gysylltiadau gydag S4C drwy gyfrwng y Wifren yn 2020/21. Roedd tua 6,157 o'r rhain yn canmol rhaglenni tra bod 1,052 yn gwynion o rhyw fath.**

**Mae tîm Gwifren Gwylwyr S4C fel arfer yn gweithio yn swyddfa S4C yng Nghaernarfon bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r holl sylwadau sy'n ein cyrraedd am gynnwys a gwasanaethau S4C yn cael eu logio a'u cadw. Mae'r tîm yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar gyfer swyddogion ac aelodau'r Bwrdd.**

**12,057 contacts were received by S4C's Gwifren Gwylwyr in 2020/21. Of these around 6,157 were complimentary about programmes while 1,052 were complaints of some form.**

**The Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline) team usually works in S4C's office in Caernarfon every day of the year. Every comment received about programmes and services is logged and stored. The team prepares a summary of comments received for officers and members of the Board.**

### Facebook live

**Yn arferol mae Nosweithiau Gwylwyr yn chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau cyfathrebu S4C, ond oherwydd y pandemig ni chafwyd yr un yn ystod y flwyddyn. Yn hytrach, cynhaliwyd chwe sesiwn Facebook Live gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynnwys yn ateb cwestiynau gan y cyhoedd ar bob agwedd o weithgaredd S4C. Ymunodd y Cadeirydd, y Comisiynydd Adloniant a'r Comisiynydd Drama mewn un sesiwn yr un er mwyn trafod pynciau penodol i'w meysydd.**

**Fe gafodd y chwe sesiwn eu gwylio am leiafswm o dair eiliad 45,009 o weithiau a 3,333 o weithiau am leiafswm o 1 munud.**

**Yn ogystal â'r sesiynau Facebook Live, fe gymerodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ran mewn sesiynau ar-lein wedi eu trefnu gan y Gymdeithas Deledu Brenhinol, Sefydliad Materion Cymreig a'r Voice of the Listener & Viewer.**

**Viewers' Evenings usually play an important part within S4C's communication activities but because of the pandemic none were held during the year. Instead, six Facebook Live sessions were held with the Chief Executive and Director of Content answering questions from the public on all aspects of S4C's activity. The Chair, the Entertainment Commissioner and the Drama Commissioner also took part in a session each to discuss topics specific to their fields.**

**The six sessions were watched for a minimum of three seconds 45,009 times and 3,333 times for a minimum of 1 minute.**

**In addition to the Facebook Live sessions, the Chair and Chief Executive took part in online sessions organised by the Royal Television Society, the Institute of Welsh Affairs and the Voice of the Listener & Viewer.**

### 1,400

**Mae gan S4C Banel Ymateb Cynulleidfa sy'n cynnwys 1,400 o unigolion, a ddewiswyd i adlewyrchu poblogaeth Cymru. Mae'r panelwyr yn rhoi eu barn i S4C am y gwasanaeth a sgoriau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni S4C.**

**S4C has an Audience Reaction Panel that consists of 1,400 individuals, recruited to reflect the population of Wales. The panellists provide S4C with their opinion about and appreciation scores for S4C's programming.**



## Partneriaeth S4C gyda'r BBC

**Mae S4C a'r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth ers sefydlu S4C yn 1982.**

Mae'r bartneriaeth hon yn rhoi'r cyfle i rannu adnoddau ac arbenigedd i wella cyflenwi, gyrru effeithlonrwydd a gwerth am arian trwy gydweithredu, a chydweithio i sicrhau'r amlygrwydd mwyaf posibl a chydgrynhoi dylanwad mewn marchnad fyd-eang.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd S4C a'r BBC Gytundeb Partneriaeth, Cyllid ac Atebolrwydd newydd, a nododd ein hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith trwy gydol Siarter Frenhinol y BBC tan ddiwedd 2027.

Gyda S4C yn cael ei hariannu'n llawn o ffi'r drwydded yn 2022, mae'r ddau barti wedi bod yn adolygu siâp y berthynas yn ystod y misoedd diwethaf, gyda'r nod o foderneiddio'r bartneriaeth, cydnabod y byd amlgyfrwng a symleiddio trefniadau lle bynnag y bo modd. O 2022, rydym yn cynnig nifer o newidiadau a diwygiadau i siâp cyfredol y bartneriaeth i adlewyrchu diwydiant sy'n newid yn gyflym yn well.

Mae'r bartneriaeth gyfredol yn rhychwantu'r meysydd canlynol:

**Cyflenwi rhaglenni**
Ers 1982, mae BBC Cymru wedi darparu nifer o gonglfeini gwasanaeth S4C, gan gynnwys Pobol y Cwm, y ddarpariaeth newyddion, elfennau o'r ddarpariaeth chwaraeon a darllediadau cynhwysfawr o'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r ddarpariaeth yma, sy'n seiliedig ar ymrwymiad statudol, yn gofyn i'r BBC ddarparu lleiafswm o 10 awr yr wythnos o raglenni am ddim ar gyfer S4C (felly lleiafswm o 520 o oriau'r flwyddyn). Mae'r ystod o raglenni o fewn y ddarpariaeth hon sy'n cael ei chytuno rhwng S4C a'r BBC bob blwyddyn, yn rhan bwysig o amserlen S4C bob wythnos o'r flwyddyn. O dan y Cytundeb Partneriaeth rhwng y BBC ac S4C, gwerth ariannol darpariaeth y BBC yw £19.4m y flwyddyn, er bod Cynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2020/21 yn cynnwys ffigwr o £22m ar gyfer S4C.

**Creadigol**
Yn ystod 2020/21, parhaodd S4C i weithio mewn partneriaeth gyda'r BBC ar gyd-gynyrchiadau drama dwyieithog megis Un Bore Mercher / Keeping Faith. Mae'r ddau ddarlledwr yn cydweithredu'n rheolaidd mewn meysydd eraill i ddarparu mwy o werth i gynulleidfaoedd Cymraeg - er enghraifft, y bartneriaeth addysg gyhoeddwyd yn Ionawr 2021 gyda S4C yn darlledu cynnwys BBC Bitesize.

**Technoleg a llwyfannau**
Mae presenoldeb cynnwys S4C ar y BBC iPlayer yn parhau i fod yn ddull pwysig iawn o gynnig ein cynnwys i gynulleidfa eang. Mae'r iPlayer yn rhoi presenoldeb i S4C ar draws ystod eang o ddyfeisiau na fyddent fel arall ar gael i S4C a chynnydd sylweddol o ran gwylio ei chynnwys ar-lein.

**Cydleoli gwasanaethau darlledu technegol**
Ers mis Ionawr 2021, mae S4C wedi cyd-leoli ei gweithgareddau darlledu a thechnegol gyda BBC Cymru Wales. Trwy gyfuno timau a gweithrediadau, disgwylir i hyn sicrhau arbedion gweithredol i'r ddau ddarlledwr.

**Y bartneriaeth ariannu ac atebolrwydd**
Yn ystod y flwyddyn, darparodd S4C Adroddiad Atebolrwydd Ariannol chwe-misol i bwyllgor Archwilio'r BBC i gadarnhau bod yr arian hwn wedi'i ddefnyddio yn unol â chylch gwaith statudol S4C.

## S4C's partnership with the BBC

**S4C and the BBC have worked in partnership since the creation of S4C in 1982.**

This partnership provides the opportunity to share resources and expertise to enhance delivery, drive efficiencies and value for money through collaboration, and work together to maximise prominence and consolidate influence in a global market.

In November 2017, S4C and the BBC published a new Partnership, Funding and Accountability Agreement, which set out our commitment to working together to deliver high quality public services for Welsh speaking audiences for the duration of the BBC Royal Charter until the end of 2027.

With S4C becoming fully funded from the licence fee in 2022, both parties have been reviewing the shape of the relationship over recent months, with the aim of modernising the partnership, recognising the multi-media world and simplifying arrangements wherever possible. From 2022, we are proposing a number of changes and reforms to the current shape of the partnership to better reflect a rapidly changing industry.

The current partnership spans the following areas:

**Programme supply**
Since 1982, BBC Cymru has supplied a number of key elements of S4C's service, including Pobol y Cwm, news provision, elements of sports provision and extensive coverage of the National Eisteddfod of Wales. This provision, which is based on a statutory requirement, requires the BBC to provide a minimum of 10 hours per week of programming to S4C, free of charge (therefore a minimum of 520 hours per year). The range of programmes within this provision, which is agreed between S4C and the BBC each year, is an important part of S4C's daily schedule. Under the Partnership Agreement between the BBC and S4C, the financial value of the BBC's contribution is £19.4m per annum, although the BBC's Annual Plan for 2020/21 includes a figure of £22m for S4C.

**Creative**
During 2020/21, S4C continued to work in partnership with the BBC on bilingual drama co-productions such as Un Bore Mercher / Keeping Faith. Both broadcasters regularly collaborate in other areas to provide greater value for Welsh language audiences – for example, the education partnership announced in January 2021 with S4C broadcasting BBC Bitesize content.

**Technology and platforms**
The presence of S4C content on the BBC's iPlayer continues to be a very important tool in offering our content to a wide audience. The iPlayer gives S4C a presence across a wide range of devices that would otherwise not be available to S4C and a significant increase in viewing to its online content.

**Co-location of technical broadcast services**
Since January 2021, S4C has co-located its broadcast and technical activities with BBC Cymru Wales. By combining teams and operations, this is expected to deliver operational savings for both broadcasters.

**Funding and accountability partnership**
During the year, S4C provided the BBC's Audit committee with a biannual Financial Accountability Report to confirm that this funding has been used in accordance with S4C's statutory remit.

## Ystâd S4C

Gydag effaith Covid-19, bu hon yn flwyddyn ryfedd iawn gyda mwyafrif ein staff yn gweithio gartref. Roedd sicrhau parhad darlledu yn flaenoriaeth allweddol trwy gydol 2020/21. Roedd gweithlu S4C eisoes yn gyfarwydd â gweithio'n hyblyg ac ar-lein, gyda staff mewn tri lleoliad, ac roedd llawer o weithwyr eisoes yn gweithio o'r tu allan i swydfeydd, neu o fwy nag un swyddfa. Cyn i'r cyfyngiadau symudiad gael eu gweithredu, anogwyd staff a allai weithio gartref i wneud hynny.

Ar 27 Ionawr 2021, dechreuodd S4C ddarlledu o Sgwâr Canolog, Caerdydd, fel rhan o'r bartneriaeth gyda BBC Cymru Wales i gydleoli gwasanaethau darlledu technegol y ddau ddarlledwr. I gyd-fynd â'r cytundeb am wasanaethau technegol, mae S4C wedi cymryd trwydded gan y BBC am ofod swyddfa ac ystafell gyfarfod yn Sgwâr Canolog. Mae tua 30 o staff S4C wedi eu lleoli yno'n arferol.

Gyda'r symud i Sgwâr Canolog, daeth cyfnod o bron i 30 mlynedd o ddarlledu S4C o Barc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd i ben. Mae safle Parc Tŷ Glas wedi ei brynu gan un o is-gwmnïau masnachol S4C (S4C PTG Cyf) er mwyn gosod swyddfeydd ac unedau i ystod o denantiaid.

Mae pencadlys S4C yng Nghanolfan S4C yr Egin, Caerfyrddin o dan brydles tymor hir gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae tua 70 o staff S4C wedi eu lleoli yno ac yn arferol mae cyfarfodydd y Bwrdd Unedol a'i bwyllgorau'n cael eu cynnal yno. Mae'r Ganolfan hefyd yn gartref i amrywiaeth o gwmnïau sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol ac yn leoliad i weithgareddau creadigol, gan gynnwys ffilmio rhai o raglenni S4C.

Er mai dim ond dwy flynedd a hanner sydd wedi mynd heibio ers y symud, darganfyddodd ymchwil Arad yn 2021 fod adleoliad S4C i'r Egin eisoes wedi arwain at amrywiaeth o effeithiau economaidd mesuradwy ar Sir Gaerfyrddin. Adroddodd Arad fod S4C wedi creu effaith economaidd o £18.2m ar economi Sir Gaerfyrddin yn 2019/20, gan gynnwys effaith uniongyrchol o £14.0m a gynhyrchwyd drwy wariant S4C ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn yr ardal.

Mae presenoldeb pwysig S4C yn y gogledd yn parhau, gyda swyddfa yn Noc Fictoria, Caernarfon o dan brydles tan 2028. Mae'r swyddfa'n gartref i 15 aelod o staff ac mae nifer o bobl eraill yn ei defnyddio'n rheolaidd i gyfarfod â chynhyrchwyr annibynnol lleol yn yr ardal.

## The S4C Estate

With the impact of Covid-19, this has been a very strange year with the majority of our staff working from home. Ensuring that broadcasting could continue was a key priority throughout 2020/21. S4C was already accustomed to online and flexible working with staff based across three locations, and many employees already worked remotely or from more than one office. Before lockdown was called, staff who could work from home were encouraged to do so.

On 27 January 2021, S4C commenced broadcasting from Central Square, Cardiff, under its partnership with BBC Cymru Wales to co-locate the technical broadcast services of both broadcasters. Alongside the technical services agreement, S4C has taken a licence from the BBC to occupy office space and a meeting room at Central Square. Around 30 members of S4C staff are normally based there.

The move to Central Square marked the end of almost 30 years of broadcasting S4C from Parc Tŷ Glas, Llanishen, Cardiff. The Parc Tŷ Glas site has been bought by one of S4C's commercial subsidiaries (S4C PTG Cyf) in order to let out offices and units to a range of tenants.

S4C has its headquarters at Canolfan S4C Yr Egin, Carmarthen under a long term lease from the University of Wales Trinity St David. Around 70 members of S4C staff are based there and meetings of the Unitary Board and its committees are normally held there. Our headquarters is also home to a range of companies working in the creative industries and is a location for creative activities, including filming some of S4C's programmes.

Although it has been only two and a half years since the move, Arad's 2021 research found that S4C's relocation to Yr Egin has already led to a range of quantifiable economic impacts on Carmarthenshire. Arad reported that S4C generated an economic impact of £18.2m in the economy of Carmarthenshire in 2019/20, including a direct impact of £14.0m through S4C's spending on goods, services and wages (including freelancers) in the area.

S4C's important presence in north Wales continues, with an office in Victoria Dock, Caernarfon under a lease until 2028. The office is home to 15 members of staff and many others use it on a regular basis to meet with local independent producers in the area.






## Gweithgareddau Masnachol S4C

Mae S4C Masnachol – adain fasnachol S4C (sydd ar wahân i arian cyhoeddus S4C) - yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nod o greu ffrwd incwm gynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gwerthu hysbysebion a nawdd ar wasanaethau S4C (gweithio gyda Sky Media, asiant hysbysebu S4C), trwyddedu nwyddau ar gyfer brandiau fel Cyw a buddsoddi mewn portffolio buddsoddi cytbwys. Ar hyn o bryd, mae'r portffolio hwn yn cynnwys:

- buddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau cynnwys a digidol;
- buddsoddi yn ystâd Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd a gosod swyddfeydd ac unedau i amrywiaeth o denantiaid;
- cronfeydd buddsoddi a reolir gan reolwr cronfa allanol.

Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £1m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae'n gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu. Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y sianel yn y gorffennol.

Argymhellodd yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai'r Llywodraeth ddiwygio'r gofynion cymeradwyo presennol er mwyn cynnig rhagor o ryddid i S4C fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Llywodraeth, gyda'r bwriad o ddiwygio'r fframwaith presennol pan fydd yr amserlen ddeddfwriaethol yn caniatáu. Yn dilyn yr Adolygiad, mae cwmpas gwaith y Bwrdd yn ymgorffori gweithgareddau masnachol S4C yn fwy uniongyrchol er mwyn sicrhau cyswllt agosach rhwng strategaeth ac atebolrwydd cyffredinol S4C ar gyfer perfformiad y gweithgareddau masnachol.

Rydym yn craffu ar gyfleoedd masnachol newydd yn unol â'r strategaeth fasnachol a fabwysiadwyd yn 2018, er mwyn ceisio gwneud mwy o elw o'r farchnad ddarlledu gyfoes mewn meysydd traddodiadol a meysydd digidol newydd. Wrth i S4C fuddsoddi'n gynyddol mewn gwasanaethau digidol, mae hyn yn cynnig cyfleoedd newydd i ddenu incwm hysbysebu a nawdd ar blatfformau digidol. Wrth ddatblygu ein cynlluniau digidol, rydym am fuddsoddi mewn isadeiledd i'n galluogi i ymelwa ar ffrydiau newydd o incwm.

## S4C's Commercial Activities

S4C Masnachol, S4C's commercial division (which is separate from S4C's public funding) is responsible for a variety of commercial activities and investments that are designed to create an additional sustainable income stream for S4C's public service.

These activities include the sale of advertisements and sponsorship on S4C's services (working with Sky Media, S4C's advertising agent), licensing merchandise for brands such as Cyw and investing in a balanced investment portfolio. This portfolio currently consists of:

- equity investments in companies active in the content and digital sectors;
- investment in the Parc Tŷ Glas estate, Llanishen, Cardiff and letting offices and units to a range of tenants;
- investment funds managed by an external fund manager.

S4C's commercial activities contribute an average of approximately £1m per year to S4C's public service fund. Although a small percentage of S4C's total income, this is an important financial contribution which enables S4C to invest in content and services that would otherwise not be possible. The money held in S4C's commercial reserve is money that has been generated by the channel's commercial activities in the past.

The Review of S4C published in March 2018 recommended that the Government should amend current approval requirements to give S4C greater freedom to invest and generate commercial revenue. This recommendation was accepted by the Government, with the intention of updating the current framework when the legislative timetable allows. Following the Review, S4C's commercial activities are now incorporated more directly within the Board's ambit to ensure a closer link between S4C's overall strategy and accountability for the performance of the commercial activities.

We scrutinise new commercial opportunities in accordance with the commercial strategy adopted in 2018, with the aim of seeking greater returns from the developing broadcast market in both traditional and more advanced digital areas. As S4C invests increasingly in digital services, this presents new opportunities to attract advertising and sponsorship income on digital platforms. As we develop our digital plans, we will invest in the infrastructure to enable us to generate new income streams.

## Adolygiad Annibynnol S4C

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwyd Adolygiad o S4C a baratowyd ar gyfer DCMS gan Euryn Ogwen Williams ynghyd ag ymateb Llywodraeth y DU iddo. Dyma benllanw proses o drafod dyfodol S4C, gan gynnwys ei chylch gorchwyl a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol a nifer o faterion strwythurol.

Croesawodd S4C yr Adolygiad, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion. Ers hynny, mae S4C wedi bod wrthi'n gweithredu'r argymhellion ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phartneriaid allweddol eraill, a darperir y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd isod.

## Independent Review of S4C

In March 2018 the independent review of S4C prepared for DCMS by Euryn Ogwen Williams was published along with the UK Government's response. This was the culmination of a process of discussing the future of S4C, including its remit, future strategy and a number of structural and governance issues.

S4C welcomed the Review, together with the Government's response to the recommendations. Since then, S4C has been actively implementing the recommendations and significant progress has been made over the last few years. We continue to work closely with DCMS and other key partners, and an update on progress is provided below.

| **Argymhelliad**<br>**Recommendation** | **Cynnydd** | **Progress** |
|---|---|---|
| 1<br>Dylai'r llywodraeth ddiweddaru cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu S4C i ehangu ei gorwelion a chynnig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd drwy'r Deyrnas Unedig a thu hwnt.<br>The government should update S4C's public service remit to include digital and online services and remove the current geographical broadcasting restrictions. This will allow S4C to broaden its reach and offer its content on a range of new platforms in the UK and beyond. | Mae DCMS wedi paratoi deddfwriaeth drafft a chaiff ei gyflwyno pan fydd amser seneddol yn caniatáu. | Draft legislation has been prepared by DCMS which will be introduced when parliamentary time allows. |
| 2<br>Dylai S4C sefydlu hyb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ei dylanwad digidol, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol yn y Gymraeg<br>S4C should establish an in-house digital hub to develop and improve S4C's digital footprint and form the basis of a Welsh language digital cluster. | Cymeradwyodd Bwrdd S4C £3m tuag at raglen ddigidol newydd yn ôl ym mis Mehefin 2018. Mae'r rhaglen yn cwmpasu buddsoddi mewn cynnwys digidol newydd, buddsoddi mewn seilwaith digidol, a thîm digidol pwrpasol o fewn S4C i arwain y datblygiad digidol. Mae Bwrdd Prosiect Digidol ar waith i lywio'r rhaglen ac olrhain cynnydd.<br><br>Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod 2020/21 gan gynnwys datblygu S4C Clic. Ers mis Mehefin 2019, pan gyflwynwyd mewngofnodi gorfodol ar gyfer S4C Clic ar y mwyafrif o ddyfeisiau, rydym wedi cynyddu nifer ein defnyddwyr cofrestredig yn raddol. Erbyn Mawrth 2021 roeddem wedi cyrraedd dros 200,000 o ddefnyddwyr cofrestredig gyda 72,650 o'r rheiny wedi tanysgrifio i'n rhestr bostio sy'n cyfateb i 36%. Mae hyn bellach yn galluogi S4C i gyfathrebu â gwylwyr ar sail un i un ac o ganlyniad, ddod i ddeall anghenion gwylwyr yn well a darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr a phwrpasol.<br><br>Mae S4C Clic yn rhoi profiad cyfoethocach i'r gwyliwr gyda'n gallu i ddarparu ein bocs sets, dramâu unigryw, cynnwys pwrpasol ar gyfer dysgwyr Cymraeg ac ar gyfer plant a gwylwyr iau. Yn ogystal, gydag S4C Clic rydym yn gallu creu "sianeli" ychwanegol sy'n curadu cynnwys, fel y digwyddodd gydag Yma i Chi yn ystod Covid-19. Casgliad o gynnwys oedd hwn a gynlluniwyd i hysbysu a diddanu yn ystod y pandemig.<br><br>Yn ogystal â thrawsnewid ein llwyfan S4C Clic ein hunain, rhaid inni barhau i arloesi ar lwyfannau cyfryngau byd-eang er mwyn sicrhau bod cynnwys S4C ar gael drwy lwyfannau perthnasol wrth i dueddiadau newid. Gellir gwylio cynnwys ar alw S4C, yn bennaf, ar S4C Clic a'r BBC iPlayer, â chynnwys dethol hefyd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae ap S4C ar gael ar hyn o bryd ar iOS, Android, y we, Amazon Fire (dwy genhedlaeth), Samsung (rhai modelau yn unig) a YouView. Hefyd ar y gweill gennym mae adnewyddiad i'r holl lwyfannau hyn heblaw'r we. | The S4C Board approved £3m towards a new digital programme back in June 2018. The programme encompasses investment in new digital content, investment in digital infrastructure, and a dedicated digital team within S4C to lead the digital development. A Digital Project Board is in place to drive the programme and track progress.<br><br>Significant progress has been made during 2020/21 including developing the S4C Clic player.<br>Since June 2019, when compulsory sign-in for S4C Clic was introduced on most devices, we've steadily increased our numbers of registered users. By March 2021 we had reached over 200,000 registered users with 72,650 of those subscribed to our mailing list which equates to 36%. This is now enabling S4C to communicate with viewers on a one-to-one basis and as a result, come to understand the needs of viewers better and provide a more comprehensive and tailored service.<br><br>S4C Clic gives a richer viewer experience with our ability to provide our own Welsh language box sets, exclusive dramas, dedicated content for Welsh learners and for children and younger viewers. Additionally, with S4C Clic we are able to create additional "channels" which curate content as happened with Yma i Chi during Covid-19. This was a collection of content designed to inform and entertain during the pandemic<br><br>As well as transforming our own S4C Clic platform, we must continue to innovate on global media platforms to ensure that S4C content is available through relevant platforms as trends change. S4C's on-demand content can be viewed, predominantly, on S4C Clic and BBC iPlayer, with selected content also on social media channels. The S4C app can currently be found on iOS, Android, web, Amazon Fire (two generations), Samsung (certain models only) and YouView. We are also working on a refresh for all these platforms other than web. |
| 3<br>Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>S4C should establish a language partnership with the Welsh Government and others to help deliver the Welsh Government's commitment to reach 1 million Welsh language speakers by 2050. | Mae S4C yn parhau i weithredu'r Strategaeth Partneriaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2018. Cefnogi dysgwyr, plant ac addysg yw prif themâu y partneriaethau hyn.<br><br>Mae S4C a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio i sicrhau bod gwybodaeth a chyfleoedd yn cael eu rhannu ac i gefnogi'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae partneriaeth S4C gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ei chynnwys i ddysgwyr (oedolion) ac S4C Clic i ddysgwyr hefyd yn parhau. Mae S4C wedi bod wrthi'n datblygu ei pherthynas â Chyngor Llyfrau Cymru a Cymraeg i Blant, ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Y Coleg Cymraeg, y Mentrau Iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol. | S4C continues to implement the Partnership Strategy approved by the Board in June 2018.<br>Supporting learners, children and education are key themes of these partnerships.<br><br>S4C and the Welsh Government continue to work together to ensure information and opportunities are shared and to support the aim of 1 million Welsh language speakers by 2050. S4C's partnership with the National Centre for Learning Welsh on its learners' content (for adults) and S4C Clic for learners also continues. S4C has also been actively developing its relationship with the Wales Book Council and Cymraeg i Blant, and continues to work closely with Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Y Coleg Cymraeg, the Mentrau Iaith and the National Eisteddfod. |
| 4<br>Dylai S4C gael ei ariannu'n gyfan gwbl gan ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi drwydded y BBC.<br>S4C's public funding should be provided entirely through the licence fee from 2022/23 onwards, with all future funding decisions made as part of the BBC licence fee funding settlement. | Nododd S4C argymhellion yr Adolygiad parthed ffynonellau ariannu ar gyfer S4C yn y dyfodol. Ym mis Tachwedd 2020, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at S4C yn nodi sgôp ac amseriad setliad ffi'r drwydded. I gydnabod safle unigryw S4C fel yr unig ddarlledwr yn yr iaith Gymraeg, gyda model gweithredu unigryw, gofynnwyd i S4C ddychwelyd gwybodaeth ar wahân i DCMS.<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/letters-from-the-culture-secret-to-the-bbc-and-s4c-on-the-2022-licence-fee-settlement<br><br>Aethpwyd ati i ddrafftio'r cyflwyniad yn ystod misoedd y gaeaf a chymeradwywyd y cais gan Fwrdd S4C cyn ei gyflwyno i'r DCMS ddechrau Mawrth 2021. | S4C noted the Review's recommendations in relation to the sources of funding for S4C in future. In November 2020, the Secretary of State wrote to S4C setting out the scope and timing of the licence fee settlement. In recognition of S4C's unique position as the only Welsh Language broadcaster and distinctive operating model, S4C was requested to return separate information to DCMS.<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/letters-from-the-culture-secretary-to-the-bbc-and-s4c-on-the-2022-licence-fee-settlement<br><br>The necessary work was undertaken during the winter months and the Board considered and approved the funding submission before it was submitted to DCMS at the start of March 2021. |
| 5<br>Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.<br>The government should consider amending current approval requirements to give S4C greater freedom to invest and generate commercial revenue. | Mae S4C wedi datblygu a mabwysiadu strategaeth fasnachol a threfniadau llywodraethiant newydd, sydd wedi eu cynllunio er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd masnachol S4C, yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan yr Adolygiad o S4C.<br><br>Mae trafodaethau adeiladol gyda'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi parhau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â diweddaru cylch gwaith masnachol S4C. Mae DCMS wedi paratoi Mesur S4C drafft a'r bwriad yw cyflwyno hwn yn ei dro, pan fydd amser seneddol ar gael. | S4C has developed and adopted a new commercial strategy and governance arrangements, designed to maximise S4C's commercial opportunities, in accordance with the guidance provided by the Review of S4C.<br><br>Constructive discussions with DCMS have continued during the year in relation to updating S4C's commercial remit. A draft S4C Bill has been prepared by DCMS and will be introduced in due course when a parliamentary slot becomes available. |
| 6<br>Dylid disodli Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol.<br>The S4C Authority should be replaced with a new unitary board comprising executive and non-executive directors. | Mae S4C wedi cyflwyno trefniadau dros-dro er mwyn gweithredu'r argymhellion llywodraethiant o fewn y darpariaethau statudol presennol. Yn hydref 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd sy'n rhoi mewn lle y Bwrdd unedol cysgodol (bydd y Bwrdd unedol cysgodol yn parhau i weithredu nes y bydd deddfwriaeth yn cael ei gyflwyo er mwyn cadarnhau'r newidiadau arfaethedig ac addasu fframwaith lywodraethiant S4C).<br><br>Mae'r Bwrdd unedol cysgodol yn cynnwys aelodau anweithredol y Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Cynnwys. Ym mis Chwefror 2021, croesawyd tri aelod anweithredol newydd i'r Bwrdd gyda'r pedwerydd yn ymuno o fis Ebrill 2021.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Llywodraethiant, a Rheolau Sefydlog diwygiedig S4C ar safle we S4C.<br><br>Cyflwynwyd a chymeradwywyd strwythur newydd ar gyfer llywodraethiant a gweithredu gweithgareddau masnachol S4C (gweler y strategaeth fasnachol uwchlaw). | S4C has put in place interim arrangements to facilitate the governance recommendations within the current statutory provisions. In autumn 2018, the Board ratified new Standing Orders that put in place the shadow unitary Board (the shadow unitary Board model will continue until legislation is brought forward to confirm the proposed changes and amend S4C's governance framework).<br><br>The shadow unitary Board comprises the non-executive members of the Board appointed by the Secretary of State, together with the Chief-Executive, Chief Operating Officer and Director of Content. In February 2021, the Board welcomed three new non-executive with a fourth joining in April 2021.<br><br>Further details can be found in the Governance Report, and S4C's revised Standing Orders that can be found on S4C's website.<br><br>A new structure has been ratified and put in place for the governance and operation of S4C's<br>commercial activities (see commercial strategy above). |
| 7<br>Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol S4C.<br>The government should consider whether S4C's current financial audit arrangements are suitable, including whether it would be appropriate to appoint the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditor. | Yn dilyn trafodaethau adeiladol, daethpwyd i gytundeb ym mis Hydref 2019 rhwng S4C a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan hwyluso penodiad Ysgrifennydd Gwladol y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilwyr allanol S4C, hyd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i diwygio. Cytunwyd ar Lythyr Ymgysylltu rhwng yr NAO a S4C a chafwyd trosglwyddiad priodol gyda Grant Thornton. | Following constructive discussions, an agreement was reached in October 2019 between S4C and the National Audit Office, facilitating the appointment by the Secretary of State of the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditors, until the relevant legislation has been amended. A Letter of Engagement between the NAO and S4C was agreed and an appropriate handover occurred with Grant Thornton. |





# Adroddiad Llywodraethiant

# Governance Report

Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu a digidol yn yr iaith Gymraeg, yn bennaf ar gyfer y gynulledifa yng Nghymru, ond hefyd ar gyfer cynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg S4C.

Mae'r Adroddiad Llywodraethiant yn nodi fframwaith llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd ac yn egluro sut y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes, sut mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi, sut y mae'r Bwrdd yn asesu ei berfformiad ac effeithiolrwydd a sut y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r Tîm Rheoli a'r Prif Weithredwr tra'n sicrhau atebolrwydd priodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi asesiad y Bwrdd o'r risgiau cynradd sy'n wynebu busnes S4C ar hyn o bryd.

Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C yn cyfeirio at un corff statudol a gwasanaeth teledu. Mae'r adroddiad hwn yn gyson gyda'r diffiniadau statudol. Cyfeirir at fwrdd cyfarwyddwyr S4C fel Bwrdd S4C neu y Bwrdd ac at y gwasanaeth fel S4C.

Yn hydref 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd er mwyn gweithredu'r Bwrdd unedol cysgodol. Mae'r Bwrdd unedol cysgodol yn cynnwys aelodau anweithredol y Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a dau aelod gweithredol arall. Bydd y Bwrdd unedol cysgodol yn parhau hyd nes cyflwynir ddeddfwriaeth i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig a diwygio fframwaith llywodraethiant statudol S4C.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, croesawyd Rhodri Williams fel Cadeirydd newydd y Bwrdd. Yn ystod 2021 bu cydweithio agos gyda'r Adran, dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i chwilio am aelodau anweithredol ychwanegol. Yn mis Chwefror 2021, ffarweliodd y Bwrdd ag Owen Derbyshire tra'n croesawu tri aelod anweithredol newydd sef, Chris Jones, Adele Gritten a Guto Bebb. Ymunodd pedwerydd aelod anweithredol newydd, Denise Lewis Poulton, a'r Bwrdd
yn mis Ebrill 2021.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur a gwaith S4C ar wefan S4C www.s4c.cymru

S4C is an independent public body responsible for the provision of high quality public service television and digital services through the medium of Welsh, mainly for the audience in Wales, but also for the wider audience that wishes to use S4C's Welsh-language service.

This Governance Report sets out S4C's corporate governance framework and explains how S4C's Board conducts its business, how the Board's members are appointed, how the Board assesses its performance and effectiveness and how the Board delegates responsibilities to the Management Team and Chief Executive whilst ensuring appropriate accountability.

The report also sets out the Board's assessment of the primary risks facing S4C's business at present.

The legislation that established S4C refers to one statutory body and television service. This report is consistent with these statutory definitions. S4C's board of directors is referred to as the S4C Board or the Board and the service is referred to as S4C.

In autumn 2018, the Board ratified new Standing Orders that put in place the shadow unitary Board. The shadow unitary Board comprises the non-executive members of the Board appointed by the Secretary of State, together with the Chief Executive and two other executive members. The shadow unitary Board model will continue until legislation is brought forward to confirm the proposed changes and amend S4C's statutory governance framework.

At the beginning of the financial year, the Board welcomed Rhodri Williams as its new Chair and worked with the Department for Digital, Culture, Media and Sport during 2020 to seek further non-executive members. In February 2021, the Board bid farewell to Owen Derbyshire while welcoming three new non-executive members namely, Chris Jones, Adele Gritten and Guto Bebb. A fourth new non-executive member, Denise Lewis Poulton, joined the Board in April 2021.

More information about S4C's structure and work can be found on S4C's website www.s4c.cymru

## Aelodau Bwrdd S4C

Penodir Aelodau anweithredol Bwrdd S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dilyn ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Hysbysebir swyddi anweithredol ar y Bwrdd yn gyhoeddus, ac mae'r penodiadau'n cael eu gwneud yn dilyn trefn penodiadau cyhoeddus.

Penodir aelodau gweithredol y Bwrdd unedol cysgodol gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn unol â darpariaethau Rheolau Sefydlog S4C.

**Aelodau Anweithredol Bwrdd S4C**

Ar ddechrau mis Ebrill 2020, apwyntiwyd Rhodri Williams fel Cadeirydd S4C am gyfnod pedwar blynedd. Ar ddechrau mis Chwefror 2021, gadawodd Owen Derbyshire y Bwrdd ac ymunodd tri aelod anweithredol newydd sef, Chris Jones, Adele Gritten a Guto Bebb. Ymunodd pedwerydd aelod anweithredol newydd, Denise Lewis Poulton, ym mis Ebrill 2021.

**Rhodri Williams – Cadeirydd**
Tymor Aelodaeth: 02.07.18 - 31.03.24
(Cadeirydd 01.04.20 - 31.03.24)

Mae Rhodri yn aelod anweithredol o Fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac yn Gadeirydd ar Bwyllgor Cymru y Cyngor. Roedd yn gyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru rhwng 2004 a 2018. Roedd yn gyd-sefydlydd cwmni teledu Agenda ym 1990 a chyn hynny yn aelod o dîm Y Byd ar Bedwar yn ITV. Mae ei rolau anweithredol blaenorol yn cynnwys Aelod a Chadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1997-2004) ac aelod o Fwrdd Ymwelwyr Carchar ei Mawrhydi, Caerdydd.

Cofrestr Diddordebau:
Ofcom – cysylltiadau teuluol
Cyngor Defnyddwyr Dŵr – Aelod a Chadeirydd Pwyllgor Cymru

**Anita George**
(Prif Aelod Anweithredol)
Tymor Aelodaeth: 02.07.18 – 01.07.2022

Mae Anita George yn gyfreithwr efo profiad bwrdd a gweithredol eang yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac elusennol. Mae wedi gweithio fel cyfreithiwr mewnol ar draws sawl sector rheoledig yn y DU a Hong Kong, ac yn fwyaf diweddar fel ymgynghorydd annibynnol yn cynghori busnesau gwasanaethau ariannol ar lywodraethiant corfforol a newid sefydliadol.

Cofrestr Diddordebau:
Cadeirydd The Ashley Family Foundation
Cyn aelod o Fwrdd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

## S4C Board Members

Non-executive Members of the S4C Board are appointed by the Secretary of State following consultation with the Wales Office and Welsh Government. Non-executive positions on the Board are advertised publicly, and appointments are made in accordance with the public appointments process.

Executive members of the shadow unitary Board are appointed by the non-executive members of the Board, in accordance with the provisions of S4C's Standing Orders.

**Non-executive members of the S4C Board**

At the start of April 2020, Rhodri Williams was appointed as the Chair of S4C for a four year term. At the start of February 2021, Owen Derbyshire left the Board while three new non-executive members joined namely, Chris Jones, Adele Gritten and Guto Bebb. A fourth new non-executive member, Denise Lewis Poulton, joined in April 2021.

**Rhodri Williams – Chair**
Term of appointment: 02.07.18 - 31.03.24
(Chair 01.04.20 – 31.03.2024)

Rhodri is a non-executive member of the Board of the Consumer Council for Water and the Chair of its Wales Committee. He was Ofcom's Director in Wales between 2004 and 2018. He co-founded Agenda Television in 1990 and before that was a member of ITV's Y Byd ar Bedwar team. His previous non-executive positions include Member and Chair of the Welsh Language Board (1997-2004) and a member of the Board of Visitors at Her Majesty's Prison, Cardiff.

Register of Interests:
Ofcom - family connections
Consumer Council for Water - Member and Chair of its Wales Committee

**Anita George**
(Lead Non-Executive Member)
Term of appointment: 02.07.18 – 01.07.2022

Anita George is a lawyer with extensive operational and board experience in the private, public and not-for-profit sectors. She has worked as in-house counsel across several highly regulated sectors in both Hong Kong and the UK and, more recently, as an independent consultant advising financial services businesses on corporate governance and organisational change.

Register of Interests:
Chair of The Ashley Family Foundation
Former board member of the Royal Welsh College of Music and Drama



**Hugh Hesketh Evans**
Tymor aelodaeth: 20.11.14 – 19.11.21

Mae Hugh yn Arweinydd ar Gyngor Sir Ddinbych ers mis Tachwedd 2007, ac yn gynghorydd sir dros Llanfair Dyffryn Clwyd a Gwyddelwern ers mis Mehefin 2004.

Mae hefyd yn aelod o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), ac yn Ymddiriedolwr a Thrysorydd Elusen Gyfunol Garth Groes. Yn 2012, fe gafodd OBE am wasanaethau i Lywodraeth Leol yn Rhestr Anrhydeddau'r Frenhines. Bu Hugh yn Gadeirydd dros dro S4C rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020.

Cofrestr Diddordebau:
Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a Ffermwr
HH & EM Evans – partneriaeth busnes fferm
Arweinydd Cymdeithas Cynghorwyr Annibynnol Cymru
Cyngor Partneriaeth WLGA
Llefarydd dros berfformiad a gwelliant i Lywodraeth Leol
Aelod Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru
Ymddiriedolwr elusen Garth Groes
Aelod o Gyngor Cymuned Llanelidan

**Siân Lewis**
Tymor aelodaeth: 9.07.14 – 08.07.21

Mae Siân yn Brif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru ers Ionawr 2018, Mae yn aelod o nifer o fyrddau a grwpiau partneriaeth cenedlaethol a rhai Llywodraeth Cymru. Cyn hyn, roedd yn Brif Weithredwr ar Fenter Iaith Caerdydd a Bro Morgannwg. Un o'i llwyddiannau mwyaf tra yn y swydd oedd codi trosiant Menter Caerdydd o £36k - £750K, i gynyddu cynyddu gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Gymraeg yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Sefyddlodd Ŵyl Tafwyl.

Cofrestr Diddordebau:
Swydd: Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru
Cynyrchiadau Twts – cysylltiadau teuluol

**Owen Derbyshire**
(Aelod anweithredol tan 1 Chwefror 2021)
Tymor Aelodaeth: 02.07.18 – 01.07.2022

Owen yw sylfaenydd a Phrif Weithredwr Grŵp Datblygu Cymru. Mae yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, Bwrdd Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru, ac yn ymddiriedolwr o'r elusen tai a digartrefedd Shelter Cymru. Gadawodd Owen y Bwrdd yn Chwefror 2021 yn sgil ei benodiad i swydd newydd Cyfarwyddwr Marchnata a Digidol S4C o 8 Mawrth 2021.

**Guto Bebb**
Tymor Aelodaeth: 01.02.2021-31.01.2025

Mae Guto'n Rheolwr Gyfarwyddwr Grŵp Undeb Amaethwyr Cymru yn ei gyfanrwydd ers Chwefror 2021. Cyn hynny, fe fu'n Aelod Seneddol dros Aberconwy am ddegawd gan wasanaethu fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Yn enedigol o Sir y Fflint, mae Guto wedi byw yng Nghaernarfon (ac eithrio ambell gyfnod yn crwydro) ers deugain mlynedd. Cyn ei ethol i San Steffan fe fu'n rhedeg amrywiol fusnesau gan gynnwys ymgynghoriaeth datblygu economaidd a siop lyfrau. Am gyfnod, bu hefyd yn gydberchennog ar dŷ tafarn.

Cofrestr Diddordebau:
Grŵp Undeb Amaethwyr Cymru – Rheolwr Gyfarwyddwr
Ymddangosiadau achlysurol ar S4C mewn perthynas â materion amaethyddol.
Golwg360 – mab yn gweithio i'r gwasanaeth newyddion

**Hugh Hesketh Evans**
Term of appointment: 20.11.14 –19.11.21

Hugh has been Leader of Denbighshire County Council since November 2007, and a member of Llanfair DC and Gwyddelwern Community Council since June 2004.

He is also a member of the National Farmers Union (NFU), and Trustee and Treasurer of Garth Groes Consolidated Charity. He was awarded the OBE for services to Local Government in the Queen's Honours List 2012. Hugh was interim Chair of S4C between October 2019 and March 2020.

Register of Interests:
Leader of Denbighshire County Council and Farmer.
HH & EM Evans - farm business partnership
Leader of the Association of Independent Welsh Councillors
WLGA – Partnership Council
Lead spokesperson for improvement and performance for Local Government
Member of the North Wales Economic Ambition Board
Garth Groes - Charity trustee
Member of Llanelidan Community Council

**Siân Lewis**
Term of appointment: 9.07.14 – 08.07.21

Siân has been Chief Executive of Urdd Gobaith Cymru since January 2018. She is a member of a number of national and Welsh Government boards and partnership groups. Prior to this she was chief executive of Menter Iaith Caerdydd a'r Fro. One of her major successes whilst in the post was raising Menter Caerdydd's turnover from £36k to £750K, in order to increase community services through the medium of Welsh in Cardiff and the Vale of Glamorgan. She also established the successful Tafwyl festival.

Register of Interests:
Chief Executive Urdd Gobaith Cymru
Twts production company – family connections

**Owen Derbyshire**
(Non-executive member until 1 February 2021)
Term of appointment: 02.07.18 – 01.07.2022

Owen is founder and Chief Executive of the Datblygu Cymru Group. He sits on the Welsh Language Partnership Council, the Welsh Government's Welsh Language Technology Board, and is a trustee of housing and homelessness charity Shelter Cymru. Owen left the Board in February 2021 having been appointed to the new post of S4C's Director of Marketing and Digital from 8 March 2021.

**Guto Bebb**
Term of appointment: 01.02.2021-31.01.2025

Guto has been Managing Director of the Farmers' Union of Wales Group as a whole since February 2021. Prior to that, he was Member of Parliament for Aberconwy for a decade and served as a Minister in the Wales Office and the Ministry of Defence.

A native of Flintshire, Guto has lived in Caernarfon (with the exception of a few periods wandering) for forty years. Prior to his election to Westminster he ran various businesses including an economic development consultancy and a bookshop. For a while, he was also a co-owner of a pub.

Register of Interests:
FUW Group - Managing Director
Occasional appearances on S4C in relation to agricultural matters
Golwg360 - son works for the news service

**Adele Gritten**
Tymor Aelodaeth: 01.02.2021-31.01.2025

Cafodd Adele ei geni a'i magu yn Abertawe. Mae'n weithredwr profiadol ar lefel bwrdd ar ôl gweithio mewn rolau uwch reolwr ar gyfer amrywiaeth o ymgynghoriaethau cyfryngau, marchnata ac ymchwil, gan gynnwys YouGov, ers dros 20 mlynedd. Ar hyn o bryd, mae'n ymwneud â gwaith datblygu economaidd i lywodraeth leol, gan gynnwys helpu busnesau i arallgyfeirio a bod yn rhan o adferiad pandemig yn Swydd Gaergrawnt, lle mae'n byw.

Yn arweinydd profiadol, uchel ei pharch ac un y gellir ymddiried ynddi mewn cylchoedd ymchwil y cyfryngau, mae gan Adele MA mewn Gwyddor Gymdeithasol a Gwleidyddol o Brifysgol Caergrawnt.

Cofrestr Diddordebau:
South Cambridgeshire District Council – gwaith yn y maes datblygiad economaidd a polisi lleol

**Chris Jones**
Tymor Aelodaeth: 01.02.2021-31.01.2025

Roedd Chris yn gyd-sylfaenydd Glas Cymru Cyf., wnaeth brynu Dŵr Cymru yn 2001 i greu'r unig gwmni cyfleustodau yn y DU nad yw'n eiddo i gyfranddalwyr. Ef oedd Prif Swyddog Ariannol Dŵr Cymru rhwng 2001 a 2013 ac yna'n Brif Weithredwr nes iddo adael y cwmni ym mis Mai 2020.

Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol o Xoserve Limited (darparwr gwasanaethau data canolog y farchnad nwy ym Mhrydain) ac mae'n gyn Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Mae'n aelod lleyg o Gyngor Prifysgol Caerdydd. Mae o wedi cael amrywiaeth o rolau fel ymddiriedolwr neu gynghorwr gyda sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog, y Sefydliad Materion Cymreig, Water UK a CBI Cymru.

Dysgodd Chris Gymraeg fel oedolyn. Dyfarnwyd CBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2020.

Cofrestr Diddordebau:
Xoserve Ltd – cyfarwyddwr cwmni
Glas Cymru Cyf. – panel dewis aelodau
Scottish Water – aelod o'r pwyllgor arbenigol
Prifysgol Caerdydd – aelod lleyg o'r Cyngor
The Prince's Trust Cymru - aelod o'r pwyllgor cynghori

**Denise Lewis Poulton**
Tymor Aelodaeth: 01.04.2021-31.03.2025

Mae Denise yn arbenigwr cyfathrebu strategol, brand a materion corfforaethol profiadol. Cafodd ei geni a'i magu yng Nghastell Newydd Emlyn, Sir Aberteifi a'i haddysg yn Ysgol Ramadeg Llandysul a King's College, Prifysgol Llundain. Treuliodd ei gyrfa gorfforaethol yn bennaf fel uwch gyfarwyddwr mewn cwmnïau telegyfathrebu rhyngwladol fel Bell Canada plc, Cable & Wireless Communications plc ac Orange plc.

Aeth ymlaen i sefydlu busnes ymgynghori yn cynghori nifer o sefydliadau diwylliannol, cyfryngau a sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru, S4C a Chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Mae hi wedi gwasanaethu fel ymddiriedolwr a chyfarwyddwr anweithredol gyda sawl sefydliad diwylliannol cenedlaethol yn eu plith Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, Gŵyl Lenyddol y Gelli a Chasgliad Wallace yn Llundain. Mae hi'n Gymrawd Oes er Anrhydedd i BAFTA.

Ochr yn ochr â rhedeg ei chwmni ymgynghori, mae Denise ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Arweinyddiaeth Ddiwylliannol yn yr Academi Frenhinol a Phrifysgol Maastricht.

Cofrestr Diddordebau:
Gwyl Lenyddol Y Gelli – Is-Lywydd

**Adele Gritten**
Term of appointment: 01.02.2021-31.01.2025

Adele was born and bred in Swansea and is an experienced board level executive having worked in senior management roles for a range of media, marketing and research consultancies for over 20 years, including YouGov. Currently, she is engaged in economic development work for local government, including helping businesses diversify and pivot as part of pandemic recovery in Cambridgeshire where she resides.

A proven, respected and trusted leader in media research circles, Adele holds an MA in Social and Political Science from the University of Cambridge.

Register of Interests:
South Cambridgeshire District Council – work in economic development and local policy

**Chris Jones**
Term of Appointment: 01.02.2021-31.01.2025

Chris was a co-founder of Glas Cymru Cyf., which acquired Welsh Water in 2001 to create the UK's only non-shareholder owned utility company. He was CFO of Welsh Water from 2001 to 2013 and then Chief Executive until he stepped down in May 2020.

He is currently a Non-Executive Director of Xoserve Limited (the central data services provider for Britain's gas market) and is a former Non-Executive Director of The Principality Building Society. He is Lay Member of the Council of Cardiff University and has had a range of trustee and advisory roles with third sector organisations, including The Prince's Trust, The Institute of Welsh Affairs, Water UK and CBI Wales.

Chris learned Welsh as an adult. He was awarded a CBE in the Queen's Birthday Honours List in 2020.

Register of Interests:
Xoserve Ltd – company director
Glas Cymru Cyf. – membership selection panel
Scottish Water - member of the specialist committee
Cardiff University – lay member of the Council
The Prince's Trust – member of the Wales advisory committee

**Denise Lewis Poulton**
Term of appointment: 01.04.2021-31.03.2025

Denise is an experienced strategic communications, brand and corporate affairs specialist. Born and bred in Newcastle Emlyn, Cardiganshireshe she was educated at Llandysul Grammar School and King's College, University of London. She spent her corporate career primarily as a senior director at international telecommunications companies such as Bell Canada plc, Cable & Wireless Communications plc and Orange plc.

She went on to set up a consultancy business advising a number of cultural, media and public sector organisations including the Welsh Government, Senedd Cymru, S4C and the Millennium Centre in Cardiff. She has served as a trustee and non-executive director with several national cultural organisations including The Welsh National Opera, the Hay Literary Festival and The Wallace Collection in London. She is an Honorary Lifetime Fellow of BAFTA.

Alongside running her consulting firm, Denise is currently studying for a Masters degree in Cultural Leadership at the Royal Academy and Maastricht University.

Register of Interests:
Hay Literary Festival - Vice President

## Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

## Board members' attendance

The table below notes attendance at meetings of the Authority Board and its committees.

| Ebrill 2020 - Mawrth 2021 / April 2020 - March 2021 | Cyfarfod Bwrdd (cyfarfodydd busnes misol a chyfarfodydd arbennig) Board Meeting (monthly business meetings and special meetings) | Pwyllgor Archwilio, a Materion Cyffredinol Audit and General Purpose Committee | Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Complaints and Compliance Committee | Pwyllgor Cynnwys Content Committee | Y Bwrdd Masnachol Commercial Board |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn Number of meetings during the year | 14 | 7 | 1 | 5 | 4 |
| Aelodau Anweithredol Bwrdd S4C: S4C Board Non-Executive Members: | | | | | |
| Rhodri Williams | 14 | 7 | - | 5 | - |
| Sian Lewis | 13 | 2/3* | 1 | 3 | - |
| Hugh Hesketh Evans | 11 | 7 | 1 | - | - |
| Anita George | 14 | 7 | - | 2/3 | 4 |
| Owen Derbyshire | 7/10 | 3/3* | - | 3 | 3/3 |
| Chris Jones | 2/2 | 1/1 | - | - | - |
| Adele Gritten | 2/2 | - | - | - | - |
| Guto Bebb | 2/2 | 1/1 | - | - | - |
| Owen Evans | 14 | 7 | 1 | 5 | 4 |
| Elin Morris | 14 | 7 | - | - | 4 |
| Amanda Rees | 14 | - | 1 | 5 | - |

*Estynnwyd gwahoddiad i holl aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfodydd hyn.
*All Board members were invited to attend these committee meetings.

Penodwyd Rhodri Williams yn Gadeirydd S4C ar 1 Ebrill 2020.

Ar ddechrau mis Chwefror 2021, gadawodd Owen Derbyshire y Bwrdd ac ymunodd Chris Jones, Adele Gritten a Guto Bebb fel aelodau anweithredol.

Ceir manylion cydnabyddiaeth Aelodau'r Bwrdd yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Rhodri Williams was appointed as the Chair of S4C from 1 April 2020.

At the start of February 2021, Owen Derbyshire left the Board while Chris Jones, Adele Gritten and Guto Bebb joined as non-executive members.

Details of Board Members' remuneration can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.



## Tîm Rheoli S4C

### Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion (nodir y materion hyn yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd, sydd i'w cael ar wefan S4C), ac mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am weithredu'r swyddogaethau hyn.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, swyddogion a staff S4C ydi rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu ac ar-lein S4C.

**Aelodau'r Tîm Rheoli sydd hefyd yn Aelodau Gweithredol y Bwrdd unedol cysgodol:**

**Owen Evans – Prif Weithredwr**
Penodwyd Owen Evans yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo S4C ym mis Hydref 2017. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth cyn graddio mewn economeg o Brifysgol Abertawe. Cyn ymuno â S4C, roedd yn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn gyfrifol am addysg a gwasanaethau cyhoeddus. Rhwng 2008 a 2010 bu'n gyfarwyddwr BITC Cymru ac am 10 mlynedd cyn hynny bu'n gweithio i BT, gan gynnwys gweithio fel aelod o dîm y DU yn datblygu strategaeth band eang BT. Bu'n aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2005 a 2010.

Mae'n aelod o fwrdd cynghori Marie Curie yng Nghymru ac yn cadeirio Bwrdd Datblygu Addysg Caerdydd a WepCo. Mae'n aelod o Bwyllgor Adnoddau a Pherfformiad Prifysgol Aberystwyth.

<u>Cofrestr Diddordebau:</u>
WEPCo – Cadeirydd a chyfarwyddwr
Bwrdd Datblygu Addysg Caerdydd - cadeirydd
S4C PTG Cyf
S4C Masnachol Cyf
S4C Digital Media Cyf
S4C Rhyngwladol Cyf
S4C2 Cyf
Aelod o Bwyllgor Adnoddau Prifysgol Aberystwyth
Aelod Bwrdd Cynghori Marie Curie yng Nghymru

**Elin Morris – Prif Swyddog Gweithredol**
Mae Elin yn dod yn wreiddiol o Lanrhystud, Aberystwyth. Roedd yn gyfreithiwr yn adran gorfforaethol Geldards am dros 18 mlynedd. Fe gafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, gan ddod yn Brif Swyddog Gweithredol yn 2018. Mae'n gyfrifol am y timoedd Cyfreithiol a Busnes, Adnoddau Dynol, Cyllid, Technegol a Masnachol.

<u>Cofrestr Diddordebau:</u>
S4C PTG Cyf
S4C Masnachol Cyf
S4C Digital Media Cyf
S4C Rhyngwladol Cyf
S4C2 Cyf
Shakespeare Animated Films Ltd – cyfarwyddwr
Geldards (cyfreithwyr i S4C) – cysylltiadau teuluol
Cartrefi Carrog Cyf – cyfarwyddwr a rhan-berchennog

## S4C's Management Team

### Responsibilities of the Chief Executive and the Management Team

The Board delegates a number of specific functions to the Chief Executive and his officers (these matters are set out in the Board's Standing Orders, which can be found on S4C's website), and the Chief Executive is accountable to the Board for excercising these functions.

It is the responsibility of the Chief Executive, officers and staff of S4C to manage and maintain S4C on a day-to-day basis. This responsibility includes the provision of S4C's television and online services.

**Members of the Management Team who are also Executive Members of the shadow unitary Board:**

**Owen Evans – Chief Executive**
Owen Evans was appointed S4C's Chief Executive and designated Accounting Officer in October 2017. Owen was educated at Ysgol Penweddig, Aberystwyth before graduating in economics from Swansea University. Prior to joining S4C, he was Deputy Permanent Secretary of the Welsh Government, responsible for education and public services. Between 2008 and 2010 he was director of Business in The Community Wales and for 10 years before that he worked for BT, including as a member of the UK team developing BT's broadband strategy. He served as a member of the Welsh Language Board between 2005 and 2010.

He is currently a member of Marie Curie's advisory board in Wales and chairs both the Cardiff Education Development Board and WepCo. He is a member of Aberystwyth University's Resources and Performance Committee.

<u>Register of Interests:</u>
WEPCo - Chairman and director
Cardiff Education Development Board - chairman
S4C PTG Cyf
S4C Masnachol Cyf
S4C Digital Media Cyf
S4C Rhyngwladol Cyf
S4C2 Cyf
Member of Aberystwyth University Resources Committee
Member of Marie Curie's Advisory Board

**Elin Morris – Chief Operating Officer**
Elin hails originally from Lanrhystud, Aberystwyth. She was a lawyer in the corporate department of Geldards for over 18 years. She was appointed Corporate and Commercial Director at S4C in 2009, becoming Chief Operating Officer in 2018. She is responsible for the Legal and Business, Human Resources, Finance, Technical and Commercial teams.

<u>Register of Interests:</u>
S4C PTG Cyf
S4C Masnachol Cyf
S4C Digital Media Cyf
S4C Rhyngwladol Cyf
S4C2 Cyf
Shakespeare Animated Films Ltd - director
Geldards (S4C solicitors) – family connections
Cartrefi Carrog Cyf – director and part owner

**Amanda Rees – Cyfarwyddwr Cynnwys**
Roedd Amanda yn cyfarwyddo, cynhyrchu ac uwch gynhyrchu ystod eang o raglenni ffeithiol i ddarlledwyr ar draws y byd cyn ffurfio ei chwmni ei hun yn 2012. Cafodd ei rhaglen 'Finding Mum and Dad' (i Channel 4) ei henwebu am wobrau Grierson a Broadcast yn 2015. Fe gafodd Amanda ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cynnwys S4C yn Hydref 2016.

Cofrestr Diddordebau:
TiFiNi Cyf – cyn gyfarwyddwr
Ten Tree Consulting – cysylltiadau teuluol
Family Fostering Partners – cyfranddaliwr/ cysylltiadau teuluol

**Aelodau Eraill y Tim Rheoli**
**(sydd yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd unedol cysgodol)**

**Gwyn Williams – Cyfarwyddwr Cyfathrebu**
Dechreuodd Gwyn ei yrfa yn y cyfryngau gan weithio i Radio Cymru ym Mangor. Wedi hynny bu'n gweithio i Newyddion 7 a Hel Straeon cyn cychwyn ei gwmni cynhyrchu ei hun. Roedd yn un o sylfaenwyr Cwmni Da ac yna'n brif weithredwr cwmni adnoddau Barcud yng Nghaernarfon. Cyn cychwyn gyda S4C roedd yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu gyda Chomisiynydd y Gymraeg

**Sharon Winogorski - Prif Swyddog Cyllid**
Mae Sharon yn gyfrifydd siartredig. Cyn ymuno â S4C yn 1998, gweithiodd Sharon i nifer o gwmnïau a sefydliadau. Fe'u penodwyd hi i dîm rheoli S4C ym mis Hydref 2018. Mae'n gyfrifol am Adran Gyllid S4C sy'n cynnwys materion ariannol a chyllidebol ar gyfer endidau cyhoeddus a masnachol S4C. Mae Sharon yn siaradwr Cymraeg - ar ôl dysgu Cymraeg i uwch lefel ers ymuno â S4C.

Ceir manylion cydnabyddiaeth aelodau'r Tim Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

**Amanda Rees – Director of Content**
Amanda directed, produced and executive produced a wide range of factual programmes for broadcasters across the world before forming her own company in 2012. Her programme 'Finding Mum and Dad' (for Channel 4) was nominated for Grierson and Broadcast awards in 2015. Amanda was appointed Director of Content at S4C in October 2016.

Register of Interests:
TiFiNi Cyf – former director
Ten Tree Consulting – family connections
Family Fostering Partners – shareholder/family connections

**Other members of the Management Team**
**(who are invited to attend meetings of the shadow unitary Board):**

**Gwyn Williams – Director of Communications**
Gwyn began his career in the media working for Radio Cymru in Bangor. Thereafter he worked for Newyddion 7 for the BBC and Hel Straeon before starting his own production company. He was a founding member of Cwmni Da before being appointed chief executive of Barcud resources company in Caernarfon. Prior to his current appointment, he was Director of Communications, with the Welsh Language Commissioner.

**Sharon Winogorski – Chief Finance Officer**
Sharon is a chartered accountant. Prior to joining S4C in 1998, Sharon worked for a number of companies and organisations. She was appointed to S4C's management team in October 2018. She is responsible for S4C's Finance Department and financial and budgetary issues for both S4C's public and commercial entities. Sharon is a Welsh speaker – having learnt Welsh to an advanced level since joining S4C.

Details of the Management Team's remuneration can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.

## Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol S4C

Mae S4C yn gorfforaeth statudol. Mae strwythur a dyletswyddau cyfansoddiadol S4C wedi'u nodi mewn statud yn Neddf Gyfathrebiadau 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996.

Argymhellodd yr adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai strwythur llywodraethu corfforaethol S4C fod yn seiliedig ar fwrdd unedol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, lle mae'r weithrediaeth uwch swyddogion yn rheoli a chyfarwyddwyr anweithredol yn craffu ac yn cynghori. Yn hydref 2018, rhoddodd S4C drefniadau dros dro ar waith i hwyluso yr argymhellion llywodraethu o fewn y ddarpariaeth statudol gyfredol. Cadarnhaodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd a rhoddwyd ar waith Bwrdd unedol cysgodol fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad o S4C. Bydd y darpariaethau dros dro hyn yn parhau nes cyflwynir deddfwriaeth i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig a diwygio fframwaith llywodraethu S4C. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd S4C yn parhau i wneud hynny gan weithredu'n ffurfiol yn unol â'r darpariaethau statudol cyfredol. Mae'r Bwrdd unedol cysgodol yn cynnwys yr aelodau anweithredol o'r Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a dau aelod gweithredol arall a benodir gan yr aelodau anweithredol yn dilyn argymhelliad a wnaed i'r Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefnweithiau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn ei Rheolau Sefydlog ar wefan s4c.cymru.

**Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**
Mae gan y Bwrdd ddyletswydd penodol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol o weithgareddau S4C i'r Senedd bob blwyddyn. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C gerbron Senedd Cymru.

## S4C's Corporate Governance Structure

S4C is a statutory corporation. Its constitutional structure and duties are set out in statute in the Communications Act 2003 and the Broadcasting Acts of 1990 and 1996.

The independent review of S4C published in March 2018 recommended that S4C's corporate governance structure should be based on a unitary board comprising executive and non-executive directors, with clearly defined roles and responsibilities, where the executive directors manage and non-executive directors scrutinise and advise. In autumn 2018, S4C put in place interim arrangements to facilitate the governance recommendations within the current statutory provisions. The Board ratified new Standing Orders that put in place a shadow unitary Board as recommended by the independent review of S4C. These interim provisions will continue until legislation is brought forward to confirm the proposed changes and amend S4C's governance framework. During this period, S4C will continue to operate formally in accordance with the current statutory provisions. The shadow unitary Board comprises the non-executive members of the Board appointed by the Secretary of State, together with the Chief Executive and two other executive members that are appointed by the non-executive members following a recommendation made to the Board by the Audit and General Purpose Committee.

Further information regarding the shadow unitary Board can be found in S4C's revised Standing Orders on S4C's website.

**Annual Report and Statement of Accounts**
The Board has a specific duty to submit an Annual Report and Statement of Accounts of S4C's activities to Parliament each year. In addition the Board has agreed to present S4C's Annual Report and Statement of Accounts before the Welsh Parliament.

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd**
Mae prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:
— darparu gwasanaethau teledu, digidol ac ar-lein S4C;
— sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
— cymryd ystyriaeth o farn y gynulleidfa am arlwy gwasanaeth S4C;
— cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
— goruchwylio, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
— gweithredu fel corff cyhoeddus;
— gweithredu fel rheoleiddiwr ar nifer cyfyngedig o faterion penodol yn ymwneud a gwasanaethau ar-lein S4C;
— paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
— phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

Nid yw aelodau anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau dydd i ddydd. Yn benodol, nid yw aelodau anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau comisiynu neu benderfyniadau golygyddol. Mae'r arfer yma wedi bodoli ers 1982. Mae'n sicrhau fod y Bwrdd yn cael ei gadw hyd braich o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y swyddogion, yn arbennig felly, ynglŷn â chynnwys rhaglenni.

Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog diwygiedig ar wefan s4c.cymru.

**Y Bwrdd a'i Aelodau**
Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Bwrdd, gofynion deddfau perthnasol, Cod Darlledu Ofcom, a'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda'r BBC.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Mae ganddynt brofiad a gwybodaeth helaeth ac maent yn annibynnol o'r Tîm Rheoli, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei dominyddu gan unigolyn neu grŵp bychan. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi aelodau gweithredol y Bwrdd unedol cysgodol wedi eu cynnwys yn Rheolau Sefydlog diwygiedig y Bwrdd.

**Amrywiaeth**
Mae amrywiaeth o fewn y Bwrdd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ddethol DCMS. Mae amrywiaeth o fewn y sefydliad yn allweddol i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn adlewyrchu ei chynulleidfa a'u hanghenion.

**Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau'r Bwrdd**
Mae rhaglen sefydlu bwrpasol yn cael ei darparu i bob aelod newydd o'r Bwrdd. Ynghyd â darparu gwybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â dyletswyddau cyfarwyddwyr, mae'r broses sefydlu yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithrediad busnes S4C, y sector cyfryngau a hefyd y prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu S4C.

**Aelod Anweithredol Arweiniol**
Ym mis Tachwedd 2018, penododd y Bwrdd Anita George yn Aelod Anweithredol Arweiniol. Crëwyd y rôl hon yn 2016 yn dilyn cyngor a roddwyd gan DCMS i'r cyrff a noddir ganddi.

Mae cyfrifoldebau'r Aelod Anweithredol Arweiniol yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i'r Cadeirydd; casglu adborth gan aelodau'r Bwrdd ar berfformiad y Cadeirydd fel rhan o broses werthuso flynyddol DCMS; lle mae anawsterau neu densiwn yn bodoli yn y berthynas rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, bod yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o ddatrys y materion hyn a chydweithio â'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd i geisio datrys unrhyw ystyriaethau neu anghydfodau perthnasol sy'n effeithio ar waith y Bwrdd.

**Responsibilities of the Board**
The Board's main responsibilities include:
— providing S4C's television and digital & online services;
— ensuring compliance of the services with the relevant regulatory requirements, including the Ofcom Broadcasting Code;
— taking into account the audience's views regarding S4C's provision;
— approving S4C's strategy, annual budget and long-term financial plans;
— overseeing, approving and scrutinising the proper management of S4C;
— operating as a public body;
— acting as regulator in a limited number of areas relating to S4C's online services;
— preparing annual reports and accounts; and
— appointment of the Chief Executive and Secretary.

The non-executive members of the Board do not participate in S4C's day-to-today decisions. In particular, the non-executive members of the Board are not involved in any commissioning or editorial decisions. This practice has existed since 1982. It ensures that the Board remains at arm's length from decisions made by officers - especially in the case of programme content.

Further information regarding the Board's procedures and responsibilities can be found in its revised Standing Orders on the s4c.cymru website.

**The Board and its Members**
The Board has a responsibility to ensure that S4C's statutory functions, in a public and commercial service environment, are carried out in accordance with the Board's policies, relevant legislative requirements, the Ofcom Broadcasting Code, and the Partnership, Funding and Accountability Agreement with the BBC.

The Board comprises the Chair and up to eight non-executive members, appointed by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport, following consultation with the Welsh Government and the Wales Office. They bring a breadth of experience and knowledge and are independent of the Management Team and of any business or other relationship which could interfere with the exercise of their independent judgment. This structure ensures that the members' decision making cannot be dominated by an individual or small group. Provisions relating to the appointment of executive members of the shadow unitary Board are set out in the Board's revised Standing Orders.

**Diversity**
Diversity within the board is considered as part of the selection process run by DCMS. Diversity within the organisation is key to ensuring that S4C's service reflects its audience and their needs.

**Training and Board Members' Induction Programme**
A tailored induction programme is provided to all new Board members. The induction process includes the provision of core information relating to directors' duties, information relating to the operation of S4C's business, the media sector and also the principal risks and uncertainties facing S4C.

**Lead Non-Executive Member**
In November 2018, the Board appointed Anita George as Lead Non-Executive Member. This role was created in 2016 following advice given by DCMS to its sponsored bodies.

The Lead Non-Executive Member's responsibilities include providing advice and assistance to the Chair; gathering feedback from Board members on the Chair's performance as part of the DCMS led annual appraisal; where difficulties or tensions exist in the relationship between the Chair and the Chief Executive to be responsible for facilitating a resolution of such matters, and working with the Chair and other Board members to seek resolution of any material issues or disputes that impact upon the Board's work.

**Effeithiolrwydd a Gwerthuso**
Mae'r Bwrdd yn cynnal gwerthusiad rheolaidd o'i berfformiad ei hun a gwaith ei bwyllgorau a'r aelodau.

Cwblhawyd adolygiad sicrwydd o lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2020 gan TIAA (yr Archwilwyr Mewnol). Mae TIAA yn annibynnol o S4C ac ystyriodd yr adolygiad y trefniadau lefel uchel sydd mewn lle trwy drafodaethau gydag aelodau'r Bwrdd a chymhariaethau gyda chyfarwyddyd arfer gorau, er mwyn darganfod effeithiolrwydd y Bwrdd Unedol newydd. Mae'r Bwrdd wedi gweithredu nifer o'r argymhellion yn barod.

**Diddordebau a Chydnabyddiaeth Aelodau**
Mae cofrestr sy'n datgan diddordebau'r aelodau ar gael ar wefan S4C, s4c.cymru. Mae copïau ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd S4C yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon. Caiff gwybodaeth mewn perthynas â chydnabyddiaeth yr aelodau ei nodi yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

**Gwrthdaro Buddiannau**
Yn ystod y cyfnod nid oedd gan unrhyw aelodau anweithredol y Bwrdd fudd mewn cytundebau gydag S4C.

**Cydymffurfiaeth Rheoleiddio**
Trosglwyddwyd nifer sylweddol o gyfrifoldebau rheoliadol i Ofcom, y rheolydd cyfathrebu'r DU, gan Ddeddf Cyfathrebu 2003.

Mae gwasanaeth teledu S4C yn cael ei reoleiddio gan Ofcom. O dan y darpariaethau hyn mae'n ofynnol i S4C gydymffurfio ag ystod eang o ofynion rheoliadol a nodir mewn deddfwriaeth a hefyd gan Ofcom a'r Cod Darlledu.

Fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd i Ofcom, mae S4C yn talu Ffi Rheoleiddio i Ofcom ac yn darparu ystod eang o wybodaeth i Ofcom, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, gwybodaeth feintiol am berfformiad y gwasanaeth a gwybodaeth am gydymffurfio gyda chwotâu perthnasol Ofcom. Mae Bwrdd yr Awdurdod yn parhau â nifer cyfyngedig o gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud gyda gwasanaethau ar-lein S4C sydd y tu hwnt i ddarpariaethau Cod Darlledu Ofcom.

**Ceisio Barn y Gynulleidfa**
Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i ganfod y farn gyhoeddus am y rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar S4C ynghyd ag effeithiau rhaglenni ar agwedd ac ymddygiad y gwylwyr ac yn ogystal y math o raglenni y byddai aelodau'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau priodol yn bodoli er mwyn galluogi gwylwyr i gwyno i S4C am raglenni'r sianel. Ceir gwybodaeth am sut i gwyno am raglenni S4C ar s4c.cymru, a cheir manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr yng nghefn yr adroddiad hwn.

**Effectiveness and Evaluation**
The Board undertakes a regular evaluation of its own performance and the work of its committees and members.

An assurance review of governance and the Board's effectiveness was undertaken during 2020 by TIAA (the Internal Auditor). TIAA are independent of S4C and the review considered the high level arrangements in place through discussions with Board members and comparison to best practice guidance, in order to determine the effectiveness of the new Unitary Board. The Board has already implemented a number of the recommendations.

**Members' Interests and Remuneration**
A register of members' interests can be found on S4C's website, s4c.cymru. Copies are available for inspection at S4C's offices in Carmarthen and Caernarfon. Details of the remuneration of the Board's members can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.

**Conflict of Interests**
During the period no non-executive Members had an interest in contracts with S4C.

**Regulatory Compliance**
A significant number of regulatory responsibilities were transferred to Ofcom, the UK's communications regulator by the Communications Act 2003.

S4C's television service is regulated by Ofcom. Under these provisions S4C is required to comply with a wide range of regulatory requirements set out in legislation and also by Ofcom and the Broadcasting Code.

As part of the annual reporting process to Ofcom, S4C pays Ofcom a Regulatory Fee and provides a wide range of information to Ofcom, including financial information, quantitative information about the performance of the service and information regarding compliance with Ofcom's relevant quotas. The Board continues to excercise a limited number of regulatory responsibilities that relate to S4C's online services that are outside the provisions of the Ofcom Broadcasting Code.

**Audience Opinions**
The Board has a statutory duty to ascertain the state of public opinion concerning programmes broadcast on S4C, any effects of such programmes on the attitudes or behaviour of viewers as well as the types of programmes that members of the public would like to be broadcast on S4C.

The Board is also responsible for ensuring that appropriate provisions exist to enable viewers to complain to S4C about the channel's programmes. Information regarding submitting a complaint about S4C's programmes can be found on the s4c.cymru website, and the Viewers' Hotline contact details are available at the back of this report.



## Strwythur Gwaith Bwrdd S4C

Mae'r Bwrdd yn cynllunio cynnal deg cyfarfod y flwyddyn, gan gynnwys dau sesiwn "cwrdd i ffwrdd" strategol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dilyn rhaglen waith flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd.

Yn ogystal ag aelodau anweithredol a gweithredol y Bwrdd, mae nifer o brif swyddogion S4C a'r Ysgrifenydd, hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd ac yn cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Bwrdd.

Mae Rheolau Sefydlog diwygiedig y Bwrdd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gweithrediad system y Bwrdd unedol cysgodol, ac yn benodol, darpariaethau sy'n ymwneud â statws yr aelodau gweithredol, gofynion cworwm a hawliau pleidleisio aelodau y Bwrdd. Bydd y darpariaethau hyn yn parhau nes bod y darpariaethau statudol perthnasol sy'n ymwneud â fframwaith llywodraethu S4C yn cael eu diwygio.

Mae'r Tîm Rheoli yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol. Gall pob aelod ofyn am gyngor gan yr Ysgrifennydd a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C.

Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu perfformiad S4C mewn perthynas â chyflawni nodau ac amcanion a gytunwyd, maent yn monitro adrodd ar berfformiad. Maent yn craffu cywirdeb gwybodaeth ariannol a sicrhau bod rheolaethau a systemau rheoli risg ariannol yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n briodol.

Yn amodol ar adolygiad cyfnodol gan Fwrdd yr Awdurdod o'r cyfrifoldebau a'r pwerau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli a chyfrifoldebau statudol trosgynnol y Bwrdd, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu polisïau a darparu gwasanaethau S4C, gan sicrhau eu bod yn gyson gyda chylch gorchwyl S4C a'r Strategaeth Cynnwys, wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a thrwyddo ef i'r Tîm Rheoli.

**Swyddog Cyfrifo S4C**
Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer S4C. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol i'r DCMS mewn perthynas ag ariannu statudol S4C ac felly ef yw'r person sy'n gyfrifol am y defnydd priodol o arian a delir i S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

## The S4C Board's Work Structure

The Board plans to hold ten meetings a year, including two "away day" strategy sessions. These meetings follow an annual work programme approved by the Board.

In addition to the non-executive Board members and executive members of the shadow unitary Board, other senior members of S4C's executive and the Secretary also attend the Board's meetings and take part in the Board's discussions.

The Board's revised Standing Orders include provisions relating to the operation of the shadow unitary Board system, and in particular, provisions relating to status of the executive members, the quorum requirements and voting rights of the shadow unitary Board members. These provisions will continue until the relevant statutory provisions relating to S4C's governance framework are amended.

The Management Team provides the Board members with appropriate and timely information and the members are free to seek any further information they consider necessary. All members have access to advice from the Secretary and independent professionals at S4C's expense.

Board members scrutinise the performance of management in meeting agreed goals and objectives and monitor performance reporting. They satisfy themselves on the integrity of financial information and that financial controls and systems of risk management are robust and implemented appropriately.

Subject to periodic review by the Board of the delegation of powers and responsibilities to the Management Team and the Board's overriding statutory responsibilities, responsibility for the formulation and operation of detailed policy, in accordance with S4C's remit and Content Strategy and the conduct of the affairs of S4C, has been delegated to the Chief Executive and through him to the Management Team.

**S4C's Accounting Officer**
The Chief Executive is designated as Accounting Officer for S4C. The Accounting Officer is responsible to the DCMS in respect of the statutory funding of S4C and, as such, is the person responsible for the proper use of funds paid to S4C by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport.

## Strwythur Pwyllgorau Bwrdd S4C

Mae gan y Bwrdd dri phwyllgor sy'n goruchwylio gwahanol agweddau o waith S4C, ac yn ogystal â bwrdd cyfarwyddwyr ar gyfer cwmnïau masnachol S4C.

Mae'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd, gyda'r Bwrdd yn cymeradwyo argymhellion y pwyllgorau.

**Pwyllgor Cynnwys**
Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwylio a monitro perfformiad cynnwys rhaglenni a gwasanaethau S4C. Mae'r pwyllgor yn trafod darpariaeth rhaglenni S4C ac yn ceisio sicrhau bod arlwy'r gwasanaeth yn diwallu anghenion y gynulleidfa.

**Aelodau'r Pwyllgor:**
Owen Derbyshire (Cadeirydd – hyd at Tachwedd 2020)
Rhodri Williams (Cadeirydd – o Tachwedd 2020)
Sian Lewis
Anita George – o fis Tachwedd 2020
Adele Gritten – o fis Chwefror 2021
Denise Poulton – o fis Ebrill 2021

**Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol**

**Cyfrifoldebau Archwilio a Rheoli Risg**
Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol S4C, yn ogystal â gofalaeth am fonitro rheoli risg o fewn S4C. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu'r Datganiad Ariannol drafft ac adrodd arno i'r Bwrodd cyfan. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â gwerth am arian.

**Cyfrifoldebau Personél a Chydnabyddiaeth**
Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio systemau personél S4C, gan gynnwys ystyried cyflogau a thelerau ac amodau gwaith eraill staff S4C, ystyried anghenion hyfforddi a datblygu staff, safonau ymddygiad a disgyblaeth, cyfleoedd cyfartal a monitro bod y systemau perthnasol yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon o fewn S4C.

**Craffu Prif Brosiectau**
Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio cynllun cydleoli a rhannu swyddogaethau darlledu technegol S4C a BBC Cymru Wales yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

**Aelodau'r Pwyllgor:**
Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd)
Anita George
Rhodri Williams
Chris Jones – o fis Chwefror 2021
Guto Bebb – o fis Chwefror 2021

## The S4C Board's Committees

The Board has established three committees that oversee different aspects of S4C's work, as well as a board of directors for S4C's commercial companies.

The committees regularly report to the Board, with the Board approving the committees' recommendations.

**Content Committee**
The Content Committee's responsibilities include overseeing and monitoring the performance of S4C's programmes and services. This is the committee that discusses S4C's programme provision and seeks to ensure that its offering meets the needs of the audience.

**Committee Members:**
Owen Derbyshire (Committee Chair – until November 2020)
Rhodri Williams (Committee Chair from November 2020)
Sian Lewis
Anita George – from November 2020
Adele Gritten – from March 2021
Denise Poulton – from April 2021

**Audit and General Purpose Committee**

**Audit and Risk Management Responsibilities**
The Committee is responsible for overseeing S4C's internal and external audit activities as well as having responsibility for monitoring risk management within S4C. The Committee is charged with scrutinising the draft Statement of Accounts and reporting back to the Board. The Committee's responsibilities also include matters relating to value for money.

**Personnel and Remuneration Responsibilities**
The Committee is responsible for overseeing S4C's personnel systems, including considering salaries and other terms and conditions relating to S4C staff, staff training and development needs, disciplinary and behavioural standards, equality of opportunity and monitoring that the relevant systems are working effectively and efficiently within S4C.

**Major Projects Scrutiny**
The Committee is responsible for overseeing the co-location and sharing of S4C and BBC Cymru Wales' technical broadcasting functions at the new BBC Broadcasting Centre in Central Square Cardiff.

**Committee Members:**
Hugh Hesketh Evans (Committee Chair)
Anita George
Rhodri Williams
Chris Jones – from February 2021
Guto Bebb – from February 2021

**Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth**
Mae'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn gyfrifol am oruchwylio systemau cwynion S4C a monitro eu bod nhw'n gweithio'n effeithlon. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried materion cydymffurfiaeth rhaglenni S4C. Yn ogystal â hyn, mae gan y Pwyllgor ddyletswyddau o fewn prosesau S4C ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n cael eu gwneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Aelodau'r Pwyllgor:**
Sian Lewis (Cadeirydd)
Hugh Hesketh Evans
Guto Bebb – o fis Chwefror 2021
Adele Gritten – o fis Chwefror 2021

**Bwrdd Masnachol S4C**
Mae Bwrdd Masnachol S4C yn gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau masnachol y sianel. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd, buddsoddiadau masnachol a datblygu strategaeth fasnachol S4C ar gyfer y dyfodol.

Penodir aelodau'r Bwrdd Masnachol gan Fwrdd S4C.

**Aelodau o Fwrdd S4C sy'n aelodau o'r Bwrdd Masnachol**
Cynrychiolir Bwrdd S4C ar Fwrdd Masnachol S4C gan ddau aelod anweithredol sy'n cael eu penodi'n fel cyfarwyddwyr anweithredol is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i S4C.

Owen Derbyshire (hyd at 1 Chwefror 2021)
Anita George
Chris Jones (o'r 1 o Ebrill 2021)
Adele Gritten (o'r 1 o Ebrill 2021)
Rhodri Williams (arsyllwr)

**Cyfarwyddwyr eraill**
Mae Owen Evans ac Elin Morris hefyd wedi gweithredu fel cyfarwyddwyr masnachol i is-gwmniau S4C yn ystod y flwyddyn. Penodd Bwrdd Masnachol S4C Sharon Winogorski i'r Bwrdd Masnachol ym mis Tachwedd 2019. Mae David Sanders a Gwyn Roberts yn gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.

**Complaints and Compliance Committee**
The Complaints and Compliance Committee is responsible for overseeing S4C's complaints systems and monitoring that they work efficiently. The Committee also considers issues of compliance relating to S4C's programmes. In addition, the Committee has duties within S4C's processes for responding to requests for information made under the Freedom of Information Act.

**Committee Members**
Sian Lewis (Chair)
Hugh Hesketh Evans
Guto Bebb – from February 2021
Adele Gritten – from February 2021

**S4C's Commercial Board**
S4C's Commercial Board is responsible for overseeing the channel's commercial activities. These include airtime sales and sponsorship, commercial investments and the development, implementation and oversight of S4C's commercial strategy.

Members of the Commercial Board are appointed by the S4C Board.

**Members of the S4C Board that are members of the Commercial Board**
The S4C Board is represented on the board of S4C's Commercial Group by two non-executive members that are appointed as non-executive directors of S4C's wholly owned subsidiaries.

Owen Derbyshire (until 1 February 2021)
Anita George
Chris Jones (from 1 April 2021)
Adele Gritten (from 1 April 2021)
Rhodri Williams (observer)

**Other Directors**
Owen Evans and Elin Morris have also acted as directors of S4C's commercial subsidiaries during the year. Sharon Winogorski was appointed to the Commercial Board by the S4C Board in November 2019. David Sanders and Gwyn Roberts are independent non-executive directors.

## Swyddogaethau a Systemau Cyllid

### Paratoi'r Gyllideb Flynyddol a Chynlluniau Ariannol Hir Dymor
Cymeradwyir cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddo) i gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried a chymeradwyo cynllun ariannol amcanol pum mlynedd sy'n gosod cyfeiriad hir dymor.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am ystyried yn fanwl gyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir, ac i argymell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

### Swyddogaethau Archwilio
Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau trefniadau archwilio priodol ar gyfer holl agweddau o faterion ariannol S4C. Rhennir y swyddogaeth archwilio yn ddau gytundeb – ar gyfer materion archwilio allanol a materion archwilio mewnol.

### Trefniadau Archwilio Allanol
Yn dilyn argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol o S4C yn ymwneud â threfniadau archwilio S4C, daethpwyd i gytundeb ym mis Hydref 2019 rhwng S4C a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan hwyluso'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi'r y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilwyr allanol S4C, hyd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i diwygio. Cytunwyd ar Lythyr Ymgysylltu rhwng yr NAO a S4C.

### Adroddiad yr Archwilwyr Allanol
Mae adroddiad yr archwilwyr allanol i aelodau'r bwrdd i'w weld ar dudalennau 148 i 151.

### Archwilio Mewnol
Yn dilyn proses dendro gyhoeddus, penodwyd TIAA fel archwilwyr mewnol S4C ym mis Medi 2019 am gyfnod o dair blynedd.

Cynhaliwyd gwaith archwilio mewnol trwy gydol y flwyddyn i roi sicrwydd i'r pwyllgor ynglŷn â gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r archwilwyr mewnol yn mynd ati'n annibynnol i adolygu'r broses reoli a weithredir gan y rheolwyr ac yn adrodd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol. Mae camau cywiro sydd wedi eu cynllunio yn cael eu monitro'n annibynnol gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol ar gyfer eu cwblhau'n brydlon rhag ofn bod rheolaethau gwan neu amhriodol i'w cael, sydd felly'n creu elfen o risg i'r sefydliad.

## Financial Functions

### Budget Preparation and Long Term Financial Plans
S4C's budget for each financial year (and any subsequent amendments to it) is approved by the Board. The Board also considers and approves a projected five-year financial plan that sets the long term direction.

The Chief Executive and Management Team are responsible for considering in detail S4C's draft annual budget, along with long-term financial plans and recommending such budgets and plans to the Board for consideration and approval.

### Audit Functions
The Board has a statutory duty to ensure proper audit arrangements for all aspects of S4C's financial matters. The audit function is divided into two agreements - for external audit and internal audit.

### External Audit arrangements
Following the recommendation of the Independent Review of S4C relating to S4C's audit arrangements, an agreement was reached in October 2019 between S4C and the National Audit Office, facilitating the appointment by the Secretary of State of the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditors, until the relevant legislation has been amended. A Letter of Engagement between the NAO and S4C is in place.

### External Auditors' Report
The external auditors' report to the non-executive members of the Board can be found on pages 148 to 151.

### Internal Audit
Following a public tendering process, TIAA were appointed as S4C internal auditors in September 2019 for a period of three years.

An internal audit function has been maintained throughout the year to provide assurance to the Committee as to the operation and validity of the system of internal control. The internal auditors independently review the control process implemented by management and report to the Accounting Officer and the Audit and General Purpose Committee. Planned corrective actions are independently monitored by the Audit and General Purpose Committee for timely completion should there be weak or inappropriate controls in place thus creating an element of risk to the organisation.



### Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol
Mae adnabod a rheoli risgiau yn greiddiol i waith y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd a'r Tîm Rheoli gyfrifoldeb clir i adnabod risgiau sy'n wynebu S4C ac am roi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn monitro a lliniaru risgiau o'r fath. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn gweithredu fframwaith rheoli risg ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan S4C (yn hytrach na dileu.). Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu yn unol â chanllawiau arfer da perthnasol ar reolaethau mewnol a rheoli risg.

Yn dilyn cyhoeddi arweiniad i gyfarwyddwyr ar reolaeth fewnol, Rheolaeth Fewnol; Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Côd Cyfun (canllawiau Turnbull), mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod proses barhaus i adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebir gan y grŵp wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Ariannol, a bod y broses hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn unol â'r canllawiau.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prosesau perthnasol a roddwyd ar waith i adnabod a rheoli risgiau a hefyd yn nodi'r risgiau strategol allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol a'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol fel a ganlyn:

### Rheolaeth Ariannol
Mae S4C yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer adrodd ar reolaeth sy'n cynnwys paratoi cyllidebau blynyddol gan bob canolfan gostau. Caiff y cyllidebau hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd fel rhan o'r gyllideb gyffredinol am y flwyddyn. Adroddir yn fisol ar ganlyniadau'r canolfannau cost a chaiff y canlyniadau eu cymharu â'r gyllideb. Ymchwilir i amrywiadau sylweddol o'u cymharu â'r gyllideb fel y bo'n briodol. Mae rhagolygon ar gyfer ymrwymiadau'n cael eu paratoi'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn

### Adroddiadau Ariannol
Mae'r Bwrdd wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y grŵp a phroses y grŵp ar gyfer paratoi cyfrifon cyfun. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn gyfrifol am oruchwylio a monitro'r prosesau hyn, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r darpariaethau adrodd a rheoleiddio perthnasol.

### Trefniadau Chwythu'r Chwiban
Mae gan S4C bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgelu gwybodaeth) er mwyn hwyluso'r broses o gyfathrebu gwybodaeth gyfrinachol berthnasol neu unrhyw ddigwyddiad mewn modd cyfrinachol. Mae'r polisi ar gael ar fewnrwyd S4C. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer ymchwilio, mewn modd cymesur, i faterion a gyflwynwyd ac ar gyfer camau priodol yn dilyn unrhyw ymchwiliad.

### Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes
Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'r busnes i'r Tîm Rheoli, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaethau mewnol priodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus a gallant fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffynonellau mewnol neu allanol gan gynnwys toriadau mewn goruchwyliaeth, amhariad ar y systemau gwybodaeth, cystadleuaeth, trychinebau naturiol a gofynion rheoleiddio.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol am faterion rheoli risg, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol yn gyfnodol. Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd ar ran y Tîm Rheoli ar newidiadau sylweddol yn y busnes a'r amgylchedd allanol sy'n effeithio'r risgiau sylweddol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r Bwrdd yn chwarterol, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a risg. Lle nodir meysydd ar gyfer gwelliant yn y system, mae'r Bwrdd yn ystyried yr argymhellion a wneir gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol.

### Risk Management and Internal Control
The identification and management of risks is at the heart of the Board's work. The Board and the Management Team have a clear responsibility for the identification of risks facing S4C and for putting in place procedures to monitor and mitigate such risks. The Board and the Management Team operate a risk management framework for identifying, evaluating and managing (rather than eliminating) significant risks faced by S4C. This framework has been developed in accordance with relevant good practice guidance on internal controls and risk management.

Following publication of guidance for directors on internal control, Internal Control: Guidance for Directors on the Combined Code (the Turnbull guidance), the Board confirms that there is an ongoing process for identifying, evaluating and managing the significant risks faced by the group, that has been in place for the year under review and up to the date of approval of the Statement of Accounts, and that this process is regularly reviewed by the Board and the Audit and General Purpose Committee and accords with the guidance.

This report sets out the relevant processes implemented to identify and manage risks and also identifies the key strategic risks identified by the Audit and General Purpose Committee and the Board during the year.

The key elements of the system of internal control are as follows:

### Financial Management
S4C operates a comprehensive management reporting system that includes preparing annual budgets from each cost centre. These budgets are approved by the Board as part of the overall budget for the year. The results of the cost centres are reported monthly and compared to the budget. Significant variances from budget are investigated as appropriate. Forecasts of commitments are prepared regularly throughout the year.

### Financial Reports
The Board has established systems of internal control and risk management systems that relate to the group's financial reporting process and the group's process for the preparation of consolidated accounts. The Audit and General Purpose Committee is responsible for overseeing and monitoring these processes, which are designed to ensure that the Board complies with relevant reporting and regulatory provisions.

### Whistleblowing Arrangements
S4C has a 'whistle-blowing' (disclosure) policy to facilitate the confidential communication of relevant information or any incident in confidence. This policy is published on the S4C intranet site. The Audit and General Purpose Committee, on behalf of the Board, is responsible for ensuring that there are appropriate arrangements in place for the proportionate investigation of matters reported and for appropriate follow-up action.

### Monitoring of Business Controls and Risks
The Board has delegated the task of identifying and evaluating significant business-related risks to the Management Team, together with the planning and implementation of appropriate internal controls. These risks are assessed on a continuous basis and may be associated with a variety of internal or external sources including control breakdowns, disruption in information systems, competition, natural disasters and regulatory requirements.

The Chief Executive reports regularly to the Board and the Audit and General Purpose Committee on risk management issues, and the Committee periodically considers the Strategic Risk Register. The Chief Executive reports to the Board on behalf of the Management Team on significant changes in the business and the external environment that affect significant risks.

The Chief Finance Officer provides quarterly financial information to the Board, which includes key performance indicators. Where areas for improvement in the system are identified, the Board considers recommendations made by the Management Team and the Audit and General Purpose Committee.

**Asesu'r Prif Risgiau, Ansicrwydd a Chyfleoedd**
Yn ystod y flwyddyn datblygwyd ymhellach y Gofrestr Risgiau Strategol sy'n cysylltu prif risgiau strategol S4C ag amcanion strategol a fframwaith mesur perfformiad S4C, a rhoddwyd ystyriaeth bellach i ddatblygu system ar gyfer asesu a monitro archwaeth risg S4C ar gyfer ystod o feysydd a phrosiectau o fewn busnes S4C.

Mae Cofrestr Risg Strategol S4C yn seiliedig ar asesiad o Flaenoriaethau Strategol S4C a'r risgiau all effeithio ar ddarparu'r blaenoriaethau hyn. Darparodd swyddogion adroddiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg er mwyn iddynt allu monitro rheoli risg a gwelliannau i'r gofrestr risg. Yn ogystal, darparwyd adroddiadau a sicrwydd perthnasol gan yr archwilwyr mewnol er mwyn galluogi'r pwyllgor i asesu proffil risg S4C yn ystod y flwyddyn. Mae'r asesiad risg a nodir isod yn cynnwys crynodeb o'r prif risgiau ac ansicrwydd a adnabuwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn ystod y flwyddyn. Bwriad y rhain yw nodi ar lefel strategol risgiau posibl allai gael effaith sylweddol ar allu S4C i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol.

Mae'r prif feysydd risg a nodwyd yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, a gellir eu categoreiddio fel rhai'n ymwneud â darparu ac ansawdd gwasanaeth S4C, materion strategol, a materion ariannol a llywodraethiant.

**1. Y Gynulleidfa a Pherfformiad y Gwasanaeth**
Prif ddyletswydd S4C yw darparu gwasanaeth teledu digidol iaith Gymraeg sy'n cynnwys ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel. Er mwyn darparu gwasanaeth o'r fath, rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn gwrando ar anghenion ei gynulleidfa, bod S4C yn ymateb yn briodol i'r anghenion hyn a bod y sector cynhyrchu annibynnol yn gallu darparu cynnwys o ansawdd uchel.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn, gan ddefnyddio ystod eang o ffynhonellau gwybodaeth annibynol ac ymgynghori yn eang â'r gynulleidfa gan ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau. Er na fu modd cynnal nosweithiau gwylwyr, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cynhaliwyd sesiynau Facebook Live, paneli ymateb a grwpiau ffocws. Mae S4C yn ogystal, gan weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol, wedi trafod sylwadau'r gynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hyn.

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, cynhaliodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynnwys sesiynau Facebook Live. Yn dilyn adborth gan y gynulleidfa, gwnaethpwyd newidiadau i amserlen ddarlledu S4C gan gynnwys darllediadau byw o sesiynau briffio newyddion dyddiol Llywodraeth Cymru, ynghyd â darllediadau o wasanaethau crefyddol newydd ar y Sul.

Mewn amgylchedd o lwyfannau cyfryngol sy'n datblygu'n gyflym, mae angen i S4C sicrhau ei bod yn gallu mynd i'r afael â phatrymau gwylio a gofynion y gynulleidfa ar gyfer cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau digidol cyfredol ac yn y dyfodol - gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, manylder uwch a fformatau cynnwys eraill. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan S4C y prosesau ar waith i fonitro a dadansoddi perfformiad S4C ar draws yr amrywiol wasanaethau y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, mae cwrdd â disgwyliadau cynyddol gwylwyr gan gynnwys cost darparu mwy o ddewis a chynnwys o ansawdd ar gynifer o lwyfannau a dyfeisiau â phosibl yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, a bydd angen iddo fod yn rhan o drafodaethau cyllidebol yn y dyfodol.

Mae gofyn i'r system seilwaith technegol sy'n galluogi S4C i ddarparu ei chynnwys dros ystod gynyddol o lwyfannau, i gynnal lefel uchel iawn o argaeledd gwasanaethau ac ansawdd ar sail 24/7. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y paratodau i gyd-leoli gwasanaethau technegol darlledu S4C gyda rhai BBC Cymru Wales ym mhencadlys newydd y BBC yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Mae cynlluniau parhad busnes o fewn S4C wedi eu cynllunio er mwyn sicrhau bod y systemau technegol hyn yn gadarn a bod trefniadau priodol a chymesur yn eu lle er mwyn dygymod gyda digwyddiadau technegol sylweddol.

**Assessing Main Risks, Uncertainties and Opportunities**
During the year the Strategic Risk Register that links S4C's main strategic risks with S4C's strategic objectives and performance measurement framework was developed further, and consideration was given to the development of a system for assessing and monitoring S4C's risk appetite relating to a range of areas and projects within S4C business.

S4C's Strategic Risk Register is based on an assessment of S4C's Strategic Priorities and the risks that can affect the delivery of these priorities. Officers provided regular reports during the year for the Audit and General Purpose Committee to monitor risk management and enhancements to the risk register. In addition, relevant reports and assurances were provided by the internal auditors thus enabling the committee to critically assess S4C's risk profile during the year. The risk assessment set out below contains the principal risks and uncertainties identified by the Audit and General Purpose Committee during the year. These are intended to capture at a strategic level the potential risks that could have significant impact upon S4C's ability to deliver its statutory obligations.

The main areas of risks identified remain similar to the previous year and can be categorised as being related to the provision and quality of the service, and strategic, financial and governance matters.

**1. The Audience and Service Performance**
S4C's primary duty is to provide a Welsh language digital television service consisting of a broad range of high quality and diverse programming. To provide such a service, the Board must ensure that it listens to the needs of its audience, that S4C responds appropriately to these needs and that the independent production sector is able to deliver high quality content.

The Board actively monitored the quality and performance of the service throughout the year, using a wide range of independent information sources and consulting widely with the audience through a range of different methods. While Viewers' Evenings weren't possible due to Covid-19 restrictions, Facebook Live sessions were held in addition to response panels and focus groups. Working closely with independent producers, S4C has discussed audience comments and identified ways of improving the programme output whilst also securing value for money through this collaboration.

In response to the Covid-19 pandemic, the Chief Executive and Director of Content held Facebook Live sessions. As a result of audience feedback during these sessions, S4C made changes to its schedule to include broadcasting live the Welsh Government's daily briefing, and a new Sunday religious service programme.

Given the rapid development of media platforms, S4C needs to ensure that it can address viewing patterns and audience requirements for content across different current and future digital platforms - including online services, high definition and other content formats. The Board is satisfied that S4C has the processes in place to monitor and analyse the performance of the S4C across the various services it provides. However, meeting increasing viewer expectations including the cost of providing more choice and quality content on as many platforms and devices as possible requires continued investment, and will need to form part of future budgetary discussions.

S4C's technical infrastructure is required to deliver its content over an increasing range of platforms, to deliver a very high level of service availability and quality on a 24/7 basis. During the year, preparations for co-locating S4C's technical broadcast services with those of BBC Cymru Wales in the BBC's new headquarters in Central Square, Cardiff, continued. Business continuity plans within S4C are designed to ensure that these technical systems are robust and that appropriate and proportionate arrangements are in place to deal with major technical incidents.

**2. Strategol ac Ariannol**
Daw incwm S4C ar hyn o bryd o dair ffynhonnell, cymhorthdal gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, o Ffi'r Drwydded ac incwm masnachol a gynhyrchir gan S4C. Argymhellodd yr adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylid darparu cyllid cyhoeddus S4C yn gyfan gwbl trwy o ffi'r drwydded o Ebrill 2022 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o setliad cyllid ffi'r drwydded.

Ym mis Tachwedd 2020, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at S4C yn nodi sgôp ac amseriad setliad ffi'r drwydded. I gydnabod safle unigryw S4C fel yr unig ddarlledwr yn yr iaith Gymraeg, a'i model gweithredu unigryw, gofynnwyd i S4C ddychwelyd gwybodaeth ar wahân i DCMS.

www.gov.uk/government/publications/letters-from-the-culture-secret-to-the-bbc-and-s4c-on-the-2022-licence-fee-settlement

Aethpwyd ati i ddrafftio'r cyflwyniad yn ystod misoedd y gaeaf a chymeradwywyd y cais gan Fwrdd S4C cyn ei gyflwyno i'r DCMS ddechrau Mawrth 2021. Fel rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd Arad i gynnal adolygiad o effaith economaidd ac effeithiau pellach sydd yn deillio o waith S4C. Mae trafodaethau rhwng S4C a DCMS yn parhau, a gobeithir cael ymateb erbyn haf / hydref 2021.

Roeddem yn falch bod y Canghellor wedi cyhoeddi ar y 9 Fawrth 2020 y bydd Llywodraeth y DU yn dod â threfniadau TAW S4C yn unol â rhai darlledwyr ledled y DU fel y BBC, ac y bydd S4C yn gallu adennill y TAW y mae'n ei thalu ar ei chostau o Ebrill 2021 ymlaen. Cyhoeddwyd hyn ym Mil Cyllid Mawrth 2021, sy'n golygu y bydd S4C yn cael ad-daliad o'r TAW y mae'n ei thalu o Ebrill 2021 ymlaen unwaith mae'r Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Bydd DCMS yn sicrhau llif arian ar gyfer taliadau TAW S4C hyd y bydd Cydsynaid Brenhinol.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, daeth Covid-19 i'r amlwg fel mater o bwys, gyda'r Bwrdd yn gorfod ystyried sut y byddai S4C yn ymateb i'r heriau a'r risgiau a berir gan y pandemig.

At ei gilydd, bu ffocws S4C ar adlewyrchu realiti bywydau pobl yn ystod y cyfnod heriol hwn a darparu gwybodaeth, cysur a chwmni i bobl yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Fel yn achos darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, bu i Covid-19 darfu'n sylweddol ar gomisiynau S4C, gyda gwerth £8.1m o gynyrchiadau wedi'u canslo oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Gan gydnabod y bygythiad i sector cynhyrchu annibynnol Cymru a cholli sawl maes pwysig o gynnwys, gan gynnwys ein dramâu sebon, chwaraeon a digwyddiadau mawr, aeth S4C ati i lansio nifer o rowndiau comisiynu sylweddol, gan gyfeirio cyllid yr oedd gwir angen amdano i economi Cymru. Bu i S4C hefyd gefnogi'r sector drwy wrando ar eu pryderon a'u heriau a gweithio gyda llywodraethau'r DU a Chymru a chyflwyno achosion ger eu bron ar ystod o faterion - gan gynnwys statws gweithiwr allweddol, cefnogaeth i weithwyr llawrydd, a'r angen am gynllun yswiriant.

**2. Strategic and Financial**
The Board's funding is currently derived from three sources, namely grant in aid from the Department for Digital, Culture, Media and Sport, from the licence fee and commercial income generated by S4C. The independent review of S4C published in March 2018 recommended that S4C's public funding should be provided entirely through the licence fee from April 2022 onwards, with all future funding decisions made as part of the licence fee funding settlement.

In November 2020, the Secretary of State wrote to S4C setting out the scope and timing of the licence fee settlement. In recognition of S4C's unique position as the only Welsh Language broadcaster and distinctive operating model, S4C was requested to return separate information to DCMS.

www.gov.uk/government/publications/letters-from-the-culture-secretary-to-the-bbc-and-s4c-on-the-2022-licence-fee-settlement

The necessary work was undertaken during the winter months and the Board considered and approved the funding submission before it was submitted to DCMS at the start of March 2021. As part of this work, S4C also commissioned Arad Research to undertake a survey of the economic and overall impact of S4C. Discussions between S4C and DCMS are ongoing, with the outcome expected summer/ autumn 2021.

We were pleased that the Chancellor announced on 9 March 2020 that the UK Government will bring S4C's VAT arrangements into line with UK wide broadcasters such as the BBC, and that S4C will be able to recover the VAT it pays on its costs from April 2021. This was announced in the March 2021 Finance Bill, meaning that once Royal Assent is granted, S4C will be refunded the VAT it incurs from April 2021. DCMS will cashflow S4C's VAT payments until Royal Assent is granted.

At the start of financial year, Covid-19 had emerged as a major issue with the Board having to consider how S4C would respond to the challenges and risks posed by the pandemic.

Overall, S4C's focus has been on reflecting the reality of people's lives during this challenging period and providing information, comfort and company to people in Wales and across the United Kingdom. Like other PSBs, Covid-19 had a significant disruption on S4C's commissions, with £8.1m worth of productions cancelled due to lockdown restrictions. Recognising the threat to the Welsh independent production sector and the loss of several major strands of content, including soaps, sport and major events, S4C launched a number of substantial commissioning rounds, pumping much needed funding into the Welsh economy. S4C also supported the sector by listening to their concerns and challenges and working with and making representations to UK and Welsh governments on a range of issues including key worker status, support for freelancers, and the need for an insurance scheme.

**3. Strwythur a Llywodraethiant**

Mae system a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd wedi eu diwygio'n sylfaenol ers 2010 er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas.

Yn dilyn adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, mae'r Bwrdd eisoes wedi gweithredu nifer o'r argymhellion yn ymwneud â strwythur a llywodraethu S4C. Mae hyn yn cynnwys apwyntio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C yn ystod y flwyddyn, a thrafodaethau parhaus gyda'r DCMS ynghylch gwneud newidiadau deddfwriaeth sylfaenol i gyflawni argymhellion yr Adolygiad.

Cwblhawyd adolygiad sicrwydd o lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2020 gan TIAA (yr archwilwyr mewnol). Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau lefel uchel sydd mewn lle trwy drafodaethau gydag Aelodau'r Bwrdd a chymhariaethau gyda chyfarwyddyd arfer gorau, er mwyn darganfod effeithiolrwydd y Bwrdd Unedol newydd. Mae'r Bwrdd wedi gweithredu nifer o'r argymhellion yn barod.

Mae Cytundeb Ariannu, Partneriaeth ac Atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC wedi bod mewn lle ers mis Tachwedd 2017. Mae'r Bwrdd wedi rhoi prosesau adrodd ar gyfer cyflwyno sicrwydd ariannol i Fwrdd y BBC yn eu lle ac wedi cyflwyno adroddiadau sicrwydd ariannol i Bwyllgor Archwilio'r BBC. Gyda S4C yn cael ei hariannu'n llawn o ffi'r drwydded yn 2022, mae'r ddau barti wedi bod yn adolygu siâp y berthynas yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r nod o foderneiddio'r bartneriaeth, cydnabod y byd amlgyfrwng, a symleiddio trefniadau lle bynnag y bo modd. Mae trafodaethau'n parhau a bydd angen i Fwrdd S4C a DCMS gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig cyn iddynt gael eu hymgorffori mewn Cytundeb Partneriaeth, Cyllid ac Atebolrwydd diwygiedig rhwng S4C a'r BBC o 2022 ymlaen.

**3. Governance and Structure**

The Board's system of and procedures for corporate governance have been radically overhauled since 2010 to ensure that they are robust and fit for purpose.

The Board has continued to implement a number of the recommendations of the independent review of S4C published in March 2018 relating to the structure and governance of S4C. This includes the appointment of the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditor in 2019, and ongoing discussions with DCMS about making changes in primary legislation to deliver on the recommendations of the Review.

An assurance review of governance and the Board's effectiveness was undertaken during 2020 by TIAA (the internal auditor). The review considered the high level arrangements in place through discussions with Board Members and comparison to best practice guidance, in order to determine the effectiveness of the new Unitary Board. The Board has already implemented a number of the recommendations.

A Partnership, Funding and Accountability Agreement between S4C and the BBC has been in place since November 2017. The Board has put in place reporting processes for the provision of financial assurance to the BBC and has presented the required financial assurance reports to the BBC's Audit Committee. With S4C becoming fully funded from the licence fee in 2022, both parties have been reviewing the shape of the relationship during the year, with the aim of modernising the partnership, recognising the multi-media world and simplifying arrangements wherever possible. Discussions are ongoing and any proposed changes will need to be approved by the S4C Board and DCMS before being reflected in a revised Partnership, Funding and Accountability Agreement between S4C and the BBC from 2022 onwards.

## Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r Pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y mae'r Pwyllgor wedi cynorthwyo'r Bwrdd i adolygu amgylchedd rheoli mewnol S4C, gwaith y Pwyllgor mewn perthynas ag adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol, ynghyd â goruchwylio datblygiad rhaglen gwerth am arian.

Mae gan aelodau'r Pwyllgor rhyngddynt ystod eang o brofiad busnes, ariannol, llywodraethiant a materion personél sy'n galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd, mae'r Pwyllgor yn cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol o'r Bwrdd:

**Aelodau'r Pwyllgor:**
Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd)
Anita George
Rhodri Williams
Chris Jones – o fis Chwefror 2021
Guto Bebb – o fis Chwefror 2021

Mae Prif Weithredwr S4C, y Prif Swyddog Gweithredu (gyda chyfrifoldeb am faterion personél), y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae cynrychiolwyr o archwilwyr mewnol S4C, TIAA a lle y bo'n berthnasol, archwilwyr allanol S4C, yr NAO hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

**Cylch Gorchwyl y Pwyllgor**
Mae rhaglen waith flynyddol y Pwyllgor yn cynnwys:

**Materion Archwilio a Rheoli Risg**
— Adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth y Datganiad Ariannol Blynyddol ar ôl trafodaeth gyda'r archwilwyr allanol;
— Adolygu cwmpas y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol a chymeradwyo anghenion archwilio strategol S4C;
— Ystyried canfyddiadau'r archwilwyr mewnol, yn enwedig mewn perthynas â systemau ariannol craidd a phrosesau adrodd;
— Adolygu cofrestr risg S4C, y broses o adnabod a chofnodi risgiau, a'r camau a gymerwyd gan y Tîm Rheoli i reoli a lliniaru risgiau a'u canlyniadau i S4C;
— Datblygu rhaglen gwerth am arian ac adolygu'r gwerth am arian a ddarperir gan weithgareddau S4C.

**Materion Personél a Chydnabyddiaeth**
— Goruchwylio systemau personél S4C a monitro eu heffeithiolrwydd;
— Cynghori'r Bwrdd ar uwch benodiadau, gan gynnwys telerau ac amodau; a
— Cynghori'r Bwrdd ar bob mater yn ymwneud â chydnabyddiaeth a thelerau staff.

## Report of the Chair of the Audit and General Purpose Committee

This report sets out the responsibilities delegated to the Committee by the Board, together with a summary of the work of the Committee during the period 1 April 2020 - 31 March 2021.

The report also sets out how the Committee has assisted the Board to review S4C's internal control environment, the work of the Committee in relation to reviewing the effectiveness of the internal and external auditors, as well as overseeing the development of the value for money programme.

Members of the Committee have a wide range of experience in the fields of business, financial, governance and personnel that enables the Committee to fulfill its terms of reference in a robust and independent manner.

In accordance with the Board's Standing Orders, the Committee consists of at least three non-executive members of the Board:

**Committee members:**
Hugh Hesketh Evans (Committee Chair)
Anita George
Rhodri Williams
Chris Jones – from February 2021
Guto Bebb – from February 2021

S4C's Chief Executive, the Chief Operating Officer (with responsibility for personnel matters), the Chief Finance Officer and the Secretary to the Board also attend Committee meetings.

Representatives from S4C's internal auditors, TIAA and where relevant, S4C's external auditors, NAO also attend Committee meetings. In addition, the Committee meets in private with the internal and external auditors annually.

**Committee's Terms of Reference**
The Committee's annual work plan includes:

**Audit and Risk Management Issues**
— Reviewing and recommending for approval the Annual Statement of Accounts after discussion with the external auditors;
— Reviewing the scope of the internal and external audit functions and approving S4C's strategic audit needs;
— Consideration of the findings of the internal auditors, in particular in relation to core financial systems and reporting processes;
— Reviewing S4C's risk register, the process of identifying and recording risks, and of steps taken by the Management Team to control and mitigate risks and their consequences for S4C; and
— Developing a value for money programme and reviewing the value for money provided by S4C's activities.

**Personnel and Remuneration Issues**
— Reviewing and monitoring S4C's personel systems and their effectiveness;
— Advising the Board on senior appointments, including terms and conditions; and
— Advising the Board on all matters relating to staff remuneration and terms.

**Craffu Prif Brosiectau**
Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu pob prosiect a ddynodir yn brif brosiect gan y Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn roedd y rhain yn cynnwys y prosiect cydleoli i Sgwâr Canolog ac ystâd S4C yn Llanisien, Caerdydd

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu rhaglen strwythuredig o weithgareddau, gydag eitemau ar yr agenda sy'n cyd-fynd â dyddiadau pwysig y cylch adrodd ariannol blynyddol, themâu neu feysydd risg y mae'r Pwyllgor wedi eu hadnabod, ynghyd ag eitemau sefydlog y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor eu hystyried yn rheolaidd o dan ei gylch gorchwyl. Mae'r Cadeirydd yn adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith yn ystod y flwyddyn.

**Prif feysydd gwaith y Pwyllgor yn ystod 2020/21 oedd:**

**Materion Archwilio a Rheoli Risg**
Rheolaethau mewnol: Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol, gan ystyried canfyddiadau'r adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.

**Adroddiadau ariannol**
Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y Bwrdd ac ystyriodd adroddiadau gan y rheolwyr a'r archwilwyr allanol parthed cydymffurfiaeth gyda safonau cyfrifo a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad archwilio mewnol ar effeithiolrwydd y rheolaethau ariannol allweddol o fewn S4C.

**Rheoli risg**
Ystyriodd y pwyllgor brosesau ar gyfer rheoli risgiau ac ansicrwydd sylweddol o fewn S4C.

**Gwaith ac asesiad gofynion archwilio mewnol**
Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am benodi archwilwyr mewnol newydd ym mis Medi 2019. Parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio gwaith archwilwyr mewnol S4C a rhoddwyd ystyriaeth i'w hadroddiadau, ymatebion gan reolwyr a chynlluniau gweithredu oedd yn ymateb i argymhellion perthnasol. Rhoddodd y Pwyllgor hefyd ystyriaeth i asesiad o anghenion archwilio'r Bwrdd a chymeradwyodd gynllun gwaith blynyddol yr archwilwyr mewnol.

**Perthynas gyda'r archwilwyr allanol**
Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio'r berthynas gydag archwilwyr allanol S4C (Swyddfa Archwilio Cenedlaethol), gan gynnwys cwmpas eu gwaith a'u dull gweithredu, eu ffioedd, eu perfformiad a'u hannibyniaeth (gan gynnwys y polisi ar waith nad yw'n waith archwilio).

**Llywodraethiant corfforaethol**
Mae'r Pwyllgor yn parhau i oruchwylio gweithrediad system llywodraethiant corfforaethol S4C, gan gynnwys ystyried asesiad o effeithlonrwydd trefnweithiau'r Bwrdd, ac arolygu'r trefniadau llywodraethiant newydd a pharatoadau ar gyfer gweithredu fel bwrdd unedol ffurfiol.

**Scrutiny of Major Projects**
The Committee is responsible for the scrutiny of all major projects as designated by the Board. During the year these included the co-location project to Central Square and S4C's estate in Llanishen, Cardiff.

The Committee works to a structured programme of activities with agenda items focused to coincide with key events of the annual financial reporting cycle, themes or areas of risk the Committee has identified, together with standing items that the Committee is required to consider regularly under its terms of reference. The Chair reports formally to the Board after each meeting of the Committee.

The Committee met seven times during the year.

**Key areas of work for the Committee during 2020/21 were:**

**Audit and Risk Management Issues**
Internal Controls: The committee reviewed the effectiveness of the system of internal control, taking into account the findings of internal and external audit reports.

**Financial reports**
The Committee reviewed the Board's financial statements and considered reports from the external auditors regarding compliance with accounting standards and compliance with legal and regulatory requirements. In addition, the Committee considered an internal audit report on the effectiveness of the key financial controls within S4C.

**Risk management**
The committee considered processes for managing significant risks and uncertainties within S4C.

**Internal audit requirements, scheme of work and assessment**
The Committee was responsible for the appointment of new internal auditors in September 2019. The Committee continued to oversee their work, taking account of their reports, management's responses and action plans that responded to relevant recommendations. The Committee also considered an assessment of the Board's audit needs and approved the internal auditors' annual work plan.

**Relationship with the External Auditors**
The Committee was responsible for overseeing the relationship with S4C's external auditors (National Audit Office), including the scope and approach to their work, their fees, performance and independence.

**Corporate governance**
The Committee continues to oversee the implementation of S4C's corporate governance system, including considering an assessment of the efficiency of the Board's procedures, and overseeing the new governance arrangements and preparations for operating as a formal unitary board.

**Parhad busnes**
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i drefniadau parhad busnes S4C yn ystod y cyfnod. Yn ystod mis Mawrth 2020, ystyriodd y Bwrdd gynllun Covid-19 S4C yn manylu ar sut y byddai'n ymateb i'r heriau a'r risgiau a berir gan y pandemig.

Gweithredwyd a phrofwyd y trefniadau hyn yn llawn yn ystod Mawrth 2020 mewn ymateb i Covid-19. Unwaith y daeth yn amlwg y byddai'n rhaid i'r DU fynd mewn i gyfnod cloi, rhoddwyd cynlluniau ar waith i sicrhau y byddai gwasanaethau a chynnwys S4C yn parhau i addysgu a difyrru'r gynulleidfa yn ogystal â'u cefnogi. Roedd sicrhau parhad darlledu yn flaenoriaeth allweddol trwy gydol y flwyddyn. Fel y soniwyd eisoes, roedd gweithlu S4C eisoes yn gyfarwydd â gweithio'n hyblyg ac ar-lein; gyda staff mewn tri lleoliad, roedd llawer o weithwyr eisoes yn gweithio o bell, neu o fwy nag un swyddfa. Cyn i'r cyfyngiadau symudiad gael eu gweithredu, anogwyd staff a allai weithio gartref i wneud hynny a rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau y gallai cydweithwyr ar yr ochr ddarlledu weithio'n ddiogel o ganolfan darlledu Parc Tŷ Glas S4C hyd at y cydleoli yn Ionawr 2021.

Trwy gydol y flwyddyn cynhaliodd y tîm rheoli ac eraill gyfarfodydd dyddiol Covid-19 i ystyried ymateb S4C wrth i'r mesurau pandemig a'r cyfnod cloi newid. Roedd timau cynnwys a busnes S4C mewn cysylltiad agos â'r sector i sefydlu sut y gallai rhaglenni a chynnwys barhau i gael eu cyflenwi'n ddiogel. Ac mae S4C wedi gweithio'n agos gyda TAC, corff sy'n cynrychioli'r diwydiant, ac eraill trwy gydol y cyfnod argyfwng, gan gynnal sesiynau rhithwir rheolaidd ar gyfer ein cwmnïau cyflenwi.

**Cydleoli Gwasanaethau Technegol Darlledu**
Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd ddiweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor a'r Bwrdd Unedol ynghylch paratoadau ar gyfer cydleoli a rhannu swyddogaethau darlledu technegol S4C a BBC Cymru Wales yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.  Yn ystod y flwyddyn, ysgrifennwyd yn ffurfiol at y BBC yn codi pryderon ynghylch diffyg cynnydd gyda'r prosiect. Llwyddwyd cydleoli o'r diwedd ym mis Ionawr 2021 gyda darlledu o Barc Tŷ Glas yn darfod. Ers cydleoli, mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau cyson ar gynnydd gan gynnwys materion technegol a pherfformiad y gwasanaeth.

**Y berthynas gyda'r BBC**
Cytunodd y Pwyllgor yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'w gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r BBC yn unol â gofynion y cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd newydd gyda'r BBC.

**Rhaglen gwerth am arian**
Ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau ac argymhellion ar gyfer asesu a chynnal gwerth am arian gwasanaethau S4C.

**Materion Personél a Chydnabyddiaeth**
Yn ystod y cyfnod rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i faterion yn cynnwys polisïau personél S4C, darpariaeth hyfforddiant a datblygu, mentrau iechyd meddwl, canlyniadau a'r ymateb i'r arolwg staff, yn ogystal â chydleoli gwasanaethau darlledu technegol S4C â rhai BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

**Adroddiad Cynaladwyedd**
Nid yw'r Bwrdd yn cyflwyno adroddiad cynaladwyedd llawn gan fod cyrff sydd â llai na 1,000m2 o ofod adeilad neu sydd â llai na 250 o aelodau staff (ar sail nifer staff llawn amser – FTE) wedi eu heithrio o'r angen i ddarparu'r cyfryw wybodaeth.

**Business continuity**
The Committee considered S4C's business continuity arrangements during the period. During March 2020 the Board considered S4C's Covid-19 plan detailing how it would respond to the challenges and risks posed by the pandemic.

These arrangements were fully implemented and tested during the year in response to Covid-19. As soon as it became apparent the UK might have to enter lockdown, plans were put in place to ensure that S4C's services and content could not only continue to inform and entertain the audience but also support them. Ensuring that broadcasting could continue was a key priority throughout this year. As previously mentioned, S4C was already accustomed to online and flexible working. With staff based across three locations, many employees already worked remotely or from more than one office. Before lockdown was called, staff who could work from home were encouraged to do so. Measures were put in place throughout the year to ensure that colleagues on the broadcasting side could work safely from S4C's Parc Tŷ Glas transmission hub up until the co-location in January 2021.

Throughout the year the management team and others held daily Covid-19 meetings to consider S4C's response as the pandemic and lockdown measures changed. S4C's content and business teams were in close contact with the sector to establish how programmes and content could continue to be supplied safely. S4C has worked closely with industry body TAC and others throughout the crisis period, holding regular virtual sessions for our supplier companies.

**Co-location of Technical Broadcast Services**
During the year regular updates were provided to the Committee and Unitary Board regarding preparations for the co-location and sharing of S4C and BBC Cymru Wales' technical broadcasting functions at the new BBC Broadcasting Centre in Central Square Cardiff. Concerns regarding progress with the project were raised formally in writing with the BBC during the year. Co-location was finally achieved at the end of January 2021 and transmission from Parc Tŷ Glas ceased. Since co-location, the Committee has received regular reports on progress including technical issues and service performance.

**Relationship with the BBC**
In accordance with the requirements of the new Partnership, Funding and Accountability agreement with the BBC, the Committee signed off the Financial Assurance Report which was submitted to the BBC's Audit Committee.

**Value for money**
The Committee considered reports and recommendations for assessing and maintaining the value for money of S4C services.

**Personnel and Remuneration Issues**
During the period the Committee considered issues including S4C's personnel policies, training and development provision, mental health initiatives, the results and response to the staff survey, as well as the co-location of S4C's technical broadcast services with those of BBC Cymru Wales in Central Square, Cardiff.

**Sustainability Report**
The Board has not included a full sustainability report, as organisations occupying less than a total of 1,000m2 of floor area or with fewer than 250 FTE staff are exempt from providing such a report.

## Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydnabyddiaeth S4C ac adroddiad cyflog ar sail rhyw.

**Cyfleoedd cyfartal**
Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n goddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan-amser neu lawn-amser, crefydd, daliadau gwleidyddol, tueddfryd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

Mae S4C yn gweithredu system arfarnu sy'n pennu amcanion personol ar gyfer pob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Rheoli. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar amcanion corfforaethol blynyddol S4C a chaiff perfformiad mewn perthynas â'r amcanion hyn gan bob aelod o staff ei fonitro a'i werthuso fel rhan o system arfarnu staff S4C.

O dan y polisi cydnabyddiaeth a chytundebau cyflogaeth presennol nid yw S4C yn gweithredu unrhyw drefniadau cyflog neu gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad ac nid oes unrhyw daliadau bonws neu elfennau cyflog dewisol yn cael eu talu i staff S4C.

**Cydnabyddiaeth Aelodau Anweithredol y Bwrdd**
Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod penodiad y Cadeirydd ac aelodau anweithredol y Bwrdd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodir manylion tâl y Cadeirydd a'r Aelodau yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Ni ddyfarnwyd unrhyw gynnydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod i lefel cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd na'r Cadeirydd.

Pennir cydnabyddiaeth aelodau gweithredol y Bwrdd Unedol cysgodol gan aelodau anweithredol y Bwrdd yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol a Rheolau Sefydlog y Bwrdd.

**Cydnabyddiaeth ar gyfer staff S4C**
Mae cyflog y Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd ac aelodau'r Tîm Rheoli yn cael u pennu gan y Bwrdd. Caiff cyflogau aelodau eraill staff S4C eu pennu gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli o fewn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Caiff pob codiad cyflog cyffredinol ar gyfer aelodau staff ei gadarnhau gan y Bwrdd ar argymhelliad y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli. Cyflog canolrif yr holl staff ac eithrio'r Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2021 oedd £33,357 (ar 31 Mawrth 2020 - £33,901).

**Polisi Cydnabyddiaeth**
Cymeradwyodd y Bwrdd bolisi cydnabyddiaeth yn 2012. Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd codiad cyflog cyffredinol o 1.6% i'r holl staff.

Bwriad y polisi yw sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod cyfraniad pwysig staff i lwyddiant y gwasanaeth gyda'r angen i sicrhau fod costau staffio S4C yn parhau i gyfrif am ganran fechan o gyfanswm gwariant S4C ac yn darparu gwerth am arian o fewn setliad ariannol presennol S4C.

Mae lefel cydnabyddiaeth penodiadau newydd yn cael ei feincnodi gyda swyddi tebyg o fewn y farchnad yng Nghymru er mwyn sicrhau bod S4C yn parhau i allu denu'r dalent gorau posibl.

## S4C's Employment Policy Report

This report provides information relating to S4C's employment and remuneration policy and gender pay report.

**Equal opportunities**
S4C is an equal opportunities employer. It does not tolerate discrimination based on gender, race, color, disability, ethnic or socio-economic background, age, family situation, marital status, part-time or full-time employees, religion, political holdings, sexual orientation, use of language or any other irrelevant difference and is committed to working with diversity in a positive way. The principles of fair and open competition apply and appointments are made on merit.

S4C operates an appraisal system which sets personal objectives for all members of staff including the Management Team. These objectives are based on S4C's annual corporate objectives and performance against these objectives by all members of staff is monitored and evaluated as part of S4C's staff appraisal system.

Under the remuneration policy and existing employment agreements S4C does not operate any performance related pay arrangements and no bonus payments or discretionary salary elements are paid to S4C staff.

**Remuneration of Non-Executive Board Members**
The remuneration and period of appointment of the Chair and the non-executive members of the Board are determined by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport.

Details of the remuneration of the Chair and Members are set out in Note 6 to the Statement of Accounts.

No remuneration increases were awarded by the Secretary of State to the Chair or non-executive Board members during the period.

Remuneration of executive members of the shadow unitary Board is determined by the non-executive members of the Board in accordance with the relevant statutory provisions and the Board's Standing Orders.

**Remuneration of S4C staff**
The remuneration of the Chief Executive, the Secretary and the members of the Management Team is determined by the Board. The salaries of other S4C members of staff are determined by the Chief Executive and the Management Team within the annual budget approved by the Board.

Any general salary increases for staff are ratified by the Board on the recommendation of the Chief Executive and Management Team. The median salary of all staff excluding the Management Team at 31 March 2021 was £33,357 (at 31 March 2020 - £33,901).

**Remuneration Policy**
The Board approved a remuneration policy in 2012. During the year all staff were awarded a general salary increase of 1.6%.

The policy is intended to ensure a balance between recognising the contribution of all staff to the success of the service, with the need to ensure that S4C's total staff costs continue to account for a small percentage of S4C's total spend and provide value for money within the current funding settlement.

Remuneration of new appointments is benchmarked with comparable positions within the market in Wales to ensure S4C continues to be able to attract the best possible talent.

**Perfformiad y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli**
Mae perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu yn flynyddol gan y Bwrdd. Mae'r broses hon yn cael ei harwain gan y Cadeirydd.

Mae S4C yn gweithredu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a chorfforaethol ar gyfer aelodau'r Tîm Rheoli. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau unigol y Tîm Rheoli ar ddechrau'r flwyddyn a bydd eu perfformiad yn eu herbyn yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

Cyflog canolrif y Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2021 oedd £95,567 (ar 31 Mawrth 2020 - £103,777). Roedd y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio'r Tîm Rheoli (2019/20 - 4.7 gwaith).

**Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli**
Nodir manylion cyflog y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Mae aelodau'r Tîm Rheoli a gyflogwyd cyn Ionawr 2012 yn cael eu cyflogi ar gytundebau parhaol. Mae unrhyw benodiadau i'r Tîm Rheoli a'r Tîm Comisiynu ers mis Ionawr 2012 ar sail cytundebau tymor penodol, ar wahân i'r unigolion a gyflogwyd eisoes gan S4C cyn 2012 ar gytundebau parhaol oedd eisoes yn bodoli.

**Cyfansoddiad gweithlu S4C**
Ar 31 Mawrth 2021, roedd gweithlu S4C yn cynnwys 61% o ferched a 39% o ddynion (ar 31 Mawrth 2020 - 59% yn ferched a 41% yn ddynion).

**Performance of the Chief Executive and Management Team**
The Chief Executive's performance is assessed annually by the Board. This process is led by the Chair.

S4C operates a system of performance assessment and personal and corporate objectives for Management Team members. These objectives are agreed between the Chief Executive and the individual members of the Management Team at the beginning of the year and their performance is assessed by the Chief Executive during and following the end of the year.

The median salary of the Management Team as at 31 March 2021 was £95,567 (at 31 March 2020 - £103,777). The salary of the highest paid director was 4.8 times the median remuneration of all staff excluding the Management Team (2019/20 – 4.7 times).

**Annual Report on Remuneration of the Chief Executive and Management Team**
Details of the remuneration of the Chief Executive and Management Team are set out in Note 6 of the Statement of Accounts.

Members of the Management Team employed before January 2012 are employed on permanent contracts. Appointments to the Management Team and Commissioning Team since January 2012 have been made on the basis of fixed term contracts, other than for those already employed by S4C prior to 2012 on pre-existing permanent contracts.

**Composition of S4C's workforce**
At 31 March 2021, S4C's workforce comprised of 61% women and 39% men (at 31 March 2020 - 59% women and 41% men).

## Adroddiad Cyflog ar Sail Rhyw

Daeth deddfwriaeth cyflog rhwng y rhywiau newydd i rym ym mis Ebrill 2017, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni yn y DU sydd â thros 250 o weithwyr gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad oes gan S4C fwy na 250 o weithwyr, rydym wedi penderfynu cyhoeddi data cyflog ar sail rhyw.

Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog yr holl staff benywaidd a chyflog cyfartalog yr holl staff gwrywaidd, heb ystyried unrhyw wahaniaethau yn y gwaith y maent yn ei wneud. O ganlyniad, mae'n cael ei effeithio gan natur y gweithlu, gan gynnwys niferoedd mewn gwahanol fathau o swyddi ac ar lefelau gwahanol o fewn y sefydliad.

Nod S4C yw sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws ein gweithlu, o ran statws, cydnabyddiaeth ariannol a natur y gwaith.

Ar draws y sefydliad cyfan, roedd y bwlch canolrif mewn cyflogau rhwng y rhywiau ar gyfartaledd yn 22.5% (2019/20 – 19.5%) a'r bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 30.6% (2019/20 - 31.2%).

Nodir isod ddata ar gyfer canran y staff gwrywaidd a benywaidd a'r bwlch cyflog o fewn sectorau a elwir yn chwarteli (sy'n fandiau cyflog o'r un maint, o'r 25% o weithwyr ar y cyflog isaf i'r 25% ar y cyflog uchaf).

Yn hanesyddol, isel iawn yw trosiant staff oddi fewn i S4C, ond fe wnaeth adleoli ei phencadlys yn 2018 arwain at nifer o newidiadau o ran rhaniad rhyw y gweithlu trwy drosiant staff, a meincnodi cyflogau.

Mae'r chwartel uchaf yn parhau i adlewyrchu cydbwysedd 50:50 rhwng y rhywiau. Bu ychydig o welliant yn y bwlch cyflog canolrif. Mae'r chwartel canol uchaf yn dangos bwlch cyflog canolrif sy'n fwy cytbwys na blynyddoedd blaenorol. Mae'r chwartel canol isaf wedi aros ar lefelau tebyg. Yn y ddau chwartel isaf, mae gennym anghydbwysedd yn y rhaniad rhwng y rhywiau, gyda mwy o swyddi'n cael eu gwneud gan fenywod. Fodd bynnag, mae'r chwartel isaf yn dangos bwlch cyflog canolrif mwy cytbwys.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau, cynhaliodd S4C hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb i'w holl staff. Yn ogystal, penododd S4C Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant i barhau i gefnogi'r sefydliad i hybu ymwybyddiaeth ac arfer gorau. Hyrwyddodd S4C ei pholisi gweithio'n hyblyg ar ei holl swyddi gwag, yn ogystal â sicrhau bod y swyddi'n cael eu hysbysebu ar ystod eang o lwyfannau.

Mae gan S4C banel personel sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod swyddi gwag, newidiadau i swyddi a chyflogau. Mae pob cyflog yn cael ei feincnodi'n allanol gyda diwydiannau tebyg.

## Gender Pay Report

New Gender Pay legislation came into effect in April 2017, requiring all UK companies with over 250 employees to publish their gender pay gap. Although S4C does not have more than 250 employees we have decided to publish gender pay data.

A gender pay gap shows the difference between the average pay of all women and the average pay of all men, irrespective of any differences in the work they do. As a result, it is affected by the make-up of the workforce, including numbers in different types of jobs and at different levels within the organisation.

S4C's aim is to ensure that there is gender balance across our workforce, both in terms of seniority, remuneration and the nature of the work.

Across the whole organisation, S4C's overall mean gender pay gap was 22.5% (2019/20 – 19.5%) and the median gender pay gap was 30.6% (2019/20 – 31.2%).

The data below sets out the percentage of male and female staff and the pay gap within sectors known as quartiles (which are equally sized pay bands ranging from the lowest paid 25% of workers to the highest paid 25%).

The workforce within S4C has historically seen low churn, however the relocation of its headquarters in 2018 brought about a number of changes to the gender split of its staff base through staff turnover, and salary benchmarking.

The upper quartile continues to reflect a 50:50 gender balance. There has been a slight improvement in the median pay gap. The upper middle quartile shows a median pay gap which is more balanced than in previous years. The lower middle quartile has remained at similar levels. In the lower two quartiles there is an inbalance in the gender split with more posts being undertaken by female employees. However, the lower quartile is showing a more balanced median pay gap.

To help address the gender imbalance S4C conducted diversity and equality training for all its staff. In addition, S4C appointed a Diversity and Inclusion Officer to continue to support the organisation in promoting awareness and best practice. S4C promoted its flexible working policy on all its job vacancies, in addition to ensuring the jobs are advertised on a broad range of platforms.

S4C has a remuneration panel which meets regularly to discuss vacancies, changes to roles and remuneration. All salaries are benchmarked externally within similar industries.

| Blwyddyn<br>Year | Cyfanswm / Total | | Chwartel / Quartile 1<br>Uchaf / Upper | | Chwartel / Quartile 2<br>Canol uchaf / Upper middle | | Chwartel / Quartile 3<br>Canol isaf / Lower middle | | Chwartel / Quartile 4<br>Isaf / Lower | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw<br>Male | Benywaidd<br>Female | Gwryw<br>Male | Benywaidd<br>Female | Gwryw<br>Male | Benywaidd<br>Female | Gwryw<br>Male | Benywaidd<br>Female | Gwryw<br>Male | Benywaidd<br>Female |
| % staff | | | | | | | | | | |
| 2020/21 | 39% | 61% | 46% | 54% | 64% | 36% | 25% | 75% | 21% | 79% |
| 2019/20 | 41% | 59% | 50% | 50% | 62% | 38% | 28% | 72% | 20% | 80% |
| Cyflog / salary<br>% bwlch / gap | | | | | | | | | | |
| Median salary 2020/21 | 42,976 | 29,840 | 81,280 | 69,088 | 42,976 | 41,961 | 32,382 | 29,159 | 23,346 | 23,230 |
| Median % pay gap 2020/21 | 30.6% | - | 15.0% | - | 2.4% | - | 10.0% | - | 0.5% | - |
| Median salary 2019/20 | 41,993 | 28,899 | 79,816 | 68,451 | 41,993 | 45,116 | 31,872 | 28,608 | 22,957 | 24,031 |
| Median % pay gap 2019/20 | 31.2% | - | 14.2% | - | -7.4% | - | 10.2% | - | -4.7% | - |
| Cyflog / salary<br>% bwlch / gap | | | | | | | | | | |
| Average salary 2020/21 | 50,358 | 39,025 | 82,609 | 72,494 | 43,352 | 41,643 | 31,531 | 29,864 | 23,464 | 23,759 |
| Average % pay gap 2020/21 | 22.5% | - | 12.2% | - | 3.9% | - | 5.3% | - | -1.3% | - |
| Average salary 2019/20 | 49,255 | 39,676 | 79,516 | 73,722 | 42,138 | 44,097 | 31,514 | 29,619 | 22,809 | 23,711 |
| Average % pay gap 2019/20 | 19.4% | - | 7.3% | - | -4.6% | - | 6.0% | - | -4.0% | - |

## Rheoliadau Undebau Llafur (gofynion cyhoeddi amser a neilltuir)

Yn unol â'r Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae'r adroddiad hwn yn nodi faint o amser y mae gyflogeion S4C wedi ei dreulio ar faterion yn ymwneud gyda gwaith yr undeb.

**Swyddogion undeb perthnasol**
Yn ystod y flwyddyn, roedd un cyflogai yn gweithredu fel swyddog undeb perthnasol.

**Canran yr amser a dreuliwyd ar waith undebol**
Treuliodd y cyflogai perthnasol 4 awr dan gontract ar waith undebol.

**Canran y gwariant cyflogau sy'n cael ei wario ar amser ar gyfer gwaith undebol**
Gwariwyd llai nag 1% o gyfanswm y bil cyflog o ar amser ar gyfer gwaith undebol.

## The Trade Union (Facility Time Publication Requirements)

In accordance with the Trade Union (Facility Time Publication Requirements) Regulations 2017, this report sets out the amount of time spent by S4C employees on union facility time.

**Relevant union officials**
During the year, one employee acted as a relevant union official.

**Percentage of time spent on facility time**
The relevant employee spent 4 contracted hours on facility time.

**Percentage of pay bill spent on facility time**
Less than 1% of the total pay bill was spent on facility time.

# Datganiad Ariannol 2020/21

## Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2021

### Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2021, ynghyd â nodiadau esboniadol.

Cyflwynir Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd ar 31 Mawrth 2021 yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C ym mis Mawrth 2020.

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

### Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (yn gynwysiedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Adran 204 yn darparu bod S4C yn gweithredu i ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu yn bennaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, rhaid i S4C barhau i ddarlledu'r gwasanaeth digidol a adnabyddir mewn deddfwriaeth fel S4C digidol.

### Strwythur grŵp

Mae is-baragraffau (2) a (3) Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel y'u diwygiwyd gan Adran 206 (6) Deddf Cyfathrebiadau 2003) yn caniatáu i S4C, i'r graddau ei bod yn ymddangos iddynt bod gwneud hynny'n atodol neu'n arweiniol i gyflawni eu swyddogaeth, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, trwy gwmnïau S4C gan ddefnyddio cyllid masnachol yn unig. Yn ogystal, mae'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu i S4C barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, a oedd yn cael eu cyflawni yn syth cyn dechreuad Adran 206, naill ai eu hunain neu drwy un o gwmnïau S4C.

O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

### Cyllid

Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gofynion ariannol S4C wedi eu nodi yn Adran 31 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae'r adran yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau y telir swm i S4C y mae o'r farn ei fod yn ddigonol i dalu cost S4C bob blwyddyn ar gyfer (a) darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003); a (b) threfnu i ddarlledu neu ddosbarthu'r gwasanaethau hynny. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hun neu lunio cytundeb ag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). Rhaid i'r cyfryw gyllid gael ei gadw yn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'i gymhwyso at ddibenion darparu gwasanaethau cyhoeddus y Bwrdd yn unig. Ni chaniateir unrhyw gymhorthdal o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o is-gwmnïau S4C.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyllid S4C o ffi'r drwydded trwy'r BBC, a chymorth grant a ddarperir gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae S4C hefyd yn cynhyrchu refeniw drwy weithgareddau masnachol, gan gynnwys hysbysebion, gwerthiant a nawdd rhaglenni.

Cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraniad ffi'r drwydded ar gyfer 2020/21, eu hamlinellu yng Nghytundeb Fframwaith y BBC gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, sy'n cynnwys y darpariaethau ariannol gytunwyd arnynt rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C o 2017/18 i 2021/22 ac ymrwymiad pellach tan 2027/28, gyda'r symiau ar gyfer y cyfnod hwnnw i'w cytuno rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C yn dilyn yr adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Mae cymal 39 o'r Cytundeb Fframwaith yn nodi y bydd ffi'r drwydded yn cyfrannu £74.5m yn flynyddol i S4C rhwng 2017/18 a 2021/22.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi'r symiau y bydd y DCMS yn eu cyfrannu i S4C tan 2020/21 mewn Llythyr Setliad Cyllid ym mis Mawrth 2020.

Yn dilyn yr adolygiad o S4C, cyhoeddodd DCMS y byddai ei chyfraniad ariannol i S4C ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 yn £6.851m.

Yn dilyn newid yn statws TAW S4C, talodd DCMS gymorth grant ychwanegol o £15m i S4C yn ystod 2020/21.

### Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol

Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC yn ystod y cyfnod yn £96.351m (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - £96.132m). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisiynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau darlledu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbenion. Mae balans yr incwm hwn, ar ôl cost darlledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol trwy werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2021, roedd cyfanswm y trosiant hwn yn £2.110m (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - £2.019m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

### Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yn erbyn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod yn cynnwys £87.188m (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - £92.285m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darlledu a dosbarthu, £0.778m ar gyfer costau uniongyrchol eraill (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - £0.750m) a £3.346m (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - £3.576m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarlledwyd yn cynnwys £69.083m (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - £75.968m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni ac ailddarllediadau. Mae'r costau darlledu a dosbarthu yn codi mewn perthynas â llwyfannau digidol daearol a lloeren gan gynnwys gwasanaethau fideo ar alw a ddarperir gan gontractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisiynu a chyflwyno rhaglenni, costau gweithredol gwasanaethau mynediad S4C ynghyd â chostau darlledu perthnasol eraill y gwasanaeth rhaglenni megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfa.

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys blaendaliadau cyllido cydgynyrchiadau i drydydd partïon, rhaniad elw a oedd yn daladwy i drydydd partïon mewn perthynas â gwerthu rhaglenni, comisiwn asiantaeth a chostau darlledu sy'n ymwneud â hysbysebion a chostau darlledu digidol yn ymwneud â gofod darlledu S4C2 Cyf. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu S4C yn nodyn 4 i'r Datganiad Ariannol.

Oherwydd pandemig Covid-19 gohiriwyd darlledu peth cynnwys, yn enwedig drama a chwaraeon. Roedd yr anallu ar y pryd i ddod o hyd i gynnwys newydd yn ystod cyfnod cynnar y cyfyngiadau symud yn golygu, pan fyddai'r cynnwys yn cael ei gwblhau o'r diwedd - y byddai'n cael ei ddarlledu yn y flwyddyn ganlynol, ac felly y telir amdano yn 2021/22. Yna codir y costau cysylltiedig ar y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yn 2021/22 i adennill y gwariant hwn (trosglwyddiad o 2020/21). Roedd cost rhaglenni a ddarlledwyd yn 2020/21 £6.885m yn llai nag yn 2019/20 am y rheswm hwn.



# Statement of Accounts 2020/21

## Report of S4C for the year ended 31 March 2021

### Foreword

This report sets out S4C's Statement of Accounts for the year ended 31 March 2021, together with explanatory notes.

The Statement of Accounts of S4C for the year ended 31 March 2021 is presented in accordance with the Accounts Direction issued by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport to S4C in March 2020.

The Board presents a balanced assessment of S4C's position and prospects in the information required to be presented by statutory requirements.

### Principal activities

S4C operates under Sections 203 to 207 (inclusive) and Schedule 12 of the Communications Act 2003. Section 204 provides that S4C shall have the function of providing television programme services of high quality with a view to their being available for reception wholly or mainly by members of the public in Wales. In carrying out that function, S4C must continue to broadcast the service provided in digital form referred to in legislation as S4C digital.

### Group structure

Sub-paragraphs (2) and (3) of Paragraph 1 of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended by Section 206 (6) of the Communications Act 2003) entitles S4C, to the extent that it appears to them incidental or conducive to the carrying out of their functions to do so, to carry out activities, including commercial activities, through S4C companies using commercial revenues only. Likewise, the transitional provisions contained in paragraph 27 of Schedule 18 to the Communications Act 2003 permit S4C to continue carrying on any activities, including commercial activities, which were being carried on immediately before the commencement of Section 206, either itself or through an S4C company.

Within this consolidated Statement of Accounts, the Public Service Fund is referred to as S4C and the total of both public service and commercial activities is referred to as the S4C Group. The assets of S4C that are not comprised in the Public Service Fund are referred to as the General Fund.

### Funding

The provisions relating to the financial requirements of S4C are set out in Section 31 of the Public Bodies Act 2011. This places a statutory duty upon the Secretary of State to ensure that S4C is paid an amount which he considers sufficient to cover the cost to S4C each year of (a) providing S4C's public services (within the meaning of Section 207 of the Communications Act 2003); and (b) arranging for the broadcasting or distribution of those services. The Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport may discharge this duty by making payments himself or entering into an agreement with another person for that person to do so (or both). Such funding must be held in the Public Service Fund and be applied only for the purposes of providing S4C's public services. No subsidy is permitted from the Public Service Fund for any S4C subsidiary.

During the year S4C's funding was derived from the licence fee, through the BBC and grant in aid provided by DCMS. S4C also generates commercial revenues through activities including advertising sales and programme sponsorship.

The provisions relating to the licence fee contribution for 2020/21 are set out in the BBC Framework Agreement published in December 2016 which includes the financial provisions that have been agreed between the BBC, the Secretary of State and S4C for the licence fee contribution from 2017/18 to 2021/22 and a further commitment until 2027/28, with the amounts for that period to be agreed between the BBC, the Secretary of State and S4C following the review of S4C, published in March 2018. Clause 39 of the Framework Agreement states that the licence fee will contribute £74.5m annually to S4C from 2017/18 to 2021/22.

The Secretary of State has set out the sums that DCMS will contribute to S4C in 2020/21 in a Funding Settlement Letter in March 2020.

Following the review of S4C the amount DCMS paid to S4C in 2020/21 was £6.851m.

Following a change in S4C's VAT status, DCMS paid additional grant in aid of £15m to S4C during 2020/21.

### Public Service Fund income and General Fund Turnover

Amounts receivable from the DCMS and the BBC during the period totalled £96.351m (period to 31 March 2020 - £96.132m). This income was used to finance the cost of commissioning and acquiring Welsh language programmes, the transmission costs of S4C, expenditure on fixed assets and overheads. The balance of this income, after the cost of programme transmission and operational and administrative expenses, therefore represents the principal means of financing the net assets of S4C and is treated as deferred income in the Public Service Fund. General Fund turnover was generated by sales of airtime, rights in television programmes, sponsorship, merchandising, publishing and investment activities. It totalled £2.110m during the period to 31 March 2021 (period to 31 March 2020 - £2.019m). Further details are given in note 3 to the Statement of Accounts.

### Expenditure

Costs charged to the Consolidated Statement of Comprehensive Income during the period include £87.188m (period to 31 March 2020 - £92.285m) for the cost of the programme service and transmission and distribution costs, £0.778m for other direct costs (period to 31 March 2020 - £0.750m) and £3.346m (period to 31 March 2020 - £3.576m) for operational and administrative expenses. The costs of programmes transmitted included £69.083m (period to 31 March 2020 - £75.968m) in respect of the cost of programmes commissioned or acquired from programme suppliers and repeats. Transmission and distribution costs are incurred in respect of digital terrestrial and satellite platforms including video on demand services provided by contractors. The balance comprised the direct costs of programme commissioning and presentation, the operational costs of access services provided by S4C and other related costs of the programme service such as marketing costs and audience research.

Other direct costs include third party co-production funding advances, profit participation due to third parties in respect of programme sales, agency commission and playout costs relating to advertisements and digital costs relating to S4C2 Cyf's broadcasting capacity. Further details of the operational and administrative costs of S4C are given in note 4 to the Statement of Accounts.

Due to the Covid-19 pandemic some content transmission was delayed, in particular drama and sport. The inability at the time to be able to source new content during the early period of lockdown meant that when the content would be finally completed – it would be transmitted in the following year, and hence be paid for in 2021/22. The associated costs will then be charged to the Consolidated Statement of Comprehensive Income in 2021/22 to recoup this expenditure (a carry-over from 2020/21). The cost of programmes transmitted in 2020/21 was £6.885m less than in 2019/20 for this reason.

# Datganiad Ariannol 2020/21

## Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2021

Derbynnir incwm gan y BBC a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn i'r holl gostau gael eu codi ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus. Trosglwyddwyd £7.372m i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus (a gariwyd drosodd) ar 31 Mawrth 2021. Mae balans arian parod S4C wedi cynyddu oherwydd y trosglwyddiad hwn a chynnydd mewn croniadau ar 31 Mawrth 2021.

**Polisi talu**

Mae'n bolisi gan S4C i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei thrafodion â chyflenwyr ac, yn amodol ar eu cydymffurfiad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol yn ystod y flwyddyn, talwyd 91% (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - 92%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.



# Statement of Accounts 2020/21

## Report of S4C for the year ended 31 March 2021

Income from the BBC and the Department for Digital, Culture, Media and Sport is received in advance of all costs being charged to the Statement of Comprehensive Income. At the Balance Sheet date, any income received in advance is transferred to the Public Service Fund. £7.372m has been transferred to the Public Service Fund (carried over) at 31 March 2021. S4C's cash balance has increased due to this transfer and an increase in accruals at 31 March 2021.

**Payment policy**

It is S4C's policy to agree appropriate terms and conditions for its transactions with suppliers, and subject to their compliance, to make payments in accordance with these terms. Typically during the year, 91% (period to 31 March 2020 - 92%) of supplier balances were paid within 30 days.

## Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C gyfanswm o 6,516 awr o raglenni (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - 6,556 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 125.3 awr yr wythnos (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - 126.1 awr).

Derbyniodd S4C yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys rhai ailddarllediadau, dan adran 58 (1) Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd gan Adran 29 Deddf Darlledu 1996) a thalwyd amdanynt gan y BBC o incwm y drwydded. Mae S4C hefyd wedi gwneud taliadau gwerth £0.1m ar gyfer darpariaeth bwletinau tywydd (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - £2.460m i'r BBC am ddarparu penodau o Pobol y Cwm) nad yw'n cael ei darparu fel rhan o'r oriau statudol.

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C 1,278 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - 1,281 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 y.p. a 10.00 y.p. sy'n gyfartaledd yr wythnos o 24.6 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2020 - 24.6 awr).

Yn ystod y cyfnod bu'n rhaid gohirio neu ganslo rhywfaint o waith a gynlluniwyd i ddarlledu rhaglenni oherwydd pandemig Covid-19. Felly, roedd y gymysgedd o raglenni a ddarlledwyd yn ystod 2020/21 yn dra gwahanol i 2019/20. Mae hyn, ochr yn ochr â'r newid yn statws TAW S4C, wedi arwain at gynnydd neu ostyngiad sylweddol yng nghost yr awr rhai genres, yn enwedig drama, cerddoriaeth a'r celfyddydau, chwaraeon a chrefydd.

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Cost yr awr £ | Oriau | Cost yr awr £ |
| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **1,428** | **46,123** | 1,709 | 41,182 |
| BBC | **20** | **5,443** | 20 | 123,024 |
| | **1,448** | **45,562** | 1,729 | 42,129 |
| Rhaglenni a brynwyd | **198** | **6,039** | 72 | 13,578 |
| **Ailddarllediadau** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **4,282** | **447** | 4,070 | 519 |
| BBC | **124** | **-** | 175 | 225 |
| | **6,052** | **11,415** | 6,046 | 12,565 |
| BBC - Oriau Statudol | **464** | **-** | 510 | - |
| **Cyfanswm** | **6,516** | | 6,556 | |
| Cyfartaledd yr wythnos | **125.3** | | 126.1 | |

Rhaglenni a ddarlledwyd yn ôl categori

| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Cost yr awr £ | Oriau | Cost yr awr £ |
| Drama | **59** | **201,517** | 89 | 169,356 |
| Ffeithiol Cyffredinol | **520** | **36,019** | 598 | 33,124 |
| Materion Cyfoes a'r Tywydd | **85** | **36,935** | 77 | 39,691 |
| Cerdd Ysgafn / Adloniant | **162** | **74,649** | 168 | 68,091 |
| Plant | **277** | **29,378** | 265 | 23,631 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **12** | **70,118** | 89 | 37,500 |
| Chwaraeon | **292** | **32,447** | 419 | 30,166 |
| Crefydd | **41** | **40,669** | 24 | 50,997 |
| **Cyfanswm** | **1,448** | | 1,729 | |

| **BBC** | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | Oriau | Oriau |
| Drama | **47** | 85 |
| Newyddion | **216** | 214 |
| Materion Cyfoes a Ffeithiol | **13** | 20 |
| Adloniant Ysgafn | **18** | - |
| Pobl Ifanc a Phlant | **16** | 16 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **6** | 86 |
| Chwaraeon | **148** | 89 |
| Crefydd | **-** | - |
| **Cyfanswm** | **464** | 510 |



## Hours transmitted and average cost per hour

The total hours of programmes transmitted by S4C during the period amounted to 6,516 (period to 31 March 2020 - 6,556), representing an average per week of 125.3 hours (period to 31 March 2020 - 126.1 hours).

The statutory hours supplied by the BBC, which included an element of repeat programmes, were provided to S4C under Section 58 (1) of the Broadcasting Act 1990 (as mentioned by Section 29 of the Broadcasting Act 1996) and were funded by the BBC out of the licence fee revenue. S4C also made payments totalling £0.1m for the provision of weather bulletins (period to 31 March 2020 - £2.460m to the BBC for the provision of Pobol y Cwm) not provided as part of the statutory hours.

During the period 1,278 hours (period to 31 March 2020 - 1,281 hours) of Welsh language programmes were transmitted in the peak hours between 6.30 p.m. and 10.00 p.m. with a weekly average of 24.6 hours (period to 31 March 2020 - 24.6 hours).

During the period some planned programme transmission had to be either delayed or cancelled due to the Covid-19 pandemic. Therefore, the mix of programmes transmitted during 2020/21 was quite different to 2019/20. This, alongside the change in S4C's VAT status has resulted in substantial increases or decreases in the cost per hour of some genres, in particular drama, music and arts, sport and religion.

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Hours | Cost per hour £ | Hours | Cost per hour £ |
| **Commissioned programmes** | | | | |
| Independent productions | **1,428** | **46,123** | 1,709 | 41,182 |
| BBC | **20** | **5,443** | 20 | 123,024 |
| | **1,448** | **45,562** | 1,729 | 42,129 |
| Acquired programmes | **198** | **6,039** | 72 | 13,578 |
| **Repeats** | | | | |
| Independent productions | **4,282** | **447** | 4,070 | 519 |
| BBC | **124** | **-** | 175 | 225 |
| | **6,052** | **11,415** | 6,046 | 12,565 |
| BBC - Statutory hours | **464** | **-** | 510 | - |
| **Total** | **6,516** | | 6,556 | |
| Average per week | **125.3** | | 126.1 | |

Transmitted programmes by category

| **Commissioned programmes** | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Hours | Cost per hour £ | Hours | Cost per hour £ |
| Drama | **59** | **201,517** | 89 | 169,356 |
| General Factual | **520** | **36,019** | 598 | 33,124 |
| Current Affairs and Weather | **85** | **36,935** | 77 | 39,691 |
| Light Music / Entertainment | **162** | **74,649** | 168 | 68,091 |
| Children's | **277** | **29,378** | 265 | 23,631 |
| Music and Arts | **12** | **70,118** | 89 | 37,500 |
| Sport | **292** | **32,447** | 419 | 30,166 |
| Religion | **41** | **40,669** | 24 | 50,997 |
| **Total** | **1,448** | | 1,729 | |

| **BBC** | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | Hours | Hours |
| Drama | **47** | 85 |
| News | **216** | 214 |
| Current Affairs and Factual | **13** | 20 |
| Light Entertainment | **18** | - |
| Youth and Children's | **16** | 16 |
| Music and Arts | **6** | 86 |
| Sport | **148** | 89 |
| Religion | **-** | - |
| **Total** | **464** | 510 |

# Datganiad o Gyfrifoldebau

## Paratoi Datganiadau Cyllidol

Yn y datganiadau ariannol hyn mae cyfarwyddwyr yn cyfeirio at Fwrdd S4C, Swyddog Cyfrifo S4C a chyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C.

**(a)** Mae'n ofyniad hanfodol o dan gyfraith cwmnïau'r Deyrnas Unedig i gyfarwyddwyr sicrhau bod eu datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa eu cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'r elw neu'r golled ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**(b)** At hynny, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr:
- fabwysiadu polisïau cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
- lunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth;
- gydymffurfio â safonau cyfrifo sy'n gymwys; a
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes sy'n fyw oni bai ei bod yn anaddas i gymryd bod y cwmni'n mynd i barhau mewn busnes.

**(c)** Mae cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am:
- sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw i ddiogelu asedau'r cwmni; ac
- i gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bod y cyfarwyddwyr yn ymwybodol:
- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar wefan y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yn achos S4C, mae'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ariannol wedi ei roi ar S4C fel corff statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990, Atodlen 6, paragraffau 12 a 13 (fel yr addaswyd).

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Ariannol yn cael ei baratoi, ac am weithredu'r camau rheoli.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod Datganiad Ariannol S4C yn cydymffurfio â'r holl ofynion priodol. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ym mhob un o'r agweddau uchod.

## Busnes Gweithredol

Mewn perthynas ag asesu hyfywedd y busnes, mae'r Bwrdd wedi asesu rhagolygon busnes S4C dros gyfnod tu hwnt i 12 mis o ddyddiad awdurdodi cyhoeddiad y datganiadau ariannol. Mae asesiad y Bwrdd mewn dwy ran: y cyfnod hyd at Fawrth 2022, a'r cyfnod wedi'r dyddiad hynny. Mae'r cyfnod hyd at Fawrth 2022 yn berthnasol i fusnes S4C oherwydd (i) mae'n ymwneud â'r cyfnod cynllunio strategol safonol a rhagweld busnes a fabwysiadwyd gan y Bwrdd a (ii) mae'n ymwneud â chyfnod setlo Ffi'r Drwydded hyd at 2021/22 gan gynnwys darpariaethau cymal 39 o Gytundeb Fframwaith y BBC (a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2016).

Wrth edrych y tu hwnt i Fawrth 2022, mae'r Bwrdd wedi ystyried dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C i'w galluogi i ddarparu ei gwasanaethau darlledu cyhoeddus ac yn ddiweddar mae wedi cyflwyno cais am gyllid i DCMS am y cyfnod 2022 i 2027. Mae trafodaethau'n parhau gyda DCMS.

Yn ei asesiad cyffredinol o hyfywedd busnes S4C, mae'r Bwrdd wedi:

- ystyried y ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C i'w galluogi i ddarparu ei gwasanaethau darlledu cyhoeddus;
- cymeradwyo cyllideb grŵp S4C hyd 31 Mawrth 2022 gan roi ystyriaeth i'r archwaeth risg y cytunwyd arni gan y Bwrdd, strategaeth S4C, a'i chylch gwaith o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Roedd y gyllideb yn cynnwys refeniw a chost ynghyd â'i sefyllfa ariannol gyfredol a'r adnoddau o ran arian parod. Paratowyd y rhagolygon gan ystyried Covid-19. Oherwydd natur cyllid ac incwm masnachol S4C, ni ddisgwylir i effaith Covid-19 ar refeniw fod yn berthnasol. Ym mis Mawrth 2021 cyflwynodd y Bwrdd gais S4C am gyllid am y cyfnod 2022 - 2027 i DCMS. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys strategaeth bum mlynedd gyda rhagolygon ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus a'r grŵp Masnachol. Mae'r cais am gyllid yn manylu ar uchelgais strategol S4C am y 5 mlynedd nesaf;
- ystyriodd setliad ffi'r drwydded ym mis Gorffennaf 2015, gan gynnwys yr hyn oedd yn cael ei 'ddarllen drosodd' i gyllid S4C;
- ystyriodd ddiweddariadau yn ystod y flwyddyn i drafodaethau gyda Chyllid a Thollau EM a Llywodraeth y DU ynghylch newidiadau i statws treth S4C, gan gynnwys y cyllid sydd ar gael i dalu taliad TAW S4C yn 2020/21 a chyhoeddiad y Canghellor ar 9 Mawrth 2020 y bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod trefniadau TAW S4C yn dod yn unol â rhai darlledwyr lledled y DU sy'n galluogi S4C i adennill y TAW y mae'n ei dalu ar ei chostau o Ebrill 2021. Ychwanegodd Mesur Cyllid Mawrth 2021 newid statws TAW S4C i A33 o 1 Ebrill 2021. Er bod y Cydsyniad Brenhinol wedi'i ohirio tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn mae DCMS wedi cadarnhau y bydd Cyllid a Thollau EM, unwaith y bydd wedi'i ganiatáu, yn ad-dalu'r holl TAW sy'n ddyledus i S4C o 1 Ebrill 2021.
- adolygodd amcanion strategol a strategaeth cynnwys S4C 2021/22. Mae strategaeth tymor hwy wedi'i chynnwys yng nghais S4C am gyllid i DCMS am y cyfnod 2022-2027;
- adolygodd ddisgwyliadau'r gynulleidfa ynghylch gwasanaethau S4C. Bu'r Bwrdd yn monitro ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn weithredol trwy gydol y flwyddyn ac ymgynghorodd yn eang â'r gynulleidfa trwy ystod o wahanol ddulliau. Er nad oedd Nosweithiau Gwylwyr yn bosibl oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cynhaliwyd sesiynau Facebook Live yn ogystal â phaneli ymateb a grwpiau ffocws. Gan weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol, mae S4C wedi trafod sylwadau'r gynulleidfa ac wedi nodi ffyrdd o wella allbwn y rhaglenni wrth sicrhau gwerth am arian hefyd trwy'r cydweithrediad hwn. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, parhaodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynnwys i gynnal sesiynau Facebook Live. Wrth edrych ymlaen, mae S4C wedi cynnal ymchwil gyda'i gynulleidfa yn 2021 trwy holiaduron ac ystod o grwpiau ffocws;
- ystyriodd y gofrestr risg strategol a phob un o'r prif risgiau a'r elfennau ansicr a nodwyd yn yr Adroddiad Llywodraethu uchod, gan gynnwys sut y cânt eu rheoli;
- ystyriodd gynllun Covid-19 S4C gan fanylu ar sut y bydd yn ymateb i'r heriau a risgiau a berir gan y pandemig;
- ystyriodd adroddiadau sy'n crynhoi gwaith sicrwydd busnes yn ystod y flwyddyn; ac
- adolygodd ddiweddariadau perfformiad yng nghwrs busnes arferol sy'n darparu'r sylfaen i weithredu strategaeth hirdymor S4C.



# Statement of Responsibilities

## Preparation of Financial Statements

In these financial statements directors refer to the S4C Board, S4C Accounting Officer and directors of the S4C commercial subsidiary companies.

**(a)** There is an overriding requirement under United Kingdom company law for directors to ensure that financial statements are prepared for each financial year which give a true and fair view of the state of affairs of their company as at the end of the financial year and of the profit or loss for that period.

**(b)** In addition, directors are required:
- to adopt appropriate accounting policies and apply them consistently;
- to make judgements and estimates reasonably and prudently;
- to comply with applicable accounting standards; and
- to prepare the financial statements on a going concern basis unless it is inappropriate to assume that the company will continue in business.

**(c)** It is the responsibility of directors to:
- ensure that adequate accounting records are maintained to safeguard the assets of the company; and
- take reasonable steps to prevent and detect fraud and other irregularities.

In so far as the directors are aware:
- There is no relevant audit information of which the group's auditors are unaware; and the directors have taken all steps that they ought to have taken to make themselves aware of any relevant audit information and to establish that the auditors are aware of that information.
- The directors are responsible for the maintenance and integrity of the corporate and financial information included on the company's website. Legislation in the United Kingdom governing the preparation and dissemination of financial statements may differ from legislation in other jurisdictions.

In the case of S4C, responsibility for the preparation of a Statement of Accounts is placed on S4C as a statutory body by the Broadcasting Act 1990 Schedule 6 paragraphs 12 and 13 (as amended).

The Chief Executive, as Accounting Officer, together with the Chief Finance Officer, have responsibility for ensuring that the Statement of Accounts is prepared and for the implementation of controls.

The Board confirms that S4C's Statement of Accounts complies with all appropriate requirements. The Board considers that it is discharging its responsibilities in all the above respects.

## Going Concern

In relation to the assessment of the viability of the business, the Board has assessed the prospects of S4C's business for a period beyond 12 months of the date the financial statements are authorised for issue. The Board's assessment is in two parts: the period up to March 2022, and the period beyond that date. The period up to March 2022 is relevant to S4C's business as (i) it relates to the standard strategic planning and business forecasting period adopted by the Board and (ii) it relates to the Licence Fee settlement period up to 2021/22 including the provisions of clause 39 of the BBC Framework Agreement (approved in December 2016).

In looking beyond March 2022, the Board has considered the statutory duty of the Secretary of State to ensure sufficient funding for S4C to enable it to provide its public broadcasting services and has recently submitted a funding submission to DCMS for the period 2022 to 2027 Discussions are on-going with DCMS.

In its overall assessment of the viability of S4C's business, the Board has:

- considered the statutory duty to ensure sufficient funding for S4C to enable it to provide its public broadcasting services;
- approved the S4C group budget to 31 March 2022 taking account of the Board's agreed risk appetite, S4C's strategy, and its remit under the Communications Act 2003. The budget included revenue and cost as well as its current financial position and cash resources. The forecasts have been prepared considering Covid-19. Due to the nature of S4C's funding and commercial income, the impact of Covid-19 on revenue is not expected to be material.
In March 2021 the Board presented S4C's funding submission for the period 2022 – 2027 to DCMS. The submission included a five-year strategy with forecasts for the public service and commercial group. The funding submission details S4C's strategic ambition for the next 5 years;
- considered the licence fee settlement of July 2015, including the 'read-across' to S4C funding;
- considered updates during the year on discussions with HMRC and the UK Government regarding changes to S4C's tax status, including the funding in place to cover S4C's VAT payment in 2020/21 and the Chancellor's announcement on 9 March 2020 that the UK Government will bring S4C's VAT arrangements into line with UK wide broadcasters enabling S4C to recover the VAT it pays on its costs from April 2021. The March 2021 Finance Bill included S4C's change of VAT status to S33 from 1 April 2021. Whilst Royal Assent has been delayed until later in the year DCMS has confirmed that once granted HMRC will refund all VAT due to S4C from 1 April 2021.
- reviewed S4C's 2021/22 strategic objectives and content strategy. A longer term strategy is included within S4C's funding submission to DCMS for the period 2022-2027;
- reviewed the audience's expectations of S4C's services. The Board actively monitored the quality and performance of the service throughout the year and consulted widely with the audience through a range of different methods. While Viewers' Evenings weren't possible due to Covid-19 restrictions, Facebook Live sessions were held in addition to response panels and focus groups. Working closely with independent producers, S4C has discussed audience comments and identified ways of improving the programme output whilst also securing value for money through this collaboration. In response to the Covid-19 pandemic, the Chief Executive and Director of Content continued to hold Facebook Live sessions. Looking ahead, S4C has undertaken research with its audience in 2021 through questionnaires and range of focus groups;
- considered the strategic risk register and each of the principal risks and uncertainties noted in the Governance Report above, including how they are managed;
- considered S4C's Covid-19 plan detailing how it will respond to the challenges and risks posed by the pandemic;
- considered reports summarising business assurance work during the year; and
- reviewed performance updates in the normal course of business that provides the foundation to implement S4C's long-term strategy.

# Datganiad o Gyfrifoldebau

Er nad yw'r asesiad hwn yn ystyried yr holl risgiau y gallai S4C eu hwynebu, mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod ei asesiad o'r risgiau strategol y mae S4C yn eu hwynebu yn gadarn.

Ar sail canlyniadau ei weithgareddau yn ymwneud â'r prif risgiau a hyfywedd a'r darpariaethau statudol yn ymwneud â chyllid digonol i S4C, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rwymedigaethau, pan fyddant yn ddyledus. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r Datganiad Ariannol.

**Annibyniaeth yr archwilwyr allanol**
Mae'r Bwrdd yn cynnal perthynas briodol gydag archwilwyr allanol.

**Archwilwyr Allanol**
Mae adroddiad archwilwyr allanol S4C, Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar y Datganiad Ariannol i'w gael ar dudalennau 148 i 151.

Ar orchymyn y Bwrdd

Owen Evans
Prif Weithredwr

16 Gorffennaf 2021





# Statement of Responsibilities

Although this assessment does not consider all of the risks that S4C may face, the Board confirm that its assessment of the strategic risks facing S4C was robust.

Based on the results of their activities around principal risks and viability and the statutory provisions relating to the sufficient funding of S4C, the Board has a reasonable expectation that it will be able to continue to operate and meet its liabilities, as they fall due. For this reason, it continues to adopt the going concern basis in preparing the Statement of Accounts.

**Independence of the external auditors**
The Board maintains an appropriate relationship with external auditors.

**External Auditors**
The report of S4C's external auditors, National Audit Office, on the Statement of Accounts is given on pages 148 to 151.

By order of the Board

Owen Evans
Chief Executive

16 July 2021



# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I FWRDD SIANEL PEDWAR CYMRU (S4C) SY'N CYDNABOD BOD DAU DŶ'R SENEDD HWYTHAU'N DIBYNNU AR ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL S4C

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp S4C am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Darlledu 1990 a chytundebau a wnaed dan y Ddeddf honno. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, y Mantolenni Cyfunol a Mantolenni S4C a'r Datganiadau am Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad Llif Arian Cyfunol; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa grŵp ac Awdurdod S4C ar 31 Mawrth 2021 ac o elw'r grŵp ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno.

**Barn am reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y farn**
Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISA) (DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwyf yn annibynnol o S4C yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw**
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd S4C o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu S4C's i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

**Gwybodaeth Arall**
Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys, y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilydd ar hynny. Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sydd yn ymddangos fel camddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

**Barn am faterion eraill**
Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd wrth gynnal yr archwiliad:

